



# **Canllaw Aseu Achos**

## **ar gyfer**

### **Arolygiad Llawn ar y Cyd (FJI)**

#### **a**

### **Sgrinio Ansawdd Byr (SQS)**

Mae'r Canllaw Asesu Achos hwn yn cynnig canllawiau i'r sawl sy'n ymgymryd ag asesiadau achosion fel rhan o Arolygiad Llawn ar y Cyd Llawn (FJI) a Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) ar Waith Troseddu Ieuencid. Mae wedi ei gynllunio i gefnogi llunio dyfarniadau sy'n gyson ac yn addas, ni waeth heb bwy sy'n ymgymryd â'r asesu.

Mae'r canllaw hefyd o fudd i'r sawl rydym yn arolygu eu gwaith, er mwyn iddynt ddeall y safon a ddisgwylir gennym a dangos sut byddwn yn llunio dyfarniad, ac er mwyn cefnogi ac annog gwella ymhellach.

Dylid ei ddarllen ar y cyd ag Offeryn Asesu Achos Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar gyfer Arolygu Gwaith Troseddu Ieuencid.

Yn yr offeryn asesu achos ceir pedwar math o gwestiwn:

**Cwestiynau Gwybodaeth** – cwestiynau am ffeithiau sy'n casglu gwybodaeth sylfaenol er mwyn hysbysu dadansoddi data wedi hynny, i helpu i'r arolygydd adnabod nodweddion perthnasol i hysbysu eu dyfarniadau, a sicrhau bod y cwestiynau iawn yn cael eu holi ar gyfer y math neilltuol o achos.

**Cwestiynau Dyfarniad** – cwestiynau lle mae gofyn i'r arolygydd wneud dyfarniad ynghylch a yw agwedd neilltuol ar waith wedi ei gwneud y ddigon da. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn defnyddio'r cysyniad "uwchlaw neu o dan y llinell" – os bydd yr agwedd ar y gwaith wedi ei gwneud yn ddigon da i gwrdd ag anghenion yr achos, y mae uwchlaw'r llinell a chaiff ei ddyfarnu'n Ddigonol. Fel arall bydd o dan y llinell a chaiff ei ddyfarnu yn Annigonol.

**Cwestiynau Egluro** – pan fydd dyfarniad wedi ei nodi fel un *annigonol* yna bydd cwestiwn egluro yn gofyn i'r arolygydd, drwy ddefnyddio opsiynau wedi'u rhag-godio, nodi'r rhesymau am eu dyfarniadau. Defnyddir y manylion hyn mewn adroddiadau arolygu i gynorthwyo'r darllenwyr i ddeall pam rydym wedi gwneud ein dyfarniadau, a lle'n benodol mae angen iddynt ganolbwyntio'r gwaith gwella.

**Cwestiynau Naratif** – ar ddiwedd pob adran yn yr offeryn asesu achos ceir cwestiwn sy'n galluogi i'r arolygydd ddisgrifio nodweddion perthnasol yr achos, neu unrhyw agweddau cyd-destunol eraill a allai fod wedi cyfrannu at eu dyfarniadau. Defnyddir y rhain gan yr Arolygydd Arweiniol i ddeall cyd-destun y dyfarniadau pan fyddant yn ysgrifennu'r adroddiad neu'n egluro'r canfyddiadau.

### Digonol/Annigonol

Mae llawer o gwestiynau yn cyfuno nifer o agweddau cysylltiedig ar waith a'r prosesau sydd yn eu cefnogi yn un cwestiwn. Yn gyffredinol rydym yn arolygu a fydd y canlyniad priodol wedi ei gyflawni, yn hytrach nag a gafodd proses ei dilyn yn fanwl. Er mwyn cefnogi'r arolygwyr i allu pwysu a mesur pwysigrwydd ac ansawdd cymharol gwahanol agweddau wrth wneud dyfarniadau rhoddir yr egwyddor arweiniol a ganlyn iddynt:

*"Dylai'r arolygydd ddyfarnu a yw ansawdd cyffredinol y gwaith a wnaed yn cwrdd â gofynion yr achos h.y. a yw digonolrwydd yn y gwaith yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. O'r herwydd er y gall fod diffygion neu agweddau lle gallai'r gwaith fod yn well, gall yr arolygydd ddod i'r casgliad fod y darn hwn o waith ar y cyfan yn **ddigonol** yng nghyd-destun yr achos, yn enwedig lle oedd y diffyg yn annhebygol o leihau'r tebygrwydd o ganlyniad cadarnhaol. I'r gwrthwyneb er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd diffyg penodol fod yn gymaint fel ei fod yn arwain at ddyfarniad **annigonol**."*

### Ymagwedd Arolygiaeth Prawf EM at Safonau Cenedlaethol a disgresiwn proffesiynol

Ymagwedd Arolygiaeth Prawf EM at arolygu hyblygrwydd proffesiynol yw bod angen cofnodi eglurach ar y sail resymegol y tu cefn i benderfyniadau ar reoli achosion nag oedd yr achos pan oedd mwy o ddibynnu ar safonau penodol.

Dylid cofnodi pob penderfyniad, yn enwedig ar amseriad disgwylidiedig asesiadau, cynlluniau ac adolygiadau, yn glir yng nghofnod yr achos a dylid egluro'r penderfyniadau dros y penderfyniadau. Dylai pob eglurhad gysylltu nodweddion perthnasol yr achos â'r penderfyniad h.y. dylid eu gwneud yn unol ag amgylchiadau unigol yr achos neilltuol hwnnw.

Dylai bod modd amddiffyn penderfyniadau i gwrdd ag anghenion yr achos unigol, ac nid yn ôl yr adnoddau sydd ar gael.

Dylid cynnal trosolwg gan y rheolwyr o'r penderfyniadau/sail resymegol, lle bo'n briodol, a'i gofnodi ar gofnod yr achos.

Yn absenoldeb penderfyniadau amddiffynadwy wedi'u cofnodi'n glir bydd Arolygiaeth Prawf EM lle bo'n briodol yn dal i ddefnyddio Safonau Cenedlaethol 2010, neu'r Safonau Cenedlaethol cyfredol lle mae'r rhai hynny'n cynnwys disgrwyliadau manwl, fel gwaelodlin lleiafswm ar gyfer arfer da.

### **Faint o'r achos a arolygir?**

Yn y ddwy raglen mae'r cyfnod arolygu ar gyfer asesu achosion yn cychwyn ar ddechrau dedfryd, neu ar bwynt yr asesiad cychwynol ar gyfer y ddedfryd honno os yw hwnnw'n gynharach (fel arfer achosion lle gofynnwyd am PSR). Mae yna'n parhau, drwodd hyd at ddyddiad yr arolygiad.

Mewn FJI mae'r arolygiad yn canolbwyntio ar gyflawni'r holl ddedfryd hyd yn hyn, gan gynnwys ymyriadau, canlyniadau a chydymffurfio.

Mewn SQS, lle bydd llawer o'r achosion a arolygir wedi cychwyn yn weddol ddiweddar, bydd y ffocws wedi'r ddedfryd ar y cyfnod hyd at gwblhau'r asesiad a'r cynllun cyntaf, ac ar ansawdd unrhyw adolygiadau ar y rhai roedd yn bryd eu cynnal yn ystod y cyfnod hyd at ddyddiad yr arolygiad, ynghyd â chydymffurfio.

Fodd bynnag, er bod cwestiynau penodol yn cael eu holi ym mhob rhaglen, os gwelir bod pryderon ynghylch achos y tu allan i'r cwestiynau hyn (fel arfer parthed risg o niwed i eraill neu i'r unigolyn ei hun), er na fydd y rhain fel arfer yn effeithio ar ddyfarniadau arolygiadau, bydd yr arolygydd yn sicrhau y cânt eu trin fel pe baent yn rhan o'r arolygiad.

### **Asset Plus**

Mae'r canllaw hwn wedi cael ei ysgrifennu gan gyfeirio at ddefnyddio Asset. Mae AssetPlus yn debygol o gael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod y bydd y rhaglen arolygu hon mewn grym. Er y bydd llawer o derminoleg a manylion yn newid wrth symud o Asset i AssetPlus, dylai darllenwyr y canllawiau hyn sylweddoli bod yr egwyddorion sy'n sail iddynt, a'r cwestiynau sy'n cael eu hasesu gan yr arolygwyr, yn cael eu hystyried yn gyffredinol i ddarllen ar draws i amgylchedd AssetPlus - er bod y wybodaeth angenrheidiol efallai i'w cael mewn ffurf wahanol neu mewn lle gwahanol.

### **Cynllun y canllaw hwn**

Mae'r cofnodion yn y canllaw hwn wedi'u cyflwyno fel a ganlyn:

- Colofn 1 – rhif y cwestiwn yn offeryn asesu'r achos.
- Colofn 2 – croesgyfeirio at y Maen Prawf Arolygu mae'r cwestiwn hwn yn cyfrannu ato.
- Colofn 3 – crynodeb o'r dangosyddion ansawdd perthnasol sy'n hysbysu'r cwestiwn hwn.
- Colofn 4 – naratif mwy sylweddol i gynorthwyo'r arolygydd wrth lunio ei ddyfarniad.

Dylai darllenwyr nodi nad yw pob cwestiwn yn cael ei holi gyda phob achos. Dylid defnyddio'r offeryn asesu achos i adnabod union eiriad pob cwestiwn ac a yw'n berthnasol i unrhyw achos neilltuol.

Yna dilynir y canllaw ar gwestiynau unigol yn yr offeryn asesu achos gan ddau atodiad:

Atodiad 1 – canllawiau ar wirio'r dyddiadau y cwblhawyd darnau allweddol o waith; ar sail y systemau rheoli achosion Timau Troseddau Ieuencid a ddefnyddir yn gyffredin.

Atodiad 2 – trosolwg byr ar gyfer arolygwyr yng Nghymru, i gynorthwyo arolygwyr i ddeall lle bydd angen iddynt fod yn ymwybodol y gall trefniadau amrywio rhwng Cymru a Lloegr.

Mae Arolygiaeth Prawf EM yn awyddus i gael sylwadau ar ein harolygiadau ac i'w gwella. Os ydych am wneud sylw ar y Canllaw Asesu Achos hwn neu'r Offeryn Asesu Achos, byddwch gystal ag anfon eich sylwadau gyda "*Canllaw Asesu Achos IYO*" yn y llinell deitl, at: [enquiries.hmiprob@hmiprobation.gsi.gov.uk](mailto:enquiries.hmiprob@hmiprobation.gsi.gov.uk).

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi  
Ionawr 2015

Mae'r diwygiadau canlynol wedi'u hymgorffori yn y fersiwn hwn:

Dyddiad	Cwestiwn	Manylion
Ionawr 2013	Cyflwyniad	Esboniadau ychwanegol o agwedd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi tuag at ddisgresiwn proffesiynol/safonau cenedlaethol a faint o'r achos i'w arolygu ym mhob rhaglen
Ionawr 2013	1.5.1/ 1.5.2/ 1.5.3	Cyfarwyddyd ar gwestiynau ychwanegol yn casglu gwybodaeth ynghylch sut y darparwyd gwybodaeth i'r llys dedfrydu
Chwefror 2013	1.5.2	Cyfarwyddyd ychwanegol ar farnu priodoldeb y dull a ddefnyddiwyd i hysbysu'r llys dedfrydu
Chwefror 2013	Golwg 0 – amrywiol	Cyfarwyddyd ar gwestiynau a ychwanegwyd at arolygiadau yng Nghymru am y sylw a roddwyd i'r iaith Gymraeg
Chwefror 2013	Amrywiol	Mân ddiwygiadau gwahanol er eglurder neu i gywiro gwallau gramadegol neu sillafu
Mawrth 2013	Atodiadau 1 a 2	Atodiadau 1 (gwirio dyddiadau pan gwblhawyd gwaith) a 2 (Arolygu yng Nghymru) wedi'u hychwanegu
Mawrth 2013	12a	Cyfarwyddyd ychwanegol ar y defnydd o MAPPA Categori 3 a swyddogaeth yr Awdurdod Cyfrifol
Ebrill 2013	Amrywiol	Cyfarwyddyd a cwestiynau ychwanegol pan yn arolygu y modiwl <i>Ymyriadau</i> o fewn yr FJI
Ebrill 2013	12a	Cyfarwyddyd ychwanegol ar MAPPA Categori 3
Medi 2013	12a, 12c, 2.10.1	Cyfarwyddyd MAPPA sy'n adlewyrchu newidiadau MAPPA 2012v4
Medi 2013	Amrywiol	Newidiadau sy'n adlewyrchu Safonau Genedlaethol 2013
Medi 2013	2.6.1, 2.0.1	Cwestiwn 2.6.1 (Cynllunio mewn achosion carchar) wedi ei ailrifo i 2.0.1
Medi 2013	1.9.3, 1.9.4	Cwestiynau ychwanegol i asesu ansawdd adroddiadau Dedfryd Atgyfeirio
Medi 2013	1.1.1, 1.4.1, 1.5.1	Cyfarwyddyd ychwanegol ar Dedfrydau Atgyfeirio, gan gynnwys y ffin rhwng asesiad a cynllunio.
Mawrth 2014	2.1.0	Gofynnir i'r Arolygydd nodi pum maes blaenoriaeth ar gyfer gwaith i leihau'r tebygolrwydd o ail-droseddu.
Mawrth 2014	3.8.1, 4.2.1	Canllawiau ychwanegol yn ymwneud â'r cynllun Cyswllt Statudol â Dioddefwyr a'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau
Ionawr 2015	Amrywiol	<ul style="list-style-type: none"> <li>yn ychwanegu cwestiwn 1.5.3, a ddefnyddir ar gyfer modiwl y llysoedd ar FJI</li> <li>yn ychwanegu cwestiynau newydd 4.19.1/2/3 ynghylch monitro ymddygiad troseddol ac a yw'r CYP yn llai tebygol o droseddu</li> <li>yn ychwanegu cwestiwn 1.14 i fonitro achosion o CSE</li> <li>yn diwygio geiriad rhai cwestiynau i ganolbwyntio yn fwy eglur ar y canlyniad a ddymunir o ddarn o waith (DS: NI ddylai hyn newid ystyr y cwestiynau mewn unrhyw ffordd).</li> </ul>

## Golwg 0 - Manylion

Rhif y Cwestiwn	Dangosyddion Ansawdd	Canllawiau Estynedig
1	Enw'r arolygydd sy'n cynnal yr asesiad yn yr achos hwn.	Enw'r arolygydd sy'n cynnal yr asesiad yn yr achos hwn.
2	Holi a yw'r arolygydd yn yr achos hwn yn Asesydd Lleol ynteu'n aelod o staff Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.	Holi a yw'r arolygydd yn yr achos hwn yn Asesydd Lleol (yn gweithio ochr yn ochr â thim Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar gyfer gwaith maes y broses arolygu hon) ynteu'n gweithio'n uniongyrchol i Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.
3a	Y Tim Troseddau Ieuenctid sy'n cael ei arolygu yn ystod yr arolygiad hwn.	Y Tim Troseddau Ieuenctid sy'n cael ei arolygu yn yr arolygiad hwn.  Nodwch ardal y Tim Troseddwy'r Ifanc o'r gwymplen.
3b	Y wlad lle cynhelir yr arolygiad.	Y wlad y cynhelir yr arolygiad ynddi. Fe'i defnyddir i benderfynu a oes angen gofyn cwestiynau Cynllun yr Iaith Gymraeg (9a i 9e ac 13c) yn y Tim Troseddau Ieuenctid hwn.
4	Rhyw'r plentyn neu'r person ifanc.	Rhyw'r plentyn neu'r person ifanc – dewiswch Gwrywaidd neu Benywaidd o'r blwch cwymplen.
5	Yr oed mewn blynyddoedd <u>AR DDECHRAU'R DDEDFRYD</u> .	Yr oed mewn blynyddoedd <u>AR DDECHRAU'R DDEDFRYD</u> . Peidiwch â chynnwys yr oed mewn misoedd na'r dyddiad geni ei hun. Cymerwch ofal wrth ateb hwn os gwelwch yn dda, yn enwedig lle bydd y plentyn neu'r person ifanc wedi cael sawl dedfryd.
6	Yr hil neu'r ethnigrwydd fel y'i nodir ar gofnod yr achos.	Yr hil neu'r ethnigrwydd fel y'i nodir ar gofnod yr achos.  Dewiswch yr ateb o'r daenlen.  Ceir tystiolaeth o hyn fel arfer yn adran manylion personol yr asesiad craidd ar y cofnod achos electronig ac mae'n bosibl y bydd y manylion hefyd ar gael ar unrhyw ffeil achos galed gan ddibynnu ar brosesau lleol y Tim Troseddau Ieuenctid dan sylw.  Yr ethnigrwydd y dylai'r rheolwr achos ei gofnodi yw hunan gofnod y plentyn neu'r person ifanc – ac NID barn y Tim Troseddau Ieuenctid. Os bydd unrhyw amheuaeth ynglŷn â sut y cafodd ethnigrwydd ei benderfynu fe fydd hyn yn dylanwadu ar gwestiynau yng ngolwg 1 ynghylch yr asesiad o ffactorau amrywiaeth, a dylid ei esbonio yng nghwestiwn naratif 1.20.
7. a	Cwestiwn ffeithiol ac nid barn yr arolygydd ar a ddylai plentyn neu berson ifanc fod wedi'i letya drwy brosesau'r Ddeddf Plant.	<b>A yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi bod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal ... ar unrhyw adeg yn ystod y ddeddfryd a arolygir?</b>  Cwestiwn ffeithiol yw hwn – NID mater o farn, a dylid felly ei ateb yn ffeithiol beth bynnag fo'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu yng nghofnod yr achos.  Os nad yw'r arolygydd, ar ôl archwilio'r cofnod achos, yn gallu dweud a yw'r plentyn neu'r person ifanc yn un sydd wedi Derbyn Gofal atebwch NA i'r cwestiwn hwn, a chadwch hyn mewn cof pan fyddwch yn ateb cwestiynau am asesu yn nes ymlaen, gan gynnwys esboniad yng nghwestiwn naratif 1.20 lle y bo'n briodol.

		<p>Dylai'r wybodaeth hon gael ei nodi'n glir ar ddalen flaen System Gwybodaeth Troseddau Ieuencid (YOIS) /Gwaith gofal. Dylid hefyd allu cael y manylion yn Asset dan yr adrannau yn ymwneud â 'hanes yr achos', 'llety' a 'teulu a pherthynas bersonol'.</p> <p>'Plentyn sy'n Derbyn Gofal' yw un sy'n cael llety gan awdurdod lleol wrth ymarfer ei swyddogaethau gwasanaethau plant, neu sydd yn ei ofal o dan orchymyn gofal (Adran 22(1)).</p> <p>Mae nifer o swyddogaethau gwasanaethau plant y maent a wnelont, o bosibl, â lletya plentyn neu berson ifanc, ond mae'r pwysicaf oll wedi'u cynnwys yn Adrannau 20 (pwerau a dyletswyddau cyffredinol i letya plant sydd mewn angen), 21 (dyletswydd i letya plant ar remand neu dan amddiffyniad yr heddlu) neu 31 gorchymyn gofal llawn.</p> <p>Mae gan y Tim Troseddau Ieuencid ddyletswydd i sicrhau a yw plentyn neu berson ifanc a/neu eu rhieni/gofalwyr eisoes wedi cael asesiadau ac ymyriadau cefnogol wedi'u darparu ar eu cyfer, a oes cofnod o'r teulu yn cael ei ddal gan ofal cymdeithasol plant ac a yw eu plentyn wedi'i osod ar gynllun amddiffyn plant/y gofrestr amddiffyn plant neu wedi ei osod arnynt yn y gorffennol. Yn benodol, rhaid i bryderon megis bod yn agored i niwed, naill ai drwy niwed gan eraill neu hunan-niwed, gael eu cofnodi a gweithredu arnynt. Felly bydd ateb yr arolygwyr i'r cwestiwn hwn yn hysbysu eu dyfarniadau ar nifer o gwestiynau dilynol sy'n gysylltiedig â ffactorau amrywiaeth a bod yn agored i niwed.</p>
7. b	<p>Cwestiwn ffeithiol yw hwn yn cadarnhau a yw'r plentyn neu'r person ifanc hwn sy'n derbyn gofal yn deillio o'r Tim Troseddau Ieuencid hwn (h.y. mai dyma ardal ei gartref) neu ei fod wedi'i gosod o fewn ffiniau daearyddol y Tim Troseddau Ieuencid (a elwir fel arfer yn dim troseddau Ieuencid lletyol) gan awdurdod lleol arall.</p>	<p>Cwestiwn ffeithiol yw hwn yn cadarnhau a yw'r plentyn neu'r person ifanc hwn sy'n derbyn gofal yn deillio o'r Tim Troseddau Ieuencid hwn (h.y. mai dyma ardal ei gartref) neu ei fod wedi'i gosod o fewn ffiniau daearyddol y Tim Troseddau Ieuencid (a elwir fel arfer yn dim troseddau Ieuencid lletyol) gan awdurdod lleol arall.</p> <p>Mae'n bwysig fod y wybodaeth hon yn glir yng nghofnod yr achos, gan y bydd yn hysbysu natur y gwaith gyda'r gweithwyr cymdeithasol a bennwyd, yr ymateb i ffactorau amrywiaeth a'r asesiad o fod yn agored i niwed.</p> <p>Beth bynnag fo awdurdod lleol y cartref, dylai enw a manylion cyswllt y gweithiwr cymdeithasol a bennwyd fod i'w gweld yn glir yn y cofnod achos. Os nad yw dylid ei egluro yn y cwestiwn naratif perthnasol.</p>
8	<p>Cwestiwn ffeithiol yw hwn ac nid barn yr arolygydd ynghylch a ddylid fod wedi gweithredu ymholiadau Adran 47 neu gynllun amddiffyn plant. Mae'n berthnasol i UNRHYW BWYNT yn ystod y ddedfryd dan sylw, nid ei dechreuad yn unig.</p>	<p><b>A yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi bod yn destun cynllun amddiffyn plant neu ymholiadau Adran 47 ar unrhyw adeg yn ystod y ddedfryd sy'n cael ei harolygu?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn ceisio penderfynu ffeithiau'r achos. Nid yw'n ddyfarniad sydd i'w wneud gan yr arolygydd.</p> <p>Gall y dystiolaeth ar gyfer ateb y cwestiwn hwn ddod drwy siarad â rheolwr yr achos, ond dylai fod wedi ei gofnodi'n glir yng nghofnod yr achos. Byddai'r arolygydd hefyd eisieu gweld y wybodaeth hon wedi ei chofnodi ar yr Asset. Os yw'r arolygydd yn amau bod cynllun amddiffyn plant wedi bod yn ei le ond nad yw hynny'n glir yng nghofnod yr achos, neu os oes ymdrechion annigonol wedi'u gwneud i ganfod hyn bydd hynny'n hysbysu dyfarniad yr</p>

		<p>arolygydd ar gwestiynau dilynol ynghylch asesu bod yn agored i niwed ac amddiffyn plant, cynllunio ar eu cyfer ac ymateb iddynt.</p> <p>Mae hefyd ddisgwyliad fod unrhyw weithgaredd/cydgysylltu gyda gwasanaethau plant sydd a wnelont â'r ymholiadau hyn wedi'u cofnodi'n glir yn nyddiadur yr achos ac mewn copiau o unrhyw gofnodion cyfarfodydd yn y ffeil bapur.</p> <p>Mae Adran 47 Deddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i wneud ymholiadau pan fydd ganddo <i>"achos rhesymol i amau bod plentyn sy'n byw, neu y deuir o hyd iddo, yn eu hardal yn dioddef neu'n debyg o ddioddef, niwed sylweddol"</i>. Mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel ymholiadau Adran 47. Gan y gwasanaeth gofal cymdeithasol plant mae'r cyfrifoldeb pennaf am ymgymryd â'r ymholiadau hyn mewn cyswllt ag asiantaethau eraill, yn neilltuo! yr heddlu, cyrff iechyd ac ysgolion.</p> <p>Mae'n rhaid gofyn i'r Tim Troseddau Ieuentid, ynghyd â'r holl bobl broffesiynol berthnasol eraill, wneud cyfraniad at ymholiadau Adran 47 ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n hysbys iddynt.</p>
9a.	<p>Cwestiwn ffeithiol yw hwn ac nid barn yr arolygydd.</p> <p>Dyma'r iaith roedd yn well gan y person ifanc ei siarad, ac felly nodwch 'Saesneg', 'Cymraeg', 'Arall' neu 'Anhysbys'.</p>	<p><b>Beth oedd dewis iaith gyntaf y plentyn neu'r person ifanc?</b></p> <p>Dim ond mewn arolygiadau yng Nghymru y gofynnir y cwestiwn hwn.</p> <p>I ateb y cwestiwn hwn dylai bod tystiolaeth yng nghofnod yr achos, neu gan y person a gyfweilir, fod y person ifanc wedi cael gofyn iddo nodi ei ddewis iaith.</p> <p>Ceir tystiolaeth am hyn fel arfer yn adran manylion personol yr asesiad craidd ar system rheoli achosion y Tim Troseddau Ieuentid a gellir dod o hyd iddi hefyd mewn unrhyw ffeil achosion papur yn dibynnu ar brosesau lleol y Tim Troseddau Ieuentid dan sylw.</p> <p>Os na fu unrhyw ymdrech i wirio'r ddewis iaith, neu os <b>nad yw hyn yn hysbys</b>, yna mae'n debyg y bydd hynny'n hysbysu dyfarniadau ar gwestiynau sy'n dilyn am ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu.</p> <p>Lle atebir <b>nad yw hyn yn hysbys</b> yna rhowch hefyd unrhyw eglurhad am hynny sydd ar gael.</p>
9b.	<p>Cwestiwn ffeithiol yw hwn ac nid barn yr arolygydd.</p> <p>Mae'n rhaid bod tystiolaeth glir yng nghofnod yr achos fod y person ifanc wedi cael cynnig, neu heb gael cynnig, y cyfle i gael rheolwr achos Cymraeg ei iaith. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth glir dylid ateb y cwestiwn 'anhysbys'.</p>	<p>Ni ofynnir y cwestiwn hwn a'r is-gwestiynau sy'n dilyn ddim ond mewn achosion lle cofnodir y Gymraeg fel dewis iaith neu nad yw'n hysbys.</p> <p>Oni bai ei bod wedi ei sefydlu'n glir nad Cymraeg oedd yr iaith sydd orau gan y person ifanc dylai fod wedi cael cynnig y cyfle i gael ei reoli gan reolwr achos Cymraeg ei iaith.</p> <p>Mae'n rhaid bod tystiolaeth glir yng nghofnod yr achos fod y person ifanc wedi cael cynnig, neu heb gael cynnig, y cyfle i gael rheolwr achos Cymraeg ei iaith. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth glir dylid ateb y cwestiwn 'anhysbys'.</p>

9c.	<p>Cwestiwn ffeithiol yw hwn ac nid barn yr arolygydd.</p> <p>Oni bai bod tystiolaeth glir yng nghofnod yr achos fod y plentyn neu'r person ifanc wedi mynegi dewis y naill ffordd neu'r llall, dylid ateb y cwestiwn hwn fel 'anhysbys'.</p>	<p>Oni bai bod tystiolaeth glir yng nghofnod yr achos fod y plentyn neu'r person ifanc wedi mynegi dewis y naill ffordd neu'r llall, dylid ateb y cwestiwn hwn fel 'anhysbys'.</p> <p>Dylai'r ateb i'r cwestiwn hwn hefyd hysbysu dyfarniadau ar gwestiynau mewn golygon diweddarach am ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu.</p>
9d.	<p>Cwestiwn ffeithiol yw hwn ac nid barn yr arolygydd.</p> <p>Dylid ateb y cwestiwn hwn fel a ganlyn:</p> <p>'Do' – lle mynegwyd bod yn well ganddo gael rheolwr achos Cymraeg ei iaith ac y cafwyd hynny.</p> <p>'Naddo' lle'r oedd y person ifanc yn siarad Cymraeg ac wedi mynegi ei bod yn well ganddo gael rheolwr achos Cymraeg ei iaith ond na chafwyd hynny.</p> <p>'Diangen' lle nad oedd y person ifanc yn siarad Cymraeg neu le nad oedd y person ifanc wedi ei gwneud yn glir ei bod yn well ganddo fod rheolwr yr achos yn gweithio gydag ef drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Dylid ateb y cwestiwn hwn fel a ganlyn:</p> <p>'Do' – lle mynegwyd bod yn well ganddo gael rheolwr achos Cymraeg ei iaith ac y cafwyd hynny.</p> <p>'Naddo' lle'r oedd y person ifanc yn siarad Cymraeg ac wedi mynegi ei bod yn well ganddo gael rheolwr achos Cymraeg ei iaith ond na chafwyd hynny.</p> <p>'Diangen' lle nad oedd y person ifanc yn siarad Cymraeg neu le nad oedd y person ifanc wedi ei gwneud yn glir ei bod yn well ganddo fod rheolwr yr achos yn gweithio gydag ef drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Dylai ateb Do neu Naddo hefyd hysbysu dyfarniadau ar gwestiynau mewn golygon diweddarach ynghylch ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu.</p>
9e.	<p>Mae hwn yn holi, <b>ym marn yr arolygydd</b>, a yw'r Tîm Troseddau Ieuencid wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i ddewis y person ifanc i weithio drwy'r Gymraeg lle'r oedd angen hynny.</p>	<p><b>Drwy gydol y ddedfryd hyd yn hyn a oedd y Tîm Troseddau Ieuencid wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i weithio yn y Gymraeg?</b></p> <p>Dylai'r trefniadau ar gyfer asesiadau a chynllunio a chyflwyno ymyriadau roi ystyriaeth i'r dewis a fynegwyd gan y plentyn neu'r person ifanc i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Er efallai na fydd bob amser yn ymarferol neu'n bosibl ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc drwy ei ddewis gyfrwng yn Gymraeg dylid cael arwydd yng nghofnod yr achos bob amser fod ymdrechion go iawn wedi'u gwneud i fynd â'r afael â'r dewisiadau hynny i ddigon o raddau. Mae hyn yn cynnwys trefniadau wedi'u gwneud a'u darparu gan y Tîm Troseddau Ieuencid yn uniongyrchol a'r rhai a ddarperir gan asiantaethau partneriaeth a darparwyr allanol. Lle nad oedd hyn yn bosibl, dylai'r rhesymau fod wedi'u rhannu gyda'r plentyn neu'r person ifanc, ei rieni/gofalwr, lle bo'n gymwys, a'u cofnodi'n glir yng nghofnod yr achos.</p> <p>Gall tystiolaeth o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn gyfrannu at y meini Prawf Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Phartneriaeth a gall fod yn faes ar gyfer dilyniant yn Wythnos 2 yn ystod FJI. Dylai'r ateb i'r cwestiwn hwn hefyd hysbysu cwestiynau am ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu. DS: <b>Nid</b> yw'r ateb i'r cwestiwn hyn yn cyfrannu sgoriau ar gyfer pedair thema'r</p>



			arolygiad.
10.a		Dyma'r ddedfryd fel y'i cofnodir ar gofnod yr achos. Dylid ei gwirio bob amser yn erbyn y rhestr sampl ddewisedig i gadarnhau bod y ddedfryd gywir yn cael ei harolygu.	Dyma'r ddedfryd fel y'i cofnodir ar gofnod yr achos. Dylid ei gwirio bob amser yn erbyn y rhestr sampl ddewisedig i gadarnhau bod y ddedfryd gywir yn cael ei harolygu.
10.b		Dyma gyfanswm hyd y ddedfryd, ac felly ar ddedfrydau o garchar NID y cyfnod yn y gymuned yn unig ond y ddedfryd gyfan a roddwyd (h.y. y cyfnodau yn y carchar ac yn y gymuned wedi'u cyfuno)	Ar gyfer dedfrydau o garchar NID y cyfnod yn y gymuned yn unig ond y ddedfryd gyfan a roddwyd (h.y. y cyfnodau yn y carchar ac yn y gymuned wedi'u cyfuno).  Ar gyfer Gorchymyn Adsefydlu Ieuentid hyd y ddedfryd yw hyd y gofyniad hiraf.  Os bydd, yn eithriadol, dedfryd o garchar heb ei phenderfynu yn cael ei harolygu, cofnodwch hyn fel 999.
10.c		Cwestiwn ffeithiol yw hwn ynghylch dedfrydau o garchar yn unig.	<b>A yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi cael ei ryddhau?</b> Cwestiwn ffeithiol yw hwn ynghylch dedfrydau o garchar yn unig , a dylai bod tystiolaeth yn ei glych yng nghofnod yr achos, cysylltiadau'r dyddiadur neu'r sgrin ymyriadau.
11		Dyma'r drosedd dan sylw ym marn yr arolygydd. Dylai fel arfer fod yn glir o gofnod yr achos, pa drosedd mae'r Tim Troseddau Ieuentid yn ei hystyried yw'r drosedd dan sylw.	Dyma'r drosedd dan sylw ym marn yr arolygydd. Dylai fel arfer fod yn glir o gofnod yr achos, pa drosedd mae'r Tim Troseddau Ieuentid yn ei hystyried yw'r drosedd dan sylw. Os nad yw hyn yn glir, yna pan fydd mwy nag un drosedd yn y cwestiwn, dylai'r arolygydd lunio dyfarniad ar y drosedd dan sylw ar sail difrifoldeb.  Bydd y ddedfryd a arolygir fel ag y manylir arni ar y rhestr sampl ddewisedig a dylid ei gwirio'n ofalus, yn enwedig pan fydd y plentyn neu'r person ifanc wedi cael mwy nag un ddedfryd.
12a		Dyma farn yr arolygydd ynghylch a oedd yr achos hwn yn gymwys ar gyfer MAPPA, NID barn y TTI a dylid ei ateb yn unol â hynny.	Ym marn yr arolygydd a oedd yr achos hwn yn gymwys am MAPPA ar unrhyw adeg yn ystod y ddedfryd oedd yn cael ei harolygu?  Os bydd yr arolygydd yn dyfarnu bod yr achos wedi cwrrd ag un o'r tri maen prawf cymhwyster ar gyfer ystyriaeth MAPPA, yna dylai'r cwestiwn hwn gael ei sgorio fel OEDD heb ystyried gweithredoedd y TTI yn hyn o beth a'r lefel MAPPA a gymhwyswyd. Ac i'r gwrthwyneb, os yw'r arolygydd yn barnu nad yw hwn yn achos MAPPA, dylid ateb y cwestiwn hwn fel NAG OEDD, beth bynnag a wnaeth y TTI wrth wneud atgyfeiriad. Ond os bydd achos wedi ei nodi'n amhriodol fel achos MAPPA mae hyn yn debygol o lywio barn yr arolygydd mewn cwestiwn dilynol am yr asesiad o risg o niwed.  Maer MAPPA yn darparu fframwaith rheoli i gryfhau rheolaeth y Risg o Niwed a gyflwynir gan droseddwr. Mae troseddwr o dan 18 oed yn ddarostyngedig i'r un gweithdrefnau â throseddwr MAPPA eraill, ond mae ystyriaethau ychwanegol yn berthnasol. Er enghraifft, mae gan yr asiantaethau MAPPA ddyletswydd statudol i roi sylw i anghenion y troseddwr fel plentyn. Felly, mae'n rhaid i'r Tim Troseddau Ieuentid a'r Gwasanaethau Plant fod yn bresennol mewn cyfarfod MAPP pan fydd achos troseddwr dan 18 oed yn cael ei drafod.  Mae tri chategori o droseddwr sy'n gymwys i'w cynnwys yn MAPPA fel y nodir yn y Canllawiau MAPPA 2012.

Categori 1 - Troseddwy'r Rhyw Cofrestredig (RSOs).

Mae'r gofynion hysbysu yn ymwneud â rhybuddion ac euogfarnau am droseddau a restrir yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhyw 2003.

Categori 2 - Troseddwy'r treisgar a throseddwy'r rhyw eraill.

Mae'r categori hwn yn seiliedig ar EUOGFARN a DEDFRYD. Rhaid iddo fod yn llofruddiaeth neu'n drosedd dreisgar neu'n drosedd rhyw arall, a restrir yn A15 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, sydd wedi denu dedfryd o garchar derfynedig o 12 mis neu fwy, neu unrhyw ddedfryd o garchar amhenodol. Mae Gorchmynion Cadw a Hyfforddi o 12 mis neu fwy yn gymwys o dan categori 2, yn amodol ar fanylion y drosedd, fel y mae cyfanswm hyd y ddedfryd ac nid y cyfnod yn y ddalfa sy'n cael ei gyfrif yn unig.

Gallai troseddwy'r yn y categori hwn hefyd fod:

- Wedi eu dedfrydu i gyfnod o 12 mis neu fwy o garchar ac wedi'u trosglwyddo i'r ysbyty o dan a.47/a.49 Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Wedi eu cadw yn yr ysbyty o dan a.37 y Ddeddf honno gyda neu heb gyfyngiad o dan adran 41 yr un ddeddf.

Categori 3 - Troseddwy'r peryglus eraill.

Er mwyn sicrhau bod yr asiantaethau MAPPA yn parhau i ganolbwyntio ar yr achosion Categori 3 hynny lle y gallant gael mwy o effaith, mae canllawiau cenedlaethol yn nodi mai dim ond y troseddwy'r hynny sydd angen eu rheoli drwy gyfarfodydd Lefel 2 neu 3 MAPPP y dylid eu cofrestru yng Nghategori 3.

Mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwy'r nad ydynt naill ai yng Nghategori 1 neu 2 ond a ystyrir gan yr awdurdod cyfrifol yn rhai a allai beri risg o niwed difrifol i'r cyhoedd sydd angen rheolaeth weithredol, aml-asiantaeth. Rhaid i'r person fod wedi'i gael yn euog o drosedd, neu fod wedi derbyn rhybudd neu gerydd/rhybudd ffurfiol. Rhaid iddynt fod wedi cyflawni trosedd sy'n dangos eu bod yn gallu achosi niwed difrifol, trosedd rywiol neu dreisgar fel arfer, ond nid oes angen i'r drosedd gael ei rhestru yn A15 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Gallai'r drosedd fod wedi ei chyflawni mewn unrhyw leoliad daearyddol sy'n golygu y gallai troseddwy'r sy'n cael eu heuogfarnu dramor fod yn gymwys.

Mae'r categori hwn yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn lle mae nodweddion ymddygiad troseddol person ifanc, fel arfer wedi'u cyfuno â ffactorau eraill megis iechyd meddwl, er enghraifft, yn peri cymaint o bryder fel bod dull aml-asiantaeth y tu allan i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol o fewn y TTI yn cael ei gyfiawnhau. Byddai goruchwyliaeth MAPPA o dan y categori hwn, felly, ar lefel 2 neu 3.

Lefel rheoli MAPPA - Yn gyffredinol, er bod cydberthynas rhwng lefel y risg a lefel rheolaeth MAPPA (y mwyaf y risg, yr uchaf y lefel), nid yw'r lefelau risg yn cyfateb yn uniongyrchol i

			<p>lefelau rheolaeth MAPPA.</p> <p>Mae hyn yn golygu na fydd angen rheoli pob achos risg uchel ar Lefel 2 neu 3. Yn yr un modd, gallai cymhlethdodau rheoli achos risg isel/canolig, mewn amgylchiadau eithriadol, gyfiawnhau ei reoli ar Lefel 2 neu 3, yn enwedig lle mae enw drwg yn broblem.</p> <p>Yn benodol, nid yw'r angen am weithio ar y cyd, ynddo'i hun, yn dangos y dylai'r achos gael ei reoli ar Lefel 2 neu uwch, ond nid yw cynnwys arbenigwyr sy'n cael eu secondio o fewn partneriaeth amlasiantaethol y TTI o reidrwydd ychwaith yn golygu na ddylai'r achos gael ei gyfeirio at MAPPA a'i reoli ar lefel 2.</p> <p>Er y gallai unrhyw asiantaeth gyfeirio achos i'w ystyried fel troseddwr Categori 3, yn y pen draw mater i'r awdurdod cyfrifol yw penderfynu a yw'r troseddwr yn bodloni'r meini prawf.</p> <p>Awdurdod Cyfrifol (AC) - Ni fydd y TTI fyth yn awdurdod cyfrifol (AC). Yr AC yw'r brif asiantaeth ar gyfer MAPPA. Mae'n cynnwys yr heddlu, y carchardai ac Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Prawf ym mhob ardal, yn gweithio gyda'i gilydd, fel arfer drwy Fwrdd Rheoli Strategol. Mae gan yr AC ddyletswydd i sicrhau bod y risgiau a berir gan droseddwr rhyw a throseddwr treisgar penodol yn cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol. Mae'r AC penodol ar gyfer troseddwr sy'n bwrw dedfryd ar hyn o bryd yn cael ei bennu fel arfer gan leoliad y rheolwr achos.</p> <p>Mae'r TTI yn un o gyrff sydd â dyletswydd i gydweithredu gyda'r AC. Mae ganddo gyfrifoldeb penodol i atgyfeirio pawb y maent yn gyfrifol amdanynt sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster (Canllawiau MAPPA 2012 A3.17) at MAPPA.</p> <p>Mae'r cydlynnydd MAPPA yn debygol o fod yn aelod o'r heddlu neu'n uwch swyddog prawf a leolir o fewn yr Uned Gwarchod y Cyhoedd Lleol - yn aml yn safleoedd yr heddlu. Yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal, dylid bod â rheolaeth ddeuol ar achosion yn cynnwys y TTI ac adran gwasanaethau plant yr awdurdod lleol mewn unrhyw achos lle mae angen atgyfeirio at MAPPA.</p> <p>Wrth benderfynu ar yr AC ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal - lle mae'r troseddwr yn bwrw dedfryd, bydd yr AC yn cael ei nodi gan leoliad y Rheolwr Achos. Lle mae'r troseddwr wedi cwblhau dedfryd, ond yn parhau i fod o fewn MAPPA fel naill ai droseddwr Categori 1 neu 3, yna'r man preswyl yw'r ffactor penderfynu.</p>
12.b		<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd farnu pa un yw'r lefel maent yn ei hystyried fel y lefel ofynnol uchaf o reolaeth MAPPA.</p>	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd farnu pa un yw'r lefel maent yn ei hystyried fel y lefel ofynnol uchaf o reolaeth MAPPA. NID dyma'r lefel y cafodd yr achos ei reoli mewn gwirionedd, lle mae hyn yn wahanol.</p> <p>Noda Canllawiau MAPPA mai 'Y cwestiwn canolog wrth bennu ar y lefel MAPPA gywir yw: "Beth yw'r lefel isaf o reolaeth achos sy'n darparu Cynllun Rheoli Risg amddiffynnol?" (Canllawiau MAPPA 2012, A7.9)</p>

Mae hefyd yn dweud: "Mae lefelau rheoli a risg - y tair lefel wahanol, yn ei gwneud yn bosibl i adnoddau gael eu defnyddio i reoli risg a nodwyd yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol. Er bod cydberthynas rhwng lefel y risg a lefel y rheolaeth MAPPA, nid yw'r lefelau risg yn cyfateb yn uniongyrchol i'r lefelau o reolaeth MAPPA." (Canllawiau MAPPA 2012 A7.7)

Mae hyn yn golygu na fydd angen rheoli pob achos risg uchel ar Lefel 2 neu 3. Yn yr un modd, gallai'r cymhlethdodau o reoli achos risg isel/canolig, mewn amgylchiadau eithriadol, gyfiawnhau ei reoli ar Lefel 2 neu 3, yn enwedig lle mae enw drwg yn broblem.

Yn benodol, nid yw'r angen am weithio ar y cyd, ynddo'i hun, yn dangos y dylai'r achos gael ei reoli ar Lefel 2 neu uwch, ond nid yw cynnwys arbenigwyr wedi'u secondio o fewn partneriaeth aml-asiantaethol y TTI o reidrwydd ychwaith yn golygu na ddylai'r achos gael ei atgyfeirio at MAPPA a'i reoli ar lefel 2.

Lefelau rheoli MAPPA fel y nodir yng Nghanllawiau MAPPA 2012:

a) Lefel 1 - Rheolaeth Gyffredin gan Asiantaeth

Rheolaeth Lefel 1 yw'r lefel y dylid ei defnyddio mewn achosion lle gallai'r risg o niwed a berir gan y troseddwr gael ei reoli gan y TTI. Nid yw hyn yn golygu na fydd asiantaethau eraill yn cymryd rhan, dim ond nad yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol i reoli'r achos ar Lefel 2 neu 3. O fewn rheolaeth Lefel 1 gallai ddal i fod yn hanfodol bod rhannu gwybodaeth yn digwydd rhwng asiantaethau a cheir trafodaethau rheoli achos aml-asiantaethol yn ôl yr angen. Mae'r gyfran uchaf o droseddwr MAPPA yn y TauTI yn debygol o gael eu rheoli ar Lefel 1.

b) Lefel 2 - Rheolaeth Weithredol Aml-Asiantaeth

Dylai achosion gael eu rheoli ar Lefel 2 MAPPA lle bydd y troseddwr yn cael ei asesu fel un sy'n peri risg sylweddol o niwed. Y rhain fel arfer fydd y rhai a ddsbarthwyd fel rhai sy'n peri risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol. Ond ni fydd yr holl achosion a ddsbarthwyd fel rhai gyda risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol yn gofyn am reolaeth Lefel 2 yn awtomatig; ac ni ddylai rheolaeth Lefel 2 gael ei chyfyngu i achosion a ddsbarthwyd fel rhai gyda risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol yn unig. Efallai y ceir achosion gyda llai o risg o ddsbarthiad difrifol lle, oherwydd eu natur a'u hamgylchiadau, y bydd arnynt angen y lefel hon o reolaeth. Dylai'r rhain fod yn achosion sydd: "angen cyfraniad gweithgar a chydlynu ymyriadau gan asiantaethau eraill i reoli cyflwyno'r risg o niwed neu yn rhai sydd wedi cael eu rheoli'n flaenorol ar Lefel 3 a bod lefel y risg o niwed wedi lleihau, a/neu mae cymhlethdod y rheolaeth aml-asiantaeth sy'n ofynnol wedi gostwng, ac mae RMP MAPPA ar gyfer Lefel 2 wedi ei sefydlu'n gadarn."

Nodweddion enghreifftiol achos Lefel 2:

- troseddwr rhyw sy'n gwrthsefyll ymdrin â'u hymddygiad troseddol
- troseddwr treisgar gyda risgiau ychwanegol o broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau

			<ul style="list-style-type: none"> <li>• troseddwy'r trais yn y cartref sy'n camddefnyddio sylweddau</li> <li>• amgylchiadau cartref anaddas neu ansefydlog</li> <li>• rhai tebygol o aildroseddu ac achosi lefel uchel o niwed difrifol i eraill</li> <li>• ar hyn o bryd mae diffyg gwaith aml-asiantaethol effeithiol, ac mae angen i hyn gael ei gydlynw i ddarparu RMP MAPPA effeithiol.</li> </ul> <p>c) Lefel 3 - Rheolaeth Aml-Asiantaeth Weithredol Well</p> <p>Dylai rheolaeth Lefel 3 gael ei defnyddio lle penderfynir bod y materion rheoli angen cynrychiolaeth uwch o'r awdurdod cyfrifol a dyletswydd i gael asiantaethau i gydweithredu. Gallai hyn fod pan fydd angen tybiedig i ymrwymo adnoddau sylweddol ar fyr rybudd a/neu lle mae materion sylweddol yn ymwneud â'r cyfryngau a/neu faterion budd y cyhoedd. Fel arfer byddai rheolaeth Lefel 3 yn ymwneud ag achosion lle mae'r troseddwr yn cael ei ddsbarthu fel un sydd â risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol (ond nid yw hyn yn golygu y bydd yr holl achosion a aseswyd fel rhai risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol yn rhai a fydd angen rheolaeth lefel 3 yn awtomatig. Yn ogystal, efallai y bydd achosion gyda dosbarthiad risg is lle, oherwydd ffactorau eraill, mae ar yr achos angen y lefel hon o reolaeth). Dylai'r rhain fod yn achosion sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• peri risg o niwed na ellir ond ei reoli gan gynllun sy'n gofyn am gydweithrediad agos ar lefel uwch oherwydd cymhlethdod yr achos a/neu oherwydd yr ymrwymiadau anarferol o ran adnoddau sydd eu hangen neu</li> <li>• er na chafodd ei ddsbarthu fel risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol, mae tebygolrwydd uchel o graffu gan y cyfryngau a/neu fudd y cyhoedd yn y gwaith o reoli'r achos ac mae angen sicrhau bod hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol yn cael ei gynnal.</li> </ul> <p>Nodweddion enghreifftiol achos Lefel 3:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• tebygolrwydd o aildroseddu: mae'r troseddwr yn fwy tebygol na pheidio o aildroseddu ar unrhyw amser gyda chanlyniadau difrifol iawn i bobl eraill</li> <li>• troseddwr rhyw sydd â risg ychwanegol o drais generig</li> <li>• amharodrwydd i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol</li> <li>• cudd-wybodaeth ychwanegol yr heddlu sy'n awgrymu ymddygiad troseddol parhaus</li> <li>• bygythiadau i ladd, herwgipio a niweidio i blant a phobl ifanc neu oedolion hysbys</li> <li>• plant neu bobl ifanc sydd wedi eu cofrestru fel rhai sydd mewn perygl o niwed sylweddol</li> <li>• ansefydlogrwydd emosiynol a chamddefnyddio sylweddau</li> <li>• salwch meddwl, anhwylderau seicolegol a/neu hunan-niweidio</li> <li>• credoau a phatrymau meddwl gwyrddroedig tuag at grwpiau penodol a/neu unigolion</li> <li>• angen am ddefnydd ychwanegol/anarferol o adnoddau i reoli'r achos yn effeithiol</li> <li>• diddordeb posibl gan y cyfryngau yn yr achos.</li> <li>•</li> </ul>
12.c		Dyma farn yr arolygydd ynghylch a oedd yr achos	Ym marn yr arolygydd a oedd yr achos hwn yn gymwys am MAPPA ar unrhyw adeg yn ystod

	<p>hwn yn gymwys ar gyfer MAPPA, NID barn y TTI a dylid ei ateb yn unol â hynny.</p>	<p>y ddedfryd oedd yn cael ei harolygu?</p> <p>Os bydd yr arolygydd yn dyfarnu bod yr achos wedi cwrdd ag un o'r tri maen prawf cymhwyster ar gyfer ystyriaeth MAPPA, yna dylai'r cwestiwn hwn gael ei sgorio fel OEDD heb ystyried gweithredoedd y TTI yn hyn o beth a'r lefel MAPPA a gymhwyswyd. Ac i'r gwrthwyneb, os yw'r arolygydd yn barnu nad yw hwn yn achos MAPPA, dylid ateb y cwestiwn hwn fel NAG OEDD, beth bynnag a wnaeth y TTI wrth wneud atgyfeiriad. Ond os bydd achos wedi ei nodi'n amhriodol fel achos MAPPA mae hyn yn debygol o lywio barn yr arolygydd mewn cwestiwn dilynol am yr asesiad o risg o niwed.</p> <p>Maer MAPPA yn darparu fframwaith rheoli i gryfhau rheolaeth y Risg o Niwed a gyflwynir gan droseddwyr. Mae troseddwyr o dan 18 oed yn ddarostyngedig i'r un gweithdrefnau â throsteddwr MAPPA eraill, ond mae ystyriaethau ychwanegol yn berthnasol. Er enghraifft, mae gan yr asiantaethau MAPPA ddyletswydd statudol i roi sylw i anghenion y troseddwr fel plentyn. Felly, mae'n rhaid i'r Tim Troseddau Ieuencid a'r Gwasanaethau Plant fod yn bresennol mewn cyfarfod MAPP pan fydd achos troseddwr dan 18 oed yn cael ei drafod.</p> <p>Mae tri chategori o droseddwr sy'n gymwys i'w cynnwys yn MAPPA fel y nodir yn y Canllawiau MAPPA 2012.</p> <p>Categori 1 - Troseddwr Rhyw Cofrestredig (RSOs). Mae'r gofynion hysbysu yn ymwneud â rhybuddion ac euogfarnau am droseddau a restrir yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhyw 2003.</p> <p>Categori 2 - Troseddwr treisgar a throsteddwr rhyw eraill. Mae'r categori hwn yn seiliedig ar EUOGFARN a DEDFRYD. Rhaid iddo fod yn llofruddiaeth neu'n drosedd dreisgar neu'n drosedd rhyw arall, a restrir yn A15 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, sydd wedi denu dedfryd o garchar derfynedig o 12 mis neu fwy, neu unrhyw ddedfryd o garchar amhenodol. Mae Gorchmynion Cadw a Hyfforddi o 12 mis neu fwy yn gymwys o dan categori 2, yn amodol ar fanylion y drosedd, fel y mae cyfanswm hyd y ddedfryd ac nid y cyfnod yn y ddalfa sy'n cael ei gyfrif yn unig.</p> <p>Gallai troseddwyr yn y categori hwn hefyd fod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wedi eu dedfrydu i gyfnod o 12 mis neu fwy o garchar ac wedi'u trosglwyddo i'r ysbyty o dan a.47/a.49 Deddf Iechyd Meddwl 1983</li> <li>• Wedi eu cadw yn yr ysbyty o dan a.37 y Ddeddf honno gyda neu heb gyfyngiad o dan adran 41 yr un ddeddf.</li> </ul> <p>Categori 3 - Troseddwr peryglus eraill.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod yr asiantaethau MAPPA yn parhau i ganolbwyntio ar yr achosion Categori 3 hynny lle y gallant gael mwy o effaith, mae canllawiau cenedlaethol yn nodi mai dim ond y troseddwyr hynny sydd angen eu rheoli drwy gyfarfodydd Lefel 2 neu 3 MAPPP y</p>
--	--	---

dylid eu cofrestru yng Nghategori 3.

Mae'r categori hwn yn cynnwys troseddwr nad ydynt naill ai yng Nghategori 1 neu 2 ond a ystyrir gan yr awdurdod cyfrifol yn rhai a allai beri risg o niwed difrifol i'r cyhoedd sydd angen rheolaeth weithredol, aml-asiantaeth. Rhaid i'r person fod wedi'i gael yn euog o drosedd, neu fod wedi derbyn rhybudd neu gerydd/rhybudd ffurfiol. Rhaid iddynt fod wedi cyflawni trosedd sy'n dangos eu bod yn gallu achosi niwed difrifol, trosedd rywiol neu dreisgar fel arfer, ond nid oes angen i'r drosedd gael ei rhestru yn A15 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Gallai'r drosedd fod wedi ei chyflawni mewn unrhyw leoliad daearyddol sy'n golygu y gallai troseddwr sy'n cael eu heuogfarnu dramor fod yn gymwys.

Mae'r categori hwn yn cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn lle mae nodweddion ymddygiad troseddol person ifanc, fel arfer wedi'u cyfuno â ffactorau eraill megis iechyd meddwl, er enghraifft, yn peri cymaint o bryder fel bod dull aml-asiantaeth y tu allan i'r hyn sydd ar gael yn gyffredinol o fewn y TTI yn cael ei gyfiawnhau. Byddai goruchwyliaeth MAPPA o dan y categori hwn, felly, ar lefel 2 neu 3.

Lefel rheoli MAPPA - Yn gyffredinol, er bod cydberthynas rhwng lefel y risg a lefel rheolaeth MAPPA (y mwyaf y risg, yr uchaf y lefel), nid yw'r lefelau risg yn cyfateb yn uniongyrchol i lefelau rheolaeth MAPPA.

Mae hyn yn golygu na fydd angen rheoli pob achos risg uchel ar Lefel 2 neu 3. Yn yr un modd, gallai cymhlethdodau rheoli achos risg isel/canolig, mewn amgylchiadau eithriadol, gyfiawnhau ei reoli ar Lefel 2 neu 3, yn enwedig lle mae enw drwg yn broblem.

Yn benodol, nid yw'r angen am weithio ar y cyd, ynddo'i hun, yn dangos y dylai'r achos gael ei reoli ar Lefel 2 neu uwch, ond nid yw cynnwys arbenigwyr sy'n cael eu secondio o fewn partneriaeth amlasiantaethol y TTI o reidrwydd ychwaith yn golygu na ddylai'r achos gael ei gyfeirio at MAPPA a'i reoli ar lefel 2.

Er y gallai unrhyw asiantaeth gyfeirio achos i'w ystyried fel troseddwr Categori 3, yn y pen draw mater i'r awdurdod cyfrifol yw penderfynu a yw'r troseddwr yn bodloni'r meini prawf.

Awdurdod Cyfrifol (AC) - Ni fydd y TTI fyth yn awdurdod cyfrifol (AC). Yr AC yw'r brif asiantaeth ar gyfer MAPPA. Mae'n cynnwys yr heddlu, y carchardai ac Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Prawf ym mhob ardal, yn gweithio gyda'i gilydd, fel arfer drwy Fwrdd Rheoli Strategol. Mae gan yr AC ddyletswydd i sicrhau bod y risgiau a berir gan droseddwr rhyw a throseddwr treisgar penodol yn cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol. Mae'r AC penodol ar gyfer troseddwr sy'n bwrw dedfryd ar hyn o bryd yn cael ei bennu fel arfer gan leoliad y rheolwr achos.

Mae'r TTI yn un o nifer o gyrff sydd â dyletswydd i gydweithredu gyda'r AC. Mae ganddo gyfrifoldeb penodol i atgyfeirio pawb y maent yn gyfrifol amdanynt sy'n bodloni'r meini prawf

			<p>cymhwyster (Canllawiau MAPPA 2012 A3.17) at MAPPA.</p> <p>Mae'r cydlynnydd MAPPA yn debygol o fod yn aelod o'r heddlu neu'n uwch swyddog prawf a leolir o fewn yr Uned Gwarchod y Cyhoedd Lleol - yn aml yn safleoedd yr heddlu. Yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal, dylid bod â rheolaeth ddeuol ar achosion yn cynnwys y TTI ac adran gwasanaethau plant yr awdurdod lleol mewn unrhyw achos lle mae angen atgyfeirio at MAPPA.</p> <p>Wrth benderfynu ar yr AC ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal - lle mae'r troseddwr yn bwrw dedfryd, bydd yr AC yn cael ei nodi gan leoliad y Rheolwr Achos. Lle mae'r troseddwr wedi cwblhau dedfryd, ond yn parhau i fod o fewn MAPPA fel naill ai droseddwr Categori 1 neu 3, yna'r man preswyl yw'r ffactor penderfynu.</p>
13a		Dewiswch rôl y person sy'n cael ei gyfweld	Dewiswch rôl y person sy'n cael ei gyfweld
13b		Dylai'r arolygydd gadarnhau a yw rheolwr yr achos eisoes wedi ei gyfweld yn ystod yr arolygiad hwn. Mae'n rhaid cofnodi hyn yn gywir gan ei fod yn effeithio ar y cwestiynau a holir yn Golwg 5.	Dylai'r arolygydd gadarnhau a yw rheolwr yr achos eisoes wedi ei gyfweld yn ystod yr arolygiad hwn. Mae'n rhaid cofnodi hyn yn gywir gan ei fod yn effeithio ar y cwestiynau a holir yn Golwg 5.
13c.		Cwestiwn ffeithiol yw hwn. Nodwch os gwelwch yn dda a gynhaliwyd y cyfweiliad gyda rheolwr yr achos neu rywun arall oedd ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg.	Cwestiwn ffeithiol yw hwn. Nodwch os gwelwch yn dda a gynhaliwyd y cyfweiliad gyda rheolwr yr achos neu rywun arall oedd ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg.
14		FJI yn unig – ticiwch bob modiwl a gynhwysir yn yr arolygiad hwn.	Ticiwch bob modiwl a gynhwysir yn yr arolygiad hwn. Dim ond mewn arolygiadau FJL y mae'n berthnasol, gan mai modiwl craidd yn unig sydd gan SQS. Cofiwch ymgynghori â'r Arolygydd Arweiniol i gadarnhau pa fodiwlau sydd yn yr arolygiad hwn.



## Cipolwg 1 – Asesiad

Rhif y Cwestiwn	Maen Prawf	Dangosyddion Ansawdd	Canllawiau Estynedig
1.1.1	1.2.1	<p>Mae'r cwestiwn yn berthnasol i'r asesiad a gynhyrchwyd ar gyfer Adroddiad Cyn Dedfrydu. Os na chynhyrchwyd Adroddiad Cyn Dedfrydu yna mae'n berthnasol i'r asesiad a gynhyrchwyd yn syth ar ôl y ddedfryd. Mae canllawiau ynghylch yr amgylchiadau eithriadol lle efallai na fydd angen asesiad ôl-ddedfryd yn cael eu cynnwys o fewn y botwm canllawiau estynedig.</p> <p>Mewn achosion <b>gorchymyn cyfeirio</b> mae'r cwestiwn hwn hefyd yn cynnwys ansawdd yr adroddiad a baratowyd ar gyfer y panel, gan mai dyna'r prif ddull y mae'r asesiad yn cael ei gyfleu iddynt.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda y mae'r dangosyddion isod wedi cael eu trin:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae'r asesiad yn darparu (yn y dadansoddiad trosedd ac mewn manau eraill) ddadansoddiad clir (cyflawn a dealladwy i unrhyw un a allai fod angen ei ddarllen) o'r rhesymau pam fod y plentyn neu'r person ifanc wedi cyflawni'r drosedd mynegai a throseddau perthnasol eraill a beth allai helpu i leihau eu trosedd</li> <li>• mae'r asesiad yn cynnwys ac yn rhoi ystyriaeth lawn i safbwyntiau a fynegwyd yn bersonol y plentyn neu'r person ifanc a, lle bo hynny'n berthnasol, eu rhiant/gofalwr a/neu bobl arwyddocaol eraill ac yn ceisio triongli'r rhain â gwybodaeth ategol neu anghyson arall</li> </ul>	<p><b>A gafodd ymdrechion digonol eu gwneud i ddeall pam fod y plentyn hwn neu'r person ifanc wedi troseddu a'r hyn a allai helpu i leihau eu trosedd? [RR] [INT]</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol yr asesiad a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwyso unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gallai fod diffygion efallai y bydd yr arolygydd yn gallu dod i'r casgliad bod yr asesiad hwn yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Mae Safonau Cenedlaethol 2013 Adran 4 yn nodi "Mae pob plentyn a person ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuentid yn elwa ar asesiad anghenion strwythuredig (gan ddefnyddio'r offeryn asesu perthnasol a gymeradwywyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid) a gynlluniwyd i nodi risgiau a ffactorau amddiffynnol sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol, y tebygolrwydd o ailddroseddu a'r risg o niwed difrifol i eraill, ac i roi gwybodaeth ar gyfer rhaglenni ymyrraeth effeithiol"</p> <p>Dylai'r arolygydd, felly, fod yn fodlon bod anghenion plant a phobl ifanc, yn ymwneud â pham y mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi troseddu a'r hyn a allai helpu i leihau eu trosedd, a phwy sydd wedi troseddu yn cael eu deall yn drylwyr trwy asesiad amserol ac o ansawdd da. Ffynhonnell allweddol y dystiolaeth ar gyfer y cwestiwn hwn fydd Adrannau 1-12 o'r asesiad a wnaed gan ddefnyddio Asset ac a gefnogir gan unrhyw asesiad(au) arbenigol eraill lle mae angen hyn.</p> <p>Nid yw asesiad sy'n ddynwarediad yn unig o un blaenorol, heb dystiolaeth bellach ei fod wedi ei adolygu a'i ddiweddarau, yn cyfrif fel asesiad wedi'i gwblhau ac felly dylid ateb y cwestiwn hwn gyda NADDO.</p> <p>Er mwyn cyfrif fel "wedi'i gwblhau" dylai'r asesiad gael ei gwblhau a'i gofnodi ar y system TG mewn ffurf sy'n amlwg yn gyflawn cyn y pwynt lle dylai'r adolygiad cyntaf gael ei wneud.</p> <p>Mae'n rhaid i'r arolygydd ffurfio barn ynghylch y dyddiad y cafodd yr asesiad penodol ei gwblhau, yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys: y ffeil achos, cyfweiliad gyda'r ymarferydd a'r wybodaeth o'r llwybr archwilio. Fel egwyddor gyffredinol, <u>dylai'r</u></p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• mae'r asesiad yn tynnu trwodd ac yn ystyried unrhyw wybodaeth bwysig a gedwir mewn manau eraill o fewn y cofnod achos neu gan eraill.</li> <li>• cafodd asesiadau arbenigol (ee AIM2 neu Leferydd ac Iaith) eu cynnal, lle bo angen, a'u hymgorffori yn yr un yma</li> </ul> <p>Os yw'r agweddau hyn wedi'u bodloni'n ddigonol dylai'r arolygydd wedyn ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• amseroldeb i weddu i anghenion yr achos. Mae asesiad sy'n 'hwyr' yn debygol hefyd o fod o ansawdd annigonol oni bai fod amgylchiadau arbennig yn yr achos sy'n cyfiawnhau hyn, neu os nad yw'r ffaith fod yr asesiad yn 'hwyr' wedi rhwystro'r achos rhag cael ei reoli'n effeithiol</li> <li>• mae'r asesiad yn asesiad cynhwysfawr a chytbwys o ffactorau a allai arwain at a lleihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.</li> <li>• mae ffactorau cadarnhaol sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc, lle maent yn bodoli, yn cael eu nodi a'u cofnodi'n glir yn enwedig lle gallai'r rhain helpu i leihau'r Tebygolrwydd o Aildroseddu</li> <li>• rhoddwyd sylw digonol i ffactorau amrywiaeth fel y maent yn berthnasol i droseddu ac mae ffactorau yn cael eu cofnodi'n glir</li> <li>• mae'r dystiolaeth yn yr asesiad yn gywir, yn gyfredol, ac mor llawn ag sy'n rhesymol i weddu i anghenion yr achos</li> <li>• mae'r dystiolaeth yn gyson ar draws yr asesiad</li> <li>• mae'r defnydd o Asset, fel offeryn asesu strwythuredig Tebygolrwydd o Aildroseddu yn ddigonol - hy a yw'r sgorau yn cyfateb y dystiolaeth ac yn canolbwyntio ar y Tebygolrwydd o Aildroseddu</li> </ul>	<p><u>asesiad cychwynnol gael ei gwblhau mewn modd amserol i anghenion yr achos.</u> Felly, er enghraifft, mewn achos gyda mwy o droseddu dylai'r arolygydd ddod o hyd i dystiolaeth o'r asesiad yn dechrau yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf gyda'r plentyn neu'r person ifanc ac ni ddylid oedi ei gwblhau yn ormodol oni bai bod dystiolaeth glir o resymau priodol am hyn a'r camau a gymerwyd i unioni'r sefyllfa.</p> <p>Mae'n rhaid i'r arolygydd gymhwyso 'prawf rhesymoldeb' bob amser, ar ôl ystyried yr holl wybodaeth /tystiolaeth berthnasol wrth asesu amseroldeb. Os, yn eu barn hwy, fod y cwblhau sylweddol yn rhy hwyr i gwrdd ag anghenion yr achos, yna dylid ei asesu yn unol â hynny, heb ystyried y dyddiad yr hawliwyd ei fod wedi ei gwblhau. Nid yw'r arolygiad hwn yn archwiliad o safonau cenedlaethol.</p> <p>Dim ond mewn achosion eithriadol (ee os yw plentyn neu berson ifanc wedi bod yn destun nifer o YROs yn syth ar ôl ei gilydd, gyda gofynion tebyg ac yn dilyn troseddau tebyg iawn, <u>ac na fu unrhyw newidiadau arwyddocaol eraill</u>) y gallai fod yn dderbyniol i dynnu asesiad drwodd o ymyriad blaenorol heb asesiad o'r newydd. Fel arall lle bo asesiad yn gopi yn unig dylai'r arolygydd ddod i'r casgliad nad oedd yr asesiad o ansawdd digonol, i <u>weddu i anghenion yr achos.</u></p> <p>Dylid gwirio bob amser gyda'r darparwr addysg a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Dylai fod dystiolaeth bod cysylltiad wedi ei wneud gyda hwy a bod cofnod o unrhyw wybodaeth berthnasol wedi'i dderbyn ganddynt. Gallai hyn gynnwys agweddau perthnasol ar eu cyd-destun lleol neu eu cefndir teuluol.</p> <p>Dylai materion iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol / camddefnyddio sylweddau / addysg, hyfforddiant a chyflogaeth / ansawdd gofal gael eu hystyried yn benodol hefyd o fewn yr asesiad cyffredinol o debygolrwydd o aildroseddu, er bod cwestiwn ar wahân na roddir sgôr iddo sy'n canolbwyntio ar y ffactorau hyn.</p> <p>Mae'n rhaid i ddylanwadau cadarnhaol megis ffactorau cefnogol a pro-gymdeithasol gael eu nodi a'u hasesu hefyd lle mae'r rhain yn bresennol.</p> <p>Ar gyfer Gorchymynion Cyfeirio, mae Adroddiad y Panel Troseddwy'r Ifanc (Adroddiad Gorchymyn Cyfeirio) yn ffurfio rhan o'r broses asesu gan mai dyma'r cyfrwng y mae asesiad TTI (YOT) y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gyfleu drwyddo i'r Panel a dylai fod yn grynodeb o'r asesiad hwnnw. Wrth ystyried asesu ar gyfer Gorchymynion Cyfeirio dylai arolygwyr ystyried popeth o adeg y ddedfryd i gyfarfod cyntaf y Panel Troseddwy'r Ifanc fel rhan o'r broses asesu ac o'r Panel Troseddwy'r Ifanc ymlaen i fod yn gynllunio, darparu ac adolygu ymryiadau neu ganlyniadau.</p> <p>Asesiad digonol yw un a allai gynnwys y rheolwr achos yn gofyn rhai cwestiynau eithaf anodd, peidio ag anwybyddu agweddau ar wahaniaeth plentyn neu berson ifanc ac ystyried eu hanghenion unigol yn y broses. Er bod ansawdd yr ymgysylltu hefyd yn cael ei sgorio</p>
--	---	---

		<ul style="list-style-type: none"> <li>mae ymweliadau cartref yn cael eu defnyddio i lywio'r asesiad mewn achosion perthnasol.</li> </ul>	<p>mewn rhannau eraill o'r broses arolygu, bydd angen i'r arolygydd fod yn fodlon bod digon o ymgysylltiad wedi digwydd i'r asesiad cyffredinol fod yn ystyrion ac yn adlewyrchu sefyllfa'r plentyn neu berson ifanc.</p> <p>Oni bai bod tystiolaeth sy'n dangos bod dull digon ymchwilol wedi cael ei gymryd wrth gwblhau'r asesiad, mae'n annhebygol y bydd yn bodloni anghenion yr achos.</p>
1.1.2.1	1.2.1	Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol yn unig.	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol yn unig.. Mae cwestiynau cyfatebol mewn manau eraill sy'n canolbwyntio ar ffactorau bod yn agored i niwed a diogelu eraill.</p> <p>Mae'n cael ei ddefnyddio'n bennaf i hysbysu arolygwyr partner mewn FJI am agweddau manwl ar y gwaith y mae ganddynt ddiddordeb arbennig ynddo. Dylid defnyddio'r un safonau wrth lenwi'r cwestiwn hwn ag a ddefnyddiwyd yng nghwestiwn 1.1.1 - ond yn yr achos hwn wedi eu cyfyngu i bob agwedd benodol ar asesu.</p>
1.1.3	1.2.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.1.4	1.2.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.2.1		<p>Yr allwedd i'r cwestiwn hwn yw - a yw'n ymddangos i chi fel yr arolygydd bod y TTI (YOT) yn trin y plentyn hwn neu berson ifanc fel pe bai ganddo anabledd. Bydd angen i'r arolygydd ystyried felly a oes unrhyw un o'r ffactorau canlynol yn bresennol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nam corfforol</li> <li>Cyflwr iechyd meddwl neu emosiynol</li> <li>ADHD</li> <li>Gorfywiogrwydd</li> <li>Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig</li> <li>Anhawster dysgu neu anabledd arall</li> <li>Unrhyw fath arall o anabledd</li> </ul>	<p><b>A oes gan y plentyn neu'r person ifanc anabledd?</b></p> <p>Nid yw hwn yn gwestiwn sgorio ond mae'n helpu'r arolygydd i lunio cwestiynau pellach a barn am ymateb y TTI. O ran deddfwriaeth y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, ni fydd gan bob plentyn a pherson ifanc anabledd y rhoddwyd diagnosis iddo ac a gofnodwyd; efallai y bydd rhai yn mynd trwy asesiad. Gall plant a phobl ifanc fynegi barn ynghylch p'un a ydynt yn credu bod ganddynt anabledd ond ni ofynnir a ydynt yn ystyried eu hunain yn anabl, fel y byddai oedolyn.</p> <p>Os, yn eich barn chi, fod yna ffactorau anabledd yn yr achos hwn a allai fod wedi effeithio ar allu'r plentyn neu berson ifanc i gydymffurfio â'r ddeddfryd, nad oedd y TTI (YOT) wedi eu cofnodi nac ymateb iddynt yn ddigonol, defnyddiwch y rhain i lywio eich barn ar gwestiynau perthnasol a chofnodwch hyn yng nghwestiwn 1.20</p>
1.2.2		Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.3.1	4.1.2	Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda y mae'r TTI (YOT) wedi nodi a deall a oes unrhyw rai o'r dangosyddion isod, ac unrhyw ffactorau amrywiaeth eraill y mae'r arolygydd o'r farn eu	<p><b>A wnaed digon o ymdrech i sicrhau bod ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu wedi eu deall?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol yr asesu a wnaed yn bodloni anghenion yr</p>

		<p>bod yn berthnasol, yn bresennol yn yr achos, a pha effaith y gallent ei chael ar ymgysylltiad effeithiol y plentyn neu'r person ifanc gyda gwaith y TTI:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• lleferydd, iaith a chyfathrebu</li> <li>• oedran neu aeddfedrwydd</li> <li>• hil neu ethnigrwydd</li> <li>• merched neu fenywod ifanc</li> <li>• anabledd</li> <li>• Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>• unrhyw ffactorau gwahaniaethol posibl neu wirioneddol arall a allai weithredu fel rhwystr i ymgysylltu</li> </ul> <p>Er bod y rhestr hon yn nodi nifer o ffactorau cyffredin sydd angen eu hasesu a rhoi sylw iddynt yn aml, ni all fod yn holl gynhwysfawr.</p>	<p>achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gallai fod diffygion efallai y bydd yr arolygydd yn gallu dod i'r casgliad bod yr asesiad hwn yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Asesiad digonol yw un a allai gynnwys y rheolwr achos yn gofyn rhai cwestiynau eithaf anodd, peidio ag anwybyddu agweddau ar wahaniaeth plentyn neu berson ifanc ac ystyried eu hanghenion unigol yn y broses.</p> <p>Bwriedir i gwestiynau sy'n ymwneud ag amrywiaeth ymwneud â dwy elfen: yn gyntaf, y grwpiau cydnabyddedig o blant a phobl ifanc sy'n gallu wynebu gwahaniaethu oherwydd hil/ethnigrwydd, diwylliant, crefydd, anabledd, rhywioldeb, oedran, rhyw, statws gofal. Mae'r ail elfen yn ehangach a gall gynnwys ystod o ffactorau a allai fod yn rhwystr i ymgysylltu ee plant a phobl ifanc sy'n ofalwyr eu hunain, rheini ifanc, materion yn ymwneud â natur wledig, rhai gydag anawsterau llythrennedd/iaith.</p> <p>Dylai'r arolygydd fod yn ymwybodol o'r ail elfen hon wrth ffurfio barn ynghylch pa mor ddigonol yw'r asesu am amrywiaeth a chofnodi unrhyw faterion penodol a geir yng nghwestiwn 1.20.</p> <p>Ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal gallai amrywiaeth gael ei nodi mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys, er enghraifft, trwy wahanu oddi wrth ymlyniad(au) sylfaenol neu drwy leoliadau lluosog a'r diffyg sefydlogrwydd posibl yn sgil hynny mewn datblygiad cymdeithasol ac addysgol a allai gael effaith andwyol ar allu plentyn neu berson ifanc i ymgysylltu'n llawn â gwaith y TTI (YOT).</p> <p>Ar gyfer merched a menywod ifanc mae'n arfer da nodi os bydd hi'n teimlo'n ddiogel yn teithio i/o adeilad y TTI neu o fod ynddo.</p> <p>Mae ar ferched yn hanfodol angen datblygu perthnasoedd a seilir ar ymddiriedaeth gyda gweithwyr, felly yr arfer gorau yw ceisio deall profiadau perthnasoedd blaenorol, gan gynnwys eu heffeithiolrwydd a'u heffaith, ee lle mae gan ferch hanes o berthynas yn chwalo gyda gofalwyr allweddol, sut mae hyn wedi effeithio ar ei gallu a'i pharodrwydd i ymddiried mewn pobl eraill?</p>
1.3.2	4.1.2	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.4.1	4.1.1	Y ffactor bwysicaf yn y cwestiwn hwn yw	<b>A oedd digon o ymgysylltiad â'r plentyn neu'r person ifanc, rhieni /gofalwyr neu</b>

	<p>ansawdd yr ymgysylltu gyda'r plentyn neu'r person ifanc wrth gynnal yr asesiad. Felly - os nad oedd yr ymgysylltiad â'r plentyn neu'r person ifanc o ansawdd digonol yna mae'n rhaid i'r cwestiwn, beth bynnag fo ansawdd yr ymgysylltu ag eraill, gael ei ateb gyda NADDO.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda y cafodd y dangosyddion ymgysylltu isod eu trin gan y TTI i gynnal yr asesiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cafodd y plentyn neu'r person ifanc ei gwrrdd fel rhan o'r broses asesu</li> <li>• cafodd y plentyn neu'r person ifanc amser i siarad â'r gweithiwr TTI ar ei ben ei hun</li> <li>• cafodd y plentyn neu'r person ifanc ddigon o gyfle i fynegi ei farn</li> <li>• roedd rhieni/gofalwyr a phobl arwyddocaol eraill yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn y broses asesu</li> <li>• cafodd rhieni/gofalwyr a phobl arwyddocaol eraill ddigon o gyfle i fynegi eu barn</li> <li>• mae barn y plentyn neu'r person ifanc ac eraill yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn yr asesiad</li> </ul>	<p><b>bobl arwyddocaol eraill wrth geisio deall y ffactorau yn yr achos hwn?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd famu a yw ansawdd cyffredinol yr asesu yn y broses asesu yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwysu unrhyw anigonolrwydd. Felly, er y gallai fod diffygion efallai y bydd yr arolygydd yn gallu dod i'r casgliad bod yr asesiad hwn yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylai yna fod tystiolaeth bod y rheolwr achos wedi ceisio ymgysylltu â'r plentyn neu'r person ifanc yn y cam asesu - gall enghreifftiau o hyn gynnwys eu cyfweild yn y cartref; gofyn am hunanasesiad yn gynnar yn y broses, gan ddefnyddio cyfieithydd, cynnal asesiad o sgiliau sylfaenol, a chyfweild y plentyn neu'r person ifanc am gyfnodau priodol o amser yn dibynnu ar eu hoedran, aeddfedrwydd a dealltwriaeth ac unrhyw ffactorau perthnasol yn ymwneud ag amrywiaeth.</p> <p>Dylai tystiolaeth glir fod ar gael fod yr holl gyfathrebu gyda'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei wneud mewn modd sy'n briodol i'w hoedran, eu dealltwriaeth a'u dewis. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc anabl a'r rhai nad Saesneg neu Gymraeg yw eu dewis iaith neu lle mae problemau eraill gyda lleferydd / iaith / cyfathrebu.</p> <p>Efallai nad swyddfa'r TTI neu gartref y plentyn neu berson ifanc yw'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer cyfathrebu â nhw a dylai ymgynghori ac ystyriaeth fod yn amlwg o ran lle y dylai cyfarfodydd gael eu cynnal er mwyn iddynt fod mor gyfforddus â phosibl.</p> <p>Yn yr un modd, bydd asesiad yn fwy cywir os yw rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys ynddo. Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth bod y gweithiwr achos yn ceisio ymgysylltu â'r plentyn neu rieni/gofalwyr person ifanc ac unrhyw bobl eraill arwyddocaol. Dylai fod tystiolaeth bod y rheolwr achos wedi nodi'n gywir unrhyw rieni/gofalwyr a phobl eraill arwyddocaol, ac yna wedi ceisio cysylltu â nhw a'u cynnwys yn yr asesiad.</p> <p>Efallai y bydd tystiolaeth fod y gweithiwr TTI wedi gwneud galwadau ffôn i rieni/gofalwyr, cysylltu â nhw trwy lythyr neu gwblhau ymweliadau cartref. Gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal bydd angen i'r rheolwr achos nodi gofalwyr allweddol a cheisio eu cynnwys nhw yn y broses asesu.</p> <p>Yn yr un modd efallai y bydd yna deulu estynedig neu rwydwaith cymunedol arall y gallai'r gweithiwr TTI eu nodi ac yna eu defnyddio yn yr asesiad. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol lle mae anawsterau yn y berthynas rhwng y plentyn neu'r person ifanc a'r rhiant/gofalwr y maent yn byw gyda nhw.</p> <p>Yn achos Gorchmynion Cyfeirio, mae cael eu cynnwys yn yr asesiad hefyd yn cynnwys cael eu cynnwys wrth baratoi'r adroddiad. Dylai fod yna dystiolaeth fod y gweithiwr TTI wedi</p>
--	---	---

			sicrhau bod cynnwys yr adroddiad ar gyfer y Panel Troseddwy'r Ifanc wedi cael ei rannu gyda'r plentyn / person ifanc a'u rhieni/ ofalwyr ac yn cael ei ddeall ganddynt.
1.4.2	4.1.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.5.1		Mae hwn yn gwestiwn ffeithiol, nid barn. Mewn llawer o achosion bydd cyngor wedi cael ei roi i'r llys dedfrydu trwy gyfuniad o ddulliau. Dewiswch bob un sy'n berthnasol.	<p><b>Sut cafordd y llys dedfrydu ei gynghori am opsiynau dedfrydu ac anghenion y plentyn neu'r person ifanc?</b></p> <p>Mewn llawer o achosion bydd cyngor wedi cael ei roi i'r llys dedfrydu trwy gyfuniad o ddulliau. Felly os gwelwch yn dda nodwch bob dull a ddefnyddiwyd. Er enghraifft, os dedfrydwyd gan ddefnyddio adroddiad torri amodau ynghyd â diweddariad llafar yna ticiwch yr opsiynau "adroddiad torri amodau" a "diweddariad llafar".</p> <p>Pan ddefnyddir 'cofnod achos yn aneglur' esboniwch hyn yn y blwch esboniad yn 1.5.3; er enghraifft, os nad oes cofnod o ymgysylltu yn y llys, neu fod cofnodion yn cael eu cadw mewn manau eraill ac nad ydynt yn hygyrch i'r rheolwr achos.</p> <p>Pan fydd Gorchymyn Cyfeirio yn cael ei wneud yr unig ddulliau digonol o gynghori'r Llys fyddai Adroddiad Cyn Dedfrydu newydd (achosion ar drothwy carcharu), diweddariad llafar i'r Llys gan y TTI (ynghylch unrhyw ymyriadau blaenorol cyn y llys) neu dim gwybodaeth newydd wedi'i darparu - dylid egluro hyn yn y blwch testun.</p> <p>Nid yw Adroddiad Gorchymyn Cyfeirio (Adroddiad Panel Troseddwy'r Ifanc) yn PSR ac felly ni ddylid ei asesu felly, mae cwestiynau penodol yn ddiweddarach yn y cipolwg asesu i asesu Adroddiadau Gorchymynion Cyfeirio.</p>
1.5.2		<p>Dyma farn yr arolygydd.</p> <p><b>NID</b> yw'n gofyn a oedd canlyniad y dedfrydu yn briodol, <b>nac</b> a oedd PSR yn ddigon da. Y cyfan y mae'n ei wneud yw gofyn a yw'n ymddangos bod y dulliau a ddefnyddiwyd i roi cyngor i'r llys wedi bod y dulliau priodol i roi iddo'r cyngor yr oedd ei angen yng ngoleuni <i>priodoldeb ar gyfer amgylchiadau'r achos</i>.</p> <p>Gall barnau am ansawdd y gwaith gael eu cofnodi yn y cwestiwn nesaf neu, fel y bo'n briodol, yn y cwestiynau dilynol am Adroddiadau Cyn Dedfrydu.</p> <p>Noder: Mae hwn yn gwestiwn dros dro sy'n cael ei gynnwys er gwybodaeth nad yw'n cyfrannu at y barnau arolygu sy'n cael eu sgorio.</p>	<p><b>Yn eich barn chi a wnaeth y dull(iau) hyn roi cyngor digonol i'r llys wrth basio dedfryd?</b></p> <p>Noder: Mae hwn yn gwestiwn dros dro sy'n cael ei gynnwys er gwybodaeth nad yw'n cyfrannu at y barnau arolygu sy'n cael eu sgorio.</p> <p>Mae hwn yn gofyn a yw'n ymddangos bod y dulliau a ddefnyddiwyd i roi cyngor i'r llys wedi bod yn ddigonol i roi iddo'r cyngor a oedd ei angen yng ngoleuni <i>priodoldeb ar gyfer amgylchiadau'r achos</i>. NID yw'r cwestiwn hwn yn gofyn a oedd unrhyw adroddiad o ansawdd da (mae hyn yn cael ei gynnwys mewn cwestiwn dilynol) nac a oedd unrhyw adroddiad yn bodloni'r canllawiau penodol am fathau o adroddiad - <b>ond a oedd y dull o ddarparu cyngor i'r llys yn rhoi'r hyn yr oedd arno ei angen iddo yn unig.</b></p> <p>Cyn dedfrydu person ifanc i ddedfryd gymunedol neu ddedfryd o garchar bydd llysoedd fel arfer yn gofyn am adroddiad gan y TTI er mwyn eu helpu i benderfynu ar y ddedfryd fwyaf priodol. Er nad mater i'r llys yw penderfynu sut y maent am gael eu cynghori; os yw'r TTI yn ystyried y byddai dewis arall yn fwy addas ar gyfer anghenion yr achos, yna dylent geisio</p>

			<p>perswadio'r llys am hyn.</p> <p>Yn achos Gorchmynion Cyfeirio dylid dal i ofyn i'r TTI gynorthwyo'r llys - er enghraifft drwy roi cyngor ynghylch addasrwydd y plentyn neu'r person ar gyfer dedfryd o'r fath. Mae hyn yn debygol o gael ei wneud ar lafar. Efallai y bydd y llys yn gosod Gorchmyn Cyfeirio heb unrhyw ymgynghori gyda'r TTI lleol ond ni ystyrir bod hyn fel arfer yn dderbyniol. Mewn achosion lle mae'r ddalfa yn cael ei hystyried o ddirif dylid gofyn am adroddiad cyn dedfrydu ac yn yr amgylchiadau hyn mae'n arfer da i'r TTI gynnal paneli cyn dedfrydu er mwyn cynghori'r llys ynglŷn â chynnwys tebygol contract Gorchmyn Cyfeirio.</p> <p>Gall adroddiadau i'r Llys gael eu cyflwyno mewn nifer o ffurfiau fel y nodir isod.</p> <p>Adroddiad Cyn Dedfrydu - gyda neu heb atodiad  Adroddiad dedfryd benodol - dylai hwn asesu addasrwydd y person ifanc ar gyfer dedfryd benodol a nodir gan y Llys  Adroddiad sefyll i lawr - dylid ei gwblhau lle byddant yn hwyluso cwblhau achos yn brydlon  Adroddiad Torri Amod - lle mae risg y bydd y gorchmyn presennol yn cael ei ddirymu a'i ail-ddedfrydu dylai'r TTI roi dewisiadau dedfrydu eraill i'r llys .</p> <p>Dylai diweddariadau ar lafar i'r llys gael eu defnyddio i ychwanegu at unrhyw adroddiad arall a ddarperir i'r llys neu i roi gwybod i'r llys am wybodaeth ychwanegol sydd wedi dod i'r amlwg ers paratoi unrhyw adroddiad o'r fath. Dylai staff y TTI sy'n gweithio yn y llys fod â digon o wybodaeth am yr achosion ar restr y llys i'w galluogi i gynorthwyo'r llys hyd eithaf eu gallu. Gellid defnyddio diweddariadau ar lafar i roi gwybodaeth am ymateb person ifanc i orchmynion cyfredol.</p> <p>Wrth benderfynu a yw'r dull a ddefnyddiwyd i gynghori'r llys yn ddigonol ar gyfer anghenion yr achos sy'n cael ei arolygu dylai'r arolygydd ystyried a gafodd y llys ddigon o wybodaeth a dadansoddiad i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch dedfrydu.</p> <p>Fel hyn, mae'r tim troseddau ieuencid yn gwneud cyfraniad pwysig at y broses ddedfrydu, er mai'r llys sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros benderfynu ar y ddedfryd.</p>
1.5.3		<p>Mae adroddiadau ar gyfer y llysoedd yn bwysig wrth gynorthwyo llysoedd i benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o ddelio â phlentyn neu berson ifanc. Mae staff y TTI yn gyfrifol am baratoi adroddiadau ar gyfer y llysoedd.</p> <p>Ceir arweiniad penodol ynghylch pwrpas gwahanol fathau o adroddiad ac o dan ba</p>	<p><b>Yn benodol, a oedd unrhyw adroddiad ysgrifenedig a gynhyrchwyd o'r math priodol?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn - a ddefnyddir yn unig yn yr arolygiadau FJI hynny sy'n cynnwys ffocws penodol ar waith y llys - yn gofyn a wnaeth yr adroddiad fodloni'r canllawiau hynny yn ddigonol. Mae cwestiwn ar wahân (1.6.3) yn gofyn i chi asesu ansawdd unrhyw ACD (PSR) a ddarparwyd.</p> <p>Cyfrifoldeb y TTI yw cynorthwyo'r llys i benderfynu ar y dull mwyaf addas o ddelio gyda</p>

	<p>amgylchiadau y dylid eu defnyddio fel arfer. Gwelir hyn yn y canllawiau estynedig ar gyfer y cwestiwn hwn.</p> <p>Mae'r cwestiwn hwn - a ddefnyddir yn unig yn yr arolygiadau FJI hynny sy'n cynnwys ffocws penodol ar waith y llys - yn gofyn a wnaeth yr adroddiad fodloni'r canllawiau hynny yn ddigonol. Mae cwestiwn ar wahân (1.6.3) yn gofyn i chi asesu ansawdd unrhyw ACD (PSR) a ddarparwyd.</p>	<p>pherson ifanc sydd wedi troseddu. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, rhaid i'r gweithiwr TTI hefyd ystyried difrifoldeb y drosedd /troseddau, gan ystyried agweddau ar y drosedd sy'n ei gwneud yn fwy neu'n llai difrifol yn ogystal â ffactorau personol sy'n effeithio ar y difrifoldeb.</p> <p>Er yn wahanol o ran arddull, cynnwys a chynulleidfa, dylai adroddiadau ar gyfer y llysoedd bob amser fod yn seiliedig ar asesiad trylwyr o'r risgiau ac anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Dylai hyn gael ei wneud drwy ddefnyddio asesiadau Asset a ffynonellau gwybodaeth perthnasol eraill, gan gynnwys y 'datgeliad ymlaen llaw' yn ogystal GEG (CPS) ac asesiadau arbenigol a chofnodion achos. .</p> <p>Nid yw sicrhau bod adroddiadau ar gyfer y llysoedd yn seiliedig ar asesiad trylwyr o risgiau ac anghenion yn atal y defnydd o adroddiadau, atodiadau/diweddariadau i adroddiadau presennol neu adroddiadau sefyll i lawr/diwrnod dedfrydu (a ysgrifennwyd ar ddiwmod y gwrandawriad llys) lle mae digon o wybodaeth ar gael i'w galluogi i gael eu cwblhau. Mewn llawer o achosion, gyda digon o flaen gynllunio gan y TTI, dylid sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael i allu dedfrydu ar y diwrnod.</p> <p>Dylai adroddiadau fod o ansawdd uchel o ran cynnwys, strwythur ac arddull a dylent fod yn rhydd o unrhyw iaith a stereoteipiau gwahaniaethol. O fewn y system cyfiawnder ieuencid, mae yna sawl math o adroddiad y bydd gweithwyr TTI yn eu paratoi:</p> <p><b>Adroddiadau cyn dedfrydu</b> - rhaid cyflwyno adroddiad cyn dedfrydu ysgrifenedig ym <b>mhob</b> achos lle mae'r ddalfa yn cael ei hystyried (fel sy'n ofynnol gan adran 12, Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnffudo 2008) a gellir gofyn am un mewn unrhyw achos arall pan fo'r llys yn gofyn am hynny - er na ofynnid am PSR llawn fel rheol lle nad oedd dedfryd o garchar yn cael ei hystyried, a lle mae digon o wybodaeth ar gael ar y diwrnod, neu lle mae'r llys yn ystyried addasrwydd dedfryd ddi-garchar benodol yn unig. Gellir defnyddio adroddiad sy'n bodoli'n barod os yw'n dal yn gyfredol - hy yn seiliedig ar asesiad nad yw'n fwy na thri mis oed, mae'r troseddau o natur debyg ac na fu unrhyw newid arwyddocaol mewn amgylchiadau neu wybodaeth newydd ers hynny. Ar adegau gallai barnwr yn Llys y Goron ddedfrydu, gan gynnwys i'r ddalfa, heb ofyn am PSR - yn enwedig os yw'r achos hefyd yn cynnwys oedolion sy'n troseddu na ofynnir am Adroddiad Cyn Dedfrydu ar eu cyfer. Yn gyffredinol nid yw Arolygiaeth Prawf EM yn ystyried bod hyn yn arfer da, i blant a phobl ifanc.</p> <p>Gall adroddiadau cyfredol gael eu cyflwyno gydag atodiad os yw'r meini prawf uchod yn cael eu bodloni ond bod angen gwybodaeth ychwanegol gyfyngedig i gynorthwyo'r llys wrth ddedfrydu.</p> <p>Pan fydd gwybodaeth mewn adroddiadau cyn dedfrydu ar gyfer plant 14 oed ac iau yn dangos y gallent fod wedi profi cam-drin ac esgeulustod domestig dylai rheolwyr achos geisio caniatâd gan y llys i gasglu gwybodaeth bellach i sefydlu natur a graddfa'r cam-drin a'r esgeuluso fel y gall hyn gael ei gyflwyno i ddedfrydwyr i sicrhau eu bod wedi'u hysbysu'n</p>
--	---	--



llawn am amgylchiadau'r plentyn wrth wneud eu penderfyniadau dedfrydu.

**Adroddiad Dedfryd Benodol** - mae hwn yn adroddiad ysgrifenedig (y gellir ei gyflwyno ar lafar) a baratowyd gyda'r pwrpas o asesu addasrwydd y person ifanc ar gyfer dedfryd benodol a nodwyd gan y llys (ee Gorchymyn Gwneud lawn neu lle mae'r llys wedi nodi ei fod yn dymuno gosod YRO gydag un neu fwy o ofynion, fel Gofyniad Canolfan Ymbresenoli neu Ofyniad Gweithgaredd). Gall fod ar gael ar ddiwrnod y cais lle mae asesiad addas cyfredol ar gael. Fel arall gellir ei gynhyrchu o fewn pum diwrnod gwaith.

**Adroddiad Sefyll i Lawr neu Ddiwrnod Dedfrydu** - gall adroddiad gael ei baratoi hefyd ar sail sefyll i lawr ar ddiwrnod y ddedfryd (neu mewn eithriadau prin o fewn pum niwrnod gwaith) pan fo'r amodau canlynol yn bodoli:

- bydd yn hwyluso cwblhau achos yn brydlon, a
- lle mae *asesiad Asset* diweddar ar gael (a wnaed o fewn y tri mis diwethaf a lle na fu unrhyw newid sylweddol yn yr amgylchiadau) oni bai bod y llys yn ystyried cosb haen gyntaf ac eithrio Gorchymyn Gwneud lawn (hy lle mae'r llys yn ystyried rhyddhau neu ddirwy) a/neu lle mae adroddiadau perthnasol diweddar eraill ar gael.

Gellir gwneud adroddiadau Sefyll i Lawr/Diwrnod Dedfrydu yn ddefnyddiol hefyd pan fo'r llys yn aneglur p'un ai i roi cosb ariannol/rhyddhau, Gorchymyn Cyfeirio neu ail Orchymyn Cyfeirio, ond mae'n dymuno canfod barn y TTI cyn gwneud y penderfyniad hwn. Yn ogystal, gellir gwneud adroddiadau Sefyll i Lawr/Diwrnod Dedfrydu yn ddefnyddiol hefyd os yw'r llys yn tueddu i osod un neu fwy o ofynion penodol YRO (fel YRO gyda Gofyniad Canolfan Ymbresenoli neu YRO gyda Gofyniad Gwneud lawn, ac ati). Yn yr amgylchiadau hyn dylai'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad Sefyll i Lawr/Diwrnod Dedfrydu gael ei gyfyngu i gynorthwyo'r llys wrth ystyried yr opsiynau dedfrydu penodol a nodir neu sydd ar gael.

**Ni ddylid defnyddio** adroddiad Sefyll i Lawr/Diwrnod Dedfrydu lle mae'r ddaifa yn cael ei hystyried.

**Adroddiad Torri Amodau** - mae hwn yn darparu'r holl wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc yn cydymffurfio â'u dedfryd. Mae'n cynghori'r llys ynghylch manylion y torri amod, ymateb y plentyn neu'r person ifanc i oruchwyliaeth, asesiad diweddaraf o'r risg a chynghor ar sut mae'r TTI yn argymhell y dylai'r llys symud ymlaen. Lle mae posibilrwydd y bydd y ddedfryd bresennol yn cael ei dirymu a'i hail-ddedfrydu dylai'r adroddiad torri amodau roi dewisiadau dedfrydu amgen i'r llys neu, lle y bo'n briodol, ofyn am gwblhau PSR llawn.

**Diweddariad llafar** - gellir defnyddio hwn i ategu unrhyw adroddiad arall a ddarperir i'r llys, ac i roi gwybod i'r llys am wybodaeth ychwanegol sydd wedi dod i'r amlwg ers i adroddiad gael ei baratoi.

1.6.1	1.2.2	<p>Gallai hyn gynnwys yr Adroddiad Dedfryd Benodol neu atodiad i'r Adroddiad Cyn Dedfrydu a baratowyd yn flaenorol.</p> <p>Dylai arolygwyr nodi bod y cwestiwn hwn yn gofyn a <u>ofynnwyd</u> am adroddiad, nid a gafodd ei ddarparu mewn gwirionedd. Mae'n cael ei ddefnyddio yn unig i benderfynu a yw cwestiynau am yr adroddiad yn berthnasol i'r achos hwn.</p> <p>Dim ond adroddiadau ysgrifenedig sy'n cael eu hystyried at ddibenion y cwestiwn hwn - hy heb gynnwys diweddariadau llafar.</p>	<p><b>A ofynnwyd am adroddiad cyn dedfrydu ar gyfer y ddedfryd hon?</b></p> <p>Gallai hyn gynnwys yr Adroddiad Dedfryd Benodol neu atodiad i Adroddiad Cyn Dedfrydu a baratowyd yn flaenorol.</p> <p>Dylai arolygwyr nodi bod y cwestiwn hwn yn gofyn a <u>ofynnwyd</u> am adroddiad, nid a gafodd ei ddarparu mewn gwirionedd. Mae'n cael ei ddefnyddio yn unig i benderfynu a yw cwestiynau am yr adroddiad yn berthnasol i'r achos hwn.</p> <p>Dim ond adroddiadau ysgrifenedig sy'n cael eu hystyried at ddibenion y cwestiwn hwn - hy heb gynnwys diweddariadau llafar.</p>
1.6.2	1.2.2	<p>Bydd angen i'r arolygydd fod yn fodlon bod y tri pharth gwahanol sef risg o niwed, diogelu ac anghenion bregusrwydd a'r ddalfa wedi cael sylw digonol o fewn y PSR, a bod, ym marn yr arolygydd, y wybodaeth, y dadansoddi a'r casgliadau yn yr adroddiad yn gadarn ac yn gallu gwrthsefyll craffu beirniadol.</p>	<p><b>A oedd y PSR yn cynnwys:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) esboniad clir, trwyadl a digonol o <i>risg o niwed i eraill</i> a oedd yn berthnasol yn yr achos hwn</li> <li>b) esboniad clir, trwyadl a digonol o anghenion bregusrwydd a diogelu a oedd yn gymwys yn yr achos hwn</li> <li>c) <b>digon o sylw i effaith y ddalfa a dewisiadau eraill?</b></li> </ul> <p>Dylai'r arolygydd famu a yw ansawdd cyffredinol yr asesiad a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwysio unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gall fod diffygion efallai y bydd yr arolygydd yn gallu dod i'r casgliad bod y darn hwn o waith yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd fod yn fodlon bod yr adroddiad yn gwahaniaethu'n glir rhwng risg o niwed a materion diogelu, boed y rhain wedi eu hachosi naill ai trwy lwybrau troseddu neu lwybrau lles ac effaith bosibl y ddalfa. Dylai'r adroddiad gynnwys dadansoddiad cywir a phriodol, a datganiad clir a chywir o lefel y risg o niwed a bregusrwydd sy'n bodoli yn yr achos. Oni bai bod tystiolaeth fod yr <i>holl barthau</i> wedi eu seilio ar yr asesiad cywir, yna rhaid i'r cwestiwn hwn gael ei ateb fel NA</p> <p>Ar gyfer adroddiadau am achosion posibl o gadw pobl yn y ddalfa rhaid i'r PSR fod yn glir ynghylch y bregusrwydd sy'n berthnasol yn y ddalfa ac yn y gymuned.</p> <p>Mewn perthynas â'r asesiad risg o niwed o fewn y PSR, bydd angen i'r arolygydd lunio barn ynghylch a oes digon o sylw penodol yn cael ei roi i anghenion dioddefwyr sy'n agored i niwed. Gallai hyn gynnwys asesiad ychwanegol o anghenion dioddefwyr drwy swyddog cyswllt dioddefwyr neu drwy gysylltiad â gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr o'r tu allan i'r TTI.</p>

1.6.3	1.2.2	<p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda y mae'r adroddiad yn gwrthsefyll craffu mewn nifer o feysydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod yr adroddiad wedi'i baratoi ac ar gael i'r llinell amser y gofynnwyd amdani gan y Llys</li> <li>• bod asesiad cyfoes a chywir o'r tebygolrwydd o aildroseddu wedi ei ddefnyddio fel sail ar gyfer yr adroddiad</li> <li>• bod yr adroddiad yn ddigon dadansoddol a chytbwys, wedi'i wirio ac yn ffeithiol gywir</li> <li>• bod yr adroddiad yn ddigon cryno a bod gramadeg a sillafu yn foddhaol</li> <li>• <i>mae'r adroddiad yn cynnwys asesiad dadansoddol trylwyr o'r tebygolrwydd o aildroseddu, risg o niwed a bregusrwydd</i></li> <li>• <i>mae'r adroddiadau yn rhoi darlun clir a chywir o'r plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys lle y bo'n berthnasol, aeddfedrwydd a ffactorau eraill perthnasol yn ymwneud ag amrywiaeth neu ffactorau gwahaniaethol posibl</i></li> <li>• mae dangosyddion risg o niwed a bregusrwydd yn cael eu hasesu'n ddigonol ac yn cael sylw</li> <li>• mae'r defnydd o'r ddalfa a'i heffaith yn cael sylw digonol pan fydd y ddalfa yn ganlyniad posibl</li> <li>• mae'r adroddiad yn cynnwys cynnig clir a phriodol sy'n gymesur â difrifoldeb y drosedd.</li> </ul>	<p><b>Ar y cyfan, a gafodd adroddiad cyn-dedfrydu o ansawdd da ei ddarparu i'r llys?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd famu a yw ansawdd cyffredinol yr asesiad a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwysio unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gall fod diffygion gallai'r arolygydd ddod i'r casgliad bod y darn hwn o waith yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylai'r PSR gael ei baratoi gyda'r graddfeydd amser hyn wedi'u hysbysu gan y llys sy'n gofyn amdanynt ac i'r fformat gofynnol. Er nad yw safonau cenedlaethol mwyach yn rhagnodi ffurf yr adroddiad, byddai angen rheswm arbennig o gryf i ymwahanu oddi wrth y fformat cyffredin mewn achosion unigol, oni bai bod y TTI wedi cytuno ar fformat priodol arall gyda'r llys ieuencid lleol. Dylai'r PSR fod yn gytbwys, yn ffeithiol gywir a chyda ffynonellau gwybodaeth wedi'u dilysu.</p> <p>Dylai'r adroddiad fod yn seiliedig ar asesiad cyfredol, dadansoddol o'r tebygolrwydd o aildroseddu, risg o niwed i eraill ac anghenion diogelu'r plentyn neu'r person ifanc. Dylai fod tystiolaeth glir o'r rheolwr achos yn gwneud cysylltiadau cywir rhwng y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r tebygolrwydd parhaus o ail-droseddu, risg o niwed i eraill ac anghenion diogelu.</p> <p>Lle bynnag y bo'n berthnasol, dylai adroddiadau gynnwys asesiad trylwyr o iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol), camddefnyddio sylweddau ac anghenion ETE.</p> <p>Er bod cwestiwn ar wahân yn asesu'n benodol y sylw a roddir i amrywiaeth a ffactorau gwahaniaethol posibl mewn adroddiad, dylai'r rhain hefyd gael eu cynryddi i ystyriaeth wrth ateb y cwestiwn hwn, yn enwedig lle byddent yn cael effaith ar y casgliadau, neu'r cynnig neu waredu.</p> <p>Dylai llif yr adroddiad arwain yn rhesymegol at y casgliad a'r cynnig a ddylai fod yn ddigon cadarn i ennill hyder dedfrydwyr ac adlewyrchu difrifoldeb y drosedd/troseddau yng ngoleuni canllawiau dedfrydu. Mewn achosion priodol dylai'r cynnig gynnwys amodau i reoli neu leihau'r risg o niwed i eraill. Dylai ffactorau amrywiaeth gael eu hystyried a'u heffaith ar allu'r plentyn neu berson ifanc i gydymffurfio â'r ddedfryd arfaethedig wedi'i hesbonio'n glir.</p> <p>Dylai'r ymyriadau arfaethedig anelu at leihau troseddau pellach, gan gynnwys risg o niwed i eraill yn y dyfodol. Mae cynnig ymyriadau sy'n seiliedig ar asesiadau unigol o'r tebygolrwydd o aildroseddu a risg o niwed difrifol yn debygol o ymdrin â'r egwyddorion hyn.</p> <p>Mae canllawiau rheoli achosion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn nodi y dylai pob adroddiad</p>
-------	-------	--	--

			<p>a ddarperir i'r llys fod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gytbwys</li> <li>• Diduedd</li> <li>• Amserol</li> <li>• Gyda ffocws ac yn ddadansoddol</li> <li>• Yn rhydd o iaith wahaniaethol a stereoteipiau</li> <li>• Wedi'i ddilysu ac yn ffeithiol gywir</li> <li>• Yn ddealladwy i'r plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr</li> </ul> <p>Dylai canllawiau a ddarperir ar gyfer cwestiwn 1.6.2 gael eu cymryd i ystyriaeth hefyd wrth ateb y cwestiwn hwn.</p>
1.6.4	1.2.2	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.7.1	4.1.1	<p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda y gwnaeth y plentyn neu'r person ifanc a'r rhiant /gofalwr gymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r adroddiad ac yna llunio barn ynghylch a oedd hyn yn ddigonol ar gyfer anghenion yr achos. Mae meysydd i'r arolygydd eu hystyried yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a fyddai pwrpas a chynnwys yr adroddiad ar gyfartaledd yn ddealladwy i'r plentyn neu'r person ifanc, eu rhiant/gofalwr a phobl arwyddocaol eraill</li> <li>• a gymerwyd camau digonol i sicrhau <b>eu bod</b> yn deall yr adroddiad</li> <li>• a gafodd yr adroddiad ei ddarparu mewn da bryd i'r plentyn neu'r person ifanc a'r rhiant/gofalwr, fel y gallai unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt gael eu hateb cyn i'r adroddiad gael ei ddefnyddio gan y llys</li> <li>• pa mor dda y mae barn y plentyn neu'r person ifanc a'i riant /gofalwr a phobl arwyddocaol eraill yn cael ei hadlewyrchu yn yr adroddiad</li> </ul>	<p><b>A gafodd y plentyn neu'r person ifanc a'i riant /gofalwr eu cynnwys yn ddigonol yn y gwaith o ddatblygu'r adroddiad cyn-dedfrydu?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol yr asesiad a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwysio unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gallai fod diffygion gallai'r arolygydd ddod i'r casgliad bod y darn hwn o waith yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylai'r iaith a ddefnyddir yn yr adroddiad fod yn hawdd ei deall gan blentyn neu berson ifanc a'i riant/gofalwr a dylai fod tystiolaeth bod y plentyn neu'r person ifanc a'i riant/gofalwr wedi deall pwrpas yr adroddiad ac yn hanfodol ei gynnwys.</p> <p>Bydd yr adroddiad yn fwy manwl a chywir os yw rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys ynddo. Bydd arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth bod y gweithiwr achos yn ceisio ymgysylltu â rhieni/gofalwyr y plentyn neu'r person ifanc a phobl arwyddocaol eraill megis teulu estynedig neu gysylltiadau teuluol. Dylai fod tystiolaeth fod y rheolwr achos wedi nodi'n gywir unrhyw rieni/gofalwyr a phobl arwyddocaol eraill, ac yna wedi ceisio cysylltu â'r bobl berthnasol a'u cynnwys yn yr adroddiad. Efallai y bydd tystiolaeth o'r gweithiwr TTI yn gwneud galwadau ffôn i bartion perthnasol, gan gysylltu â nhw trwy lythyr neu gwblhau ymweliadau cartref. Gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal bydd angen i'r gweithiwr TTI adnabod gofalwyr allweddol a cheisio eu cynnwys ym mhroses yr adroddiad.</p> <p>Bydd yr arolygydd hefyd yn disgwyl canfod tystiolaeth bod copi o'r adroddiad wedi ei gynnig i'r plentyn neu'r person ifanc a'i riant/gofalwr cyn dyddiad y llys a bod hyn wedi cael ei wneud mewn modd oedd yn eu galluogi i wneud sylwadau ar yr adroddiad a sicrhau eu bod wedi ei ddeall fel bo angen. Ni fyddai dibyniaeth ar eraill, megis cyfreithwyr amddiffyn, i egluro'r adroddiad i'r plentyn neu'r person ifanc fel arfer yn cael ei ystyried yn ddigon o</p>

			<p>ymgysylltiad gan y TTI.</p> <p>Gallai dealltwriaeth gan y plentyn a'r person ifanc a'i riant/gofalwr o bwrpas yr adroddiad, a'i gynnwys (ee pam mae'r TTI wedi dweud yr hyn mae wedi'i ddweud) cyn iddo gael ei ddefnyddio yn y llys, fod yn werthfawr wrth helpu i roi dechrau da i ddedfryd, ac i ddatblygu perthynas waith gadarnhaol gyda'r rheolwr achos.</p>
1.7.2	4.1.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.8.1	4.1.2	<p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried i ba raddau y mae'r adroddiad yn rhoi digon o sylw i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau eraill i ymgysylltu. Yna, rhaid i'r arolygydd ffurfio barn ynghylch pa mor dda y mae hyn yn cael ei gyfleu i ddedfrydwyr o ran yr effaith bosibl ar y ddedfryd. Mae dangosyddion i'r arolygydd eu hystyried, fel y bo'n gymwys i'r achos penodol, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• lleferydd, iaith a chyfathrebu</li> <li>• oedran neu aeddfedrwydd</li> <li>• hil neu ethnigrwydd</li> <li>• merched neu fenywod ifanc</li> <li>• anabledd</li> <li>• ffactorau sy'n gysylltiedig â Phlant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>• pa mor dda y mae'r gweithiwr TTI wedi ymdrin ag unrhyw ffactorau gwirioneddol neu wahaniaethol eraill a allai weithredu fel rhwystr i ymgysylltu ac felly gael effaith ar y ddedfryd a gynigir yn yr adroddiad</li> </ul>	<p><b>A wnaeth yr adroddiad cyn-dedfrydu roi sylw digonol i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd famu a yw ansawdd cyffredinol yr asesiad a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gallai fod diffygion gallai'r arolygydd ddod i'r casgliad bod y darn hwn o waith yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Sylwch mai bwriad yr holl gwestiynau sy'n ymwneud ag amrywiaeth yw cael gwybodaeth am ddwy elfen: yn gyntaf, y grwpiau cydnabyddedig o blant a phobl ifanc sy'n gallu wynebu gwahaniaethu oherwydd hil/ethnigrwydd, diwylliant, crefydd, anabledd, rhywioldeb, oedran, rhyw, statws gofal. Mae'r ail elfen yn ehangach a gall gynnwys ystod o ffactorau a allai fod yn rhwystr i ymgysylltu ee plant a phobl ifanc sy'n ofalwyr eu hunain, rheini ifanc, materion yn ymwneud â natur wledig, rhai gydag anawsterau llythrennedd/iaith.</p> <p>Rhaid rhoi ystyriaeth nid yn unig i nodi amrywiaeth a rhwystrau posibl i ymgysylltu yn yr adroddiad, ond yn hanfodol i ba mor dda y mae hyn wedi cael ei egluro gan gyfeirio at unrhyw effaith ar y ddedfryd dan y cynnig a gallu'r plentyn neu'r person ifanc i gydymffurfio.</p> <p>I'w cynnwys yn ddigonol yn natblygiad y PSR dylai fod tystiolaeth bod anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc a'i riant/gofalwr wedi cael eu hystyried a, lle nodir hynny, y gweithredwyd arnynt er mwyn lleihau a lle bo'n bosibl cael gwared ar rwystrau i ymgysylltiad.</p>
1.8.2	4.1.2	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.9.1	1.5.1	Nid yw'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag a gafodd 'blychau eu ticio' o ran prosesau porthgadw, ond yn hytrach mae'n ymwneud ag oedd y TTI yn effeithiol o ran cael y canlyniad cywir - hynny yw - a gafodd PSR digon da ei gynhyrchu. Os yw'r PSR yn ddigon da, ond nid yn arbennig efallai y bydd yr arolygydd yn dymuno ystyried hyn yn	<p><b>A oedd trefniadau rheoli lleol yn effeithiol o ran sicrhau ansawdd yr adroddiad?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd chwilio am dystiolaeth o oruchwylio rheolaethol a sicrhau ansawdd Adroddiadau Cyn Dedfrydu. Gallai hyn fod drwy gofnodion dyddiaduron achos, ffurflenni porthgadw neu recordiadau eraill.</p> <p>Os yw'r adroddiad yn amlwg o ansawdd da ac mae tystiolaeth o gyfranogiad rheolwyr yn ei sicrhwydd, yna dylai'r cwestiwn hwn gael ei ateb fel OEDD.</p>

		<p>ddigonol <u>os</u> oes tystiolaeth o newid yn dilyn ymyrraeth rheoli / goruchwyllo.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd fod yn ymwybodol o'r dangosyddion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod y cyfranogiad rheoli/goruchwyllo gofynnol wedi digwydd</li> <li>• mae'r adroddiad, fel y bo'n briodol i anghenion yr achos, wedi cael ei drafod gyda rheolwr/goruchwylwr</li> <li>• mae adroddiadau yn cael eu harwyddo'n derfynol gan reolwr/goruchwylwr wrth gyrraedd lefel ddigonol yn unig</li> <li>• lle mae gwelliannau gofynnol wedi cael eu nodi gan reolwr/goruchwylwr mae'r newidiadau wedi digwydd</li> </ul>	<p>Fel arall dylai'r arolygydd fod yn fodlon - lle y nodir eu bod yn angenrheidiol - bod newidiadau a diwygiadau i'r adroddiad wedi cael eu dilyn a bod fersiwn terfynol yr adroddiad yn bodloni'r dangosyddion ansawdd yn ddigonol.</p> <p>Os oedd yr adroddiad o safon annigonol yna drwy oblygiad nid oedd y trefniadau rheoli yn effeithiol yn yr achos hwn.</p> <p>Dylai'r broses sicrhau ansawdd allu gwrthsefyll ymchwiliad cadarn a chael ei gwneud gan reolwr neu oruchwylwr gyda medr a phrofiad addas.</p>
1.9.2	1.5.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.9.3		<p><b>Noder: Mae hwn yn gwestiwn dros dro sy'n cael ei gynnwys er gwybodaeth nad yw'n cyfrannu at y barnau arolygu sy'n cael eu sgorio ar FJI</b></p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda y mae'r adroddiad yn gwrthsefyll craffu mewn nifer o feysydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cafodd yr adroddiad ei baratoi ac roedd ar gael i'r Panel o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn i'r Panel gyfarfod</li> <li>• defnyddiwyd asesiad cyfredol a chywir o'r tebygolrwydd o ailroseddu fel sail ar gyfer yr adroddiad</li> <li>• roedd yr adroddiad yn ddigon dadansodol a chytbwys, wedi'i ddilysu ac yn ffeithiol gywir</li> <li>• roedd yr adroddiad yn ddigon cryno a'r gramadeg a'r sillafu yn foddhaol</li> <li>• mae'r dangosyddion risg o niwed a</li> </ul>	<p><b>Ar y cyfan, a ddarparwyd adroddiad o ansawdd da i'r panel troseddwr ifanc?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyfredinol yr adroddiad a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwysio unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gallai fod diffygion gallai'r arolygydd ddod i'r casgliad bod y darn hwn o waith yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Prif ddiben yr adroddiad yw rhoi digon o wybodaeth i'r panel am y plentyn neu'r person ifanc a'u hamgylchiadau i'w cefnogi i gytuno ar gontract gorchymyn cyfeirio priodol gyda'r plentyn neu'r person ifanc a, lle bo hynny'n briodol, eu rhieni/gofalwyr. Pan fydd awdur yr adroddiad wedi ystyried ei bod yn briodol gwneud argymhellion penodol am gynnwys y contract i'r panel troseddwr ifanc, yna, er bod canllawiau a gyhoeddwyd yn dangos nad yw hyn fel arfer yn briodol, gallai'r arolygydd ddod i'r casgliad ei bod yn briodol gwneud hynny yn yr achos arbennig. Beth bynnag, trwy ansawdd y dadansoddi neu fel arall, dylai'r adroddiad ei gwneud yn eglur pa ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu yw'r blaenoriaethau i weithio arnynt.</p> <p>Dylai'r adroddiad fod yn seiliedig ar asesiad ASSET, unrhyw ddatgeliad ymlaen llaw gan y CPS, asesiad o ddymuniadau'r dioddefwr ynglyn â gwneud iawn ac ymyriadau cyfiawnder adferol, asesiad o ganlyniadau'r drosedd a gwybodaeth o ffynonellau perthnasol eraill megis cofnodion achos TTI, asesiadau arbenigol a gwybodaeth gan asiantaethau eraill. Dylai fod tystiolaeth glir o'r rheolwr achos yn gwneud cysylltiadau cywir rhwng y dystiolaeth a</p>

		<p>breguswydd yn cael eu hasesu yn ddigonol ac yn cael sylw</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae canllawiau'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid yn nodi na ddylai'r adroddiad yn gyffredinol wneud argymhellion penodol ynglyn â chynnwys y contract ond yn hytrach dylai ddarparu gwybodaeth am yr ystod o gyfleoedd i wneud iawn ac ymyrraeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac y gellir eu cynnwys yn y contract ar gyfer unrhyw achos penodol.</li> </ul>	<p>gyflwynwyd a'r tebygolrwydd parhaus o ail-droseddu, risg o niwed i eraill ac anghenion diogelu.</p> <p>Dylai'r adroddiad gynnwys yn llawn unrhyw arsylwadau cynghori a wneir gan y llys dedfrydu ynglyn â meysydd pryder yr oedd gofyn i'r panel eu hystyried.</p> <p>Dylai'r ffactorau cadarnhaol a'r ffactorau risg allweddol a nodwyd yn yr ASSET gael eu hamlygu fel y gellir rhoi sylw i'r rhain yn y rhaglen o ymyriadau i'w cynnwys yn y contract.</p> <p>Efallai y bydd yn dangos y math o wneud iawn sydd fwyaf priodol yn unol â dymuniadau'r dioddefwr.</p> <p>Dylai adroddiad y panel hefyd ddangos yn glir y lefel o ymyriadau a argymhellir ar gyfer yr elfennau ailsefydlu yn y contract yn unol â'r Dull Graddedig.</p> <p>Dylai'r adroddiad fod yn gytbwys, yn ddiduedd, yn canolbwyntio ac yn ddadansoddol, yn rhydd o iaith wahaniaethol neu stereoteipiau, wedi'i ddilysu ac yn ffeithiol gywir ac yn ddealladwy i'r person ifanc a'r rhiant/gofalwr.</p> <p>Mewn achosion priodol dylai'r adroddiad ystyried ymyriadau i reoli neu leihau'r risg o niwed i eraill. Dylai ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu gael eu hystyried a'u heffaith ar y plentyn neu ar allu person ifanc i gydymffurfio â ac elwa o'r ddedfryd wedi'u hesbonio'n glir.</p>
1.9.4		Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.10.1	2.2.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r asesiad cyfan o risg o niwed yn cynnwys y sgrinio a, lle bo angen, asesiad llawn. Er mwyn bod yn ddigonol rhaid i'r ddwy agwedd (lle bo angen) fod yn ddigon da.</p> <p>Pe bai'r angen am asesiad llawn yn cael ei nodi ond heb ei gwblhau, dylid ateb y cwestiwn hwn fel NADDO oni bai bod digon o dystiolaeth yn cael ei rhoi a'i chytuno gan reolwr/goruchwyliwr i gefnogi hyn fel penderfyniad amddiffynadwy sy'n goruchafu ac sy'n briodol i amgylchiadau'r achos.</p> <p>A yw'r rheolwr achos wedi caffael, tynnu at ei gilydd a dadansoddi'r holl wybodaeth berthnasol er mwyn deall y risgiau i bobl eraill a berir gan y</p>	<p><b>A wnaed digon o ymdrech i ddeall ac esbonio'r risg o niwed i eraill a achosir gan y plentyn neu'r person ifanc?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol yr asesiad a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwyso unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gallai fod diffygion efallai y bydd yr arolygydd yn gallu dod i'r casgliad bod yr asesiad hwn yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Wrth benderfynu a yw'r asesiad o risg o niwed yn ddigonol dylai'r arolygydd ystyried y dangosyddion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>mae asesiad o risg o niwed wedi cael ei gwblhau gan ddefnyddio offeryn neu offer cytunedig</li> <li>mae sgriniad risg o niwed wedi cael ei gwblhau i safon ddigonol ac yn amserol i anghenion yr achos</li> </ul>

	<p>person ifanc hwn yn ddigonol? e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Niwed gwirioneddol a achoswyd</li> <li>• Niwed posibl</li> <li>• Ymddygiad sy'n gysylltiedig â niwed blaenorol</li> <li>• Unrhyw wybodaeth ynghylch cysylltiad â gang</li> <li>• Peryglon o fod mewn sefyllfa arbennig, ee y ddalfa a'r gymuned</li> </ul> <p>Os felly, a yw hyn wedi arwain at gasgliadau clir ac amddiffynadwy sy'n gywir ac yn glir i unrhyw bobl eraill a allai fod angen gwybod amdanynt?</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• mae asesiad risg o niwed llawn wedi ei gwblhau, lle bo angen, i safon ddigonol ac mae'n amserol i anghenion yr achos</li> <li>• mae natur (math) y risg yn glir ac mae lefel y risg o niwed yn glir, gan gynnwys dosbarthiad cywir</li> <li>• mae troseddau perthnasol ac ymddygiadau perthnasol wedi cael eu hystyried yn llawn</li> <li>• rhoddwyd digon o ystyriaeth i ddiodefwyr gwirioneddol a phosibl</li> <li>• mae'r categorïau a'r lefelau MAPPA yn gywir</li> <li>• lle mae hynny'n angenrheidiol tynnwyd yn ddigonol ar wybodaeth o asiantaethau eraill yn yr asesiad</li> <li>• mae'r asesiad yn cydnabod ehangder a natur gymhleth y risg o niwed</li> <li>• mewn achosion lle cedwir rhywun yn y ddalfa mae'r asesiad yn ymdrin â'r cyfnod yn y carchar a'r cyfnod cymunedol</li> <li>• lle bo angen, gwnaed asesiadau arbenigol yn ymwneud â Risg o Niwed ac maent wedi eu cynnwys yn yr asesiad cyffredinol</li> </ul> <p>Dylai'r asesiad gael ei gwblhau ac ar y system mewn ffurf sy'n amlwg yn gyflawn cyn y pwynt lle mae'r adolygiad cyntaf i fod i gael ei wneud a beth bynnag mewn modd amserol i anghenion yr achos. Felly, mewn achos lle gwelir risg i ddiodefwyr a nodwyd, byddai'r arolygydd yn disgwyl gweld asesiad risg brys. Yn yr un modd mewn achos lle nad oedd ond ychydig yn hysbys o'r blaen am y plentyn neu'r person ifanc ac nad yw'r mynegai trosedd yn dangos materion yn ymwneud â risg o niwed dylai'r arolygydd gymryd barn resymol ynghylch amseroldeb asesiadau risg o niwed.</p> <p>Er mwyn tybio bod y sgriniad risg o niwed yn gyflawn, dylai fod yn amlwg bod ymgais resymol wedi ei gwneud i ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau ac nad oes unrhyw fylchau allweddol.</p> <p>Mae'r un safonau yn berthnasol i gwblhau'r sgriniad risg o niwed o ran gweddill yr asesiad cychwynnol - gweler y canllawiau yn 1.1.1</p> <p>Dylai fod tystiolaeth glir o sut y ffurfiodd y rheolwr achos ei asesiad a bod hyn yn seiliedig ar ffynonellau gwybodaeth priodol gan gynnwys barn y plentyn neu'r person ifanc a'r rhiant (rhieni)/gofalwr(wyr), pobl arwyddocaol eraill ac asiantaethau eraill ac asesiadau blaenorol fel y bo'n briodol. Bydd yr arolygydd yn anelu at ddod o hyd i dystiolaeth o sut y daeth y gweithiwr at ei asesiad ac a yw hyn yn gwneud synnwyr yn narlun cyffredinol y plentyn neu'r person ifanc. Yn benodol, bydd angen i'r arolygydd fod yn fodlon bod yr asesiad o risg o niwed yn tynnu ar safbwyntiau ac asesiadau asiantaethau eraill gan gynnwys y rhai a wnaed</p>
--	---	--



yn flaenorol gan yr heddlu, carchardai, gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, addysg, iechyd (gan gynnwys iechyd emosïynol neu iechyd meddwl ac iechyd corfforol) ac eraill.

Yn ogystal, dylai fod tystiolaeth bod asiantaethau perthnasol wedi rhannu gwybodaeth a gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod risg o niwed yn cael ei asesu'n gynhwysfawr.

Ar gyfer dedfrydau o garchar, rhaid i'r asesiad cychwynnol o risg o niwed i eraill fod wedi ei gwblhau cyn dedfrydu a'i anfon ymlaen at yr ystâd ddiogel.

Dylai'r wybodaeth a nodir yn y sgriniad risg o niwed ac asesiad risg o niwed llawn yn ymwneud ag ymddygiad cyfredol ac yn y gorffennol fod yn gynhwysfawr, yn gywir a, lle bo hynny'n berthnasol, dylai dyfarniadau gael eu gwneud. Felly, dylai pob trosedd berthnasol gael eu dadansoddi a dylai'r ffynonellau gwybodaeth gael eu cofnodi'n gywir, ee yn seiliedig ar Wasanaeth Erllyn y Goron, deunydd gan y dioddefwyr a gwybodaeth gan y gwasanaethau plant.

Dylai barnau, megis unrhyw bryderon am 'dargedu dioddefwyr' a 'pham eu bod wedi gwneud hynny', gael eu cefnogi gan dystiolaeth.

Mewn rhai achosion, gallai gwybodaeth am ymddygiad/troseddu yn y gorffennol fod yn gyfyngedig. Yn yr achosion hyn dylai fod tystiolaeth bod y rheolwr achos wedi gwneud ymdrechion i gasglu cymaint o dystiolaeth â phosibl am ymddygiad/troseddu blaenorol ac wedi cymharu hyn â'r hyn sy'n wybyddus am yr ymddygiad/troseddu presennol ac wedi asesu unrhyw gysylltiadau posibl.

Rydym yn chwilio am lefel uchel o risg o ymwybyddiaeth o niwed yn yr asesiad ac am dystiolaeth bod y rheolwr achos wedi dangos ymwybyddiaeth o natur gymhleth y risg o niwed. Felly mae meysydd allweddol i chwilio amdanynt yn cynnwys:

- asesiad o holl agweddau ymddygiad niweidiol ac ymddygiad a allai fod yn niweidiol y troseddwr - bydd hyn yn cynnwys yr holl niwed ac nid dim ond yr hyn sy'n cyd-fynd â'r diffiniad o niwed difrifol.
- mae cymhelliant a/neu fwriad wedi cael ei ystyried mewn perthynas ag ymddygiad niweidiol posibl yn y gorffennol/ presennol
- mae ffactorau statig a deinamig sy'n ymwneud â risg o niwed wedi cael sylw. Mewn perthynas â ffactorau deinamig dylai fod yn glir a yw'r rhain yn rhai cronig neu aciwt
- mae'r asesiad yn dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd asesu'r cyd-destun y mae ymddygiad niweidiol wedi digwydd neu y gallai ddigwydd ynddo
- mae profiadau perthnasol dioddefwyr wedi cael eu cymryd i ystyriaeth. Er enghraifft, mewn troseddau a waethygir gan hil, mewn troseddau yn erbyn plant a phobl ifanc, mewn troseddau yn erbyn dioddefwyr sy'n agored i niwed, ac mewn achosion lle mae dioddefwyr yn dioddef fwy nag unwaith
- efallai na fydd plentyn neu berson ifanc wedi setlo i mewn i batrwm rheolaidd o

			<p>ymddygiad felly mae'n bwysig rhoi ystyriaeth i ddigwyddiadau sy'n ymddangos fel rhai fydd yn digwydd unwaith yn unig.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae unrhyw batrymau sy'n dod i'r amlwg o ymddygiad sy'n gysylltiedig â niwed yn ddangosyddion allweddol o'r tebygolrwydd o ymddygiad niweidiol yn y dyfodol. Os bu digwyddiadau rheolaidd neu fynych o fath penodol o ymddygiad cysylltiedig â niwed bydd hyn yn gyffredinol yn arwydd o risg uwch na digwyddiadau ynysig neu achlysurol.</li> <li>• dylai cwblhau asesiad risg o niwed llawn gynnwys ystyried unrhyw ffactorau amrywiaeth perthnasol sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc.</li> </ul> <p>Lle mae darnau o wybodaeth ar goll, dylai fod tystiolaeth glir o ran sut y mae'r rheolwr achos yn bwriadu canfod y wybodaeth.</p> <p>Lle mae'r sgriniad (o dan Asset) wedi dilyn Canllawiau'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid (ac felly yn ymwneud â niwed difrifol) rhaid rhoi canmoliaeth am atebion cywir. Gallai hyn olygu nad oes angen asesiad risg o niwed llawn o fewn y canllawiau. Rhaid i'r arolygydd wneud dyfarniad yma ynghylch a yw'r ymarferydd wedi cymhwyso'r system ddsbarthu yr oedd yn ei dilyn ar adeg yr asesiad yn briodol. Cyn belled â bod yr atebion a'r dystiolaeth yn cefnogi hyn, ni ellir cosbi ymarferydd am ddefnyddio'r meini prawf 'niwed difrifol' fel y diffinnir hynny gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid, <u>cyn belled â bod asesiad digonol o risg o niwed wedi ei gynnal a'i gofnodi mewn man addas</u>. Noder: O dan AssetPlus bydd y BCI yn disgwyl i bob ymddygiad sy'n gysylltiedig â niwed gael eu hystyried, gan ystyried difrifoldeb yntod y dadansoddiad terfynol ac unwaith y bydd yr asesiad wedi'i gwblhau yn unig. Felly ni fydd eu canllaw blaenorol yn berthnasol mwyach.</p> <p>Gallai ffactorau amrywiaeth ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc a'r dioddefwr neu ddioddefwyr posibl a chysylltu'n uniongyrchol â materion risg o niwed. Mae angen i'r rheolwr achos fod wedi meddwl am yr hyn sy'n gwneud i'r unigolyn hwn beri risg o niwed i eraill ac ym mha ffordd y mae ffactorau amrywiaeth yn cyfrannu at hyn. Dylai unrhyw nodweddion a rennir gan ddioddefwyr a allai awgrymu targedu penodol gael eu nodi.</p> <p>Pwysigrwydd tynnu ar asesiadau eraill yw y gall gwybodaeth/dyfarniadau o ffynonellau eraill fod yn hanfodol i gywirdeb yr asesu. Er enghraifft, gallai gwybodaeth a roddwyd gan yr heddlu, er enghraifft trwy MAPPA, nodi dioddefwyr oedd yn anhysbys yn flaenorol, gallai gwybodaeth gan y gwasanaethau plant adnabod ymddygiad niweidiol blaenorol tuag at blant a phobl ifanc eraill a gallai asesiadau addysgol ddarparu tystiolaeth ynghylch ymddygiad y plentyn neu berson ifanc o fewn addysg. Gellid defnyddio gwybodaeth a gafwyd gan ddioddefwyr i nodi, er enghraifft, unrhyw elfennau rhyfedd o ymddygiad neu dargedu dioddefwyr penodol.</p> <p>Mae'r TTI yn gyfrifol am nodi pa rai o'i achosion sy'n rhai cymwys ar gyfer MAPPA. Dylai'r</p>
--	--	--	--

			<p>wybodaeth hon gael ei chofnodi ar y system rheoli achosion. Os bydd y TTI wedi cofnodi'r achos fel achos MAPPA ond nad yw'n bodloni'r meini prawf rhwch fanylion am hyn yng nghwestiwn 1.20. Mae canllawiau manwl MAPPA ar gael yng nghwestiwn 12 yn y rhan sy'n rhoi Ciplwng ar Fanylion ar y ffurflen hon.</p> <p>Lle gwneir asesiad arbenigol (ee AIM, ERASOR, SAVRY) dylai canlyniad y rhain gael ei gynnwys a'i gofnodi'n glir yn yr asesiad risg o niwed cyffredinol. Dylai'r arolygydd allu adolygu'r asesiadau hyn. Os oedd angen asesiad arbenigol yn ymwneud â Risg o Niwed, ond na chafodd ei wneud, mae'n debygol y bydd yr arolygydd yn sgorio'r cwestiwn hwn fel Annigonol.</p>
1.10.2	2.2.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.13.1	3.2.1	<p>Dylid ystyried bregusrwydd yn gyfannol. Yn benodol mae'n llawer ehangach nag amddiffyn plant ac mae'n cynnwys pob maes lle y gallai'r plentyn neu berson ifanc fod mewn risg o niwed neu lle mae eu lles mewn perygl. Gall hyn fod o ganlyniad i'w hymddygiad eu hunain, boed yn gysylltiedig â throseddau neu beidio ac a oes bwriad bwriadol i wneud niwed iddynt neu beidio, yn ogystal ag unrhyw risg a gyflwynir iddynt gan eraill.</p> <p>A yw'r rheolwr achos wedi caffael, tynnu at ei gilydd a dadansoddi'r holl wybodaeth berthnasol er mwyn deall yn ddigonol y ffactorau diogelu a bregusrwydd sydd ynghlwm wrth y plentyn neu'r person ifanc hwn. e.e</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Niwed gan eraill</li> <li>Niwed i'r hunan (gan gynnwys niwed bwriadol ac unrhyw niwed posibl sy'n gysylltiedig â, er enghraifft, ffordd o fyw neu gamddefnyddio sylweddau)</li> <li>Bod yn agored i niwed o ran Camfanteisio ar Blant yn rhywiol neu Gamfanteisio arall</li> <li>Unrhyw wybodaeth ynghylch cysylltiad â gang</li> <li>Risgiau o ran sefyllfaoedd, ee y ddalfa a'r</li> </ul>	<p>A wnaed digon o ymdrech i ddeall ac egluro'r anghenion o ran bod yn agored i niwed ac anghenion Diogelu a oedd yn gymwys yn yr achos hwn?</p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol yr asesiad a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gallai fod diffygion efallai y bydd yr arolygydd yn gallu dod i'r casgliad bod yr asesiad hwn yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Wrth benderfynu a yw'r asesiad o fod yn agored i niwed yn ddigonol dylai'r arolygydd ystyried y dangosyddion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>mae'r asesiad yn amserol i weddu i anghenion yr achos</li> <li>mae Asset (a lle bo'n briodol y Fframwaith Asesu Cyffredin [CAF]) yn ffurfio asgwrn cefn yr asesiad</li> <li>mae dull ymchwiliol wedi ei ddefnyddio gan y gweithiwr TTI, sydd wedi mynd y tu hwnt i wiriadau cychwynnol gyda'r gwasanaethau plant</li> <li>cafodd amrywiaeth o ffynonellau eu defnyddio i ymchwilio i feysydd pryder (ee darparwr addysg, arbenigwr iechyd, uned trais domestig)</li> <li>mae'r asesiad yn glir ynghylch union natur y pryderon ynghylch bod yn agored i niwed</li> <li>mae ffactorau cadarnhaol ac amddiffynnol wedi cael eu hystyried</li> <li>mewn achosion o gadw yn y ddalfa mae'r asesiad cychwynnol o ddiogelu a bregusrwydd wedi'u cwblhau cyn dedfrydu</li> <li>ni ddylai trothwyon uchel mewn gwasanaethau eraill ystumio'r asesiad o anghenion diogelu a bregusrwydd</li> <li>dylai asesiadau arbenigol gael eu gwneud lle bo angen</li> </ul>

	<p>gymuned</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Risg o niwed i'r hunan a allai ddeillio o ymddygiadau tramgwyddus penodol (ee cario neu ddefnyddio arfau, neu'r tebygolrwydd o ddial)</li> </ul> <p>Os felly, a yw hyn wedi arwain at gasgliadau clir ac amddiffynadwy sy'n gywir ac yn glir i unrhyw bobl eraill a allai fod angen eu gwybod?</p>	<p>Mae plant neu bobl ifanc sydd wedi troseddu yn fwy agored i niwed, a bydd camau gweithredu i ymdrin â hyn yn aml yn cael eu cynllunio o fewn cyd-destun ymdrin ag aildroseddu. Felly, nid yw ymddygiad troseddol ynddo'i hun yn peri i'r asesiad o fod yn agored i niwed gael ei godi'n uwch nag Isel yn awtomatig. Ond gallai fod yna agweddau arbennig ar yr ymddygiad tramgwyddus (ee byrbwylltra, cario cyllell, camddefnyddio sylweddau, anghenion iechyd, a ffactorau amrywiaeth perthnasol) a ddylai gael effaith ar yr asesiad o fod yn agored i niwed a chael eu trin o fewn hynny.</p> <p>Lle mae dangosyddion bod yn agored i niwed wedi cael eu nodi yn yr asesiad craidd dylid eu tynnu drwodd a'u hystyried o fewn y sgrinio am fod yn agored i niwed (Asset), fel bod yr asesiad yn cyflwyno dadansoddiad cyflawn a chydlynol o'r sefyllfa. Nid yw diffyg offeryn asesiad llawn yn Asset, tebyg i'r asesiad Risg o Niwed Difrifol, yn cyfiawnhau diffyg asesiad trylwyr o fod yn agored i niwed mewn achosion unigol, lle bo hyn yn ofynnol.</p> <p>Dylai fod tystiolaeth glir o sut y gwnaeth y rheolwr achos ffurfio ei asesiad a dylai hyn fod yn seiliedig ar ffynonellau gwybodaeth priodol gan gynnwys barn y plentyn neu'r person ifanc a'r rhiant (rhieni)/ gofalwr(wyr), pobl arwyddocaol eraill ac asiantaethau eraill ac asesiadau blaenorol fel y bo'n briodol. Bydd yr arolygydd yn ceisio dod o hyd i dystiolaeth o sut y daeth y gweithiwr at ei asesiad ac a yw hyn yn gwneud synnwyr yn y darlun cyffredinol o'r plentyn neu'r person ifanc. Yn ogystal, dylai fod tystiolaeth bod asiantaethau perthnasol wedi rhannu gwybodaeth a gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod anghenion ynghylch bod yn agored i niwed ac anghenion diogelu yn cael eu hasesu'n gynhwysfawr. Dylai'r rheolwr achos fod wedi bod yn rhagweithiol wrth wirio a yw gwybodaeth yn cael ei chadw gan asiantaethau perthnasol eraill - a allai, yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, gynnwys unrhyw rai o'r asiantaethau y mae'r TTI yn gysylltiedig â hwy.</p> <p>Mae'r canlynol yn rhai enghreifftiau o'r hyn a allai fod yn ddangosyddion o fod yn agored i niwed ac sydd angen eu hystyried yn yr asesiad, ond nid yw'n rhestr gynhwysfawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• iechyd emosïynol/meddyliol, ee iselder, hunan-niweidio, materion yn ymwneud ag ymlyniad, meddyliau am hunanladdiad</li> <li>• bod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal</li> <li>• bod yn destun ymchwiliadau Diogelu Plant</li> <li>• mewn achosion lle cedwir rhywun yn y ddalfa mae'r asesiad yn glir ynghylch bod yn agored i niwed yn y ddalfa ac yn y gymuned</li> <li>• ffactorau amgylcheddol, ee tai annigonol, yr ardal y maent yn byw ynddi</li> <li>• ymddygiad y rheini, ee anghenion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, rhianta anghyson</li> <li>• ymddygiad pobl eraill, ee bwlio, cam-drin, esgeulustod, brawychu, ymelwa ar bobl eraill</li> <li>• digwyddiadau neu amgylchiadau, ee gwahanu oddi wrth y teulu, profedigaeth, newid trefniadau gofal</li> <li>• bod yn ofalwr ifanc, ar gyfer eu plentyn eu hunain neu ar gyfer aelodau eraill o'r</li> </ul>
--	--	---

			<p>teulu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• eu hymddygiad eu hunain, ee camddefnyddio sylweddau, y math o droseddu, actio, ymatebion amhriodol i straen, cario arf</li> <li>• ymddygiad di-hid arall sy'n dangos ystyriaeth annigonol i'w diogelwch eu hunain</li> </ul> <p>Dylai cwestiynau yn y sgriniad (Asset) sy'n ymwneud â chadw yn y ddalfa gael eu hateb hyd yn oed os nad yw'r ddalfa yn cael ei hystyried ar unwaith fel dewis o ran dedfrydu. Mae yna bosibilrwydd y gallai troseddau newydd arwain at fynd i'r ddalfa cyn i'r asesiad gael ei ddiweddarau ac felly mae'r cwestiynau hyn yn hanfodol i sicrhau bod materion diogelu yn cael eu sylwi ar unwaith ac y gweithredir yn eu cylch.</p> <p>Mae Arolygiaeth Prawf EM yn ystyried yn ystod y cyfnod a dreulir dan glo mewn dedfryd, y dylai asesiad gael ei wneud fel pe gallai'r plentyn neu berson ifanc gael ei ryddhau i'r gymuned ar unrhyw adeg, fel na cholli'r golwg fyth ar yr anghenion hyn, a'u bod hefyd yn adlewyrchu'r anghenion yn ystod y cyfnod o garchar.</p> <p>Yn Asset dylid rhoi sgôr cyffredinol i'r adran hon yn amrywio o '4 - uchel iawn' i '1 - isel'. <u>Nodwch fod canllawiau Asset yn ei gwneud yn glir nad yw '0' (dim) yn sgôr dderbyniol.</u></p> <p>Os oes gan blentyn neu berson ifanc ystod eang o ffactorau bregusrwydd, mae hyn hefyd yn debygol o arwain at gynydd yn lefel eu bregusrwydd.</p> <p>Mae nodi ffactorau amddiffynnol a chadarnhaol yn hanfodol i asesu anghenion bregusrwydd a diogelu. Gallai ffactorau gwarchodol gynnwys cysylltiad gyda darpariaeth gymunedol/y trydydd sector (ee mentora, ymyrraeth ynghylch camddefnyddio sylweddau neu gymorth i ofalwr ifanc), defnyddio cymorth i deuluoedd estynedig, dychwelyd at strwythur cefnogol megis ail-ymgysylltu ag addysg neu ddarpariaeth iechyd, neu welliannau mewn rhianta.</p> <p>Lle mae anghenion diogelu wedi cael eu nodi gan y TTI dylai fod tystiolaeth glir, mewn achosion perthnasol, o'r modd y mae asesiad y TTI yn tynnu ar ac yn cael ei integreiddio ag asesiadau asiantaethau eraill sydd yn ymwneud â neu efallai a ddylai fod yn ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc.</p> <p>Lle y dylai'r TTI fod wedi gwneud trefniadau i asesiadau arbenigol eraill fod wedi digwydd, ac nid yw hyn wedi digwydd - er enghraifft, asesiad camddefnyddio sylweddau, problemau emosiynol neu iechyd meddwl neu asesiad iechyd corfforol lle mae hyn yn effeithio ar anghenion diogelu a bregusrwydd, yna mae'n debygol y bydd y cwestiwn hwn yn cael ei sgorio fel Annigonol.</p>
1.13.1.2	3.2.1	Mae'r cwestiwn hwn yn cael ei ddefnyddio i hysbysu gwaith yr arolygwyr gofal iechyd, Addysg a Gofal plant yn ystod ail wythnos gwaith maes	Dylai'r arolygydd fod yn fodlon fod cysylltiad wedi ei wneud gydag asiantaethau perthnasol lle mae'r asesiad cychwynnol yn awgrymu y gall y bu neu y dylai fod wedi bod cysylltiad ymlaen llaw gyda'r plentyn neu'r person ifanc.

		<p>arolygiad FJI. Dylai'r arolygydd fod wedi cymryd yr agweddau hyn i ystyriaeth eisoes yn eu barn gyffredinol ynghylch yr asesiad o fregusrwydd a Diogelu. Nid yw hwn yn gwestiwn sy'n sgorio.</p>	<p>Dylid rhoi sylw digonol i'r ffactorau hyn ym mhob asesiad. Fodd bynnag, mae, yn ogystal, ofynion penodol ar gyfer cyswllt ag asiantaethau eraill.</p> <p>Dylid gwirio bob amser gyda'r darparwr addysg a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol plant. Dylai fod tystiolaeth bod cysylltiad wedi ei wneud gyda hwy a dylid gwneud cofnod o unrhyw wybodaeth berthnasol a dderbyniwyd oddi wrthynt.</p> <p>Lle nad oes angen wedi ei nodi am i wasanaeth arbennig gael ei ddefnyddio, a bod yr agwedd hon ar yr asesiad yn ddigonol, dylai'r arolygydd sgorio hyn fel ymateb cadarnhaol hy gwnaed asesiad digonol</p> <p>Ar y llaw arall os bydd yr arolygydd yn barnu y dylid bod wedi cysylltu gydag asiantaeth benodol ac na wnaed hynny, yna mae'n rhaid i hyn gael ei sgorio fel annigonol yng nghydestun anghenion y plentyn neu'r person ifanc.</p> <p>Er enghraifft, os nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc unrhyw anghenion iechyd meddwl sydd angen eu trin neu eu hymchwilio gan y TTI a, hyd eithaf gwybodaeth y Rheolwr Achos, nad yw'r plentyn neu'r person ifanc erioed wedi defnyddio gwasanaeth iechyd meddwl, yna nid oes angen i'r ymarferydd fod wedi cysylltu â'r ffynhonnell hon.</p> <p>Fodd bynnag, os oedd angen asesiad arbenigol, er enghraifft, yn dilyn sgriniad cychwynnol, ac nad yw hyn wedi cael ei wneud, yna dylai'r ffactor gael ei sgorio fel annigonol.</p>
1.13.2	3.2.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.13.3	3.2.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	<p>Lle na ofynnwyd am asesiadau arbenigol gofynnol neu lle na chawsant eu cynnal nodwch bob un sy'n berthnasol.</p> <p>Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20</p>
1.14.1		<p>Rhaid i'r arolygydd asesu a yw'r achos yn cyrraedd, neu'n debygol o gyrraedd y trothwy ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd. Fel arfer, bydd hyn yn golygu naill ai bod y TTI (YOT) neu bartner lleol wedi nodi hyn fel achos CSE, mae ymchwiladau ar y gweill i weld a yw hyn yn achos CSE; neu ym marn yr arolygydd dylai fod wedi cael ei gydnabod fel achos CSE neu dylai ymchwiladau perthnasol fod wedi eu gwneud.</p> <p>I gael <b>diffiniad o Gamfanteisio'n Rhywiol ar</b></p>	<p><b>Ym marn yr arolygydd a oedd camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE), neu'r angen i gynnal ymchwiladau CSE, yn bresennol yn yr achos hwn (yn ymwneud â'r plentyn hwn neu berson ifanc) ar unrhyw adeg?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn i fod i helpu Arolygiaeth Prawf EM i fonitro cwmpas CSE o fewn Tîmau Troseddau Ieuencid. Dylai hefyd helpu'r arolygydd i ffocysu eu barn, yn enwedig o ran asesu a chynllunio ar gyfer bregusrwydd a diogelu.</p> <p><b>Pryd bynnag y bydd arolygydd yn ateb y cwestiwn hwn gydag 'Oedd' dylai ystyried yn ofalus a oes digon o gamau gweithredu yn cael eu cymryd i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc, ac os ddim, yna rhaid iddynt ystyried gweithredu trefn Gweithredu a Rhybuddio Prawf AEM. Mae hyn yr un mor gymwys pan, o'r wybodaeth sydd ar gael, mae'r arolygydd o'r farn bod CSE posibl wedi ei nodi mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc arall ar wahân i'r un sy'n destun yr</b></p>

	<p><b>Blant</b>, gweler y canllawiau estynedig.</p> <p>Wrth asesu a yw plentyn neu berson ifanc yn, neu mewn perygl o fod, yn ddiodefwr cam-fanteisio rhywiol <b>dylid rhoi ystyriaeth ofalus hefyd i fater caniatâd</b> ac a ydynt yn gallu rhoi hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau estynedig. Ond y mae'n golygu bod CSE o bosibl yn fater amddiffyn plant hyd at 18 oed</p> <p>Rhaid gwneud asesiad o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 ym mhob achos lle mae cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, neu'r tebygolrwydd ohono, yn cael ei amau. Rhaid i'r awdurdod lleol, iechyd a phartneriaid eraill ddilyn y broses a amlinellir yn y <i>Fframwaith ar gyfer asesu plant mewn angen a'u teuluoedd</i>.</p> <p><b>Pryd bynnag y bydd arolygydd yn ateb y cwestiwn hwn gydag 'Ie' dylai ystyried yn ofalus a oes digon o gamau gweithredu yn cael eu cymryd i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc, ac os ddim, yna rhaid iddynt ystyried gweithredu trefn Rhybudd Prawf AEM.</b></p> <p><b>Mae hyn yr un mor gymwys pan, o'r wybodaeth sydd ar gael, mae'r arolygydd o'r farn bod CSE posibl wedi ei nodi mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc arall ar wahân i'r un sy'n destun yr achos a'r cwestiwn hwn, oni bai bod digon o wybodaeth fod hyn wedi cael ei nodi a'i fod yn cael ei drin gan asiantaethau perthnasol.</b></p> <p>Mewn unrhyw achos lle mae CSE wedi cael ei nodi dylai'r manylion gael eu crynhoi yn C1.20.</p>	<p><b>achos a'r cwestiwn hwn, oni bai bod digon o wybodaeth glir fod hyn wedi cael ei nodi a'i fod yn cael ei drin gan asiantaethau perthnasol.</b></p> <p>Rhaid i'r arolygydd asesu a yw'r achos yn cyrraedd, neu'n debygol o gyrraedd y trothwy ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd. Fel arfer, bydd hyn yn golygu naill ai bod y TTI (YOT) neu bartner lleol wedi nodi hyn fel achos CSE, mae ymchwiliadau ar y gweill i weld a yw hwn yn achos CSE; neu ym marn yr arolygydd dylai fod wedi cael ei gydnabod fel achos CSE neu fod ymchwiliadau perthnasol wedi eu cynnal.</p> <p><b><u>Beth yw ystyr CSE?</u></b> Mae "camfanteisio'n rhywiol ar blant a phobl ifanc o dan 18 yn cynnwys sefyllfaoedd, cyd-destunau a pherthnasoedd <b>lle gellir cam-fanteisio, lle mae plant neu bobl ifanc (neu drydydd person neu bersonau) yn derbyn 'rhywbeth' (ee bwyd, llety, cyffuriau, alcohol, sigarêts, serch, rhoddion, arian) o ganlyniad i'r ffaith eu bod nhw'n perfformio gweithgareddau rhywiol, a/neu fod un arall neu rai eraill yn perfformio gweithgareddau rhywiol arny'n nhw.</b> Gall camfanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd drwy ddefnyddio technoleg heb i'r plentyn sylweddoli hynny ar unwaith; er enghraifft, drwy gael eu perswadio i bostio delweddau rhywiol ar y Rhyngwyd/ffonau symudol heb dâl neu fantais ar unwaith. Ym mhob achos, mae gan y rhai sy'n manteisio ar y plentyn/person ifanc <b>bŵer drostynt yn rhinwedd eu hoedran, rhyw, deallusrwydd, cryfder corfforol a/neu adnoddau economaidd neu eraill.</b> Mae trais, gorfodaeth a brawychu yn gyffredin, gyda chymryd rhan mewn perthnasoedd camfanteisio yn cael eu nodweddu'n bennaf gan brinder dewis ar gael i'r plentyn neu'r person ifanc yn deillio o'u bregusrwydd cymdeithasol/economaidd a/neu emosiynol." <i>Ffynhonnell: Yr Adran Addysg 2012.</i></p> <p><b><u>Rhestr wirio nodweddiadol awdurdod lleol ynghylch Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)</u></b> Mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio'r dangosyddion isod, neu restr wirio debyg, i lywio eu Hasesiadau Risg CSE.</p> <p><b>"Mae'r dangosyddion hyn yn ganllaw ac nid ydynt yn cymryd lle rhai eraill, ond dylent gynorthwyo swyddogion i arfer barn broffesiynol.</b></p> <p><b>1. Dangosyddion Lefel Is - un neu fwy o ddangosyddion wedi'u nodi:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dod adref yn hwyr yn rheolaidd neu'n mynd ar goll</li> <li>• Gwisg rywioledig agored</li> <li>• Cymryd risgiau rywioledig gan gynnwys ar y Rhyngwyd</li> <li>• Arian neu nwyddau heb gyfrif amdano</li> <li>• Cysylltu gydag oedolion anhysbys</li> <li>• Cysylltu â phobl ifanc eraill sydd mewn perygl o, neu yn destun camfanteisio'n rhywiol ar blant</li> </ul>
--	---	---

			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llai o gysylltiad â theulu a ffrindiau a rhwydweithiau cefnogi eraill</li> <li>• Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol</li> <li>• Arbrofi gyda chyffuriau a/neu alcohol</li> <li>• Hunan ddelwedd wael</li> <li>• Anhwylderau bwyta</li> <li>• Hunan-niweidio arwynebol</li> </ul> <p><b>2. Dangosyddion Lefel Canolig - unrhyw un o'r uchod ac un neu fwy o'r dangosyddion hyn:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynd i mewn i geir gydag oedolyn anhysbys</li> <li>• Cysylltu gydag oedolion CSE hysbys</li> <li>• Cael eu grŵmio ar y rhyngwrwyd</li> <li>• Clipio (cynnig cael rhyw am arian neu daliad arall ac yna rhedeg cyn i ryw ddigwydd)</li> <li>• Datgelu ymosodiad corfforol heb unrhyw dystiolaeth gadarnhaol i warantu ymchwiliad Adran 47, ac yna gwrthod gwneud cwyn neu dynnu cwyn yn ôl</li> <li>• Cael eu gweld mewn mannau poblogaidd ar gyfer CSE (hy tai, meysydd recriwtio)</li> <li>• Bod â chariad hŷn</li> <li>• Absenoldeb o'r ysgol neu gael eu heithrio oherwydd eu hymddygiad</li> <li>• Aros allan dros nos heb unrhyw esboniad</li> <li>• Lleoliadau preswyl yn chwalu oherwydd ymddygiad</li> <li>• Arian neu nwyddau na roddwyd cyfrif amdanynt gan gynnwys ffonau symudol, cyffuriau ac alcohol</li> <li>• Heintiau Lluosog a Drosglwyddwyd yn Rhywiol</li> <li>• Hunan-niweidio sy'n gofyn am driniaeth feddygol</li> <li>• Aildroseddu</li> <li>• Aelod o gang neu gyswllt â gang</li> </ul> <p><b>3. Dangosyddion Lefel Uchel - unrhyw un o'r uchod ac UN neu fwy o'r dangosyddion hyn:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Plentyn dan 13 yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol gydag un arall dros 15 oed</li> <li>• Patrwm o ddigartrefedd ar y stryd ac aros gydag oedolyn y credir ei fod yn cam-fanteisio yn rhywiol arnynt</li> <li>• Plentyn dan 16 yn cyfarfod gwahanol oedolion a chyfnewid neu werthu gweithgarwch rhywiol</li> <li>• Symudwyd o ardal 'golau coch' adnabyddus gan weithwyr proffesiynol oherwydd amheuaeth o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant</li> <li>• Cael eu cymryd i glybiau a gwestai gan oedolion a chymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol</li> <li>• Rhoi gwybod am ymosodiad rhywiol difrifol, ac yna tynnu datganiad yn ôl</li> <li>• Cipio a charcharu gorfodol</li> </ul>
--	--	--	---



- Cael eu symud o gwmpas am weithgarwch rhywiol
- Diflannu o'r 'system' heb unrhyw gyswilt neu gymorth
- Cael ei brynu / gwerthu / masnachu
- Erthyladau naturiol neu derfyniadau lluosog
- Dangosyddion o CSE ynghyd â defnydd cronig o alcohol a chyffuriau
- Dangosyddion CSE ochr yn ochr â hunan-niweidio difrifol
- Derbyn gwobrau o arian neu nwyddau am recriwtio cyfoedion i mewn i CSE

Argymhellir pryd bynnag y bydd plentyn neu berson ifanc yn ymddangos gydag **Un Dangosydd Lefel Uchel** y dylid gweithredu. Po gynharaf yr ymyriad y gorau fydd y siawns o lwyddo."

**Rhestr wirio CSE a Gangiau:** Cafodd y rhestrau amgen canlynol o arwyddion rhybudd a gwendidau mewn perthynas â cham-fanteisio ar blant yn rhywiol a Gangiau eu nodi yn Atodiad 3 (fel rhan o'r fframwaith *SeeMe HearMe*) gan ymchwiliad Swyddfa'r Comisiynydd Plant *If only someone had listened Ffynhonnell: OCC Tachwedd 2013,*

"Mae'r canlynol yn arwyddion o **fregusrwydd nodweddiadol mewn plant cyn eu cam-drin.**

- Byw mewn cartref anhrefnus neu gamweithredol (gan gynnwys rhieni yn defnyddio sylweddau, trais yn y cartref, problemau iechyd meddwl gan y rhieni, troseddoldeb rhieni)
- Hanes o gam-drin (yn cynnwys cam-drin plant yn rhywiol yn y teulu, perygl o briodas dan orfod, risg o drais ar sail anrhydedd, cam-drin corfforol ac emosiynol ac esgeulustod)
- Profedigaeth neu golled ddiweddar.
- Cymdeithas â gangiau naill ai trwy berthnasau, cyfoedion neu berthnasau agos (mewn achosion o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn gysylltiedig â gangiau yn unig).
- Mynd i'r ysgol gyda phlant a phobl ifanc y cam-fanteisir yn rhywiol arnynt yn barod.
- Anabledau dysgu.
- Ansicr am eu cyfeiriadedd rhywiol neu yn methu â datgelu cyfeiriadedd rhywiol i'w teuluoedd.
- Ffrindiau gyda phobl ifanc y cam-fanteisir yn rhywiol arnynt
- Digartref.
- Diffyg ffrindiau o'r un grŵp oedran.
- Byw mewn cymdogaeth gangiau.
- Byw mewn gofal preswyl.
- Byw mewn hostel, llety gwely a brecwast neu gyntedd.
- Hunan-barch neu hunanhyder isel.
- Gofalwr ifanc.

Mae'r arwyddion a'r ymddygiad canlynol yn cael eu gweld yn gyffredinol mewn plant **sydd eisoes yn rhai y cam-fanteisir yn rhywiol arnynt.**

- Ar goll o gartref neu ofal.
- Anafiadau corfforol.
- Camddefnyddio alcohol neu gyffuriau.
- Cymryd rhan mewn troseddu.
- Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol droeon, beichiogrwydd a therfyniadau.
- Absennol o'r ysgol.
- Newid o ran ymddangosiad corfforol.
- Tystiolaeth o fwlio rhywiol a/neu fregusrwydd drwy'r rhyngwrwd a /neu safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.
- Wedi ymddieithrio oddi wrth eu teulu.
- Derbyn rhoddion o ffynonellau anhysbys.
- Recriwtio pobl eraill i sefyllfaoedd camfanteisiol.
- Iechyd meddwl gwael.
- Hunan-niwed.
- Meddyliau ynghylch neu ymgais i gyflawni hunanladdiad.

Fel arfer, dylai unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n arddangos nifer o wendidau o'r rhestrau uchod gael eu hystyried i fod mewn perygl mawr o gam-fanteisio'n rhywiol arnynt.

Dylai fod tystiolaeth bod y gweithiwr achos a'r TTI wedi ymchwilio i benderfynu ar y risg, ac wedi cymryd camau ataliol ac amddiffynnol yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi y gall plant a phobl ifanc heb wendidau oedd eisoes yn bodoli ddal i gael pobl yn camfanteisio'n rhywiol arnynt. Felly, dylai unrhyw blentyn neu berson ifanc sy'n dangos dangosyddion risg yn yr ail restr, ond dim un o'r gwendidau yn y gyntaf, gael eu hystyried hefyd fel dioddefwr posibl, gydag asesiad a chamau priodol wedi eu rhoi ar waith yn ôl yr angen."

**Caniatâd:** Mae'n bwysig cofio:

- nad yw plentyn o dan 13 oed yn alluog yn gyfreithiol i gydsynio i ryw (trais statudol yw hyn) nac unrhyw fath arall o gyffwrdd yn rhywiol;
- mae gweithgarwch rhywiol gyda phlentyn o dan 16 oed yn drosedd hefyd;
- mae'n drosedd i berson gael perthynas rywiol gyda pherson ifanc 16 neu 17 oed os ydynt yn dal swydd o ymddiriedaeth neu awdurdod mewn perthynas â hwy;
- lle nad yw gweithgaredd rhywiol gyda rhywun 16 neu 17 oed yn arwain at gyflawni trosedd, efallai y bydd yn dal i arwain at niwed, neu'r tebygolrwydd y bydd niwed yn cael ei ddioddef;
- mae rhyw heb fod yn gydsyniol yn drais beth bynnag yw oedran y dioddefwr; ac os yw'r dioddefwr yn analluog oherwydd diod neu gyffuriau, neu fod y dioddefwr neu ei deulu wedi bod yn destun trais neu fygythiad ohono, ni ellir eu hystyried i fod wedi

			<p>rhoi gwir ganiatâd ac felly gallai troseddau fod wedi eu cyflawni</p> <p><b>I gael arweiniad pellach</b> darllenwch: <i>Working with children and young people who experience running away and child sexual exploitation: An evidence-based guide for practitioners. Barnardo's. (2013)</i></p>
1.15.1	1.2	Darllenwch y canllawiau estynedig	<p><b>Modiwl ymyriadau yn unig: A yw addasrwydd a chymhwyster y plentyn neu'r person ifanc am ymyriadau penodol i ymdrin ag aildroseddu wedi'u hystyried yn ddigonol?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i chi benderfynu a yw'r rheolwr achos wedi asesu anghenion y person ifanc yn gywir a bod yr ymyriad a gynlluniwyd yn diwallu'r anghenion hynny. Rhaid i chi benderfynu a oes asesiad cywir o addasrwydd ar gyfer yr ymyriad penodol hwnnw wedi cael ei wneud.</p> <p>Gall llawer o faterion effeithio ar addasrwydd ymyriad, er enghraifft, gallai amser a lleoliad yr ymyriad fod yn amhriodol, ym marn yr arolygydd, er gwaethaf y ffaith bod yr ymyrraeth a gynlluniwyd yn bodloni angen a aseswyd.</p> <p>Felly, wrth lunio eich barn, dylech ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- A yw'r ymyrraeth yn digwydd ar amser priodol ac mewn lleoliad priodol?</li> <li>- A yw'r dull o gyflenwi yn addas ar gyfer arddull dysgu pobl ifanc?</li> <li>- A oes yna unrhyw faterion yn ymwneud ag amrywiaeth, ee rhyw, sy'n gwneud yr ymyrraeth yn amhriodol neu'n anodd i'r person ifanc ei ddefnyddio?</li> <li>- A yw lefel y dos yn briodol ar gyfer lefel y risg a berir?</li> <li>- A yw presenoldeb mewn ymyriad yn cynyddu'r risg a berir gan neu i berson ifanc?</li> </ul> <p>Gellir disgrifio arfer effeithiol fel un sy'n seiliedig ar dair egwyddor</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- risg - yn gyffredinol po uchaf y tebygolrwydd o aildroseddu y mwyaf dwys ac estynedig ddylai'r rhaglen goruchwyllo fod</li> <li>- angen - mae ymyriadau/gofynion sy'n targedu anghenion yn ymwneud â throeddu yn debygol o fod yn fwy effeithiol</li> <li>- ymatebolrwydd - mae ymyriadau/gofynion, sy'n cyd-fynd ag arddulliau dysgu'r plentyn neu berson ifanc ac yn eu cynnwys, yn debygol o fod yn fwy effeithiol.</li> </ul> <p>Dylai'r arolygydd fod yn argyhoeddedig fod yr egwyddorion hyn wedi cael eu cadw wrth asesu addasrwydd ymyriadau.</p>
1.15.2	1.2	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.16.1	1.2.1	Bydd angen i'r arolygydd fod yn fodlon, drwy gydol y ddedfryd sy'n cael ei harolygu, bod adolygiadau o'r asesiad tebygolrwydd o aildroseddu wedi cael eu cynnal yn ôl yr angen,	<p><b>A oedd digon o adolygu drwy gydol y ddedfryd ar y rhesymau dros droseddu a beth a allai leihau hyn?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol yr adolygiad(au) a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwysu unrhyw</p>

	<p>ac wedi cael eu cwblhau mewn modd amserol i safon ddigonol.</p> <p>Mae dangosyddion i'w hystyried gan yr arolygydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cafodd adolygiadau o'r asesiad o'r tebygolrwydd o aildroseddu eu gwneud yn rheolaidd yn ôl y gofyn</li> <li>• roedd adolygiadau yn amserol ac o ansawdd digonol</li> <li>• cafodd adolygiad o'r asesiad ei gynnal yn syth ar ôl dedfryd pan oedd angen (gweler y canllawiau manwl)</li> <li>• roedd adolygiadau yn ystod cyfnod yn y ddalfa'r ddedfryd yn ddigonol</li> <li>• mewn achosion o gadw rhywun yn y ddalfa gwnaed adolygiad digonol wrth ryddhau'r person i'r gymuned</li> </ul>	<p>annigonolrwydd. Felly, er y gallai fod diffygion gallai'r arolygydd ddod i'r casgliad bod y darn hwn o waith yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylai asesiadau o'r tebygolrwydd o aildroseddu gael eu hadolygu yn feiriadol ac yn ddadansoddol, yn unol ag anghenion yr achos.</p> <p>Noda Safonau Cenedlaethol 2013 4.4 y dylai asesiadau gael eu cynnal o dan adolygiad parhaus a'u diweddarau yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau, risgiau ac anghenion.</p> <p>Fel isafswm, mae Safonau Cenedlaethol 2013 4.5 yn datgan y dylid gwneud adolygiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ar uchafswm o bob 6 mis, neu</li> <li>• lle, ym marn y rheolwr achos, mae unrhyw newidiadau a nodir ym mywyd y person ifanc mor bwysig fel bod angen diwygiad, neu</li> <li>• cyn gwneud unrhyw benderfyniad i amrywio lefelau o gyswilt yn unol â'r model ymagwedd raddedig, ac</li> <li>• ar ddiwedd goruchwyliaeth y TTI fel rhan o'r broses o gau'r achos.</li> </ul> <p>Noda Safonau Cenedlaethol 2013 9.31 y dylai achosion o gadw pobl yn y ddalfa gael eu hadolygu yn unol â'r uchod.</p> <p>Mae Arolygiaeth Prawf EM yn ystyried y dylai newid sylweddol sbarduno adolygiad o'r asesiad tebygolrwydd o aildroseddu y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol. Lle mae'r cofnodion achos yn annigonol i'r arolygydd lunio barn ynghylch a oes newid sylweddol wedi digwydd, dylai gofyniad y Safon Cenedlaethol gael ei ddefnyddio fel meincnod.</p> <p>Mae enghreifftiau o newid sylweddol yn sbarduno adolygiad o'r asesiad yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi bod 'allan o gysylltiad' gyda'r rheolwr achos am gyfnod o amser, ee yn ystod cyfnod o golli apwyntiadau yn arwain at weithredu i ymdrin â thorri amodau</li> <li>• mae'r plentyn neu'r person ifanc yn aildechrau defnyddio alcohol yn ormodol neu yn dychwelyd at ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon</li> <li>• mae'r plentyn neu'r person ifanc yn symud allan o lety sefydlog</li> <li>• mae ffordd o fyw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynd yn anhrefnus ac nid ydynt yn llwyddo i ymgysylltu â gwasanaethau cefnogi</li> <li>• mae'r plentyn neu'r person ifanc yn cael dedfryd newydd sydd ynddi'i hun yn gweithredu fel newid sylweddol. Yr unig eithriad i hyn fyddai lle mae plentyn neu berson ifanc wedi derbyn nifer o YROs tebyg am droseddau tebyg mewn cyfnod byr ac na fu unrhyw newid arwyddocaol arall iddynt a fyddai fel arall yn gofyn am adolygiad o'r asesiad</li> <li>• tystiolaeth o ymddygiad troseddol pellach</li> <li>• cudd-wybodaeth arall yn awgrymu newidiadau i'r tebygolrwydd o aildroseddu</li> </ul>
--	--	---

			<p>Dylai rheolwyr achos allu rhagweld a nodi a oes ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag ymddygiad a/neu droseddu blaenorol yn ailymddangos, er enghraifft, colli llety sefydlog neu ddychwelyd i ddefnyddio sylweddau. Fel arall, gallai fod achosion lle nad oes unrhyw ddangosyddion blaenorol ond mae ymddygiad yn awgrymu rhywfaint o bryder, fel cysylltu â phobl y gwyddys sy'n troseddu neu fod â chredoau cyn troseddu neu gredoau gwrthgymdeithasol. Dylai hyn eto sbarduno ystyried adolygiad o'r asesiad.</p> <p>Er mwyn sgorio'r cwestiwn hwn fel OEDD dylai ansawdd yr asesiad(au) a adolygwyd fod yn ddigonol - cyfeiriwch at ganllawiau a roddir yn 1.13 .1. Rhaid i adolygiad sydd yn ddim ond dynwarediad o asesiad blaenorol gael ei feirniadu gan yr arolygydd fel annigonol.</p>
1.16.2	1.2.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.17.1	2.2.1	<p>Bydd angen i'r arolygydd ffurfio barn <u>drwy gydol y ddedfryd dan ystyriaeth</u> bod adolygiad digonol wedi ei wneud o'r asesiad o risg o niwed. Bydd angen i'r arolygydd ystyried nifer o ddangosyddion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwnaed adolygiadau o'r asesiad o risg o niwed yn rheolaidd yn ôl yr angen</li> <li>• roedd adolygiadau yn amserol ac o ansawdd digonol</li> <li>• gwnaed adolygiad o'r asesiad yn syth ar ôl dedfryd pan oedd angen</li> <li>• roedd adolygiadau yn y ddalfa yn ddigonol</li> <li>• gwnaed adolygiad digonol ar ôl rhyddhau person i'r gymuned</li> <li>• cynhaliwyd adolygiadau yn dilyn unrhyw newid arwyddocaol perthnasol arall.</li> </ul> <p>Er mwyn cydnabod yn llawn yr angen am adolygiadau bydd angen i'r gweithiwr TTI (ac unrhyw weithiwr arall sy'n gysylltiedig) fod â dealltwriaeth ddigonol o natur y gwaith ynghylch risg o niwed.</p>	<p><b>A oedd adolygiad digonol drwy gydol y ddedfryd o'r risg o niwed i eraill a achosid gan y plentyn neu'r person ifanc hwn?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd famu a yw ansawdd cyffredinol yr asesiad a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gallai fod diffygion gallai'r arolygydd ddod i'r casgliad bod y darn hwn o waith yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gyfnderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Mae'n rhaid i'r arolygydd benderfynu a yw'r perygl o niwed wedi cael ei adolygu ac a yw hyn wedi cael ei wneud yn ddigon da ar gyfer yr amgylchiadau'r achos.</p> <p>Mae'r safonau cenedlaethol isaf ar gyfer adolygiadau o risg o niwed yr un fath ag ar gyfer tebygolrwydd o aildroseddu (gweler cwestiwn 1.16.1 neu Safon Genedlaethol 2012 4.5).</p> <p>Mae enghreifftiau o sbardunau am adolygiad yn dilyn newid sylweddol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwybodaeth newydd neu ddiwygiedig, gan gynnwys cudd-wybodaeth yr heddlu ac unrhyw adborth perthnasol drwy gyswllt â dioddefwyr</li> <li>• diffyg cysylltiad, yn enwedig os yw hyn yn dangos ymddieithrio oddi wrth wasanaethau amddiffynnol /lleihau niwed,</li> <li>• ymddygiad troseddol perthnasol arall (gan gynnwys honiadau o hynny)</li> <li>• mewn achos o gadw yn y ddalfa, cais am ROTL</li> <li>• cynnydd mewn camddefnyddio sylweddau lle mae hyn yn ffactor yn y risg o niwed</li> <li>• bygythiadau i staff neu eraill, neu ymddygiad amhriodol perthnasol neu ddatgeliad yn ystod goruchwyliaeth TTI</li> <li>• newidiadau i unrhyw ddangosydd arall wrth asesu Risg o Niwed.</li> <li>• methu â chydymffurfio ag amodau cyfyngol yn y ddedfryd neu'r drwydded</li> <li>• methiant i ymgysylltu â gwaith perthnasol yn ymwneud ag ymddygiad troseddol, neu agweddau eraill ar y Cynllun Rheoli Risg.</li> </ul> <p>Mae'r safonau ar gyfer ansawdd digonol yr un fath â'r rhai a oedd yn gymwys i'r asesiad</p>

			<p>cychwynnol o Risg o Niwed (gweler cwestiwn 1.10.1).</p> <p>Mae'n rhaid i'r dosbarthiad risg o niwed a'r categori a'r lefel MAPPA, lle bo'n berthnasol, fod yn glir ac wedi eu cofnodi'n gywir o fewn yr adolygiad, yn enwedig gan y gallai hyn fod wedi newid ers yr asesiad cychwynnol. Dylai unrhyw newidiadau i'r asesiad gael eu cyfleu yn glir i bob gweithiwr a phartneriaid perthnasol.</p> <p>Dylai'r arolygydd fod yn chwilio am dystiolaeth o waith asesu risg rhyngasiantaethol effeithiol lle y bo'n briodol i anghenion yr achos. Mae hyn yn debygol o gynnwys asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd yn dda wrth adolygu'r asesiad o risg o niwed, a gallai gynnwys adolygu asesiad risg aml-asiantaeth trwy gyfryngau megis cyfarfodydd adolygu risg, rhannu gwybodaeth a chyfnewid cudd-wybodaeth.</p> <p>Mewn achosion lle cedwir pobl yn y ddalfa rhaid i'r adolygiad barhau i fod yn glir ynghylch y risg o niwed sy'n berthnasol yn y ddalfa ac yn y gymuned.</p> <p>Rhaid i adolygiad sydd yn ddywarediad yn unig o asesiad blaenorol o risg o niwed gael ei farnu gan yr arolygydd fel annigonol.</p>
1.17.2	2.2.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.18.1	3.2.1	<p>Bydd angen i'r arolygydd ffurfio barn <u>drwy gydol y ddedfryd dan ystyriaeth</u> bod adolygiad digonol wedi ei wneud o'r asesiad o anghenion diogelu a bregusrwydd. Bydd angen i'r arolygydd ystyried nifer o ddangosyddion:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwnaed adolygiadau o'r asesiad o ddiogelu a bregusrwydd yn rheolaidd yn ôl yr angen</li> <li>• roedd adolygiadau yn amserol</li> <li>• roedd adolygiadau o ansawdd digonol</li> <li>• gwnaed adolygiad ar unwaith ar ôl dedfryd pan oedd angen</li> <li>• roedd adolygiadau yn y ddalfa yn ddigonol</li> <li>• gwnaed adolygiad digonol ar ôl rhyddhau person i'r gymuned</li> <li>• gwnaed adolygiadau yn dilyn unrhyw newid arwyddocaol</li> </ul> <p>Yn ychwanegol at adolygiadau ffurfiol dylai gweithwyr TTI fod yn ystyriol o ddiogelu ym mhob cysylltiad sydd ganddynt gyda'r plentyn</p>	<p>A oedd yna adolygiad digonol drwy gydol y ddedfryd o anghenion diogelu a bregusrwydd yn yr achos hwn?</p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol yr asesiad a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd yn yr asesiad yn gorbwyso unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gallai fod diffygion gallai'r arolygydd ddod i'r casgliad bod y darn hwn o waith yn gyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Mae diogelu yn broses ddeinamig sy'n cael ei chadw o dan adolygiad parhaus yn unol â newidiadau mewn amgylchiadau a gwybodaeth newydd sy'n ymddangos. Mae'n bwysig bod yr asesiad o ddiogelu yn cael ei weld fel proses barhaus,</p> <p>er y bydd y mecanwaith ffurfiol ar gyfer adolygu yn mynd ochr yn ochr ag adolygiad llawn o'r asesiad o'r tebygolrwydd o aildroseddu. Gweler Safon Genedlaethol 4.5 a chwestiwn 1.61.1 am fanylion pellach, nid yw hyn yn unig yn ddigon. Wrth ateb y cwestiwn hwn, dylai'r arolygydd fod yn fodlon yn ychwanegol at y broses ffurfiol uchod bod y rheolwr achos yn asesu ac yn adolygu diogelu yn barhaus a'i fod yn ystyriol o hyn o fewn pob cyswllt â'r plentyn neu'r person ifanc.</p> <p>Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ddangosyddion o fregusrwydd, ond nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae newidiadau i unrhyw un o'r rhain yn debygol o gael eu hystyried fel digwyddiad arwyddocaol ac felly sbarduno adolygiad o'r asesiad diogelu a bregusrwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• iechyd emosïynol/meddyliol, e.e iselder, hunan-niweidio, materion ymlyniad,</li> </ul>

		neu'r person ifanc.	<p>meddyliau am hunanladdiad</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod yn Blentyn sy'n Derbyn Gofal</li> <li>• bod yn destun ymchwiliadau Diogelu Plant</li> <li>• mewn achosion o gadw yn y ddalfa mae'r asesiad yn glir ynghylch pa mor agored i niwed y mae'r person yn y ddalfa ac yn y gymuned</li> <li>• ffactorau amgylcheddol, ee tai annigonol, yr ardal y maent yn byw ynddi</li> <li>• ymddygiad y rheini, ee anghenion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, rhianta anghyson</li> <li>• ymddygiad pobl eraill, ee bwlio, cam-drin, esgeulustod, brawychu, cam-fanteisio, cysylltiadau</li> <li>• digwyddiadau neu amgylchiadau, ee y teulu yn gwahanu, profedigaeth, newid trefniadau gofal</li> <li>• bod yn ofalwr ifanc, ar gyfer eu plentyn eu hunain neu ar gyfer aelodau eraill o'r teulu</li> <li>• eu hymddygiad eu hunain, ee camddefnyddio sylweddau, y math o droseddu, actio, ymatebion amhriodol i straen, cario arf</li> <li>• ymddygiad di-hid arall sy'n dangos ystyriaeth annigonol i'w diogelwch eu hunain</li> </ul> <p>Yn ogystal, mae derbyn gwybodaeth berthnasol neu wybodaeth arall gan asiantaethau eraill, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i gychwyn ymholiadau ynghylch amddiffyn plant, yn debygol o sbarduno'r angen am adolygiad.</p> <p>I farnu'r adolygiad yn ddigonol, bydd angen i'r arolygydd fod yn fodlon bod yr adolygiad o'r asesiad diogelu yn casglu ac yn cofnodi'r wybodaeth fwyaf diweddar a pherthnasol sy'n ymwneud â risgiau ac anghenion pobl ifanc.</p> <p>Rhaid i adolygiad sydd yn ddim ond dynwarediad o asesiad blaenorol o ddiogelu a bregusrwydd gael ei farnu gan yr arolygydd fel annigonol. Dylai ansawdd yr asesiad a gwblhawyd ym mhob adolygiad fod yn ddigonol - cyfeiriwch at y canllawiau a roddir yn 1.13.1.</p>
1.18.2	3.2.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am hyn yng nghwestiwn 1.20
1.20a		Er mwyn cynorthwyo'r Arolygydd Arweiniol rhowch fraslun byr iawn o nodweddion troseddu a nodweddion allweddol eraill yr achos, er mwyn darparu cyd-destun ar eu cyfer wrth ddarllen eich sylwadau.	Er mwyn cynorthwyo'r Arolygydd Arweiniol rhowch fraslun byr iawn o nodweddion troseddu a nodweddion allweddol eraill yr achos, er mwyn darparu cyd-destun ar eu cyfer wrth ddarllen eich sylwadau.
1.20b		Rhowch grynodeb o nodweddion allweddol yr achos hwn a ddylanwadodd ar eich barnau ar y ddealltwriaeth a'r esboniad o'r rhesymau dros	Rhowch grynodeb o nodweddion allweddol yr achos hwn a ddylanwadodd ar eich barnau ar y ddealltwriaeth a'r esboniad o'r rhesymau dros droseddu, risg o niwed i eraill a diogelu. Dylech gynnwys sut y mae'r rheolwr achos wedi sicrhau bod y rhain yn cael eu deall yn llawn, neu

	<p>droseddu, risg o niwed i eraill a diogelu. Dylech gynnwys sut y mae'r rheolwr achos wedi sicrhau bod y rhain yn cael eu deall yn llawn, neu gamgymeriadau a wnaethpwyd yn hyn.</p> <p>Ni ddylai hyn fod yn ailadrodd eich atebion i'r cwestiynau unigol, ond yn hytrach dylai helpu'r Arolygydd Arweiniol i ddeall y cyd-destun y cafodd y dyfarniadau hynny eu gwneud o'i fewn.</p> <p>Yn benodol dylech gynnwys manylion pellach pryd bynnag y byddwch wedi defnyddio "<b>Arall</b>" fel yr esboniad am annigonolrwydd.</p> <p>Rhowch sylwadau yn benodol ar unrhyw ddangosyddion CSE yr ydych wedi dod o hyd iddynt yn yr achos hwn. Yn FJI dylech gynnwys sylwadau penodol sy'n berthnasol i'r modiwlau ychwanegol sy'n cael eu harolygu.</p> <p>Dylech gynnwys sylwadau ar gryfderau a geir yn yr achos, peidiwch â chanolbwyntio ar annigonolrwydd yn unig.</p> <p>Cofiwch gynnwys sylwadau penodol ar y cyngor a roddwyd i'r llys dedfrydu, yn enwedig lle roeddech yn ystyried bod hyn yn amhriodol.</p>	<p>gamgymeriadau a wnaethpwyd yn hyn.</p> <p>Ni ddylai hyn fod yn ailadrodd eich atebion i'r cwestiynau unigol, ond yn hytrach dylai helpu'r Arolygydd Arweiniol i ddeall y cyd-destun y cafodd y dyfarniadau hynny eu gwneud o'i fewn.</p> <p>Yn benodol dylech gynnwys manylion pellach pryd bynnag y byddwch wedi defnyddio "<b>Arall</b>" fel yr esboniad am annigonolrwydd.</p> <p>Rhowch sylwadau yn benodol ar unrhyw ddangosyddion CSE yr ydych wedi dod o hyd iddynt yn yr achos hwn. Yn FJI dylech gynnwys sylwadau penodol sy'n berthnasol i'r modiwlau ychwanegol sy'n cael eu harolygu.</p> <p>Dylech gynnwys sylwadau ar gryfderau a geir yn yr achos, peidiwch â chanolbwyntio ar annigonolrwydd yn unig.</p> <p>Cofiwch gynnwys sylwadau penodol ar y cyngor a roddwyd i'r llys dedfrydu, yn enwedig lle roeddech yn ystyried bod hyn yn amhriodol.</p>
--	---	---



## Golwg 2 – Cynllunio

Rhif Cwestiwn	Maen Prawf	Dangosyddion Ansawdd	Canllawiau Estynedig
2.0.1 (cynt 2.6.1)	1.3.2	<p>Bydd angen i'r arolygydd chwilio am dystiolaeth o gynllunio digonol ar gyfer y ddedfryd gyfan, sef y cynllunio ar gyfer y cyfnod yn y ddalfa a'r cyfnod cymunedol i gael ei gyflawni fel un ddedfryd integredig. Yn ogystal dylai fod dystiolaeth o adolygu digonol yn ystod cyfnod y ddalfa o'r achos.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda yr ymdrinwyd â'r dangosyddion isod:</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r cynllun cychwynnol ar gyfer y cyfnod yn y ddalfa'n un amserol ac yn adlewyrchu asesiad yr YOT o anghenion, os yw staff y ganolfan garcharu'n rhoi sylw iddynt neu beidio.</li> <li>• Mae'r cynllun yn adlewyrchu barn y plentyn neu berson ifanc ac mae'n seiliedig ar gyd-drafod llawn gyda hwy</li> <li>• Mae eglurder ynghylch pa agweddau sydd i gael eu cyflwyno yn y ddalfa a pha rai yn y gymuned fel bod y ddedfryd gyfan yn cael ei hadlewyrchu a chyfrifoldeb am y cyflwyno'n cael ei fynegi'n amlwg</li> <li>• Mae'r cynllun yn rhoi pwyslais ar ailsefydlu sy'n ddigonol i amgylchiadau'r achos</li> <li>• Mae'r cynllun yn cael ei adolygu'n ddigonol i anghenion yr achos</li> </ul>	<p><b>A oedd digon o gynllunio trwy gydol cyfnod y ddalfa o'r ddedfryd ar gyfer gwaith i leihau'r tebygolrwydd o ail-drosedd?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r cynllun fel y'i cytunwyd gyda'r plentyn neu berson ifanc mewn cyfarfod cynllunio dedfryd yn y ddalfa – NID yw'n unrhyw gynllun mewnol ar wahân a allai fod wedi cael ei ddatblygu ond na chafodd ei integreiddio i'r cynllun yn y ddalfa.</p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrryd a gyflawnwyd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwyso unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfanrwydd yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un heggoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylai'r cynllun ar gyfer y ddedfryd yn y ddalfa fod yn gynllun ar gyfer y ddedfryd gyfan, nid dim ond yr elfen yn y ddalfa (<i>Safon Genedlaethol 2.29</i>). Ni ddylai gael ei gyfyngu gan y graddau y mae ymyriadau ar gael yn y sefydliad. Dylai'r rheolwr achos fod wedi cydnabod hyn ac wedi cynnwys targedau sydd angen eu cyrraedd os yn angenrheidiol pan fo'r plentyn neu berson ifanc yn cael ei ryddhau i'r gymuned. Efallai y bydd yn rhaid i'r rheolwr achos ystyried yn ogystal yr angen i eirioli am symudiad i sefydliad sy'n cynnig yr ymyriadau angenrheidiol.</p> <p>O dan Safonau Cenedlaethol 2013 9.16-9.18 dylai'r cynllun dedfryd gynnwys amcanion a thargedau a bennwyd ar gyfer y person ifanc, yr YOT a staff y sefydliad diogel, i gael eu cyflawni yn ystod arhosiad y plentyn neu berson ifanc yn y ddalfa ac ar ôl eu rhyddhau. Felly mae cynllun sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar drefniadau ymddygiadol, addysgol a threfniadau ymarferol eraill ar gyfer cyflawni cyfnod dan glo'r ddedfryd yn annhebyg o fod yn ddigonol.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda y mae'r cynllun yn y ddalfa'n adlewyrchu Safon Genedlaethol 2013 9.17-9.18 o fewn amgylchiadau'r achos o safbwynt y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae wedi cael ei gynhyrchu'n amserol – dylid cynnal cyfarfod cynllunio cychwynnol i gytuno ar y cynllun dedfryd o fewn 10 diwrnod i'r ddedfryd yn y ddalfa gael ei gwneud oni bai bod dystiolaeth glir i ddangos pam na allai hyn</li> </ul>

			<p>ddigwydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n adlewyrchu'n glir asesiad yr YOT o'r ffactorau sydd fwyaf tebygol o leihau troseddu</li> <li>• Mae'n nodi pa agweddau sydd i'w cyflawni yn y ddalfa ac yng nghyfnod cymunedol y ddedfryd ac yn adlewyrchu'r ddedfryd gyfan yn glir</li> <li>• Mae wedi cael ei ddatblygu gyda'r plentyn neu berson ifanc a'u rhiant/gofalwr yn chwarae rhan ddigonol</li> <li>• Mae'n rhoi digon o bwyslais ar gynllunio ailsefydlu trwy gydol cyfnod y ddalfa o'r ddedfryd. Gall hyn gynnwys trefniadau ar gyfer: addysg/hyfforddiant/cyflogaeth, gwaith ymddygiad troseddol, llety, darpariaeth iechyd ac iechyd meddwl, materion perthnasol eraill (gan gynnwys a ddylai'r plentyn neu berson ifanc gael eu hasesu gan y gwasanaethau plant fel 'plentyn mewn angen' o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989), cyd-drafod â rhieni/gofalwyr, rheoli unrhyw faterion risg o safbwynt dioddefwyr, rheoli unrhyw risg o niwed difrifol i eraill, materion MAPPA a manylion o unrhyw drefniadau adrodd ar ddyddiad rhyddhau</li> <li>• Mae'n adlewyrchu barn y plentyn neu berson ifanc a, lle bo'n addas, eu rhiant/gofalwr</li> <li>• Mae'n rhoi manylion am y staff neu'r asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflwyno gwahanol rannau'r cynllun naill ai yn y ddalfa neu yn y gymuned sy'n rhannau o'r cynllun integredig cyffredinol ar gyfer lleihau'r tebygolrwydd o ail-droseddu</li> <li>• Mae wedi cael ei adolygu fel bo'n angenrheidiol – Safon Genedlaethol 2013 4.5</li> </ul> <p>Mae Safonau Cenedlaethol 2013 (9.27) yn nodi y ddylid lefel cyswllt â'r person ifanc a'u rhieni / gofalwyr fod yn ddigonol i'w cefnogi drwy cyfran garcharol eu dedfryd ac er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer eu adsefydlu yn ôl i'r gymuned. Ni ddylid amllder y cyswllt fod yn llai na bob 2 fis mewn unrhyw achos.</p> <p>Er bod Safonau Cenedlaethol yn gosod meincnodau ar gyfer y llinellau amser, dylai'r arolygydd fod yn gwneud dyfarniad sy'n seiliedig ar yr addasrwydd o safbwynt anghenion yr achos ac felly nid yw rhywfaint o amrywiant mewn dyddiadau o angenrheidrwydd yn arwydd o annigonolrwydd yn yr achos cyffredinol cyn belled ag na chafodd unrhyw effaith niweidiol ar reoli'r achos.</p>
2.0.2	1.3.2	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20

2.1.0	1.3.1	<p>Gofynnir i'r arolygydd nodi <b>hyd at</b> bum ffactor blaenoriaeth uchaf o ran lleihau'r tebygolrwydd o aildrosedd. (Noder: Os ydych yn ystyried bod llai na phum ffactor yn flaenoriaethau ar gyfer gwaith yn yr achos yna dewiswch y nifer rydych yn ystyried sydd eu hangen yn unig). Yn ddiweddarach yn y ffurflen gofynnir i arolygwyr lunio barn ar gynllunio ar gyfer, cyflwyno, a chynnydd yn erbyn y meysydd blaenoriaeth penodol hyn.</p> <p><b>Gan fod hwn yn gwestiwn allweddol sy'n cyfrannu at lwybro'r cwestiynau diweddarach hynny; os byddwch yn mynd yn ôl a newid ateb i'r cwestiwn hwn dylech sicrhau eich bod hefyd yn adolygu eich atebion i'r cwestiynau mwy diweddar.</b></p> <p>Mae'r ffocws yma ar y meysydd blaenoriaeth uchaf ar gyfer lleihau'r <b>tebygolrwydd o aildrosedd</b>. Ni ddylai p'un a allai ffactor fod yn bwysig ar gyfer un o'r parthau eraill ddylanwadu ar y farn ar y cwestiwn penodol hwn oni bai ei fod hefyd yn flaenoriaeth ar gyfer gostyngiad yn y tebygolrwydd o aildrosedd.</p> <p><b>Nid</b> yw'r cwestiwn hwn yn gofyn beth mae'r rheolwr achos yn yr achos wedi'i nodi fel y meysydd blaenoriaeth uchaf ond <b>y mae</b> yn gofyn <b>ym marn yr arolygydd</b> beth oedd y ffactorau gyda'r flaenoriaeth uchaf ar gyfer lleihau'r tebygolrwydd o aildrosedd.</p>	<p>Gofynnir i'r arolygydd nodi <b>hyd at</b> bum ffactor y rhoddir blaenoriaeth uchaf iddynt o ran lleihau'r tebygolrwydd o aildrosedd. (Noder: Os ydych yn ystyried bod llai na phum ffactor yn flaenoriaethau ar gyfer gwaith yn yr achos yna dewiswch y nifer rydych yn ystyried sydd eu hangen yn unig). Yn ddiweddarach yn y ffurflen gofynnir i arolygwyr lunio barn ar gynllunio ar gyfer, cyflwyno, a chynnydd yn erbyn y meysydd blaenoriaeth penodol hyn.</p> <p><b>Gan fod hwn yn gwestiwn allweddol sy'n cyfrannu at lwybro'r cwestiynau diweddarach hynny; os byddwch yn mynd yn ôl a newid ateb i'r cwestiwn hwn dylech sicrhau eich bod hefyd yn adolygu eich atebion i'r cwestiynau mwy diweddar.</b></p> <p>Mae'r ffocws yma ar y meysydd blaenoriaeth uchaf ar gyfer lleihau'r <b>tebygolrwydd o aildrosedd</b>. Ni ddylai p'un a allai ffactor fod yn bwysig ar gyfer un o'r parthau eraill ddylanwadu ar y farn ar y cwestiwn penodol hwn oni bai ei fod hefyd yn flaenoriaeth ar gyfer gostyngiad yn y tebygolrwydd o aildrosedd. Er enghraifft, gallai person ifanc fod yn agored i niwed oherwydd eu bod yn chwarae triant o'r ysgol felly byddai ETE yn ffactor yn yr asesiad bregusrwydd, ond os nad yw eu hymddygiad troseddol wedi ei gysylltu â'u habsenoldeb o'r ysgol, mae'n annhebygol o gyfrannu at y tebygolrwydd o aildrosedd.</p> <p><b>Nid</b> yw'r cwestiwn hwn yn gofyn beth a nododd y rheolwr achos yn yr achos fel y meysydd blaenoriaeth uchaf ond <b>y mae</b> yn gofyn <b>ym marn yr arolygydd</b> beth oedd y ffactorau gyda'r flaenoriaeth uchaf ar gyfer lleihau'r tebygolrwydd o aildrosedd. Er y <i>gallai'r</i> rhain fod yr ardaloedd sy'n sgorio uchaf yn yr asesiad, bydd angen i'r Arolygydd lunio ei farn yn seiliedig ar ddigonolrwydd yr asesiad, unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael o fewn y cofnod achos ac anghenion yr achos.</p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn seiliedig ar farn yr arolygydd o ofynion yr achos. Dylai'r meysydd gwaith a'r amcanion yn y cynllun ymyrryd gysylltu'n benodol gyda'r ffactorau y rhoddir y flaenoriaeth uchaf iddynt yn ymwneud â'r tebygolrwydd o aildrosedd a nodwyd gan yr Arolygydd yn yr achos hwn. Dylai'r cynllun ymyrryd a gynhyrchir felly, adlewyrchu'r anghenion allweddol sydd wedi'u nodi mewn perthynas â'r plentyn neu'r person ifanc.</p> <p>Dylai'r Arolygydd fod yn ymwybodol o'r cyfnod o amser y maent yn arolygu drosto, ac felly wrth asesu'r meysydd blaenoriaeth nodwch feysydd y dylid yn realistig bod wedi gweithio arnynt yn y cychoedd darparu a chynllunio y mae ein harolygiad yn canolbwyntio arnynt.</p>
2.1.1	1.3.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r cynllun a gynhyrchwyd ar gychwyn ymyriad yr YOT gyda'r plentyn neu berson ifanc. Mae'n seiliedig ar farn yr arolygydd o'r anghenion yn yr achos. Wrth fesur a fu cynllunio digonol bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda yr ymdriniwyd â'r</p>	<p><b>A oedd digon o gynllunio wedi'i drefnu ar gyfer gwaith i leihau tebygolrwydd o aildrosedd?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn seiliedig ar farn yr arolygydd o ofynion yr achos. Mae'n ymwneud ag effeithiolrwydd rheolwyr achos wrth ddatblygu cynllun deddfryd sy'n rhoi sylw i'r anghenion o fewn yr achos. Mewn achosion o garcharu mae'n ymwneud â'r cynllun a gynhyrchir ar gyfer rhyddhau – sef y cynllun ar gyfer cyfnod cymunedol y ddeddfryd.</p>

	<p>meini prawf canlynol o fewn y cynllun a gynhyrchwyd:</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r cynllun yn diwallu anghenion amgylchiadau'r achos ac mae wedi'i dargedu at y ffactorau hynny sydd fwyaf tebygol o leihau troseddu ac ar y canlyniadau o'r asesiad perthnasol.</li> <li>• Mae'n amserol i anghenion yr achos</li> <li>• Mae'n gosod nodau clir, penodol a chyraeddadwy sy'n berthnasol ac yn ystyrlon i'r plentyn neu berson ifanc.</li> <li>• Mae wedi ei drefnu'n unol â risg o niwed, angen sy'n gysylltiedig â throseddu ac, mewn achosion priodol, anghenion diogelu.</li> <li>• Mae'n rhoi blaenoriaeth ddigonol i gryfhau neu atgyfnerthu ffactorau cadarnhaol.</li> <li>• Mae ei nodau'n cynnwys dwysedd y cyflwyno, sy'n ymatebol i ffactorau amrywiaeth a adnabuwyd yn iawn, ffactorau a allai arwain at wahaniaethu ac amgylchiadau'r unigolyn.</li> <li>• Mae'n adlewyrchu'n glir farn y plentyn neu berson ifanc a, lle bo'n berthnasol, farn eu rhieni/gofalwyr ar flaenoriaethau ar gyfer newid.</li> <li>• Mae'n rhoi blaenoriaeth ddigonol i gyfiawnder adferol a diwallu anghenion dioddefwyr.</li> <li>• Mae'n rhoi sylw digonol i anghenion iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu feddyliol ac iechyd corfforol) ac anghenion chamddefnyddio sylweddau, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â thebygolrwydd o aildroseddu.</li> </ul>	<p>Ar gyfer Gorchymnion Atgyfeirio, y cynllun i gael ei arolygu yw'r Contract Gorchymyn Atgyfeirio a gytunwyd rhwng y plentyn neu berson ifanc a'r panel. Os nad oes contract wedi cael ei gytuno yna mae'n annhebygol iawn y bydd yr arolygydd yn asesu bod y cynllunio wedi bod yn ddigonol. Os oes gwahaniaethau rhwng y contract ysgrifenedig ac unrhyw ffordd y caiff hwnnw ei weithredu ar y system rheoli achosion yna, cyn gwneud eu dyfarniad, bydd angen i'r arolygydd ystyried faint o wahaniaeth y gall y rhain eu gwneud i'r ffordd y caiff y ddedfryd ei rheoli ac yn enwedig y graddau y caiff ei chyflawni fel y bwriadodd y panel.</p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrryd yn diwallu anghenion yr achos – hynny yw a oedd digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwysio unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gall fod diffygion efallai y gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllunio cyffredinol i ymdrin â'r tebygolrwydd o aildroseddu'n ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau, gall pwysigrwydd un hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Lle nad yw'r cynllun wedi cael ei ysgrifennu gan ddefnyddio adnoddau arferol yr YOT (e.e. os oedd wedi ei ysgrifennu â llaw gyda'r plentyn neu berson ifanc) yna gall yr arolygydd farnu bod hyn yn ddigonol cyn belled â'i fod yn diwallu anghenion yr achos a'i fod wedi cael ei gyfleu'n ddigonol i eraill a all fod angen bod yn ymwybodol ohono.</p> <p>Dylai'r cynllun fod yn amserol ac yn briodol i amgylchiadau'r achos. Mae Safonau Cenedlaethol 2013 yn datgan bod yn rhaid i gynlluniau sy'n deillio o asesiadau gael eu cwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith ar gyfer Gorchymnion Cadw a Hyfforddi, 15 diwrnod gwaith ar gyfer Gorchymnion Adsefydlu Ieuencid a 20 diwrnod gwaith ar gyfer Gorchymnion Atgyfeirio.</p> <p>Er bod y cwestiwn hwn yn seiliedig ar asesiad yr arolygydd o'r anghenion yn yr achos, dylai'r cynllun ymyrryd adlewyrchu'n ogystal yr anghenion allweddol sydd wedi cael eu nodi yn yr asesiadau a gyflawnwyd sy'n ymwneud â'r plentyn neu berson ifanc.</p> <p>Dylai'r meysydd gwaith a'r amcanion yn y cynllun ymyrryd gysylltu'n amlwg â'r prif ffactorau sy'n gysylltiedig ag aildroseddu yn yr achos hwn os oeddent wedi cael eu nodi yn yr asesiadau cychwynnol neu beidio.</p> <p>Mae cynlluniau sy'n ceisio cysylltu plant a phobl ifanc ag ymyriadau sy'n cael eu ffafrio'n lleol, heb ystyriaeth o'u priodoldeb i'r amgylchiadau penodol, yn debygol o fod yn annigonol.</p> <p>Dylid dangos tystiolaeth o amcanion a thargedau CAMPUS (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig ac Amserol – SMART) y gellir dangos eu bod yn gysylltiedig â'r ffactorau a adnabuwyd, sy'n pennu dyddiadau adolygu ac yn cynnwys camau gweithredu i ymdrin ag anghenion ailsefydlu/trosglwyddo fel sy'n briodol i anghenion yr achos.</p>
--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'n rhoi sylw digonol i anghenion addysg hyfforddiant a chyflogaeth, yn enwedig gan fod y rhain yn gysylltiedig â thebygolrwydd o aildroseddu.</li> <li>• Mae'n rhoi sylw digonol i drefniadau byw a gallu rhianta, yn enwedig gan fod y rhain yn gysylltiedig â thebygolrwydd o aildroseddu.</li> </ul>	<p>Dylai cynlluniau ymyrryd gael eu gosod mewn trefn sy'n unol â risg o niwed, angen sy'n gysylltiedig â throseddu ac, mewn achosion addas, anghenion diogelu a dylent, lle bo'n addas, roi sylw digonol i gryfhau ffactorau cadarnhaol neu amddiffynnol.</p> <p>Dylai'r cynllunio adlewyrchu'n glir farn y plentyn neu berson ifanc a, lle bo'n berthnasol, farn eu rhieni/gofalwr ar flaenoriaethau ar gyfer newid. Fodd bynnag NID yw'r cwestiwn hwn yn barnu a oedd y cynllun yn ddealladwy i'r plentyn neu berson ifanc nac a oeddent â rhan wrth ei ddatblygu. Caiff yr agweddau hyn eu hasesu mewn cwestiwn dilynol.</p> <p>Dylai amcanion, gan gynnwys dwysedd y cyflwyno, ymateb yn addas i ffactorau amrywiaeth neu ffactorau a allai beri gwahaniaethu ac amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc unigol a, lle bo'n addas, eu teulu; i'r graddau y gallai'r rhain weithredu fel rhwystrau i gydweithredu. Rhaid i hyn cynnwys ystyriaeth, a lle nodir hynny, gamau gweithredu i leihau effaith anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu.</p> <p>Yn yr un modd (ac er bod hyn yn cael ei asesu'n benodol o fewn Cwestiwn 2.1.2) dylai iechyd emosïynol, meddyliol a chorfforol, Addysg Hyfforddiant Cyflogaeth, camddefnyddio sylweddau a threfniadau gofal (o safbwynt eu heffaith ar y potensial o aildroseddu) gael eu cynnwys o fewn y dyfarniad cyffredinol ar ansawdd y cynllunio.</p> <p>Dylai'r gwaith o gynllunio hefyd gael ei gydgysylltu a chynlluniau ymyrryd a thargedau gael eu hintegreiddio i unrhyw gynlliau arbenigol perthnasol eraill (Safonau Cenedlaethol 2013 8.7)</p> <p>Gall cynlluniau ISS sefyll ar eu pen eu hunain neu o fewn cynllun atodol ond dylent bob amser cynnwys yr elfennau a chael eu hintegreiddio i'r prif gynllun. Elfennau craidd ISS yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Addysg, hyfforddiant (yn enwedig llythrennedd a rhifedd sylfaenol) a chyflogaeth</li> <li>• Ymyriadau i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol</li> <li>• Digolledu i ddiodefwyr neu'r gymuned mewn cysylltiad â Safon Genedlaethol 8: Cynllunio a chyflwyno ymyriadau yn y gymuned</li> <li>• Cymorth wrth ddatblygu sgiliau rhyngpersonol</li> <li>• Cefnogaeth deuluol</li> <li>• Cyrffiw wedi ei gefnogi gan fonitro electronig yn ogystal â dau wiriad gwyliadwriaeth y dydd; gall bodolaeth tag gyfrif fel un o'r cysylltiadau hyn"</li> </ul> <p>Bydd angen i'r arolygydd hefyd ystyried a oes ystyriaeth ddigonol wedi bod i ymateb i anghenion y dioddefwr, trwy ddulliau adferol a darparu gwybodaeth iddynt.</p>
2.1.2	1.3.1	<p>Defnyddir y cwestiwn hwn i gael gwybodaeth ar gyfer gwaith yr arolygwyr partner yn ystod ail wythnos gwaith maes Arolygiad Llawn ar y Cyd. Dylai'r arolygydd fod eisoes wedi ystyried yr agweddau hyn yn eu dyfarniad cyffredinol o ddigonolrwydd cynllunio. Nid yw hwn yn gwestiwn</p>	<p>Dylai'r meysydd o waith a'r amcanion yn y cynllun ymyrryd fod â chysylltiad amlwg ac agored â'r ffactorau sy'n gysylltiedig â'r tebygolrwydd o aildroseddu a gafodd eu hadnabod gan yr arolygydd yn yr achos hwn. Dylai'r cynllun ymyrryd adlewyrchu'r anghenion allweddol sydd wedi cael eu hadnabod mewn perthynas â'r plentyn neu berson ifanc.</p> <p>Dylid rhoi sylw penodol i'r agweddau o waith a nodwyd yn y cwestiwn hwn o safbwynt eu</p>

		i'w sgorio.	heffaith ar y tebygolrwydd o aildroseddu neu, ar y llaw arall, lle gallai'r ffactorau hyn weithredu fel ffactor cadarnhaol neu annibynnol y dylid adeiladu arno wrth gynllunio'r ymyriad.  Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' lle nad oedd unrhyw ofyniad i'r gwaith cynllunio roi sylw i'r ffactor penodol hwn.
2.1.3	1.3.1	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.2.1	1.2	Cyfeiriwch at y canllaw manwl	<b>A wnaeth y cynllunio cychwynnol ar gyfer gwaith i fynd i'r afael â'r tebygolrwydd o aildroseddu amlinellu'n glir pa ymyriadau a oedd yn cael eu darparu a sut roeddent am gael eu cyflwyno?</b>  Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i chi benderfynu a yw'r cynlluniau sydd yn eu lle yn nodi ymyriadau penodol i fynd i'r afael â'r tebygolrwydd o aildroseddu yn glir. I ateb y cwestiwn hwn yn gadarnhaol, bydd angen bod yn glir ynghylch pa ymyriad yn union a fydd yn cael ei gyflwyno – nid yw cyfeirio at y maes sy'n gysylltiedig â throseddu i weithio arno yn unig yn ddigonol.  Mae hefyd yn gofyn i chi ystyried a yw'r cynlluniau yn eglur ynghylch y trefniadau a'r dulliau ar gyfer sut y dylid cyflawni'r ymyriadau hyn.  Mae hyn o ran ymarferoldeb, fel pwy sy'n mynd i'w gyflawni, ble a phryd, ond hefyd o ran dull, fel ei fod yn ystyried unrhyw anghenion dysgu neu faterion amrywiaeth.
2.2.2	1.2	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.3.1	4.1.2	Mae dau ran i'r cwestiwn hwn: yn gyntaf y grwpiau cydnabyddedig a allai wynebu gwahaniaethu, ac yn ail ystyriaeth ehangach o ffactorau amrywiaeth a all weithredu fel rhwystr i gael at wasanaethau neu gydweithredu effeithiol.  Rhaid i'r arolygydd ystyried a oes digon o sylw wedi cael ei roi i'r ffactorau hyn o fewn y cynllunio, fel rhwystrau i gydweithrediad.  Dangosyddion ansawdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r cynllun yn cydnabod rhwystrau posibl i ennyn cydweithrediad a gallu i gael at wasanaethau, gan gynnwys anghenion dysgu, anabledd a ffactorau gwahaniaethol neu amrywiaeth eraill ac mae cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i liniaru eu heffaith.</li> <li>Lle cânt eu nodi, mae anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu plant yn derbyn sylw penodol fel bod dulliau</li> </ul>	<b>A roddodd y cynllunio cychwynnol ddigon o sylw i rwystrau i ennyn cydweithrediad a ffactorau amrywiaeth neu wahaniaethol posibl?</b>  Mae'r cwestiwn hwn yn seiliedig ar asesiad yr arolygydd o ffactorau amrywiaeth yn yr achos hwn, os ydynt wedi eu nodi yn yr asesiadau neu beidio.  Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrryd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwyso unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion efallai y gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfanrwydd yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.  Bwriedir i bob cwestiwn sy'n ymwneud ag amrywiaeth roi sylw i ddau faes: yn gyntaf, y grwpiau cydnabyddedig o blant a phobl ifanc a all wynebu gwahaniaethu ar sail hil/ethnigrwydd, diwylliant, crefydd, anabledd, rhywioldeb, oedran, rhyw neu statws gofal. I Blant sy'n Derbyn Gofal gallai hyn gynnwys ffactorau megis gwahanu oddi wrth ffigurau y mae ganddynt ymlyniad atynt neu leoliadau lluosog a cholli sefydlogrwydd o ganlyniad i hynny. Mae'r ail faes yn ymgorffori amrywiaeth helaeth o ffactorau a allai beri rhwystr i gydweithrediad, e.e. plant a phobl ifanc sydd yn ofalwyr eu hunain, rhieni ifanc, materion yn ymwneud â chefn gwlad neu rai ag anawsterau llythrennedd/iaith neu sydd ag iaith gyntaf wahanol i'r un y mae'r YOT yn gweithredu drwyddi'n arferol. Dylid rhoi sylw digonol wrth

		<p>gweithio'n addas ar gyfer eu hanghenion unigol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae cynlluniau i ymdrin â rhwystrau i ennyn cydweithrediad, lle'u nodir, yn cael eu cyfleu'n glir i bawb sydd ynglŷn â'r achos.</li> <li>Mae'r cynllun yn rhoi manylion am y sylw penodol sydd angen ei roi i fregusrwydd ac anghenion iechyd a lles lle mae'r rhain yn gweithredu fel rhwystr i weithrediad.</li> </ul>	<p>gynllunio i fregusrwydd, iechyd a lles lle mae'r rhain yn rhwystrau i gydweithredu.</p> <p>Ym mhob achos perthnasol, rhaid i sylw penodol gael ei roi i ddeall a diwallu anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu plant a phobl ifanc; fel bod dulliau gweithio'n addas i'w hanghenion unigol sy'n aml yn gymhleth.</p> <p>Ar ôl gwneud asesiad o unrhyw rhwystrau posibl i gydweithrediad, dylai'r cynllunio ddangos sut, cyn belled â bod hyn yn briodol i anghenion yr achos, y bydd gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yn y ffordd orau i leihau effaith posibl y ffactorau a nodwyd.</p> <p>Mae enghreifftiau o sut efallai y gellid gwneud hyn yn cynnwys adnabod a chynllunio sut i ymdrin â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwahanol ddulliau i'w defnyddio</li> <li>Staff i gael eu cynnwys o safbwynt sut y gallai hyn effeithio ar unrhyw rhwystrau i gydweithrediad – er enghraifft os yw addysg hyfforddiant neu gyflogaeth yn broblem ond bod gan y plentyn neu berson ifanc agwedd neilltuol o negyddol at staff addysgol</li> <li>Ffactorau amgylcheddol megis anhawster cael at yr YOT</li> <li>Ffactorau amseroldeb megis trefnu apwyntiadau rheolaidd</li> <li>Systemau atgoffa i'r rheini sydd ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu</li> <li>Sut y gallai rhieni neu ofalwyr roi cefnogaeth i leihau rhwystrau i gydweithrediad.</li> </ul> <p>Ym mhob achos lle mae angen ymdrin â rhwystrau posibl i gydweithrediad, dylai'r cynllunio sicrhau bod y rheini wedi cael eu cyfleu'n glir i bawb sydd ynglŷn â'r achos a bydd angen i'r arolygydd fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth fod hyn wedi digwydd.</p>
2.3.2	4.1.2	Lle defnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.4.1	4.1.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â barn yr arolygydd o'r graddau y cafodd y plentyn a'u rhiant/gofalwr ac eraill perthnasol eu cynnwys yn y cynllunio.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda yr ymdrinwyd â'r dangosyddion isod:</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p>	<p><b>A oedd y plentyn neu berson ifanc a'u rhiant/gofalwr neu eraill perthnasol yn cael eu cynnwys yn ddigonol yn y cynllunio?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd famu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrryd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfannwydd yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un hegoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Er mwyn cynyddu teimlad y plentyn neu berson ifanc o berchnogaeth y cynllun ac ymrwymiad</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafodd y cynllun ei ddatblygu gyda'r plentyn neu berson ifanc a'u rhieni/gofalwyr ac unrhyw eraill perthnasol yn chwarae rhan weithredol ddigonol</li> <li>• Mae'r cynllunio'n adlewyrchu'n glir safbwyntiau'r plentyn neu berson ifanc a'u rhieni/gofalwyr ar y blaenoriaethau ar gyfer newid</li> <li>• Mae'r cynllun wedi cael ei ddarparu i'r plentyn neu berson ifanc a'u rhieni/gofalwyr</li> <li>• Mae'r cynllun wedi'i ysgrifennu mewn iaith y gall y plentyn neu berson ifanc ei ddeall ac mae'n ystyrlon iddynt</li> <li>• Mae'r cynllun dedfryd o dan glo'n dangos tystiolaeth o ymwneud effeithiol â phlant a phobl ifanc yn ychwanegol at ofynion cyfarfodydd cynllunio ffurfiol.</li> </ul>	<p>iddo, dylid ei drafod hefyd gyda hwy cyn cytuno arno'n derfynol. Dylid cael hyd i dystiolaeth o'r cyfranogiad gweithredol hwn yn y cofnod cysylltiadau neu yn rhywle arall yn y ffeil. Nid yw llofnod ar y cynllun ymyrryd yn ddigon ar ei ben ei hun i ddangos ymwneud gweithredol ac ystyrlon. Mae cynllun sydd wedi cael ei ysgrifennu gan y rheolwr achos ac wedyn ei gyflwyno i'r plentyn neu berson ifanc heb unrhyw gyfle realistig iddynt gyfrannu ato na dylanwadu arno'n annhebygol o fod yn ddigonol.</p> <p>Yn aml, gall defnyddio hunanasesiad gan y plentyn neu berson ifanc fel gwybodaeth ar gyfer cynllunio gwrthrychol fod yn dystiolaeth ddefnyddiol o ymwneud ystyrlon; cyn belled â bod canlyniadau perthnasol o'r hunanasesiad yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun a bod y plentyn neu berson ifanc wedi cael eu cynorthwyo i ddeall y cysylltiad.</p> <p>Yn yr un modd, dylai fod tystiolaeth eglur o ymgynghori â rhieni/gofalwyr yn y broses gynllunio. Dylid cael hyd i'r cyfranogiad gweithredol hwn yn y cofnod cysylltiadau neu yn rhywle arall yn y ffeil. Dylid darparu copi o'r cynllun i'r plentyn neu berson ifanc a'u rhiant/gofalwr.</p> <p>Dylai'r cynllunio hefyd, lle bo'n berthnasol, gynnwys safbwyntiau pobl eraill berthnasol. Gallai'r rhain er enghraifft gynnwys aelodau o'r teulu estynedig wrth gyflwyno rhan o'r cynllun, yn ogystal ag unrhyw un arall sy'n gallu bod yn ddylanwad cadarnhaol neu amddiffynnol.</p> <p>Er mwyn dangos tystiolaeth bod y plentyn neu berson ifanc wedi chwarae rhan ystyrlon drwy gydol y broses gynllunio, dylai'r cynllun fod yn ystyrlon i blant a phobl ifanc, wedi ei ysgrifennu mewn iaith y maent yn ei deall ac yn adlewyrchu'n glir eu safbwyntiau ar flaenoriaethau ar gyfer newid er mwyn cynyddu'r potensial am deimlad o berchnogi'r cynllun.</p> <p>Mewn achosion o garcharu, gallai fod angen i'r arolygydd chwilio am dystiolaeth o gynnwys y plentyn neu berson ifanc y tu allan i gyfarfodydd cynllunio ffurfiol. Gallai hyn gynnwys cynllunio ar wahân ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac anghenion iechyd neu debyg.</p>
2.4.2	4.1.1	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.8.1	2.3.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â chynllunio i reoli risg o niwed drwy gydol y ddedfryd, a fydd yn cynnwys y cyfnod yn y ddalfa a'r cyfnod cymunedol o ddedfrydau carcharu. Mae hwn hefyd yn cynnwys cynllunio ar gyfer risg o niwed mewn achosion lle nad yw cynllun rheoli risg ffurfiol yn ofynnol.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda yr ymdriniwyd â'r dangosyddion isod:</p>	<p><b>A oedd cynllunio digonol ar gyfer gwaith i reoli risg o niwed i eraill?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrryd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfanrwydd yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Ni ddylid defnyddio'r opsiwn Ddim yn Berthnasol ond lle nad oedd hi'n ofynnol i'r cynllunio roi sylw i risg o niwed, ond dylai'r arolygydd gadw mewn cof y dylid cynllunio ar gyfer pob agwedd o risg o niwed i eraill ac nid dim ond y rheini sy'n gofyn am gynllun ffurfiol i reoli risg.</p>



	<p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cynllunio'n gwahaniaethu rhwng risg o niwed i gael ei reoli o fewn y cynllun ymyrryd cyffredinol a ffactorau i gynllunio ar eu cyfer o fewn cynllun ffurfiol rheoli risg</li> <li>• Mae'r ymateb yn glir ac yn ddigonol ar gyfer amgylchiadau'r achos</li> <li>• Mae cynllun rheoli risg wedi cael ei gynhyrchu'n brydlon lle nodir bod angen un</li> <li>• Mae'r cynllunio'n rhoi sylw digonol i faterion dioddefwyr</li> <li>• Rhoddwyd digon o sylw i effaith ffactorau amrywiaeth o fewn cynllunio risg o niwed lle nodir hyn</li> <li>• Mae newidiadau posibl mewn risg o niwed yn cael eu rhagweld o fewn y cynllun sy'n cynnwys trefniadau wrth gefn sy'n ddigonol ar gyfer amgylchiadau'r achos</li> <li>• Mae'r cynllunio'n cael ei gyfleu'n glir ac yn addas i anghenion yr achos ac o fewn trefniadau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth</li> <li>• Mae ymyriadau sy'n ymwneud â rheoli risg o niwed wedi eu hymgorffori o fewn y cynllun dedfryd ac wedi eu cysylltu â chynlluniau cysylltiedig fel y penderfynir gan amgylchiadau'r achos</li> <li>• Rhoddwyd sylw digonol i faterion MAPPA o fewn cynllunio i reoli risg o niwed</li> </ul>	<p>Mae risg o niwed yn cynnwys unrhyw un a phob un o'r arwyddion neu ddigwyddiadau o niwed i eraill a dylai hyn fod y meincnod i seilio gwaith i reoli risg o niwed arno, gan nad yw asesiad o risg canolig neu uwch o niwed <i>dirifol</i> DDIM yn dangos nad oes unrhyw faterion risg o niwed y mae angen rhoi sylw iddynt. Fodd bynnag, bydd achosion a aseswyd fel rhai o risg canolig neu uwch o niwed <i>dirifol</i> yn gofyn am ddatblygu cynllun ffurfiol i reoli risg o niwed (RMP).</p> <p>Felly dylai pob mater risg o niwed, gan gynnwys lle nad yw cynllun ffurfiol yn ofynnol, gael ei ystyried o fewn y gwaith cyffredinol o gynllunio dedfrydau. Er enghraifft – efallai fod ar blentyn neu berson ifanc angen gwasanaeth camddefnyddio sylweddol gan eu bod wedi troseddu o'r blaen mewn modd treisgar pan oeddent o dan ddylanwad alcohol ac wedi achosi niwed i rywun arall. Os yw'r asesiad yn barnu mai'r defnydd o alcohol yw'r prif ffactor i'w dargedu a bod ymddygiad treisgar yn annhebygol mewn amgylchiadau eraill, mae cynllun penodol rheoli risg yn annhebygol o fod yn ofynnol. Ar y llaw arall, os yw ymchwilid yn dangos risg o ymddygiad treisgar parhaus lle nad alcohol, er ei fod yn ffactor, yw'r prif reswm dros risg i eraill, yna gall fod cynllun penodol sy'n targedu meddylfryd, credoau, agweddau neu'r angen am reolaeth allanol fod yn ofynnol.</p> <p>Rhaid i'r cynllunio ystyried risg i dioddefwyr penodol bob amser, lle bo hynny'n berthnasol. Dylai hyn adlewyrchu gwybodaeth a gasglwyd gan unrhyw weithwyr dioddefwyr sydd wedi ymwneud â'r achos. Dylai fod tystiolaeth fod rheolwr yr achos wedi meddwl am ddiogelwch y dioddefwr ac wedi gweithredu'n addas ar hyn.</p> <p>Lle bo angen cynllun ffurfiol i reoli risg o niwed (RMP), dylai hyn gael ei gwblhau mewn amser sy'n addas i anghenion yr achos, a lefel a natur y risgiau a adnabuwyd. Dylai'r cynllun sy'n deillio ohono i reoli risg o niwed fod yn glir ac yn benodol, yn addas i amgylchiadau'r achos, yn fanwl a chywir ynghylch rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ei gyflawni; lle dangosir gan amgylchiadau'r achos, dylai asiantaethau weithio gyda'i gilydd wrth gynllunio gwaith risg o niwed a dylai fod tystiolaeth o hyn o fewn cofnodion cyfarfodydd cynllunio amlasiantaethol, mewn cofnodion dyddiaduron achos neu bethau tebyg.</p> <p>Dylai trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth am yr achos gyda phartneriaid neu eraill fod yn eglur a manwl a dylai'r arolygydd gael hyd i dystiolaeth bod cynlluniau wedi cael eu cyfleu a'u rhannu gyda phawb sy'n ymwneud â'r gwaith o'u cyflawni.</p> <p>Dylai'r arolygydd ffurfio barn ynghylch a yw'r rheolwr achos wedi rhagweld newidiadau mewn risg o niwed/ffactorau llym lle bynnag bo hynny'n ddichonadwy, ac wedyn cynnwys cynllunio digonol wrth gefn o fewn y cynllun cyffredinol. Gallai enghreifftiau o hyn fod yn gynydd mewn camddefnyddio sylweddau, lle bo hyn o'r blaen wedi bod yn ysgogiad am ymddygiad cysylltiedig â niwed; neu lle mae ffactorau amddiffynnol yn lleihau, er enghraifft wrth i wasanaeth ddod i ben.</p> <p>Bydd ar yr arolygydd angen tystiolaeth bod, lle bo risg o niwed i eraill yn bresennol mewn achos, y cynlluniau ymyrryd yn cynnwys camau i reoli hynny, sydd wedyn yn cael eu dilyn yn</p>
--	--	--

			<p>unol â'r risg. Gall y cynlluniau gynnwys defnyddio MAPPA, rhywbeth y dylid ei gofnodi'n glir.</p> <p>Mewn achosion o garcharu dylai cynlluniau fod yn glir ynghylch pa gamau i reoli risg o niwed sydd i'w cymryd yn y ddalfa a pha rai yn y gymuned, ynghyd â phwy sy'n gyfrifol am eu cyflawni.</p> <p>Ym mhob achos lle mae materion risg o niwed i'w rheoli, dylai'r arolygydd fod yn glir fod, lle bynnag bo hynny'n angenrheidiol, rhwystrau i gydweithrediad ac amrywiaeth neu ffactorau eraill a allai fod yn wahaniaethol wedi derbyn sylw digonol. Bydd hyn yn cynnwys anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a allai fod yn gymhleth ac effeithio mewn nifer o ffyrdd ar allu'r plentyn neu berson ifanc i gydymffurfio â'r cynllun rheoli risg.</p>
2.8.2	2.3.1	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.9.1	2.3.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â chynllunio i reolir holl faterion risg o niwed yn ystod cyfnod y ddalfa o unrhyw ddedfryd. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynllunio ar gyfer yr holl faterion risg o niwed sy'n ymgorffori achosion lle nad yw cynllun ffurfiol i reoli risg yn ofynnol.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda yr ymdriniwyd â'r dangosyddion isod:</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r cynllunio'n gwahaniaethu rhwng y risg o niwed y gellir ei reoli o fewn y cynllun ymyrryd cyffredinol, a lle bo cynllun penodol i reoli risg yn ofynnol</li> <li>• Mae cynllunio'n seiliedig ar asesiad</li> <li>• Mae'r ymateb i faterion risg o niwed yn glir ac yn ddigonol ar gyfer amgylchiadau'r achos</li> <li>• Mae cynllun rheoli risg wedi cael ei gynhyrchu'n brydlon lle nodwyd hynny fel rhywbeth angenrheidiol</li> <li>• Mae'r cynllun yn ymdrin yn ddigonol â materion dioddefwyr</li> </ul>	<p>Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' lle nad oedd unrhyw ofyn am gynllunio i reoli risg o niwed yn ystod cyfnod y ddalfa o'r ddedfryd, ar gyfer risgiau a allai fod yn berthnasol naill ai yn y ddalfa neu yn y gymuned, ond dylai'r arolygydd gadw mewn cof y dylid cynllunio ar gyfer yr holl faterion risg o niwed ac nid dim ond y rheini sy'n gofyn am gynllun ffurfiol i reoli risg o niwed i eraill.</p> <p>Dylid cyfeirio hefyd at y canllawiau a gynhwysir o fewn 2.8.1 ar gyfer y cwestiwn hwn.</p> <p>Dylid cyfeirio'n benodol at y cynllunio ar gyfer rhyddhau a ddylai gychwyn ar amser sy'n addas i anghenion yr achos. Gallai hyn gynnwys cyfeiriad at wasanaethau plant lle bo plentyn neu berson ifanc yn debygol o fod yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau.</p> <p>Dylai trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau fod yn benodol, ynghyd â chyfrifoldeb dros gamau i reoli risg – yn y ddalfa wrth baratoi ar gyfer rhyddhau ac yn ystod cyfnod cymunedol y ddedfryd.</p> <p>O fewn cynlluniau yn y ddalfa dylid bod yn glir o safbwynt pa gamau i reoli risg o niwed sydd i'w cymryd yn y ddalfa a pha rai yn y gymuned, ynghyd â phwy sy'n gyfrifol am eu cyflawni. Ni ddylai'r cynllunio gael ei gyfyngu gan yr amrywiaeth o ymyriadau sydd ar gael o fewn y sefydliad diogel. Lle bo ymyriadau'n ofynnol nad dynt ar gael ar unwaith, yna dylai cynllunio ystyried pa ffordd arall y gellir eu cyflwyno.</p> <p>Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi o'r farn y dylai, er mwyn osgoi anawsterau a achosir gan ryddhau sydyn o'r ddalfa, er enghraifft yn dilyn apêl lwyddiannus, cynllunio ar gyfer rheoli risg o niwed yn ystod cyfnod y ddalfa o ddedfryd gymryd yr agwedd y gall y plentyn neu berson ifanc gael eu rhyddhau'n ddirybudd.</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddir digon o sylw i faterion amrywiaeth o fewn cynllunio risg o niwed lle nodwyd hynny</li> <li>• Mae newidiadau posibl mewn risg o niwed yn cael eu rhagweld o fewn y cynllun sy'n cynnwys trefniadau wrth gefn sy'n ddigonol ar gyfer amgylchiadau'r achos</li> <li>• Mae cyfathrebu clir yn digwydd ynghylch cynllunio risg a hynny'n addas i anghenion yr achos ac o fewn trefniadau clir ac amlwg ar gyfer rhannu gwybodaeth</li> <li>• Mae ymyriadau sy'n ymwneud â rheoli risg o niwed yn cael eu hymgorffori o fewn y cynllun dedfryd ac wedi'u cysylltu â chynlluniau cysylltiedig yn unol ag amgylchiadau'r achos</li> <li>• Rhoddwyd digon o sylw i faterion MAPPA o fewn y cynllunio</li> </ul>	
2.9.2	2.3.1	Lle defnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.10.1	2.3.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â pha mor dda y mae'r TTI wedi ymgysylltu â MAPPA ac a oedd hyn yn ddigonol ar gyfer amgylchiadau'r achos.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda y mae'r dangosyddion isod wedi cael sylw:</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafodd yr achos ei gydnabod fel un a oedd yn gymwys ar gyfer MAPPA a chafodd ei gyfeirio neu ei hysbysu mewn modd amserol</li> <li>• Roedd y lefel rheoli MAPPA gychwynnol yn gywir</li> <li>• Cynhaliwyd cyfarfodydd MAPPA fel oedd yn ofynnol gan amgylchiadau'r achos</li> </ul>	<p><b>A oedd digon o ymgysylltu â MAPPA wrth asesu a chynllunio ar gyfer yr achos hwn?</b></p> <p>Mae'r TTI yn gyfrifol am nodi pa rai o'i achosion sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, ac am atgyfeirio bob un y maent yn gyfrifol amdanynt sy'n bodloni meini prawf cymhwyster MAPPA (<i>Canllawiau MAPPA 2012 A3.17</i>) at MAPPA. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chofnodi ar y system rheoli achosion. Bydd yr arolygydd eisoes wedi barnu a oedd angen ymglymiad MAPPA yn yr achos hwn. Bydd y cwestiwn hwn yn cael ei ofyn dim ond pan oedd angen cyfranogiad MAPPA ar lefel 2 neu 3.</p> <p>Os yw hwn yn achos MAPPA yn unol â'r canllawiau, ond nad yw'r TTI wedi cydnabod hyn (neu nid yw wedi ei gydnabod mewn modd amserol) yna ni chafodd defnydd effeithiol ei wneud o'r adnoddau a dylid ateb y cwestiwn hwn gyda NADD0.</p> <p>Bydd y TTI yn penderfynu a oes angen i achos MAPPA gael ei reoli ar lefel 2 neu uwch. Unwaith y bydd wedi penderfynu bod ar achos angen rheolaeth lefel 2 neu lefel 3 <b>rhaid</b> ei gyfeirio at MAPPA.</p> <p>Dylid cyfeirio at MAPPA unwaith y mae plentyn neu berson ifanc wedi cael ei nodi fel un sy'n perthyn i un o'r categorïau ar gyfer bod yn gymwys. Dylai rheolwyr achos bob amser drafod</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynychodd y TTI gyfarfodydd MAPPA</li> <li>• Mae'r cynllun rheoli MAPPA yn ddigonol i amgylchiadau'r achos</li> <li>• Roedd asiantaethau allweddol, gan gynnwys y gwasanaethau plant, yn bresennol a buont yn cyfrannu at gyfarfodydd MAPPA</li> </ul>	<p>achos sy'n gymwys ar gyfer MAPPA gyda rheolwr priodol. Dylai'r drafodaeth hon gael ei chyfeirnod i ar y cofnod achos. Fel arfer, dylai'r gwaith adnabod gael ei wneud yn ystod asesiad cychwynnol troseddwr - dylid gwneud atgyfeiriadau felly yn ystod neu yn dilyn y cyfnod o asesiad cychwynnol. Dylai'r gwaith adnabod hwn gael ei gynnal <u>o fewn tri diwrnod o ddedfrydu</u> (Canllawiau MAPPA 2012 A23.9). Ar gyfer achosion yn y ddalfa, dylai'r atgyfeirio/hysbysu ddigwydd o leiaf chwe mis cyn y rhyddhau posibl.</p> <p>Mewn rhai achosion efallai y bydd angen atgyfeiriad oherwydd newidiadau yn amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc (e.e. comisiynu trosedd bellach sy'n arwain at asesiad diwygiedig o risg o niwed i eraill). Mewn achosion o'r fath dylai atgyfeirio ddigwydd unwaith y bydd plentyn neu berson ifanc wedi ei adnabod fel un a ddaeth yn gymwys ar gyfer MAPPA.</p> <p>Dylai pob achos gael ei reoli ar y lefel isaf sy'n angenrheidiol i ddarparu Cynllun Rheoli Risg effeithiol sy'n cydbwysu diogelu'r cyhoedd â hawliau ac anghenion y plentyn neu'r person ifanc.</p> <p>Pan fydd gweithiwr achos y TTI yn credu bod hwn yn achos sydd angen rheolaeth aml-asiantaeth weithredol ar lefel 2 neu 3 MAPPA, bydd ef neu hi yn cwblhau'r ddogfen cyfeirio at gyfarfod MAPP. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan ei reolwr ef neu ei rheolwr hi a'i anfon at y Cyd-drefnydd MAPPA. Mae'n rhaid i'r atgyfeiriad gynnwys gwybodaeth am pam y byddai'r achos yn cael budd o reolaeth weithredol aml-asiantaethol y tu hwnt i'r hyn y gall y TTI ei gynnig. Efallai y bydd natur yr achos yn awgrymu y bydd yn denu sylw'r cyfryngau lleol neu genedlaethol, neu fod angen am adnoddau aml-asiantaethol ychwanegol i reoli risgiau posibl o niwed. Bydd yr atgyfeiriad hwn yn cael ei adolygu gan ddefnyddio gweithdrefnau lleol ac, os yw'r achos yn bodloni'r trothwy y cytunwyd arno (gan gymryd i ystyriaeth anghenion y person ifanc yn ogystal â'r risg o niwed mae ef neu hi yn ei gyflwyno), bydd cyfarfod lefel 2 neu 3 MAPP yn cael ei drefnu. Os yw'r person ifanc yn y ddalfa, dylai'r atgyfeiriad hwn ddigwydd o leiaf 6 mis cyn ei ddyddiad rhyddhau ef neu ei dyddiad rhyddhau hi er mwyn i Gynlluniau Rheoli Risg effeithiol gael eu rhoi yn eu lle.</p> <p>Dylai'r rheolwr achos sicrhau bod y lefel rheoli a nodwyd a gytunwyd gan y cyfarfod MAPPA yn cael ei chofnodi'n gywir. Cyfeiriwch at y canllawiau yng nghwestiwn 12 am fwy o fanylion am lefelau rheoli MAPPA.</p> <p>Pan fo TTI wedi cyfeirio at MAPPA ac mae MAPPA wedi gwrthod yr atgyfeiriad yn amhriodol dylai fod tystiolaeth bod y TTI wedi cyfeirio'r mater hwn ymlaen drwy'r sianelau priodol.</p> <p>Wrth lunio barn ynghylch y defnydd effeithiol o MAPPA dylai'r arolygydd hefyd edrych am dystiolaeth bod y rheolwr achos neu gynrychiolydd arall y TTI yn mynychu cyfarfodydd MAPPA ac yn gweithredu ynghylch y pwyntiau a nodwyd. Pan fydd unrhyw atgyfeiriad sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc yn cael ei wneud gan unrhyw asiantaeth ar wahân i'r TTI, rhaid i'r TTI fod yn bresennol yn y cyfarfod gan y gallai fod â gwybodaeth sy'n ymwneud â'r achos.</p>
--	---	---

Dylai rheolwr y TTI sydd yn ddigon uchel i weithredu fel ymgynghorydd i Gadeirydd y cyfarfod MAPP hefyd fod yn bresennol ym mhob cyfarfod lle mae plentyn neu berson ifanc yn cael ei drafod, er mwyn sicrhau bod y ffactorau ychwanegol yn cael eu trin yn briodol ac yn llawn. Dylai hyn helpu i nodi adnoddau ychwanegol posibl a allai fod yn ofynnol. Os, fel rhan o RMP MAPPA, bydd amodau trwydded yn cael eu trafod, mae'n hanfodol bod unrhyw amodau trwydded ychwanegol a gynigir yn gymesur â lefel y risg a nodwyd.

Nid yw rheolwr y TTI yno i gynrychioli'r awdurdod lleol - dylid bod â thystiolaeth hefyd mewn achosion MAPPA sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc o'r gwasanaethau plant yn mynychu cyfarfodydd MAPPA ac yn gwneud cyfraniad effeithiol at reolaeth ryngasiantaethol o risg o niwed lle bo hynny'n briodol.

Cyn belled ag y mae'r asiantaethau MAPPA yn y cwestiwn, dylid bod â sail statudol dros rannu gwybodaeth. Mae hyn yn bodoli ar gyfer yr asiantaethau sy'n rhan o'r Awdurdod Cyfrifol neu sydd â dyletswydd i gydweithredu ag ef. Mae Adran 325(4) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ("CJA 2003") yn benodol yn caniatáu rhannu gwybodaeth rhwng yr asiantaethau hyn at ddiibenion MAPPA.

Mae **Datgeliad**, ar y llaw arall, yn golygu rhannu gwybodaeth benodol am droseddwr MAPPA gyda thrydydd parti (nad yw'n ymwneud â MAPPA) er mwyn diogelu'r cyhoedd. Gallai'r trydydd parti fod yn aelod o'r cyhoedd megis dioddefwr, cyflogwr, person sy'n ffurfio perthynas â throseddwr, neu berson sy'n gweithredu mewn swyddogaeth broffesiynol ond nad yw'n rhan o'r trefniadau MAPP.

Er mwyn sicrhau bod yr ystyriaethau priodol wedi'u cymryd, ni ellir gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch datgelu oni bai bod uwch gynrychiolydd y TTI a'r Gwasanaethau Plant yn bresennol yn y cyfarfod MAPP.

Dylai gweithiwr y TTI ystyried rhoi gwybod i'r BLIDP pan fydd datgeliad yn cael ei wneud. Fel ym mhob achos, dylai penderfyniadau ar ddatgelu gael eu cofnodi ar gofnodion y MAPPA neu, mewn achos lefel 1, ar system gofnodi'r asiantaeth ei hun.

**ViSOR - mae'n rhaid i'r TauTI a'r Gwasanaethau a'r Timau Iechyd Meddwl ddarparu data perthnasol ar gyfer diweddarau achosion ViSOR**

### **Categori 1 (Troseddwr Rhyw Cofrestredig)**

Bydd gan yr holl droseddwr Categori 1 gofnod ViSOR a Rheolwr Troseddwr enwebedig o'r heddlu sef perchennog y cofnod. Rhaid i'r gweithiwr achos TTI neu'r gweithiwr achos Iechyd Meddwl perthnasol gysylltu ag Uned Diogelu'r Cyhoedd yr heddlu i roi gwybod iddynt ei fod ef neu hi yn ymwneud â'r achos, darparu manylion cyswllt, a chael manylion am y swyddog heddlu sy'n gyfrifol am reoli'r cofnod. Bydd disgwyl i'r TTI /y Gwasanaeth a'r Tim Iechyd Meddwl a'r heddlu weithio'n agos gyda'i gilydd i reoli'r achos, gyda phob un yn hysbysu'r llall am unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau sylweddol. Bydd hyn yn caniatáu i'r heddlu gadw'r cofnod ViSOR yn gyfoes. Pan fydd yr achos yn cael ei reoli ar lefel 2 neu 3, bydd y cyfarfod

			<p>MAPP hefyd yn nodi gwybodaeth newydd y dylid ei nodi ar ViSOR.</p> <p><b>Categori 2 (Troseddwr Treisgar)</b>  Mae'n rhaid i'r TTI / y Gwasanaeth a'r Tim Iechyd Meddwl sicrhau bod y Cydlynnydd MAPPA yn cael gwybod am newidiadau a digwyddiadau pwysig, er enghraifft, y dyddiad rhyddhau o'r ddalfa a'r dyddiad y bydd goruchwyliaeth yn dod i ben. Pan fydd yr achos yn cael ei reoli ar lefel 2 neu 3, bydd y cyfarfod MAPP yn nodi gwybodaeth newydd y dylid ei rhoi ar ViSOR. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei darparu'n gyflym i Weinyddwr ViSOR yr Ymddiriedolaeth Prawf i weithredu yn ei chylch.</p> <p><b>Categori 3 (Troseddwr Peryglus Eraill)</b>  Bydd y cyfarfod MAPP yn nodi pa wybodaeth newydd y dylid ei chofnodi ar ViSOR, e.e diweddarau asesiadau risg, newid mewn amgylchiadau personol, arestiadau a chuddwybodaeth arall sy'n berthnasol i reoli'r achos yn effeithiol gan MAPPA. Rhaid i'r TTI /yr Ymddiriedolaeth a'r Tim Iechyd Meddwl gyflenwi'r wybodaeth hon yn brydlon i staff ViSOR perthnasol.</p>
2.10.2	2.2.1	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.12.1	3.3.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â chynllunio i ddiwallu'r holl anghenion diogelu a bregusrwydd drwy gydol y ddedfryd, a fydd yn cynnwys cyfnod y ddalfa a chyfnod cymunedol achosion carcharu. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynllunio i ddiwallu anghenion diogelu a bregusrwydd mewn achosion lle nad yw cynllun ffurfiol i reoli bregusrwydd yn ofynnol.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda yr ymdriniwyd â'r dangosyddion isod:</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r cynllunio'n gwahaniaethu rhwng y diogelu a'r bregusrwydd y gellir ymdrin â hwy o fewn y cynllun ymyrdd cyffredinol, a lle bo cynllun penodol i reoli bregusrwydd yn ofynnol</li> <li>• Mae cynllunio'n seiliedig ar asesiad</li> <li>• Mae'r ymateb i anghenion diogelu a bregusrwydd yn glir ac yn ddigonol i</li> </ul>	<p><b>A oedd cynllunio digonol ar gyfer gwaith i ymdrin â diogelu a bregusrwydd?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrdd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfanrwydd yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un heggoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' lle nad oedd unrhyw ofyn am gynllunio i roi sylw i ddiogelu neu fregusrwydd, fodd bynnag dylai'r arolygydd gadw mewn cof y dylid cynllunio ar gyfer yr holl faterion diogelu a bregusrwydd ac nid dim ond y rheini sy'n gofyn am gynllun ffurfiol i reoli bregusrwydd.</p> <p>Dylai ffactorau amrywiaeth neu faterion gwahaniaethol posibl eraill a allai weithredu fel rhwystrau i gydweithrediad dderbyn sylw penodol a dylid rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt wrth gynllunio i ddiwallu anghenion diogelu a bregusrwydd, yn enwedig wrth gynllunio sut y bydd camau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cymryd.</p> <p>Mae bregusrwydd yn fater ehangach nag amddiffyn plant ac mae'n cynnwys pob maes lle gall y plentyn neu berson ifanc fod mewn risg o niwed. Gall hyn fod o'u hymddygiad eu hunain, boed yn gysylltiedig â throeddau neu beidio, yn ogystal ag unrhyw risg a achosir ganddynt hwy i eraill. Nid yw ymddygiad troseddol, ynddo'i hun, yn peri'n awtomatig i'r asesiad hwn o fregusrwydd gael ei godi y tu hwnt i isel a dangos yr angen am gynllun rheoli ffurfiol. Fodd bynnag, gall fod agweddau penodol i'r ymddygiad troseddol (e.e. dihidrwydd, cludo cyllyll neu gamdefnyddio sylweddau) a ddylai gael effaith ar yr asesiad o fregusrwydd.</p>

		<p>amgylchiadau'r achos</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cynllun rheoli bregusrwydd wedi cael ei gynhyrchu'n brydlon lle nodwyd bod hyn yn angenrheidiol</li> <li>• Rhoddir sylw digonol i effaith materion amrywiaeth o fewn cynllunio diogelu a bregusrwydd lle nodwyd hynny, gan gynnwys staff gwasanaethau plant yn chwarae rhan mewn achosion o Blant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>• Mae newidiadau posibl mewn anghenion diogelu a bregusrwydd yn cael eu rhagweld yn y cynllun sy'n cynnwys trefniadau wrth gefn sy'n ddigonol i amgylchiadau'r achos</li> <li>• Mae cynllunio diogelu a bregusrwydd yn cael ei gyfleu'n glir mewn ffordd sy'n addas i anghenion yr achos ac o fewn trefniadau eglur ar gyfer rhannu gwybodaeth</li> <li>• Mae ymyriadau sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer diogelu a bregusrwydd wedi eu hymgorffori o fewn y cynllun dedfryd ac wedi eu cysylltu â chynlluniau cysylltiedig fel y penderfynir gan amgylchiadau'r achos</li> <li>• Mae ymyriadau i ymdrin ag anghenion diogelu a bregusrwydd yn cael eu blaenoriaethu o fewn amgylchiadau'r achos</li> <li>• Lle nodwyd hynny, mae cynllunio ar gyfer ymdrin â materion diogelu a bregusrwydd o fewn y ddalfa ac ar ôl rhyddhau, yn ddigonol</li> </ul>	<p>Mae'r canlynol yn rhai enghreifftiau o ddangosyddion bregusrwydd ond nid yw'n rhestr holl gynhwysfawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Iechyd emosïynol/meddyliol, e.e. iselder, hunan-niwed, materion ymlynu</li> <li>• Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>• Teulu, gan gynnwys brodyr neu chwiorydd, e.e. tueddiad i droseddu, trais o fewn y cartref, ymwneud ag eraill arwyddocaol, h.y. gangiau, troseddwyr</li> <li>• Ffactorau amgylcheddol, e.e. tai annigonol, yr ardal maent yn byw ynddi</li> <li>• Ymddygiad rhieni, e.e. anghenion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, rhianta anghyson</li> <li>• Ymddygiad pobl eraill, e.e. bwlio, cam-drin, esgeuluso, bygwth, ecsbloetio, cymdeithion</li> <li>• Digwyddiadau neu amgylchiadau, e.e. teulu'n gwahanu, profedigaeth, newid trefniadau gofal</li> <li>• Eu hymddygiad eu hunain, e.e. camddefnyddio sylweddau, math o droseddu, dangos eu hunain, ymateb amhriodol i straen, cludo arfau</li> <li>• Bod yn ofalwr ifanc, i'w plant eu hunain neu aelodau eraill o'r teulu</li> <li>• Ymddygiad di-hid arall sy'n dangos sylw annigonol i'w diogelwch eu hunain.</li> </ul> <p>Dylid rhoi sylw o fewn y cynllunio i unrhyw gamau angenrheidiol i leihau rhwystrau i gydweithrediad sy'n gysylltiedig â bregusrwydd.</p> <p>Dylai fod cynllunio digonol wrth gefn ar gyfer anghenion yr achos. Dylai ymyriadau gael eu trefnu yn unol ag anghenion diogelu, eu cydbwysu gyda'r rheini i reoli risg o niwed neu leihau tebygolrwydd o aildroseddu, a'u hintegreiddio o fewn y cynllun ymyrryd cyffredinol.</p> <p>Dylai'r arolygydd ystyried a yw pob achos o gyfeirio angenrheidiol yn cael eu hadnabod er mwyn diogelu ac amddiffyn y plentyn neu berson ifanc.</p> <p>I blant sy'n derbyn gofal, dylai'r arolygydd fod yn chwilio am gyfraniad ystyrion gan weithiwr cymdeithasol neu weithiwr allweddol y plentyn neu berson ifanc yn y cynllunio. Os nad yw hynny'n ddigonol yna mae'n annhebygol y byddant yn asesu'r cynllunio cyffredinol i fod yn ddigonol.</p> <p>Mewn achosion o garcharu, dylai'r cynllun fod yn glir ynghylch pa gamau sydd i gael eu cyflwyno yn y ddalfa a pha rai yn y cyfnod cymunedol, ynghyd â phwy sy'n gyfrifol am eu cyflwyno.</p>
2.12.2	3.3.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â pha mor dda y mae anghenion bregusrwydd wedi cael eu cynllunio, gyda chyfeiriad penodol at anghenion</p>	<p>Bydd yr agweddau hyn o'r cynllun eisoes wedi cael eu hystyried yn eich dyfarniad ar y cwestiwn blaenorol. Defnyddir y cwestiwn hwn i gael gwybodaeth ar gyfer gwaith yr arolygwyr partner yn ystod ail wythnos gwaith maes Arolygiad Llawn ar y Cyd.</p>

		<p>iechyd, camddefnyddio sylweddau, addysg hyfforddiant a chyflogaeth a threfniadau gofal ac a oedd hyn yn ddigonol ar gyfer anghenion yr achos.</p> <p>Defnyddir y cwestiwn hwn i gael gwybodaeth ar gyfer gwaith yr arolygwyr partner yn ystod ail wythnos gwaith maes Arolygiad Llawn ar y Cyd. Dylai'r arolygydd eisoes fod wedi rhoi ystyriaeth i'r agweddau hynny yn eu dyfarniad cyffredinol o debygolrwydd o ailasesu. Nid cwestiwn i'w sgorio yw hwn.</p>	<p>Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' lle nad oedd unrhyw ofyniad i'r cynllunio roi sylw i ddiogelu neu fregusrwydd ond dylai'r arolygydd gadw mewn cof y dylid cynllunio ar gyfer pob mater diogelu a bregusrwydd ac nid dim ond y rheini sy'n gofyn am gynllun rheoli ffurfiol.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried a gafodd adnoddau amlasiantaethol timau troseddau ieuencid eu defnyddio'n briodol gyda chyfeiriad penodol at gynllunio ar gyfer anghenion iechyd, camddefnyddio sylweddau, addysg hyfforddiant a chyflogaeth a threfniadau gofal wrth iddynt effeithio ar ddiogelu a bregusrwydd. Ym mhob parth, dylid defnyddio 'ddim yn berthnasol' os nad oedd dim angen am gynllunio yn y maes hwn.</p>
2.12.3	2.3.1	Lle defnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.13.1	3.3.1	<p>Roedd y cynllunio yn y ddalfa ar gyfer gwaith i ymdrin ag anghenion diogelu yn ystod y cyfnod yn y ddalfa'n ddigonol ac yn addas i amgylchiadau'r achos.</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Roedd anghenion diogelu a bregusrwydd wedi cael eu rhannu gyda'r sefydliad carcharu ar gychwyn y ddedfryd ac roedd y sefydliad hwnnw wedi ymateb iddynt</li> <li>Gwnaed cyfraniadau digonol at gynllunio i ddiwallu anghenion diogelu a bregusrwydd gan yr YOT, gwasanaethau plant ac unrhyw asiantaethau perthnasol eraill</li> <li>Roedd y cynllun ar gyfer y cyfnod yn y ddalfa wedi cael ei gynhyrchu i safon ddigonol ac roedd yn amserol i anghenion yr achos</li> </ul>	<p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrryd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfanrwydd yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un hegoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' lle nad oedd unrhyw ofyn am gynllunio i reoli diogelu neu fregusrwydd, ond dylai'r arolygydd gadw mewn cof y dylid cynllunio ar gyfer yr holl faterion diogelu a bregusrwydd ac nid dim ond y rheini sy'n gofyn am gynllun ffurfiol i reoli bregusrwydd.</p> <p>Mae'r canlynol yn rhai enghreifftiau o ddangosyddion bregusrwydd ond nid yw'n rhestr holl gynhwysfawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Iechyd emosiynol/meddyliol, e.e. iselder, hunan-niwed, materion ymlynu</li> <li>Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>Teulu, gan gynnwys brodyr neu chwirydd, e.e. tueddiad i droseddau, trais o fewn y cartref, ymwneud ag eraill arwyddocaol, h.y. gangiau, troseddwyr</li> <li>Ffactorau amgylcheddol, e.e. tai annigonol, yr ardal maent yn byw ynddi</li> <li>Ymddygiad rhieni, e.e. anghenion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, rhianta anghyson</li> <li>Ymddygiad pobl eraill, e.e. bwlio, cam-drin, esgeuluso, bygwth, ecsbloetio, cymdeithion</li> <li>Digwyddiadau neu amgylchiadau, e.e. teulu'n gwahanu, profedigaeth, newid trefniadau gofal</li> <li>Eu hymddygiad eu hunain, e.e. camddefnyddio sylweddau, math o droseddau, dangos eu hunain, ymateb amhriodol i straen, cludo arfau</li> <li>Bod yn ofalwr ifanc, i'w plant eu hunain neu aelodau eraill o'r teulu</li> </ul>



			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymddygiad di-hid arall sy'n dangos sylw annigonol i'w diogelwch eu hunain.</li> </ul> <p>Dylai'r cynllunio ddangos yn glir pa gamau sydd i'w cymryd yn y ddalfa a pha rai yn y cyfnod cymunedol. Dylid cynnal cyfarfod cynllunio yn y ddalfa o fewn 10 diwrnod gwaith pryd y dylid ailedrych ar ddiogelu a, lle nodwyd hynny, llunio cynllun o ansawdd digonol.</p> <p>Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi o'r farn, lle bo bregusrwydd, yna y dylid, yn ystod cyfnod y ddalfa o ddedfryd, cynllunio rhag ofn y gallai'r plentyn neu berson ifanc gael eu rhyddhau i'r gymuned ar unrhyw adeg, ac y dylid adolygu'n unol â hyn. Dylai'r arolygydd weld tystiolaeth o gynllunio yn yr un ffordd ag ar gyfer plant a phobl ifanc o fewn y gymuned. Yn ogystal, dylid hefyd roi sylw a chynllunio ar gyfer unrhyw fregusrwydd o fewn yr ystâd ddiogel, a dylai hyn gynnwys sicrhau bod y gwasanaethau gofynnol ar gael naill ai gan y sefydliad neu o fewn cyrraedd. Gallai hyn gynnwys gwasanaethau plant.</p> <p>I Blant sy'n Derbyn Gofal, y mae eu statws yn parhau tra bod y plentyn neu berson ifanc yn y ddalfa, rhaid cynnal prosesau lles plant megis adolygiadau rheolaidd o ofal plant. O ganlyniad dylai gweithiwr cymdeithasol yr awdurdod lleol cartref fod â rhan yn y broses gynllunio yn y ddalfa gan y bydd hyn yn cynyddu integreiddio cynlluniau lleoli ar ôl rhyddhau. Dylai pob cam a gymerir i ymdrin â diogelu gael ei ddogfennu o fewn y cynllun cyfan neu gynllun rheoli penodol sy'n cael ei integreiddio gyda'r cynllun cyfan fel bo'n addas i amgylchiadau'r achos.</p>
2.13.2	3.3.1	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.15.1	1.3.3	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a oedd yr adolygiadau o'r cynllun a gynhaliwyd yn ystod y ddedfryd hon yn ddigonol i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda yr ymdriniwyd â'r ffactorau isod:</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflawnwyd yr adolygiadau lle'r oedd angen yn brydlon ac i safon ddigonol</li> <li>• Cafodd y cynllun ei adolygu'n ôl yr angen ar sail yr adolygiadau</li> </ul>	<p><b>A oedd cynlluniau i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu'n cael eu hadolygu'n ddigonol drwy gydol y ddedfryd?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd famu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrryd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfanrwydd yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un hegoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' lle nad oedd unrhyw ofyn am adolygu'r cynllunio. Gallai hyn fod er enghraifft oherwydd ei bod hi'n rhy gynnar yn y ddedfryd; nad oes dim angen yn y maes hwn ac felly dim angen am gynllunio, neu fod y ddedfryd wedi dod i ben yn sydyn cyn bod unrhyw adolygiad yn ofynnol.</p> <p>Mae'r arolygydd yn chwilio am adolygiad o gynnydd fel bo'n ofynnol gan anghenion yr achos ac fel a gafodd eu hysgogi gan ddiwyddiadau o bwys, a yw hynny'n briodol. Nid dim ond gofyn os yw'r adolygiad o'r cynllun wedi cael ei gwblhau y mae'r cwestiwn hwn ond hefyd ynghylch ei ansawdd ac a oes <b>ym mam yr arolygydd</b> adolygiadau rheolaidd, ar adegau addas, o effeithiolrwydd ac addasrwydd cynlluniau ymyrryd sy'n ymateb yn addas i anghenion cyfnewidiol y plentyn neu berson ifanc.</p>

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau o bwys a allai ysgogi adolygiad yn cynnwys:

- Pan fo plentyn neu berson ifanc wedi bod 'allan o gysylltiad' gyda'r rheolwr achos am gyfnod o amser e.e. yn ystod cyfnod o golli apwyntiadau sy'n arwain at gamau am dorri rheolau
- Pan gall plentyn neu berson ifanc ailgychwyn gorddefnyddio alcohol neu ddychwelyd at ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon
- Pan fo plentyn neu berson ifanc yn symud allan o lety sefydlog
- Pan fo ffordd o fyw plentyn neu berson ifanc yn mynd yn afreolus ac maent yn methu â chydweithredu â gwasanaethau cymorth
- Tystiolaeth o ymddygiad troseddol pellach neu dystiolaeth o gynnydd yn y tebygolrwydd o ail-droseddu
- Gwybodaeth gan wasanaethau dioddefwyr ynghylch cysylltiad neu fygythiad posibl i ddioddefwr a adnabuwyd o'r blaen.

Os oes penderfyniad amddiffynadwy'n cael ei gofnodi ynghylch amllder adolygiadau a'r amgylchiadau lle byddent yn cael eu cyflawni, a chyn belled ag y glynwyd at hyn, yna gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod adolygiadau, cyn belled â'u bod o ansawdd da, yn ddigonol. Yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth arall mae'r Safonau Cenedlaethol yn feincnod addas i farnu amseroldeb adolygiadau ar ei sail.

Mae Safonau Cenedlaethol 2013, 4.5-4.6 yn datgan:

Ar gyfer pob gorchymyn sicrhau bod adolygiad ffurfiol o gynnydd o gymharu â'r cynlluniau'n cael eu cynnal naill ai:

- Gydag uchafswm o 6 mis rhyngddynt, neu
- Lle, ym marn y rheolwr achos, bod unrhyw newidiadau a adnabuwyd ym mywyd y person ifanc mor arwyddocaol fel eu bod yn hawlio adolygiad i'r cynllun, neu
- Yn dilyn unrhyw benderfyniad i amrywio lefelau o gysylltiad yn unol â'r model dull graddedig, ac ar ddiwedd goruchwyliaeth yr YOT fel rhan o'r broses o gau'r achos
- O fewn 15 diwrnod gwaith o gychwyn adolygiad o'r asesiad.

Er mwyn i'r arolygydd farnu bod adolygiadau'n ddigonol, mae'n debygol y bydd angen tystiolaeth bod y rheolwr achos wedi monitro a chofnodi cynnydd o gymharu â'r cynlluniau presennol trwy gasglu a chofnodi'r wybodaeth fwyaf cyfoes a pherthnasol sy'n ymwneud â risgiau ac anghenion y plentyn neu berson ifanc. Er mwyn i ddyfarniad bod yr adolygiad yn amserol i anghenion yr achos, rhaid i'r cynllun diwygiedig sy'n deillio ohono gael ei gwblhau o fewn 15 diwrnod gwaith i gychwyn yr adolygiad hwn.

			<p>Lle bo'r person ifanc eisoes yn destun cynllun ymyrryd cyfredol ac yn cael ei ail ddedfrydu yn ystod oes y cynllun, dylai'r rheolwr achos fod wedi sicrhau bod y cynllun hwn wedi cael ei adolygu a'i ddiwygio lle bo hynny'n berthnasol.</p> <p>Mae angen i adolygiadau fod yn cael eu cymryd o ddifrif ac nid fel ymarferiad technegol yn unig. Yn benodol dylent gynnwys tystiolaeth o gynnydd hyd yn hynny, cynnwys ac adlewyrchu cyfraniad asiantaethau allweddol, rhoi ystyriaeth i farn y plentyn neu berson ifanc (a lle bo'n briodol farn rhiant/gofalwr) ynghylch cynnydd, a chynnwys unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r cynllun o ganlyniad i'r adolygiad</p>
2.15.2	1.3.3	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.16.1	2.3.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a oedd yr adolygiadau o'r cynllun a gynhaliwyd yn ystod y ddedfryd hon yn ddigonol i reoli a lleihau risg o niwed.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda yr ymdriniwyd â'r ffactorau isod:</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflawnwyd yr adolygiadau lle'r oedd angen yn brydlon ac i safon ddigonol</li> <li>• Cafodd y cynllun ei adolygu'n ôl yr angen ar sail yr adolygiadau</li> </ul>	<p><b>A gafodd cynlluniau i reoli a lleihau risg o niwed i eraill eu hadolygu'n ddigonol drwy gydol y ddedfryd?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd famu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrryd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfanrwydd yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd yn hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' lle nad oedd unrhyw ofyn am adolygu'r cynllunio i reoli risg o niwed i eraill. Gallai hyn fod er enghraifft oherwydd ei bod hi'n rhy gynnar yn y ddedfryd; nad oes dim angen yn y maes hwn ac felly dim angen am gynllunio, neu fod y ddedfryd wedi dod i ben yn sydyn cyn bod unrhyw adolygiad yn ofynnol.</p> <p>Mae'r canllawiau a roddir ar gyfer 2.15.1 yn berthnasol i'r cwestiwn hwn ond dylai'r arolygydd gadw mewn cof hefyd ofynion penodol gwaith i reoli risg o niwed fel y'i rhoddir isod:</p> <p>Dylai cynllunio gwaith i reoli risg o niwed gael ei adolygu ochr yn ochr â chynlluniau ymyrryd a chontractau gorchmynion cyfeirio ar bwyntiau addas o fewn y ddedfryd. Gallai unrhyw achos gael newid sylweddol sy'n gofyn am adolygu asesiad o risg o niwed, a allai hefyd ysgogi adolygiad o gynllunio, a dylai'r arolygydd fod yn effro i hyn o fewn yr achos.</p> <p>Rhai enghreifftiau o newidiadau sylweddol yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pan fo plentyn neu berson ifanc wedi bod 'allan o gysylltiad' gyda'r rheolwr achos am gyfnod o amser e.e. yn ystod cyfnod o golli apwyntiadau sy'n arwain at gamau am dorri rheolau</li> <li>• Pan gall plentyn neu berson ifanc ailgychwyn gorddefnyddio alcohol neu ddychwelyd at ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon a hyn wedi ei gysylltu â materion risg o niwed</li> <li>• Pan fo plentyn neu berson ifanc yn symud allan o lety sefydlog a oedd wedi bod yn gweithredu fel ffactor amddiffynnol yn erbyn risg o niwed</li> <li>• Pan fo ffordd o fyw plentyn neu berson ifanc yn mynd yn afreolus ac maent yn methu</li> </ul>

			<p>â chydweithredu â gwasanaethau cymorth</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tystiolaeth o ymddygiad troseddol pellach neu wybodaeth sy'n gysylltiedig â chynnydd yn y risg o niwed i eraill</li> <li>• Gwybodaeth gan wasanaethau dioddefwyr ynghylch cysylltiad neu fygythiad posibl i ddiodefwyr a adnabuwyd o'r blaen.</li> </ul> <p>Dylai rheolwyr achos allu rhagweld a darganfod a yw ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag ymddygiad blaenorol a/neu troseddu'n ailymddangos, er enghraifft colli llety sefydlog neu ddychwelyd at gamddefnyddio sylweddau. Ar y llaw arall, gallai fod achosion lle nad oes unrhyw ddangosyddion blaenorol ond bod ymddygiad yn awgrymu rhywfaint o bryder megis cymdeithasu â phobl y mae'n hysbys eu bod yn achosi niwed i eraill.</p> <p>Ar gyfer achosion MAPPA, bydd angen i'r arolygydd fod yn fodlon fod adolygiadau wedi cynnwys materion MAPPA a bod camau gweithredu MAPPA wedi cael eu hintegreiddio i'r adolygiadau lle bo hynny'n briodol</p> <p>Mewn achosion o garcharu bydd angen i'r arolygydd ffurfio barn ynghylch a yw cynlluniau'n ddigon clir ynghylch pa gamau i leihau risg o niwed sydd i'w cymryd yn y ddalfa a bod canlyniad/cynnydd y camau hynny'n cael ei adolygu'n rheolaidd a'r camau'n cael eu haddasu fel bo'n angenrheidiol.</p>
2.16.2	2.3.1	Lle defnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.17.a	3.3.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a oedd yr adolygiadau o'r cynllun a gynhaliwyd yn ystod y ddedfryd hon yn ddigonol i ymdrin â materion diogelu a bregusrwydd.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda yr ymdriniwyd â'r ffactorau isod:</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflawnwyd yr adolygiadau lle'r oedd angen yn brydlon ac i safon ddigonol</li> <li>• Cafodd y cynllun ei adolygu'n ôl yr angen ar sail yr adolygiadau</li> </ul>	<p><b>A gafodd cynlluniau i ymdrin ag anghenion diogelu a bregusrwydd eu hadolygu'n ddigonol drwy gydol y ddedfryd?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd famu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrryd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonlrydd yn y cynllun yn gwrthbwysu unrhyw annigonlrydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfannrwydd yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un hegoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' lle nad oedd unrhyw ofyn am adolygu'r cynllunio i ymdrin â diogelu a bregusrwydd. Gallai hyn fod er enghraifft oherwydd ei bod hi'n rhy gynnar yn y ddedfryd; nad oes dim angen yn y maes hwn ac felly dim angen am gynllunio, neu fod y ddedfryd wedi dod i ben yn sydyn cyn bod unrhyw adolygiad yn ofynnol.</p> <p>Mae'r canllawiau a roddir ar gyfer 2.15.1 yn berthnasol i'r cwestiwn hwn ond dylai'r arolygydd gadw mewn cof hefyd ofynion penodol gwaith i reoli risg o niwed fel y'i rhoddir isod:</p> <p>Rhaid i ddiogelu a bregusrwydd gael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn drylwyr, ac ar ôl newid sylweddol a allai beri pryder – gallai hyn gynnwys lleihau ffactorau amddiffynnol neu gynydd mewn ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag anghenion diogelu megis digartrefedd, mwy o</p>

			<p>gamddefnyddio sylweddau neu gysylltiadau hysbys â throeddwy'r eraill sy'n peri risg i blant neu bobl ifanc.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd felly fod yn fodlon bod adolygiadau wedi bod yn amserol i anghenion yr achos a bod newidiadau mewn ffactorau diogelu'n cael eu hadnabod yn gyflym ac y gweithredir arnynt yn briodol. Gallai hyn gynnwys cynllunio i gyfeirio neu ailgyfeirio at asiantaethau eraill megis gwasanaethau plant neu asiantaethau camddefnyddio sylweddau.</p> <p>Mewn achosion o garcharu bydd angen i'r arolygydd ffurfio barn ynghylch a roddwyd sylw digonol i anghenion diogelu a bregusrwydd wrth baratoi ar gyfer rhyddhau i'r gymuned ac a yw'r rhain wedi cael eu hadolygu fel bo'n briodol o fewn cyfnod y ddalfa o'r ddedfryd.</p>
2.17.2	3.3.1	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20	Lle defnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 2.20
2.20		<p>Byddwch cystal â chrynhof'r ffactorau allweddol sydd wedi dylanwadu ar eich dyfarniadau yn yr adran hon. NI ddylai hyn fod yn ailadroddiad o'ch atebion i'r cwestiynau unigol, ond yn hytrach dylent helpu'r Arolygydd Arweiniol i ddeall y cyd-destun y gwnaed y dyfarniadau hynny.</p> <p>Er mwyn cynorthwyo'r Arolygydd Arweiniol byddwch cystal â chynnwys digon o nodweddion perthnasol yr achos i'w helpu hwy i ddeall yr achos.</p> <p>Yn benodol, byddwch cystal â chynnwys manylion pellach pryd bynnag yr ydych wedi defnyddio "Arall" fel yr esboniad dros annigonolrwydd.</p> <p>Wrth grynhoi'r ffactorau allweddol, cofiwch eich bod wedi asesu penderfyniadau a chmau a gymerwyd yng ngoleuni eu <i>haddasrwydd ar gyfer amgylchiadau'r achos</i>.</p>	<p>Byddwch cystal â chrynhof'r ffactorau allweddol sydd wedi dylanwadu ar eich dyfarniadau yn yr adran hon. NI ddylai hyn fod yn ailadroddiad o'ch atebion i'r cwestiynau unigol, ond yn hytrach dylent helpu'r Arolygydd Arweiniol i ddeall y cyd-destun y gwnaed y dyfarniadau hynny.</p> <p>Er mwyn cynorthwyo'r Arolygydd Arweiniol byddwch cystal â chynnwys digon o nodweddion perthnasol yr achos i'w helpu hwy i ddeall yr achos.</p> <p>Yn benodol, byddwch cystal â chynnwys manylion pellach pryd bynnag yr ydych wedi defnyddio "Arall" fel yr esboniad dros annigonolrwydd.</p> <p>Wrth grynhoi'r ffactorau allweddol, cofiwch eich bod wedi asesu penderfyniadau a chmau a gymerwyd yng ngoleuni eu <i>haddasrwydd ar gyfer amgylchiadau'r achos</i>.</p> <p>Byddwch cystal â chynnwys sylwadau ar gryfderau a ganfuwyd yn yr achos, peidiwch â chanolbwyntio ar annigonolrwydd yn unig.</p>

### Golwg 3 – Cyflwyno Ymyriadau (Arolygiadau ar y Cyd Llawn yn unig)

Rhif Cwestiwn	Maen Prawf	Dangosyddion Ansawdd	Canllawiau Estynedig
3.1.1	1.4.2	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd ffurfio barn ar y cysondeb rhwng yr hyn a gafodd ei asesu/cynllunio gan yr YOT a'r hyn a wnaed (waeth beth y mae'r arolygydd yn ei feddwl <i>ddylai</i> fod wedi cael ei wneud). Caiff dyfarniadau ar ansawdd ac addasrwydd yr ymyriadau gwirioneddol eu gwneud yng nghwestiynau 3.7.1 ymlaen.</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caiff yr asesiad ei gwblhau ar y pwynt(iau) gofynnol yn y ddedfryd</li> <li>• Mae cynllun wedi cael ei gynhyrchu sy'n dangos yn glir yr ymyriadau sydd i'w cyflawni</li> <li>• Mae'r cysylltiad rhwng y cynllun a gweithredu'r ymyriad yn glir</li> <li>• Mae'r ymyriadau a gynlluniwyd wedi cael eu cyflawni</li> </ul>	<p>A oedd yr ymyriadau a ddarparwyd i leihau aildroseddu yn ddigon cyson â'r rhesymau a nodwyd am droseddu a chynllunio gwaith yn yr achos?</p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a wnaeth yr YOT gyflawni, o safbwynt lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu, yr hyn yr oedd wedi ei nodi i fod yn ofynnol ac yn bwriadu ei wneud. Mae felly'n seiliedig ar asesiad a chynllun yr YOT, ac NID ar farn yr arolygydd o'r hyn y dylid bod wedi ei wneud yn yr achos. Mae ynglŷn â gallu'r rheolwr achos i droi eu hasesiad a'u cynllun yn weithredu ymyriadau.</p> <p>Bydd cwestiynau dilynol (3.7.1 ymlaen) yn asesu a gafodd, ym marn yr arolygydd, yr ymyriadau priodol eu cyflwyno i fodloni eu dyfarniad ar anghenion yr achos, ac a oedd y rhain o ansawdd da. Dylid cymryd gofal felly i osgoi ateb y cwestiynau dilynol yn erbyn y cwestiwn hwn – heblaw i'r graddau y byddai ymyriadau a gyflwynwyd, oni bai eu bod yn rhai sylweddol, yn debygol o arwain at ateb NA i'r cwestiwn hwn.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ffurfio barn a oedd yr ymyriadau a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Ymdrinnir ag ymyriadau i reoli risg o niwed ac, mewn achosion perthnasol i leihau bregusrwydd, yng nghwestiynau 3.3 a 3.5.</p> <p>Os yw'r arolygydd yn barnu mai'r prif reswm pam na chynlluniwyd ar gyfer ymyriadau gofynnol oedd nad oedd yr anghenion yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad, bydd hyn wedi cael sylw yng Ngolwg 1, ac <b>ni fyddai'n berthnasol i'r cwestiwn hwn</b>.</p> <p>Er mwyn i'r arolygydd farnu bod tystiolaeth o gysondeb digonol, dylai'r cynllun ymyrriad adlewyrchu'r anghenion allweddol sydd wedi cael eu nodi yn yr asesiadau a gyflawnwyd gan yr YOT mewn perthynas â'r plentyn neu berson ifanc. O ganlyniad, dylai'r meysydd o waith ac amcanion yn y cynllun ymyrriad nodi cysylltiad amlwg â'r ffactorau sy'n ymwneud â throseddu a adnabuwyd o'r asesiad o debygolrwydd aildroseddu gan ddefnyddio Asset. Dylai'r ymyriad fel y'i nodir yn y cynllun dedfryd fod wedi cael ei gyflawni fel y bwriadwyd iddo, i'r graddau sy'n briodol ar yr adeg bresennol o'r ddedfryd.</p> <p>Mewn achosion lle nad yw'r asesiad a'r cynllun yn gyson neu lle mae'r ffordd y cyflwynwyd ymyriadau'n ymddangos yn ddigyswllt â'r naill a'r llall, y mae'n debygol y bydd y cwestiwn hwn yn cael ei ateb fel NA.</p> <p>Pan fo oedi wrth gyflwyno ymyriadau penodol, neu newid yn eu dilyniant, yna dylid</p>

			<p>esbonio'r rhesymau am hyn yn glir yng nghofnod yr achos – os oes sail resymegol glir ac amddiffynadwy dros y newid yna gallai'r arolygydd ateb y cwestiwn hwn yn GADARNHAOL, fodd bynnag os nad oes sail resymegol glir gall yr arolygydd ddod i'r casgliad na chafodd ymyriadau eu cyflwyno'n unol â'r asesiad a'r cynllun. Er enghraifft, lle mae'r rheolwr achos yn ddiweddarach wedi nodi angen brys sy'n gorfod cael blaenoriaeth neu eu bod hwy'n adnabod pryderon symbyliadol neu rwystrau i gydweithredu y mae'n ofynnol rhoi sylw iddynt cyn y gellir cychwyn ymyrryd, dylai hyn gael ei gofnodi o fewn cofnod yr achos.</p> <p>Lle mae ffactorau amrywiaeth neu rwystrau posibl eraill i gydweithrediad wedi cael eu nodi yn asesiad yr YOT dylai'r cynllun fod yn glir ynghylch sut y bydd y rhain yn cael eu rheoli er mwyn lleihau eu heffaith ar lwyddiant yr ymyriadau a gyflwynir.</p> <p>Os yw'r plentyn neu berson ifanc yn cael ei oruchwyllo'n unol â'r Dull Graddedig yna bydd faint o waith sydd yn y cynllun yn amrywio gan ddibynnu ar lefel y Dull Graddedig. Yr uchaf y lefel y mwyaf cymhleth ac ymroddedig y dylai'r cynllun fod gyda mwy o bobl eraill yn cymryd rhan, ac felly'r mwyaf o ymyriad y dylid ei gyflwyno gan y cam cyfredol o'r ddedfryd. Er enghraifft mae cynllun i blant a phobl ifanc ar y lefel ddwys yn debygol o gynnwys cyfraniad mwy sylweddol gan eraill megis gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd, gweithiwr addysg, etc.</p> <p>Mewn achosion o garcharu mae'r cwestiwn hwn yn cyfeirio at y cynllun a gynhyrchwyd ar adeg rhyddhau.</p>
3.1.2	1.4.2	Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20
3.2.1	1.4.2	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd farnu a gyflawnwyd digon o adolygiadau o ymyriadau a gynlluniwyd ac a gyflwynwyd lle bo angen hynny i gefnogi'r lleihad yn y tebygolrwydd o ail-droseddu</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafodd adolygiadau o'r ymyriadau a gynlluniwyd ac a gyflwynwyd eu cyflawni fel bo'n ofynnol</li> <li>• Roedd yr adolygiadau'n amserol i amgylchiadau'r achos</li> <li>• Roedd yr adolygiadau o ansawdd digonol i amgylchiadau'r achos</li> <li>• Fe wnaeth yr adolygiadau arwain at i'r gwaith cyflwyno gael ei addasu fel bo'n</li> </ul>	<p><b>A gafodd ymyriadau a gyflwynwyd i leihau'r tebygolrwydd o ail-droseddu eu hadolygu'n ddigonol?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrryd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfanrwydd yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Yr egwyddor bwysicaf yw y dylai ymyriadau fod yn ymatebol i newidiadau i'r plentyn neu berson ifanc a chael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol ag anghenion yr achos. Felly er y bydd y mecanwaith ffurfiol ar gyfer adolygu ochr yn ochr ag adolygiad llawn o Asset, nid yw hyn ynddo'i hun yn ddigon. Yn ogystal â'r broses ffurfiol uchod, dylai'r arolygydd fod yn fodlon fod y rheolwr achos yn asesu ac adolygu'n barhaus y tebygolrwydd o ail-droseddu ac yn cadw hyn mewn cof o fewn pob cysylltiad gyda'r plentyn neu berson ifanc; yn adolygu'n barhaus effeithiolrwydd ac addasrwydd y cyflwyno ac yn ceisio'i addasu i ymatebolrwydd a</p>

		<p>ofynnol yn ôl amgylchiadau'r achos</p>	<p>symbyliad y plentyn neu berson ifanc.</p> <p>Er bod Safonau Cenedlaethol 2013 yn rhoi manylion am ofynion ar gyfer adolygiadau o asesiadau a chynlluniau, ni chyfeirir yn benodol at adolygu ymyriadau. Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi o'r farn na all adolygiadau o gynlluniau fod yn ddigonol oni bai eu bod yn defnyddio gwybodaeth o adolygiadau o gynnydd ar yr ymyriadau – hynny yw, na allwch wneud un yn iawn heb y llall.</p> <p>Er y bydd angen i'r arolygydd fod yn fodlon bod adolygiadau digonol wedi digwydd a'r rheini'n addas i anghenion ac amgylchiadau llawn yr achos, fe wnaeth Safon Genedlaethol 2013 4.5 osod meincnod ar gyfer amseroldeb adolygiadau ffurfiol o gynnydd yn erbyn cynlluniau y gall yr arolygydd eu hystyried yn absenoldeb tystiolaeth arall:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gydag uchafswm o 6 mis rhyngddynt, neu</li> <li>• Pryd, ymyll marn y rheolwr achos, bod unrhyw newidiadau a adnabuwyd ym mywyd y person ifanc mor sylweddol ag i hawlio adolygiad o'r cynllun, neu</li> <li>• Yn dilyn unrhyw benderfyniad i amrywio lefelau o gysylltiad yn unol â'r model dull graddedig, ac</li> <li>• Ar ddiwedd goruchwyliaeth yr YOT fel rhan o'r broses o gau'r achos.</li> </ul> <p>Gallai enghreifftiau o newid sylweddol sy'n ysgogi adolygiad o ymyriadau a gyflwynir i leihau tebygolrwydd o ailddosdeddu gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Plentyn neu berson ifanc yn ymddieithrio o wasanaethau</li> <li>• Cwblhau tasgau neu raglen sydd wedi peri newid i'r plentyn neu berson ifanc</li> <li>• Ymddygiad troseddol pellach neu wybodaeth am ymddygiad troseddol</li> <li>• Newid mewn amgylchiadau byw megis rhiant/gofalwr yn gadael neu'n dychwelyd i'r cartref, digartrefedd neu ffactorau sefyllfaol eraill</li> <li>• Dedfryd newydd yn cael ei gosod ar blentyn neu berson ifanc sydd eisoes o dan oruchwyliaeth</li> </ul>
3.2.2	1.4.2	<p>Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20</p>	<p>Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20</p>
3.3.1	2.4	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd ffurfio barn ar y cysondeb rhwng yr hyn a gafodd ei asesu/cynllunio gan yr YOT a'r hyn a wnaed wrth reoli'r risg o niwed i eraill (waeth beth mae'r arolygydd yn ei feddwl y dylid bod wedi'i wneud)</p> <p>Dangosyddion Ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafodd asesiad cychwynnol ei wneud</li> </ul>	<p><b>A oedd yr ymyriadau a gyflwynwyd i reoli risg o niwed i eraill yn gyson â'r asesiad a'r cynllun gwaith yn yr achos?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a wnaeth yr YOT, o safbwynt rheoli risg o niwed i eraill, gyflwyno'r ymyriadau yr oedd wedi eu nodi fel rhai gofynnol ac wedi cynllunio i'w gwneud. Mae'n seiliedig felly ar asesiad a chynllun yr YOT, ac NID ar farn yr arolygydd o beth ddylid bod wedi'i wneud yn yr achos. Mae ynglŷn â gallu'r rheolwr achos i droi eu hasesiad a'u cynllun yn gwerithredu ymyriadau.</p>



		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae cynllun wedi cael ei wneud sy'n dangos yn glir yr ymyriadau i gael eu cyflwyno</li> <li>• Mae'r cyswllt yn glir rhwng y cynllun a'r ffordd y cyflwynir yr ymyriadau</li> <li>• Mae'r ymyriadau a gafodd eu cynllunio wedi cael eu cyflawni</li> </ul>	<p>Bydd cwestiynau dilynol yn asesu a gafodd, ym marn yr arolygydd, yr ymyriadau priodol eu cyflwyno i fodloni eu dyfarniad ar anghenion yr achos, ac a oedd y rhain o ansawdd da.</p> <p>Dylid cymryd gofal felly i osgoi ateb y cwestiynau dilynol yn erbyn y cwestiwn hwn – heblaw i'r graddau petai unrhyw ymyriadau a gyflwynwyd heb fod yn rhai sylweddol yn debygol o arwain at ateb NA i'r cwestiwn hwn.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ffurfio barn a oedd yr ymyriadau a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar reoli'r risg o niwed i eraill. Ymdrinnir ag ymyriadau i leihau'r tebygolrwydd o aildrosedd, ac mewn achosion perthnasol i roi sylw i ddiogelu a bregusrwydd, yng nghwestiynau 3.1.1 a 3.5.1. Mae'r canllawiau a roddir yng nghwestiwn 3.1.1 yn dal i fod yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.</p> <p>Os yw'r arolygydd yn barnu mai'r prif reswm pam na chynlluniwyd ar gyfer ymyriadau gofynnol oedd nad oedd yr anghenion yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad, bydd hyn wedi cael sylw yng Ngolwg 1, <b>ni fyddai'n berthnasol i'r cwestiwn hwn.</b></p> <p>Er mwyn i'r arolygydd farnu bod tystiolaeth o gysondeb digonol dylai'r meysydd o waith ac amcanion yn y cynllun ymyrryd i reoli risg o niwed nodi cyswllt amlwg â'r ffactorau a adnabuwyd o fewn yr asesiad Asset o risg o niwed.</p> <p>Mewn achosion lle nad yw'r asesiad a'r cynllun yn gyson neu lle mae'r ffordd y cyflwynwyd ymyriadau'n ymddangos yn ddigyswllt â'r naill neu'r llall mae'n debyg y bydd y cwestiwn hwn yn cael ei ateb fel NA.</p> <p>Lle'r oedd yr asesiad perthnasol yn adnabod risg o niwed i ddiodefwyr gwirioneddol neu ddiodefwyr posibl (gan gynnwys diodefwyr yn y gorffennol), dylid rhoi blaenoriaeth i gamau a gynlluniwyd ac a gymerwyd i fonitro a gwarchod diogelwch y diodefwyr hyn trwy gydol y ddedfryd, yn enwedig y rheini y barnwyd eu bod yn agored i niwed.</p> <p>Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' pan nad oedd, yn asesiad yr arolygydd, unrhyw ffactorau risg o niwed a oedd yn gofyn am ymyriad.</p>
3.3.2	2.4	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20
3.4.1	2.4	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a yw ymyriadau a oedd yn ofynnol i reoli risg o niwed wedi cael eu cyflawni <b>ym marn yr arolygydd</b>. Mae'r cwestiwn hwn yn seiliedig ar farn yr arolygydd yn hytrach nag ar yr asesiad a gynhyrchwyd gan yr YOT.</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fe wnaeth yr YOT adnabod ymyriadau a</li> </ul>	<p><b>A gafodd yr ymyriadau gofynnol eu cyflwyno drwy gydol y ddedfryd i reoli risg o niwed i eraill?</b></p> <p>Mae canolbwynt y cwestiwn hwn yn symud ymlaen i ofyn a wnaeth yr YOT gyflwyno'r ymyriadau cywir i reoli risg o niwed i eraill, a hynny os oeddent wedi cael eu hadnabod yn gywir neu beidio yn yr asesiad a'r cynllunio. Mae'r cwestiwn hwn yn cydnabod bod y pethau iawn yn cael eu gwneud weithiau, er bod y meddwl a arweiniodd at gyflwyno ymyriadau'n aneglur. Lle bo hynny'n digwydd, dylid rhoi clod am "wneud y peth iawn".</p>

		<p>oedd yn ofynnol i reoli'r dangosyddion risg o niwed yn yr achos hwn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fe wnaeth yr YOT (neu asiantaeth arall fel y cytunwyd) gyflwyno'r ymyriadau gofynnol i reoli dangosyddion risg o niwed yn yr achos hwn</li> <li>• Roedd yr YOT yn ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r achos ac yn addasu ymyriadau yn ôl y gofyn</li> </ul>	<p>Felly bydd yr arolygydd yn chwilio am dystiolaeth fod yr YOT yn ymatebol i'r hyn oedd yn mynd ymlaen yn yr achos ac yn canolbwyntio drwy ei gydol ar amddiffyn y cyhoedd trwy ymateb i'r amgylchiadau a ganfuasant ger eu bron a chyflwyno'r ymyriadau cywir.</p> <p>Bydd cwestiynau dilynol yn asesu ansawdd ymyriadau a gafodd eu cyflwyno yn yr achos hwn – mae'r cwestiwn hwn wedi'i gyfyngu i a gafodd, ym marn yr arolygydd ar anghenion yr achos, y pethau iawn eu gwneud. Fodd bynnag, i gyfrif fel "wedi'u gwneud" rhaid i ymyriad fod yn un sylweddol.</p> <p>Cyn ateb y cwestiwn hwn bydd angen i'r arolygydd ffurfio eu barn eu hunain, gan ddefnyddio'r wybodaeth a fyddai wedi bod ar gael ar y pryd, ar beth oedd anghenion yr achos.</p> <p>Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' lle, ym marn yr arolygydd, nad oedd unrhyw ffactorau risg o niwed a oedd yn gofyn am sylw wrth i'r ddedfryd gael ei chyflawni.</p> <p>Dylai'r arolygydd fod yn chwilio am gadarnhad bod yr YOT wedi adnabod dangosyddion risg o niwed o fewn yr achos ac wedi gweithredu'n briodol arnynt. Gallai dangosyddion sy'n debygol o ysgogi'r angen am ymyriadau penodol i reoli risg o niwed gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pan fo plentyn neu berson ifanc wedi bod 'allan o gyswllt' â'r rheolwr achos am beth amser e.e. yn ystod cyfnod o golli apwyntiadau sy'n arwain at gamau disgyblu am dorri rheolau</li> <li>• Pan gall plentyn neu berson ifanc fod yn ailgychwyn gorddefnydd o alcohol neu'n dychwelyd at ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon ac y gellir adnabod hyn yn briodol fel rhywbeth sy'n gysylltiedig ag ymddygiad risg o niwed</li> <li>• Pan fo plentyn neu berson ifanc yn symud allan o lety sefydlog ac y gellir adnabod hyn yn briodol fel rhywbeth sy'n gysylltiedig ag ymddygiad risg o niwed</li> <li>• Pan fo ffordd o fyw plentyn neu berson ifanc yn dod yn afreolus a'u bod yn methu â chydweithredu â gwasanaethau cymorth ac y gellir adnabod hyn yn briodol fel rhywbeth sy'n gysylltiedig ag ymddygiad risg o niwed</li> <li>• Tystiolaeth o ymddygiad troseddol pellach neu wybodaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad troseddol pellach sy'n gysylltiedig ag ymddygiad risg o niwed</li> <li>• Gwybodaeth yn dangos cynnydd mewn risg o niwed i eraill</li> </ul> <p>Os yr arolygydd yn gallu adnabod dangosyddion risg o niwed nad ydynt yn cael eu cydnabod gan yr YOT ac nad ymdrinnir â hwy trwy gyflwyno ymyriad addas A bod hyn yn ddiffyg allweddol yn amgylchiadau llawn yr achos dylai hyn arwain at ateb NA i'r cwestiwn hwn.</p>
3.4.2	2.4	Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20

3.4.3	2.4	Gweler canllawiau ar 3.4.1	<p><b>Yn yr achos hwn o garcharu a gafodd yr ymyriadau gofynnol eu cyflwyno drwy gydol y cyfnod yn y ddalfa i reoli risg o niwed i eraill?</b></p> <p>Gweler canllawiau ar 3.4.1</p>
3.5.1	3.4	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd ffurfio barn ar y cysondeb rhwng yr hyn a gafodd ei asesu/cynllunio gan yr YOT i ymdrin â diogelu a bregusrwydd a'r hyn a wnaed (waeth beth mae'r arolygydd yn ei feddwl y <i>dylid</i> bod wedi'i wneud)</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafodd yr asesiad ei gwblhau ar y pwynt(iau) iawn yn y ddedfryd</li> <li>• Mae cynllun wedi cael ei gynhyrchu sy'n dangos yn glir yr ymyriadau i'w cyflwyno</li> <li>• Mae'r cyswllt rhwng y cynllunio a gweithredu'r ymyriad yn glir</li> <li>• Mae ymyriadau a gynlluniwyd wedi cael eu cyflawni</li> </ul>	<p><b>A oedd yr ymyriadau a gyflwynwyd drwy gydol y ddedfryd i ymdrin â diogelu a bregusrwydd yn gyson â'r asesiad a'r cynllun gwaith yn yr achos?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a wnaeth yr YOT, o safbwynt ymdrin â diogelu a bregusrwydd, gyflwyno'r ymyriadau yr oedd wedi eu nodi fel rhai gofynnol ac wedi bwriadu eu gwneud. Mae'n seiliedig felly ar asesiad a chynllun yr YOT, ac NID ar farn yr arolygydd o beth ddylid bod wedi'i wneud yn yr achos. Mae ynglŷn â gallu'r rheolwr achos i droi eu hasesiad a'u cynllun yn gweithredu ymyriadau.</p> <p>Bydd cwestiynau dilynol yn asesu a gafodd, ym marn yr arolygydd, yr ymyriadau priodol eu cyflwyno i fodloni eu dyfarniad ar anghenion yr achos, ac a oedd y rhain o ansawdd da. Dylid cymryd gofal felly i osgoi ateb y cwestiynau dilynol yn erbyn y cwestiwn hwn – heblaw i'r graddau petai unrhyw ymyriadau a gyflwynwyd, oni bai eu bod yn rhai sylweddol, yn debygol o arwain at ateb NA i'r cwestiwn hwn.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ffurfio barn a oedd yr ymyriadau a gyflwynwyd yn canolbwyntio ar ymdrin â diogelu a bregusrwydd. Ymdrinnir ag ymyriadau i leihau'r tebygolrwydd o ail-droeddu, ac mewn achosion perthnasol i reoli risg o niwed, yng nghwestiynau 3.1.1 a 3.3.1. Mae'r canllawiau a roddir yng nghwestiwn 3.1.1 yn dal i fod yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.</p> <p>Os yw'r arolygydd yn barnu mai'r prif reswm pam na chynlluniwyd ar gyfer ymyriadau gofynnol oedd nad oedd yr anghenion yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiad, bydd hyn wedi cael sylw yng Ngolwg 1, ac <b>ni fyddai'n berthnasol i'r cwestiwn hwn.</b></p> <p>Er mwyn i'r arolygydd farnu bod tystiolaeth o gysondeb digonol dylai'r meysydd o waith ac amcanion yn y cynllun ymyrryd i ymdrin â diogelu a lleihau bregusrwydd nodi cyswllt amlwg â'r ffactorau a adnabuwyd o fewn yr asesiad Asset.</p> <p>Mewn achosion lle nad yw'r asesiad a'r cynllun yn gyson neu lle mae'r ffordd y cyflwynwyd ymyriadau'n ymddangos yn ddigyswllt â'r naill neu'r llall mae'n debyg y bydd y cwestiwn hwn yn cael ei ateb fel NA.</p> <p>Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' pan nad oedd, yn asesiad yr arolygydd, unrhyw anghenion diogelu a bregusrwydd a oedd yn gofyn am ymyriad penodol.</p>
3.5.2	3.4	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20
3.6.1	3.4	Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a yw ymyriadau a oedd yn ofynnol i ymdrin â diogelu a bregusrwydd	<b>A gafodd yr ymyriadau gofynnol eu cyflwyno drwy gydol y ddedfryd i ymdrin â</b>

	<p>wedi cael eu cyflawni <b>ym marn yr arolygydd</b>. Mae'r cwestiwn hwn yn seiliedig ar farn yr arolygydd yn hytrach nag ar yr asesiad a gynhrychwyd gan yr YOT.</p> <p>Dangosyddion Ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fe wnaeth yr YOT adnabod ymyriadau a oedd yn ofynnol i ymdrin ag anghenion diogelu a bregusrwydd yn yr achos hwn</li> <li>• Fe wnaeth yr YOT (neu asiantaeth arall fel y cytunwyd) gyflwyno'r ymyriadau gofynnol i ddiwallu anghenion diogelu a bregusrwydd yn yr achos hwn</li> <li>• Roedd yr YOT yn ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r achos ac yn addasu ymyriadau yn ôl y gofyn</li> </ul>	<p><b>diogelu a bregusrwydd?</b></p> <p>Mae pwyslais y cwestiwn hwn yn symud ymlaen i ofyn a wnaeth yr YOT gyflwyno'r ymyriadau cywir i ymdrin â diogelu a lleihau bregusrwydd, a hynny os oeddent wedi cael eu hadnabod yn gywir neu beidio yn yr asesiad a'r cynllunio. Mae'r cwestiwn hwn yn cydnabod bod y pethau iawn yn cael eu gwneud weithiau, er bod y meddwl a arweiniodd at gyflwyno ymyriadau'n aneglur. Lle bo hynny'n digwydd, dylid rhoi clod am "wneud y peth iawn".</p> <p>Felly bydd yr arolygydd yn chwilio am dystiolaeth fod yr YOT yn ymatebol i'r hyn oedd yn mynd ymlaen yn yr achos ac yn canolbwyntio drwy ei gyddol ar amddiffyn y plentyn neu berson ifanc a lleihau eu bregusrwydd trwy ymateb i'r amgylchiadau a ganfuasant ger eu bron a chyflwyno'r ymyriadau cywir.</p> <p>Bydd cwestiynau dilynol yn asesu ansawdd ymyriadau a gafodd eu cyflwyno yn yr achos hwn – mae'r cwestiwn hwn wedi'i gyfyngu i ofyn a gafodd, ym marn yr arolygydd ar anghenion yr achos, y pethau iawn eu gwneud. Fodd bynnag, i gyfrif fel "wedi'i wneud" rhaid i ymyriad fod yn un sylweddol.</p> <p>Cyn ateb y cwestiwn hwn bydd angen i'r arolygydd ffurfio eu barn eu hunain, gan ddefnyddio'r wybodaeth a fyddai wedi bod ar gael ar y pryd, ar beth oedd anghenion yr achos.</p> <p>Dylid defnyddio'r opsiwn 'ddim yn berthnasol' pan nad oedd, ym marn yr arolygydd, unrhyw anghenion diogelu a bregusrwydd a oedd yn gofyn am ymyriad penodol.</p> <p>Yn benodol dylai'r arolygydd fod wedi'i fodloni bod pob cam angenrheidiol yn cael ei gymryd yn ddi-oed i ddiogelu ac amddiffyn y plentyn neu berson ifanc, ac unrhyw blentyn neu berson ifanc arall a adnabuwyd. Gallai hyn gynnwys cyfeiriadau at asiantaethau cymunedol neu wasanaethau plant a gallai fod yn seiliedig ar ffactorau megis newidiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Iechyd emosiynol/meddyliol, e.e. iselder, hunan-niwed, materion ymlynu</li> <li>• Plant sy'n Derbyn Gofal</li> <li>• Teulu, gan gynnwys brodyr neu chwiorydd, e.e. tueddiad i droseddu, trais o fewn y cartref, ymwneud ag eraill anwyddocaol, h.y. gangiau, troseddwyd</li> <li>• Ffactorau amgylcheddol, e.e. tai annigonol, yr ardal maent yn byw ynddi</li> <li>• Ymddygiad rhieni, e.e. anghenion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, rhianta anghyson</li> <li>• Ymddygiad pobl eraill, e.e. bwlio, cam-drin, esgeuluso, bygwth, ecsbloetio, cymdeithion</li> <li>• Digwyddiadau neu amgylchiadau, e.e. teulu'n gwahanu, profedigaeth, newid trefniadau gofal</li> <li>• Eu hymddygiad eu hunain, e.e. camddefnyddio sylweddau, math o droseddu, dangos eu hunain, ymateb amhriodol i straen, cludo arfau</li> <li>• Bod yn ofalwr ifanc, i'w plant eu hunain neu aelodau eraill o'r teulu</li> <li>• Ymddygiad di-hid arall sy'n dangos sylw annigonol i'w diogelwch eu hunain.</li> </ul>
--	--	--

			Os yw'r arolygydd yn gallu adnabod anghenion diogelu a bregusrwydd nad ydynt wedyn yn cael eu cydnabod gan yr YOT nac yn cael sylw trwy gyflwyno ymyriadau priodol A bod hyn yn ddiffyg allweddol yn amgylchiadau llawn yr achos dylai hyn arwain at ateb NA i'r cwestiwn hwn.
3.6.2	3.4	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20
3.6.3	3.4	Gweler canllawiau ar 3.6.1	<b>Yn yr achos hwn o garcharu a gafodd yr ymyriadau gofynnol eu cyflwyno drwy gydol y cyfnod yn y ddalfa i ymdrin â diogelu a bregusrwydd?</b>  Gweler canllawiau ar 3.4.1
3.7.1	1.4.2	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a gafodd, <b>ym marn yr arolygydd ac nid yn asesiad yr YOT</b>, ymyriadau gofynnol eu cyflwyno i ymdrin ag anghenion tebygolrwydd o ailddoseddu. Hynny yw – a wnaeth yr YOT gyflwyno'r ymyriadau iawn ar sail asesiad yr arolygydd o anghenion yn yr achos?</p> <p>Dangosyddion Ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fe wnaeth yr YOT adnabod ymyriadau a oedd yn ofynnol i ymdrin â'r tebygolrwydd o ailddoseddu yn yr achos hwn</li> <li>• Fe wnaeth yr YOT (neu asiantaeth arall fel y cytunwyd) gyflwyno'r ymyriadau gofynnol i ymdrin â'r tebygolrwydd o ailddoseddu yn yr achos hwn</li> <li>• Roedd yr YOT yn ymatebol i newidiadau yn amgylchiadau'r achos ac yn addasu ymyriadau yn ôl y gofyn</li> </ul>	<p>Yn seiliedig ar asesiad yr arolygwyr o'r anghenion yn yr achos hwn i leihau ailddoseddu, a wnaed digon o waith gyda'r plentyn hwn neu'r person ifanc lle bo angen, i ymdrin â phob un o'r ffactorau blaenoriaeth a nodwyd yng nghwestiwn 2.1.0?</p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn seiliedig ar farn yr arolygydd o anghenion yr achos, beth bynnag oedd yn asesiad a chynllunio'r YOT. Mae ynglŷn ag effeithiolrwydd cyflwyno'r gwasanaethau iawn i ddiwallu anghenion y plentyn neu berson ifanc sydd wedi troseddu, boed y dewis wedi'i wneud gan ddefnyddio prosesau a gymeradwywyd yn ffurfiol neu fel arall. Ymdriniwyd eisoes ag ansawdd yr asesu a'r cynllunio a'r graddau'r oedd y cyflwyno'n gysylltiedig â hyn mewn cwestiynau blaenorol.</p> <p>NID yw'r cwestiwn hwn yn canolbwyntio ar ansawdd ymyriadau a gyflwynwyd, dim ond ar ofyn a gafodd yr ymyriadau iawn eu cyflwyno. Ymdrinnir ag ansawdd ymyriadau mewn cwestiynau dilynol. Fodd bynnag, i gyfrif fel ei fod wedi cael ei gyflawni, rhaid i ymyriad fod yn un sylweddol.</p> <p>Cyn ateb y cwestiwn hwn bydd angen i'r arolygydd adnabod lle teimlant y dylai ymyriadau i leihau'r tebygolrwydd o ailddoseddu fod wedi cael eu cyflwyno hyd at y pwynt presennol yn y ddedfryd.</p> <p>Dylai'r arolygydd benderfynu wedyn a oedd angen ymyriad i ymdrin â'r tebygolrwydd o ailddoseddu o fewn pob ffactor cysylltiedig â throseddu posibl yn yr achos hyd at hynny. Dylai'r arolygydd gadw hyd a dwysedd y ddedfryd mewn cof a ffurfio barn a yw, yn amgylchiadau llawn yr achos, yn rhesymol disgwyl i ymyriad fod wedi cael ei gyflwyno yn unrhyw rai a adnabuwyd ar y pwynt hwn yn y ddedfryd.</p> <p>Lle adnabyddir yr angen am ymyriad dylai'r arolygydd gofnodi a oedd yr ymyriad a gyflwynwyd yn un sylweddol <b>ac</b> yn ddigon dwys i anghenion yr achos (OEDD) neu beidio (NA). Felly os oedd ymyriad yn ofynnol ac wedi cael ei gyflwyno ond DDIM i ddwysedd digonol i ddiwallu anghenion yr achos yna byddai'r cwestiwn hwn yn cael ei ateb fel NA gydag esboniad yn cael ei roi yng nghwestiwn 3.20.</p>

			Os nad yw'r arolygydd yn teimlo y dylai ymyriad fod wedi cael ei gyflwyno i ymdrin ag unrhyw ffactor, dylai'r ffactor hwnnw gael ei sgorio fel 'ddim yn berthnasol'.
3.7.2	1.4.2	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20
3.8.1	1.4.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r arolygydd wneud dyfarniad ar nifer o ffactorau sy'n gysylltiedig â lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. Hynny yw – a oedd yr hyn a gyflawnwyd o ansawdd digonol.</p> <p>Dangosyddion Ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd yr ymyriadau a gyflwynwyd yn seiliedig ar ddewis clir o'u haddasrwydd a oedd yn cynnwys addasrwydd ar gyfer y plentyn neu berson ifanc</li> <li>• Roedd dilyniant yr ymyriadau'n addas i anghenion unigol y plentyn neu berson ifanc ac i amgylchiadau'r achos</li> <li>• Roedd strwythur cyflwyno clir i'r ymyriadau gydag eglurder o safbwynt nodau ac amcanion, a dwysedd a hyd y cyflwyno</li> <li>• Roedd ymyriadau'n cynnwys yr arfer o sgiliau newydd neu newid ymddygiadau ac roeddent yn unol ag ymarfer effeithiol</li> <li>• Roedd y plentyn neu berson ifanc wedi cael ei baratoi'n ddigonol ar gyfer yr ymyriad ac mae eu hymateb iddo'n glir</li> </ul>	<p>Mae'r cwestiwn hwn, a'r cwestiwn dilynol, yn canolbwyntio ar ofyn a oedd yr ymyriadau a gafodd eu cyflwyno mewn gwirionedd o ansawdd digonol. Fe wnaeth cwestiynau blaenorol ofyn a gafodd y pethau iawn eu gwneud, felly dylai'r arolygydd gymryd gofal i osgoi ailadrodd y dyfarniad hwnnw yma.</p> <p><b><u>a) A oedd deunyddiau ac adnoddau eraill, a ddefnyddiwyd yn y gymuned ar gyfer ymyriadau i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu, o ansawdd da</u></b></p> <p>Dylai ymyriadau fod yn rhai pwrpasol gyda nod a sail resymegol eglur wedi'i seilio ar ddulliau effeithiol. I fod o ansawdd da dylai deunyddiau ac adnoddau eraill a ddefnyddir ar gyfer ymyriadau i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu herio meddylfryd ac ymddygiad y plentyn neu berson ifanc gyda'r nod o gyflawni newid cadarnhaol.</p> <p>Dylent fod yn ddigon hyblyg i allu ymateb i'r lefel o symblyliad, oedran ac aeddfedrwydd, lleferydd, anghenion iaith a chyfathrebu a ffactorau amrywiaeth eraill.</p> <p>Dylai'r defnydd o becynnau safonol, megis <i>Teen Talk</i> neu'r rhaglen AIM2, i'r rheini sydd wedi cyflawni ymddygiad rhywiol niweidiol, sicrhau lefel o ansawdd; os dilynir y canllawiau ar eu cyflwyno. Fodd bynnag, efallai na fydd becynnau a gafodd eu cynllunio ar gyfer oedolion, megis <i>Targets for Change</i>, mor addas gan ddibynnu ar oedran ac aeddfedrwydd y plentyn neu berson ifanc.</p> <p>Dylid cyflwyno ymyriadau mewn ffordd sy'n galluogi'r plentyn neu berson ifanc i gyfrannu'n fwy effeithiol gan roi ystyriaeth i unrhyw anghenion amrywiaeth, anabled neu anghenion eraill a oedd ganddynt. Mae hyn yn cynnwys paratoi'r plentyn neu bersonol ifanc yn ddigonol ar gyfer y gwaith, gan ddefnyddio deunyddiau sy'n ymateb i'w ffyrdd o ddysgu s defnyddio gwaith strwythuredig a chymorth sy'n galluogi'r plentyn neu berson ifanc i gymhwyso a gwerthuso'u dysgu.</p> <p>Lle na chyflwynwyd unrhyw ymyriadau, dylid defnyddio 'ddim yn berthnasol'.</p> <p><b><u>b) A gafodd ymyriadau yn y gymuned eu cyflwyno'n ddigonol yn y ffordd y'u</u></b></p>

### **bwriadwyd?**

O safbwynt cyfanwydd cyflwyno'r ymyriad, bydd angen i'r arolygydd fod yn glir ynghylch beth yn union oedd yr ymyriadau, a lle nad yw hyn yn glir, mae'r arolygydd yn debygol o ganfod nad yw'r cynllun wedi ei weithredu'n ddigon da. Yn gyffredinol cyll ymyriadau eu heffeithiolrwydd onis cyflwynir yn unol â'u cynllun i raddau digonol.

Dylai unrhyw adnoddau a ddefnyddir ddilyn egwyddorion arferion effeithiol a dylai fod tystiolaeth fod y rheolwr achos yn ddigon medrus wrth gyflwyno'r ymyriad.

Yn gyffredinol dylai rheolwyr achos fod yn gallu esbonio sut y dylai ymyriadau fod wedi cael eu cyflwyno, a sut yr oedd y cyflwyno gwirioneddol yn adlewyrchu hynny; gydag unrhyw wyriad o hynny'n ddigon amddiffynadwy.

O ran rhaglenni penodol megis AIM2 a *Teen Talk* dylai'r arolygydd fod yn glir bod y rheolwr achos neu'r gweithiwr YOT sy'n cyflwyno, yn deall y rhaglen ac wedi derbyn canllawiau a hyfforddiant digonol ar ei chyflwyno.

Lle na chyflwynwyd unrhyw ymyriadau, dylid defnyddio 'ddim yn berthnasol'.

### **c) A roddwyd digon o sylw i gyfiawnder adferol wrth gyflwyno ymyriadau?**

Bydd yr arolygydd yn ceisio tystiolaeth o ystyriaeth weithredol o gyfiawnder adferol (fel yr awgrymir gan Safonau Cenedlaethol 2009) ac anghenion dioddefwyr ym mhob achos perthnasol, ac os na ellir cael hyd i unrhyw dystiolaeth fod ymdrechion rhesymol wedi cael eu gwneud i gysylltu â dioddefwr, yna dylai'r ateb fod yn NA.

Bydd angen i'r arolygydd gadarnhau bod gwybodaeth a gasglwyd gan unrhyw weithwyr dioddefwyr sydd wedi bod yn ymwneud â'r achos wedi cael ei ystyried a, lle bo'n briodol, wedi cael ei gynnwys yn yr ymyriadau a gyflwynwyd i leihau tebygolrwydd o ailddosoddu. Gall hyn gynnwys ystyriaeth o anghenion corfforaethol dioddefwyr lle mae plentyn neu berson ifanc wedi troseddu yn erbyn busnes, siop neu debyg, a all, yn yr achosion hyn, gael ei gynrychioli gan ddatganiad effaith y cytunwyd arno ynghynt rhwng y fenter gorfforaethol a'r YOT.

Nododd Safonau Cenedlaethol 2009 y dylid rhoi ystyriaeth weithredol i'r defnydd o gyfiawnder adferol ar draws pob math o ymyrryd. Dylai'r arolygydd fod yn chwilio am hyn, naill ai ar gofnod yr achos neu wrth drafod â'r rheolwr achos, ym mhob achos perthnasol.

Os nad oes unrhyw dystiolaeth i ymdrechion rhesymol gael eu gwneud i gysylltu â dioddefwyr a enwyd, lle byddai hyn wedi bod yn addas, yna mae'n annhebyg fod ystyriaeth ddigonol wedi cael ei roi, ac felly byddai'r ateb yn NA.

Gallai ymyriadau sy'n rhoi sylw digonol i gyfiawnder adferol ac anghenion dioddefwyr gynnwys cynadleddau cyfiawnder adferol, llythyrau o ymddiheuriad, cyfryngu (naill ai trwy ganolwr neu'n uniongyrchol) neu gytundebau ar gyfer mathau penodol o weithgaredd digolledu. Yn gyffredinol, dylai'r dioddefwr gael ei gynnwys yn y penderfyniad ynghylch pa ymyriadau allai fod yn addas, neu yn achos digolledu fod wedi cael y cyfle i wneud hynny,

er mwyn i'r rhain gyfrif fel adferol.

Mae gofynion sy'n ymwneud â diogelwch dioddefwyr, megis dim cysylltu, eithrio, gweithgareddau gwaharddedig, yn dod i rym yn ddi-oed ar ôl y ddedfryd/rhyddhau o'r ddalfa.

Lle nad oes unrhyw gyfle wedi bod i gyflwyno ymyriadau sy'n ymwneud â chyfiawnder adferol a diwallu anghenion dioddefwyr (megis lle nad oes unrhyw ddiodefwyr wedi'i enwi, dim ymateb ar ôl cysylltu â diodefwyr neu na ellir olrhain diodefwyr) dylid ateb y cwestiwn hwn fel 'ddim yn berthnasol'.

**d) A roddwyd digon o sylw i atgyfnerthu ffactorau cadarnhaol mewn ymyriadau i leihau tebygolrwydd o aildroseddu?**

Wrth asesu a oes digon o sylw wedi cael ei roi i atgyfnerthu ffactorau cadarnhaol i leihau'r risg o aildroseddu, bydd angen i'r arolygydd ystyried yn gyntaf pa ffactorau cadarnhaol oedd yn bodoli yn yr achos a lle gallai sylw iddynt gyfrannu at leihad yn y tebygolrwydd o aildroseddu. Bydd angen iddynt wedyn farnu pa mor dda y mae'r rhain wedi cael eu hadnabod gan yr YOT ac wedyn i ba raddau y manteisiwyd arnynt. Mae enghreifftiau o ymyriadau sy'n anelu at adeiladu ar ffactorau cadarnhaol, sy'n bod eisoes neu sy'n datblygu, ymwneud â phrosiectau cymunedol, diddordebau chwaraeon neu weithgareddau, ailgysylltu â rhwydweithiau teuluol trwy gynadledda grwpiau teuluol neu bethau tebyg.

Lle mae'r arolygwyr o'r farn nad oes unrhyw ffactorau cadarnhaol perthnasol sy'n gysylltiedig â lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu, dylai'r cwestiwn hwn gael ei sgorio fel 'ddim yn berthnasol'.

**e) A oedd cydbwysedd addas rhwng ymyriadau a gyflwynwyd i leihau aildroseddu, rheoli risg o niwed ac ymdrin â bregusrwydd?**

Mae'r cydbwysedd rhwng lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu, rheoli'r risg o niwed ac ymdrin ag anghenion diogelu a bregusrwydd yn ganolog i reolaeth effeithiol o'r achos. Dylai'r arolygydd fod yn chwilio am gydbwysedd sy'n hyrwyddo diogelwch diodefwyr a diwallu anghenion diogelu fel blaenoriaeth, ond sy'n dal i roi digon o sylw i gyflwyno ymyriad i leihau tebygolrwydd o aildroseddu.

Lle bo'r arolygydd yn darganfod bod un ystyriaeth yn cael blaenoriaeth, mae disgwyl bod modd olrhain yn glir y penderfyniadau sy'n arwain at hyn a'r cynlluniau i gynnwys ymyriadau eraill angenrheidiol wrth i'r ddedfryd gael ei chyflawni. Felly, gan roi ystyriaeth i anghenion unigol y plentyn neu berson ifanc, dylai'r rheolwr achos fod wedi asesu pa rai o'r ymyriadau a gynlluniwyd sy'n cael blaenoriaeth ac wedi eu gosod mewn trefn yn unol â hynny, gan gynnwys yr ymyriadau hynny sydd i'w cyflwyno gan asiantaethau partner. Dylai gofynion cosbedigol a chyfyngol (cyrffiw, digolledu) gychwyn cyn gynted ag sy'n bosibl a



			<p>dylai elfennau adsefydlu (addysg, ymdrin â defnyddio sylweddau, perthynas ag aelodau'r teulu) gael eu rhedeg wedyn neu'r un pryd cyn belled â bod rhwystrau i gydweithredu wedi cael eu tynnu ymaith. Dylai'r penderfyniad i ohirio unrhyw ymyriad adsefydlu fodd bynnag gael ei gofnodi gydag esboniadau clir y gellir eu hamddiffyn wrth drafod a oedd y dilyniant yn addas neu beidio.</p> <p>Lle nad oes unrhyw gyfle wedi bod i gyflwyno ymyriadau – er enghraifft pan fo plentyn neu berson ifanc yn dianc yn gyflym ac na ellir ei olrhain – dylai'r cwestiwn hwn gael ei sgorio fel 'ddim yn berthnasol'.</p>
3.8.2	1.4.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd ffurfio barn ar ansawdd cyffredinol yr ymyriadau a gyflwynwyd a pha mor dda yr oedd yr ymyriadau a gyflwynwyd yn cadw at egwyddorion Arferion Effeithiol.</p>	<p><b>Yn gyffredinol, a oedd yr ymyriadau a gyflwynwyd i ymdrin â thebygolrwydd o aildroseddu o ansawdd digonol, ac a gawsant eu cyflwyno'n unol ag egwyddorion arferion effeithiol?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrdd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfanrwydd yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Caiff arferion effeithiol eu diffinio fel arferion sy'n creu'r canlyniadau a fwiardwyd. Yn achos plant a phobl ifanc sy'n troseddu, dylai arferion effeithiol arwain at y canlyniadau hyn: troseddu llai, y cyhoedd yn cael eu diogelu'n well, a gwella lles y plentyn neu berson ifanc.</p> <p>Gellir disgrifio arferion effeithiol fel petaent yn seiliedig ar dair egwyddor – y dylai fod tystiolaeth o'r tri ohonynt wrth weithredu gofynion gorchymyn. Mae'r egwyddorion yn ymwneud â:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• risg – yn gyffredinol yr uchaf y tebygolrwydd o aildroseddu'r mwyaf dwys ac estynedig y dylai'r rhaglen oruchwylio fod</li> <li>• anghenion – mae ymyriadau/gofynion sy'n targedu anghenion cysylltiedig â throseddu'n debygol o fod yn fwy effeithiol</li> <li>• ymatebolrwydd – mae ymyriadau/gofynion sy'n cyfateb â dulliau dysgu'r plentyn neu berson ifanc ac sy'n ennyn eu diddordeb, yn debygol o fod yn fwy effeithiol.</li> </ul> <p>Mae arferion effeithiol ynglŷn ag ymyriadau systematig ac a gynlluniwyd sy'n sicrhau bod pob agwedd o oruchwylio plentyn neu berson ifanc yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau a ddymunir.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd deimlo'n hyderus bod y gwaith yn yr achos sy'n cael ei asesu wedi cael ei wneud mewn dull cyfannol gan ymgorffori pob un o'r tair egwyddor uchod sydd wedi'u canolbwyntio ar ganlyniadau a ddiffiniwyd yn glir.</p>

			<p>I fod o ansawdd da dylai ymyriadau gael eu cynllunio a'u cyflwyno mewn ffordd sy'n debygol o gyflawni newid neu gynnal newid lle bynnag bo'n bosibl, a dylent fod yn gysylltiedig â gallu a symbyliad y plentyn neu berson ifanc. Dylai ymarferion, er enghraifft, adlewyrchu oedran/aeddfedrwydd/diwylliant/lefelau llythrennedd y plentyn neu berson ifanc.</p> <p>Dylai maint pob ymyriad a gyflwynir hefyd fod yn ddigonol, gan gadw mewn cof amgylchiadau'r achos, ymyriadau eraill sydd angen eu cyflwyno, a beth y gellir yn rhesymol ei gyflawni. Bydd yr arolygydd felly'n ystyried i ba raddau y mae'r ymyriad a gyflwynwyd wedi cael ei gydweddu i nodweddion unigol y plentyn neu berson ifanc.</p> <p>Yn ogystal â'r angen i baratoi'r plentyn neu berson ifanc yn briodol ar gyfer yr ymyriad, fe fydd yn arferol angen am rywfaent o waith dilynol i atgyfnerthu unrhyw sgiliau/newidiadau newydd a ddatblygwyd wrth gyflwyno'r ymyriad a bydd angen i'r arolygydd ystyried pa mor dda y mae hyn wedi cael ei ymgorffori yn y gwaith o gyflwyno'r ymyriad.</p> <p>Yn gyffredinol ni ellir ystyried bod y dull o gyflwyno ymyriadau o ansawdd digonol, os na chafodd yr ymyriadau gofynnol, yn ôl anghenion yr achos, eu cyflwyno. Felly os cafodd unrhyw elfen o gwestiwn 3.7.1 ei ateb fel NA yna dylid cymryd gofal neilltuol gan yr arolygydd cyn ateb y cwestiwn hwn i bwysio'i bwysigrwydd o gymharu â gwaith arall a wnaed yn yr achos hwn.</p>
3.8.3		Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20
3.10.1		<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a gafodd y ddedfryd ei chyflawni fel un broses integredig heb unrhyw fylchau nag anghysondeb sylweddol rhwng y cyfnod yn y ddalfa a'r cyfnod cymunedol a chyda staff YOS yn chwarae rhan addas yn unol â gofynion yr achos</p> <p>Dangosyddion Ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd y cynllun carcharu'n darparu cynllun clir ar gyfer y ddedfryd gyfan</li> <li>• Roedd y cynllun carcharu'n cynnwys digon o sylw i ailsefydlu gan gynnwys, lle bo'n addas, ddefnydd o Ryddhau ar Drwydded Dros Dro i gefnogi ailsefydlu</li> <li>• Roedd y cynllun carcharu'n ymdrin yn ddigonol â'r tebygolrwydd o aildroseddu</li> </ul>	<p><b>A gafodd yr achos hwn o garcharu ei gyflawni fel un ddedfryd integredig sengl?</b></p> <p>Mae dedfryd o garcharu'n ddedfryd sengl ac iddi'n arferol ddau ran, un yn y ddalfa ac un yn y gymuned. Fodd bynnag gall ymddangos weithiau fel petai'n cael ei thrin fel dwy ddedfryd wahanol a gall gael ei chanfod felly gan blant a phobl ifanc, fel eu bod pan gânt eu rhyddhau yn ystyried eu bod wedi cwblhau eu dedfryd. Mae hyn yn anghywir a phan fo'n digwydd dylid ateb y cwestiwn hwn fel NA.</p> <p>Dylid canolbwyntio digon ar ymdrin â thebygolrwydd o aildroseddu, rheoli risg o niwed, diogelu'r plentyn neu berson ifanc a lleihau eu bregusrwydd fel bo'n briodol drwy gydol y ddedfryd. Nid yw'n dderbyniol i waith i leihau tebygolrwydd o aildroseddu cael ei hepgor wrth gynllunio'r ddedfryd yn ystod cyfnod y ddalfa o'r ddedfryd.</p> <p>Gall y gwaith o gyflwyno ymyriadau yn y ddalfa gael ei gyfyngu gan adnoddau'r sefydliad; fodd bynnag ni ddylai cynllun y ddedfryd gael ei gyfyngu o achos hyn. Er mwyn helpu integreiddio dau gyfnod y ddedfryd, dylai'r gweithiwr YOT fod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod y plentyn neu berson ifanc gyhyd ag sy'n bosibl yn derbyn ymyriadau yn ystod y cyfnod yn y ddalfa yn unol â'r asesiad.</p>

		<p>ac ymyriadau i gael eu cyflwyno yn y ddalfa</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd rheolwr achos a staff arall yr YOT yn chwarae digon o ran yn y gwaith o gynllunio'r ddedfryd</li> <li>• Roedd cyfathrebu effeithiol yn digwydd rhwng staff cymunedol a staff carcharu, gyda digon o gyfathrebu rhwng staff cymunedol a'r plentyn neu berson ifanc</li> <li>• Mae'r cyswllt rhwng gwaith a gwblheir yn y ddalfa ac yn y gymuned yn un digonol</li> </ul>	<p>Lle bo angen na ellir ei ddiwallu oherwydd cyfyngiadau o fewn y sefydliad, dylai'r gweithiwr YOT gynllunio i oresgyn y rhwystr hwnnw, er enghraifft trwy geisio cael trosglwyddo i sefydliad mwy addas, neu drafod y defnydd o adnoddau allanol gan y sefydliad, neu gyflwyno ymyriad eu hunain.</p> <p>Er enghraifft, lle bo ar blentyn neu berson ifanc eisiau sefyll arholiad Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch (TGAU) sydd wedi cael ei darfu yn sgil bod yn y ddalfa, bydd y gweithiwr YOT yn mynd ati i geisio'r posibilrwydd ac nid bodloni ar fod yn sylwebydd goddefol o'r broses.</p> <p>Fel hyn mae'r gweithiwr YOT yn symud tuag at sefyllfa o ail-integreiddio cynyddol i'r plentyn neu berson ifanc wrth ailsefydlu'n ôl yn y gymuned.</p> <p>Mewn rhai achosion, gall fod yn addas cyflwyno ymyriad ar ôl rhyddhau o'r ddalfa, ond dylai'r ymyriad hwnnw gael ei wneud yn glir mewn cynlluniau carcharu a chael ei ddeall yn glir gan y plentyn neu berson ifanc.</p> <p>Lle caiff ymyriadau eu hadolygu ac maent yn aneffeithiol, dylai'r gweithiwr YOT hyrwyddo'r defnydd o ymyriadau gwahanol. Dylent hefyd fod wedi cymryd camau digonol i sicrhau eu bod wedi casglu ymateb y plentyn neu berson ifanc i'r ymyriadau y maent wedi eu derbyn.</p> <p>Dylai'r arolygydd chwilio am dystiolaeth o fewn yr achos fod sylw digonol wedi cael ei roi i ailsefydlu yn ystod cyfnod y ddalfa o'r ddedfryd fel bod cynlluniau dedfrydau cymunedol yn ategu ac yn adeiladu ar waith a gyflawnwyd yn y ddalfa. Gallai hyn gynnwys trosglwyddo gwybodaeth ar waith a gwblhawyd yn y ddalfa i asiantaethau cymunedol a fydd yn parhau i gyflwyno'r gwasanaeth neu'n cyfeirio at asiantaeth gymunedol yn dilyn datgelu angen newydd yn y ddalfa. Yn benodol dylai'r arolygydd fod yn fodlon bod cyfathrebu da ac effeithiol rhwng yr holl weithwyr sy'n ymwneud â'r achos, gan gynnwys iechyd, addysg hyfforddiant a chyflogaeth, weithwyr gofal cymdeithasol plant a gweithwyr camddefnyddio sylweddau fel bo'n addas gyda chyfathrebu clir rhwng gwasanaethau yn y ddalfa ac wedyn wrth ryddhau i'r gymuned.</p> <p>Dylai fod tystiolaeth hefyd fod sylw digonol wedi cael ei roi i ailsefydlu yn ystod cyfnod y ddalfa o'r ddedfryd a bod cynlluniau dedfrydau cymunedol yn defnyddio ac yn ategu gwaith a gyflawnwyd yn y ddalfa. Ar gyfer ailsefydlu – gan hyn gynnwys defnydd o Ryddhau ar Drwydded Dros Dro (ROTL) i gefnogi llety, rhwydweithiau a chlymau teuluol neu ddarpariaeth addysg hyfforddiant a chyflogaeth.</p>
3.10.2		<p>Mae'r cwestiwn hyn yn gofyn a gafodd, ym marn yr arolygydd, digon o ymyriadau i ymdrin â'r tebygolrwydd o ailddoseddau eu cyflwyno yn ystod y cyfnod yn y ddalfa ar gyfer anghenion yr achos</p>	<p>Yn benodol, a gafodd ymyriadau digonol eu cyflwyno yn ystod y cyfnod yn y ddalfa i ymdrin ag ailddoseddau?</p>

3.10.3		Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20
3.12.1	2.4	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn holi ynghylch pa mor weithredol ac effeithiol y rheolwyd risg o niwed drwy gydol yr ymyriadau. Hynny yw – a oedd y gwaith a gyflwynwyd i reoli risg o niwed <b>yn ddigon ymatebol i'r hyn a oedd yn mynd ymlaen yn yr achos ac a oedd o ansawdd da?</b> Dylai'r pwyslais drwyddo fod ar ddiogelu'r cyhoedd trwy weithredu gyda'r YOT yn ymateb i'r amgylchiadau a ganfuasant ger eu bron.</p> <p>Bydd yr arolygydd yn chwilio am dystiolaeth fod yr YOT wedi rhagweld, adnabod ac ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r achos, a bod y gwaith a gyflawnasant o ansawdd da.</p> <p>Dangosyddion Ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoddwyd digon o flaenoriaeth i reoli risg o niwed gyda'r ymyriad a gynlluniwyd ac ymyriadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni i ansawdd da</li> <li>• Rhoddwyd digon o flaenoriaeth i ddiogelu dioddefwyr adnabyddadwy wrth reoli risg o niwed</li> <li>• Lle nodwyd hynny, roedd y cydweithio â MAPPA yn ddigonol ac yn effeithiol</li> <li>• Roedd y cydweithio â fforwm amlasiantaethol yn ddigonol ac yn effeithiol</li> <li>• Roedd yr adolygiad o reoli risg yn ddigonol gyda newidiadau i risg o niwed yn cael eu hadnabod a'r ymateb yn addas</li> <li>• Cyflawnwyd ymweliadau cartref, lle bo'n angenrheidiol, fel rhan o'r gweithgaredd rheoli risg o niwed</li> </ul>	<p><b>A oedd digon o reolaeth weithredol ac effeithiol o risg o niwed i eraill drwy gydol yr ymyriadau yn yr achos hwn?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag ansawdd gwaith a gyflawnwyd, wrth gyflawni'r ddeddfryd, i reoli risg o niwed i eraill, ac a wnaeth y gwaith hwnnw ymateb yn ddigonol i newid mewn amgylchiadau. Mae'n seiliedig ar farn yr arolygydd ynghylch yr hyn y dylid bod wedi'i wneud, nid ar asesiad a chynlluniau'r YOT, sydd wedi cael sylw mewn cwestiynau blaenorol.</p> <p>Noder: Mae'r cwestiwn hwn ynghylch rheoli achosion, NID yw ynghylch goruchwyllo gwaith gan reolwyr llinell, yr ymdrinnir ag ef yng ngolwg 4.</p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrnyd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfarwng yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Gellir ateb y cwestiwn hwn fel 'ddim yn berthnasol' os nad oedd y plentyn neu berson ifanc yn peri unrhyw risg o niwed i eraill ar gychwyn y gorchymyn ac yn parhau i beidio â dangos unrhyw dueddiad tuag at ddatblygu risg o niwed i eraill drwy gydol y ddeddfryd.</p> <p>Ym mhob achos lle mae risg o niwed i eraill a/neu risg o niwed difrifol wedi cael ei adnabod, dylai'r arolygydd chwilio am dystiolaeth fod hyn wedi cael sylw ac wedi cael ei reoli a bod staff YOT ac asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r plentyn neu berson ifanc yn deall y risg o niwed a achosir ganddynt a chyfraniad yr asiantaeth at ei reoli.</p> <p>Mae'r cwestiwn hwn ynghylch ansawdd gwaith a gyflawnwyd felly ni fydd yn ddigon gweld tystiolaeth o brosesau'n unig i reoli risg o niwed (e.e. MAPPA, cynlluniau penodol i reoli risg, fforwm amlasiantaethol rheoli risg) ond yn hytrach, bydd angen tystiolaeth ddigonol fod camau gweithredu wedi gwneud gwahaniaeth, a bod y rheolwr achos wedi sicrhau bod mesurau rheoli risg o niwed wedi cael eu gweithredu neu newidiadau i risg o niwed wedi cael eu hadnabod a chamau'n cael eu cymryd i ymateb iddynt.</p> <p>Felly dylai newidiadau mewn ffactorau risg o niwed gael eu hadnabod yn gyflym a dylid gweithredu'n addas arnynt, gan gynnwys defnyddio gweithdrefnau disgyblu mewn achosion addas i ddiogelu'r cyhoedd. Bydd angen i'r arolygydd fod yn fodlon bod cynllunio addas wrth gefn wedi digwydd ar gyfer ffactorau newid y gellid yn rhesymol eu rhagweld – er enghraifft, dychwelyd at gamddefnyddio sylweddau, ailddechrau cymdeithasau â throseddwr ifanc arall lle perir ffactorau risg o niwed, colli ffactorau amddiffynnol – a bod, lle bo angen, cynlluniau wrth gefn wedi cael eu gweithredu.</p>

Bydd angen i'r arolygydd weld tystiolaeth fod yr ymyriadau i reoli risg o niwed, boed hwy'n rhai adeiladol neu'n rhai cyfyngol, yn cael eu cyflwyno yn ôl y gofyn, fel bo'n briodol i amgylchiadau'r achos, a'u bod o ansawdd da (gweler canllawiau ar gyfer 3.8.1), boed hwy wedi cael eu hadnabod yn ystod yr asesu a'r cynllunio neu beidio.

Er mwyn i hyn fod wedi digwydd bydd angen tystiolaeth fod mesurau rheoli gweithredol wedi cael eu rhoi ar waith, a bod y rhain yn cael eu monitro ac yn effeithiol, e.e.:

- Mae cyfyngiadau cyrffiw wedi cael eu monitro ac mae tystiolaeth fod y plentyn neu berson ifanc wedi cadw at ofynion y cyrffiw
- Mae amodau cyfyngol i reoli risg o niwed *i eraill*, e.e. amod trwydded o beidio cysylltu, wedi cael eu monitro ac mae tystiolaeth o gydymffurfio gan y plentyn neu berson ifanc
- Mae camau disgyblu/gorfodi wedi cael eu cymryd yn gyflym mewn ymateb i gynnydd posibl mewn risg o niwed *i eraill*, e.e. mewn ymateb i golli cysylltiad
- Mae monitro camddefnydd sylweddau, pan fo'n gysylltiedig â risg o niwed, wedi digwydd ac ymatebwyd yn addas i unrhyw ddefnydd amhriodol gan y plentyn neu berson ifanc
- Mae MAPPa a/neu fforymau eraill i reoli risg o niwed wedi cael eu galw ynghyd, a champau gweithredu sy'n codi ohonynt wedi cael eu rhoi'n effeithiol ar waith
- Mae cydgysylltu gweithredol wedi bod gyda gweithwyr dioddefwyr (a lle bo'r angen uned dioddefwyr y gwasanaeth prawf) ac asiantaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â rheoli risg o niwed i sicrhau gweithio effeithiol ar y cyd ag eraill sy'n ymwneud â'r achos i reoli risg o niwed i ddioddefwyr gwirioneddol/a adnabuwyd neu ddioddefwyr posibl.
- Mae rheolwyr achos wedi meddwl am "risg o niwed" drwy gydol eu cyswllt â'r plentyn neu berson ifanc
- Mae ymweliadau cartref pwrpasol wedi cael eu gwneud yn unol â'r lefel a aseswyd o risg o niwed drwy gydol cwrs y ddedfryd a gall ymweliadau o'r fath fod yn rhai amlasiantaethol lle nodwyd hynny gan amgylchiadau'r achos – e.e. ar y cyd â heddwas wrth geisio neu gadarnhau gwybodaeth. Dylai'r rheolwr achos fod wedi nodi'n glir beth yw amcanion yr ymweliad cartref (gan gynnwys cofnodi'r rhain mewn unrhyw gynllun penodol i reoli risg o niwed neu gofnod cysylltiadau fel bo'n briodol) a dylai fod yn ceisio rhoi sylw i'r amcanion hyn yn ystod yr ymweliadau.

Dylai'r arolygydd hefyd gael hyd i dystiolaeth fod risg o niwed yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn drylwyr ar adegau addas i amgylchiadau'r achos ac yn dilyn newid sylweddol a allai beri pryder, a bod ymyriadau'n cael eu diwygio fel bo'n addas.

Mae newid sylweddol yn cynnwys gweithio ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Brawf leol ac YOTs eraill er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau i reoli risg o niwed pan fo plentyn neu berson ifanc yn cyrraedd 18 neu'n symud allan o'r ardal a gall fod yn arbennig o nodedig mewn

			achosion o Blant sy'n Derbyn Gofal a all fod yn cael eu symud dro ar ôl tro.
3.12.2	2.4	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a wnaeth MAPPA neu unrhyw drefniadau amlasiantaethol eraill i reoli risg gyfraniad effeithiol at reoli risg o niwed, wrth i'r ddedfryd gael ei chyflawni.</p> <p>Dangosyddion Ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Lle bo'n angenrheidiol, fe wnaeth rheolwyr achos YOT a'r holl staff perthnasol eraill gyfrannu'n effeithiol at brosesau MAPPA a chyfarfodydd amlasiantaethol eraill sy'n ymwneud â risg o niwed a oedd yn cynnwys rhoi camau gweithredu o gyfarfodydd ar waith</li> <li>Fe wnaeth y prosesau amlasiantaethol hyn gyfraniad cadarnhaol ac effeithiol at reoli risg o niwed yn effeithiol, yn unol â'u bwriad a'u diben</li> </ul>	<p><b>Yn benodol, a oedd MAPPA a threfniadau amlasiantaethol eraill yn effeithiol wrth reoli risg o niwed i eraill yn yr achos hwn?</b></p> <p>Gellir ateb y cwestiwn hwn fel 'ddim yn berthnasol' os nad oedd unrhyw ofyniad am gymryd rhan yn MAPPA na chyfarfodydd amlasiantaethol eraill i reoli risg o niwed.</p> <p>NID yw'r cwestiwn hwn yn ymwneud yn unig â gofyn a ddiwyddodd MAPPA ac unrhyw broses berthnasol arall yn ôl y gofyn, ond yn hytrach mae ynghylch a oedd yn effeithiol wrth wneud gwahaniaeth cadarnhaol a digonol i reoli risg o niwed yn yr achos hwn.</p> <p>Dylai'r arolygydd fod yn fodlon bod yr achos wedi cael ei adnabod yn gywir fel achos MAPPA yn gynnar a bod prosesau angenrheidiol wedi cael eu rhoi ar waith wedyn. Fodd bynnag er mwyn bod yn effeithiol dylai prosesau MAPPA fod wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol a oedd yn canolbwyntio'n glir ar reoli risg o niwed i eraill ac yn cyfrannu at ei wella.</p> <p>Lle nad oedd achos yn cyfateb i feini prawf MAPPA ar y cychwyn, ond bod hyn wedi newid – er enghraifft gwybodaeth bellach ar ffactorau risg, ymddygiad troseddol pellach a oedd yn achosi risg o niwed i eraill – dylai'r arolygydd ddisgwyl gweld ystyriaeth o ailgyfeirio o fewn yr achos.</p>
3.12.3		Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20
3.14.1	3.4	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn pa mor weithredol ac effeithiol oedd y gwaith i ymdrin â diogelu a bregusrwydd drwy gydol yr ymyriadau. Hynny yw – a oedd yr ymyriadau i reoli diogelu a bregusrwydd yn ymatebol i'r hyn oedd yn mynd yn ymlaen yn yr achos ac a oedd o ansawdd da?</p> <p>Dylai'r pwyslais drwyddo fod ar amddiffyn y plentyn neu berson ifanc rhag eu hymddygiad eu hunain neu ymddygiad pobl eraill trwy gyflwyno ymyriadau, gyda'r YOT yn ymateb i'r amgylchiadau a ganfuasant ger eu bron, ac ar fod y gwaith a gyflawnasant o ansawdd da.</p> <p>Bydd yr arolygydd yn chwilio am dystiolaeth fod yr YOT wedi rhagweld, adnabod ac ymateb i newidiadau yn amgylchiadau'r achos.</p> <p>Dangosyddion Ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhodddwyd blaenoriaeth ddigonol i reoli diogelu a bregusrwydd gyda'r ymyriad a</li> </ul>	<p><b>A oedd rheolaeth ddigon gweithredol ac effeithiol o ddiogelu a bregusrwydd drwy gydol yr ymyriadau yn yr achos hwn?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn glŷn ag ansawdd y gwaith a wnaed, yn ystod cyflawni'r ddedfryd, i ymdrin â diogelu a lleihau bregusrwydd, ac yn gofyn a wnaeth y gwaith hwnnw ymateb yn ddigonol i newid mewn amgylchiadau. Mae'n seiliedig ar fam yr arolygydd ynghylch yr hyn y dylid bod wedi'i wneud, nid ar asesiad a chynlluniau'r YOT, a fydd wedi cael sylw mewn cwestiynau blaenorol.</p> <p>Noder: Mae'r cwestiwn hwn yn glŷn â rheoli achosion, NID yw yn glŷn â goruchwyllo arferion gwaith gan reolwyr llinell, yr ymdrinnir ag ef yng ngolwg 4.</p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol y cynllun ymyrdd yn diwallu anghenion yr achos – sef a yw digonolrwydd yn y cynllun yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly er y gallai fod diffygion gall yr arolygydd ddod i'r casgliad bod y cynllun hwn yn ei gyfarwng yn ddigonol o fewn cyd-destun yr achos. Ar y llaw arall, er y gall fod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un hepgoriad penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Gellir ateb y cwestiwn hwn fel 'ddim yn berthnasol' os nad oedd y plentyn neu berson ifanc ond yn dangos y mymryn lleiaf o anghenion diogelu ar gychwyn y gorchymyn ac wedi parhau i beidio â dangos dim tueddiad tuag at ddatblygu anghenion diogelu neu</p>

		<p>gynlluniwyd ac ymyriadau angenrheidiol yn cael eu cyflawni i ansawdd da.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Lle nodwyd bod hynny'n angenrheidiol, mae'r YOT wedi cymryd pob cam yn ddi-oed i amddiffyn y plentyn neu berson ifanc neu unrhyw blentyn neu berson ifanc arall a adnabuwyd</li> <li>Mae cyfeirio angenrheidiol wedi digwydd i ymdrin ag anghenion diogelu a bregusrwydd</li> <li>Mae'r YOT wedi cyd-drafod digon gyda fforymau amlasiantaethol sydd wedi cynnwys gweithio ar y cyd â gofal cymdeithasol plant lle bo angen</li> <li>Mewn achosion o garcharu fe fu'r YOT yn cyd-drafod yn ddigonol gyda'r sefydliad</li> <li>Roedd yr adolygiad o anghenion diogelu a bregusrwydd o safbwynt risg yn ddigonol gyda newidiadau i ddiogelu a bregusrwydd yn cael eu cydnabod a'r ymateb yn addas</li> <li>Cyflawnwyd ymweliadau cartref, lle'r oedd angen, fel rhan o'r rheoli gweithredol o ddiogelu a bregusrwydd</li> </ul>	<p>fregusrwydd drwy gydol y gorchymyn.</p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r anghenion bras sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod plentyn neu berson ifanc yn derbyn gwasanaethau sy'n berthnasol i'w diogelu a'u bregusrwydd (yn enwedig lle mae bregusrwydd <u>yn gysylltiedig â'u hymddygiad troseddol</u>) ond hefyd ag unrhyw gam gweithredu di-oed sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r plentyn neu berson ifanc o dan oruchwyliaeth neu unrhyw blentyn neu berson ifanc arall a adnabuwyd.</p> <p>Er mwyn barnu bod rheolaeth weithredol y gwaith o gyflwyno ymyriadau i ymdrin â diogelu a bregusrwydd yn ddigonol bydd angen i'r arolygydd ystyried a yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ymyriadau i hyrwyddo diogelu a lleihau bregusrwydd yn derbyn digon o flaenoriaeth</li> <li>Ymyriadau i hyrwyddo diogelu a lleihau bregusrwydd yn cael eu cyflwyno fel y cynlluniwyd, yn addas i amgylchiadau'r achos ac o ansawdd da (gweler canllawiau i gwestiwn 3.8.a o safbwynt ansawdd ymyriadau)</li> <li>Mae staff yr YOT a'r holl asiantaethau perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo diogelwch a lleihau bregusrwydd y plentyn neu berson ifanc. Lle bo asiantaethau eraill yn gweithio gyda phlentyn neu berson ifanc, dylai fod gweithio ar y cyd ac eglurder ynghylch rôl a chyfrifoldeb.</li> <li>Yn benodol, dylai gwaith pob asiantaeth (y sectorau statudol a gwirfoddol fel ei gilydd) integreiddio gyda'r lleill, gan fwydo iddynt lle bo'n briodol, e.e. cynllun gofal, cynllun amddiffyn, cynllun llwybr neu gynllun addysg personol</li> <li>Dylai diogelu a bregusrwydd gael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn drylwyr a chamau pellach yn cael eu cymryd lle bo angen.</li> <li>Dylai staff "feddwl am ddiogelu" drwy gydol eu cysylltiadau â phlant a phobl ifanc.</li> <li>Yn benodol, lle nodwyd gan newidiadau mewn amgylchiadau, dylid cymryd pob cam angenrheidiol yn ddi-oed i ddiogelu ac amddiffyn y plentyn neu berson ifanc, ac unrhyw blentyn neu berson ifanc arall a adnabuwyd.</li> <li>Caiff ymweliadau cartref pwrpasol eu gwneud yn unol ag unrhyw anghenion diogelu drwy gydol cwrs y ddedfryd, gan alluogi'r rheolwr achos i feithrin adnabyddiaeth bellach o'r teulu a'i anghenion mewn ffordd na all cysylltu o'r swyddfa ei wneud.</li> <li>Mewn achosion o garcharu mae'r sefydliad diogel yn cael gwybod am anghenion bregusrwydd cyn gynted â bod hynny'n ymarferol, hynny yw cyn y ddedfryd neu wrth dderbyn ar yr hwyrac, ac yn gweithredu ar yr anghenion hyn lle'u nodir. Mewn achosion o garcharu rhoddir digon o sylw i anghenion diogelu a bregusrwydd wrth baratoi am ryddhau i'r gymuned.</li> </ul>
3.14.2	3.4	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r	Pan ddefnyddir 'arall' byddwchystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20

		rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	
3.16.1	1.5	<p>Pan fo trosglwyddo i'r gwasanaeth prawf neu i/o YOT arall yn digwydd dylai hyn fod yn eglur ar feil yr achos.</p> <p>Dangosydd ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Lle digwyddodd trosglwyddiad, roedd gweithio ar y cyd gyda'r Ymddiriedolaeth Brawf leol ac YOTau eraill yn hwyluso trosglwyddiad didramgwydd achosion a pharhad gwasanaethau.</li> </ul>	<p>Mae canllawiau cyfyngedig yn cael eu darparu – mae hwn yn gwestiwn ffeithiol OES neu NAC OES.</p> <p>Os bynnag os oes trosglwyddo wedi digwydd dylai'r arolygydd gymryd gofal neilltuol i wirio'r dyddiadau trosglwyddo, fel nad ydynt ond yn arolygu'r rhan(nau) gofynnol o'r achos.</p> <p>Os mai barn yr arolygydd yw bod trosglwyddo'n debygol o fod wedi digwydd ond nad yw'n eglur o gofnodion yr achos rhaid i'r cwestiwn hwn gael ei ateb fel OES, gydag esboniad yn cael ei roi yng nghwestiwn3.20.</p>
3.16.2		<p>Dylai'r arolygydd gymryd gofal i adnabod pob trosglwyddiad, boed hynny i mewn neu allan o'r ardal, sydd wedi digwydd yn yr achos yn ystod y ddedfryd a arolygir. Mae gofyn am ofal neilltuol mewn achosion o Blant sy'n Derbyn Gofal a all fod wedi derbyn nifer o leoliadau o fewn oes y ddedfryd.</p>	<p>Dylai'r arolygydd gymryd gofal i adnabod pob trosglwyddiad, boed hynny i mewn neu allan o'r ardal, sydd wedi digwydd yn yr achos yn ystod y ddedfryd a arolygir. Mae gofyn am ofal neilltuol mewn achosion o Blant sy'n Derbyn Gofal a all fod wedi profi nifer o leoliadau o fewn oes y ddedfryd.</p>
3.16.3	1.5	<p>Gofynnir i'r arolygydd wneud dyfarniad a yw, pan fo achosion yn cael eu trosglwyddo, gweithio ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Prawf leol ac YOTau eraill yn sicrhau parhad gwasanaethau i reoli risg o niwed, tebygolrwydd o aildroseddu, diogelu a chyflawni'r ddedfryd yn effeithiol.</p> <p>Dangosyddion Ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Pan ddigwyddodd trosglwyddo, fe wnaeth yr YOT gydymffurfio â phrotocolau lleol a oedd, lle bo angen, yn cynnwys trafodaeth glir gyda'r Ymddiriedolaeth Prawf ynghylch trefniadau trosglwyddo</li> <li>Roedd y trosglwyddo'n addas i fregusrwydd y plentyn neu berson ifanc</li> <li>Roedd y plentyn neu berson ifanc a'u rheini'n cael eu cynnwys yn ddigonol yn y broses drosglwyddo</li> <li>Mae'n glir o gofnod yr achos i'r trosglwyddo gael ei gwblhau</li> </ul>	<p><b>Os cafodd yr achos ei drosglwyddo i mewn neu allan, a oedd y gweithio ar y cyd yn effeithiol wrth hwyluso trosglwyddiad didramgwydd a pharhad gwasanaethau i ymdrin â'r canlynol:</b></p> <p><b>Tebygolrwydd o aildroseddu</b></p> <p><b>Risg o niwed i eraill</b></p> <p><b>Diogelu</b></p> <p><b>Cyflawni'r ddedfryd yn effeithiol?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd chwilio am dystiolaeth amlwg ac agored o weithio effeithiol ar y cyd i hwyluso trosglwyddo didramgwydd i'r ymddiriedolaeth prawf neu i/o YOT arall gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cydymffurfio â phrotocolau trosglwyddo lleol (a lle nodwyd hynny, rhai cenedlaethol). Safonau Cenedlaethol 2013 8.3 "Dilyner canllawiau perthnasol lleol a chanllawiau'r BCI wrth drosglwyddo achosion o fewn yr YOT, rhwng YOTau neu i'r ardal/ymddiriedolaeth prawf lleol (fel yr amlinellir o fewn protocol prawf yr YOT lleol)".</li> <li>Yr YOT wedi rhoi ystyriaeth gredadwy i drosglwyddo a, lle nad yw hyn yn digwydd, caiff y rhesymau dros barhau i oruchwylio'r plentyn neu berson ifanc o fewn yr YOT ei gofnodi'n glir ac mae hyn yn amddiffynadwy o safbwynt anghenion yr achos. Gallai hyn fod yn rhesymau'n ymwneud â pharhad gwasanaethau lle nad yw gwasanaeth tebyg ar gael mewn gwasanaethau oedolion neu YOT arall neu lle</li> </ul>



		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Digwyddodd y trosglwyddo gyda chytundeb clir ynghylch amseru a chyfrifoldebau</li> <li>• Digwyddodd y trosglwyddo gyda'r holl wybodaeth ofynnol yn cael ei ddarparu'n amserol i/gan yr YOT</li> <li>• Lle'r oedd partneriaid eraill yn darparu gwasanaethau ymyrryd, roeddent yn cael eu cynnwys yn ddigonol mewn trefniadau trosglwyddo</li> <li>• Roedd digon o ganolbwyntio ar gynnal symbyliad a chydweithrediad yn ystod y broses drosglwyddo</li> </ul>	<p>mae'r ffordd orau o ddiwallu anghenion unigol y plentyn neu berson ifanc yw drwy gwblhau'r ddedfryd gyda'r YOT presennol. Ni ddylai fod yn seiliedig ar rwyddineb cyflwyno gwasanaeth yn unig.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylw penodol wedi cael ei roi i drefniadau gofal i Blant sy'n Derbyn Gofal a fydd yn cynnwys rhoi gwybod am adolygiadau statudol wrth yr YOT sy'n derbyn a chytundeb ynghylch cynrychiolaeth YOT o fewn y rhain yn ogystal â mecanweithiau adborth a rhannu gwybodaeth</li> <li>• Tystiolaeth glir o amseroldeb trosglwyddo – cytunir a nodir y dyddiad i'r Ymddiriedolaeth neu YOT gymryd cyfrifoldeb, yn fwyaf tebygol o fewn cofnodion dyddiaduron achosion ond o bosibl o fewn asesiad trosglwyddo neu gynllun ymyrryd a ddiweddarwyd</li> <li>• Yr holl asesiadau a chynlluniau perthnasol wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau fel bo'n angenrheidiol gan gynnwys cynnydd hyd at hynny ac unrhyw ffactorau amrywiaeth neu rwystrau rhag cydweithredu sy'n parhau. Bydd hyn yn cynnwys yr asesiad ASSET, y cynllun ymyrryd, unrhyw gynlluniau rheoli penodol sy'n ofynnol ar gyfer risg o niwed neu anghenion diogelu a bregusrwydd ac o bosibl cynlluniau MAPPA. Mae'r wybodaeth a ddiweddarwyd wedi cael ei rannu'n ddigon buan o flaen y dyddiad trosglwyddo a gytunwyd</li> <li>• Lle nodwyd gan amgylchiadau penodol yr achos, cyfarfod trosglwyddo tair-ffordd wedi cael ei drefnu. Gall hyn ddibynnu ar ffactorau daearyddol ond lle bynnag y bo'n bosibl (e.e. o fewn un ardal leol neu i/o ardal gyfagos) mae cyfarfod trosglwyddo tair-ffordd yn syniad da a bydd yn helpu'r plentyn neu berson ifanc gynnal cydymffurfriad yn eu symudiad i wasanaethau cyfiawnder troseddol oedolion neu i/o YOT arall. Gall fod y trosglwyddo i wasanaethau oedolion o dan gyfrifoldeb gweithiwr unswydd gyda'r YOT – yn fwyaf nodweddiadol, ond nid bob amser, y swyddog prawf a gafodd ei secondio. Mewn achosion mwy cymhleth gall fod angen cyfarfod tair-ffordd waeth beth fo'r anawsterau daearyddol.</li> <li>• Y trosglwyddo wedi cael ei gwblhau a'r achos wedi cael ei gau'n briodol o safbwynt yr YOT</li> </ul> <p>Mae'r holl ganllawiau uchod ynghylch trosglwyddiadau allan yr un mor berthnasol i drosglwyddiadau i mewn o YOT arall.</p>
3.16.4	1.5	Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20
3.18.1	4.1.1	<p>Mae'r plentyn neu berson ifanc a'u rhieni gofalwyr yn cael eu cynnwys yn ystyrion drwy gydol y ddedfryd</p> <p>Dangosyddion Ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mewn achosion o garcharu, roedd digon o gyd-drafod gyda'r plentyn neu berson</li> </ul>	<p><b>A gafodd plant a phobl ifanc, a'u rhieni/gofalwyr neu eraill arwyddocaol, eu cynnwys yn ystyrion ac yn ddigonol drwy gydol y ddedfryd?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd chwilio am dystiolaeth amlwg ac agored fod y plentyn neu berson ifanc a'u rhiant/gofalwr a lle bo'n briodol eraill arwyddocaol, megis aelodau o'r teulu estynedig neu weithwyr cymunedol, wedi cael eu cynnwys yn ystyrion drwy gydol y ddedfryd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• O safbwynt cynnwys ystyrion wrth gyflawni ac adolygu'r ddedfryd, bydd angen i'r</li> </ul>

	<p>ifanc troseddol a'u rhieni/gofalwyr y tu allan i gyfarfodydd cynllunio ffurfiol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roedd y plentyn neu berson ifanc a'u rhieni/gofalwyr ac eraill arwyddocaol yn cael eu cynnwys yn ddigonol mewn adolygiadau o gynnydd a chafodd eu safbwyntiau eu hadlewyrchu'n ddigonol</li> <li>• Roedd rhieni/gofalwyr ac eraill arwyddocaol yn cael eu cynnwys yn ddigonol wrth gyflwyno ymyriadau</li> <li>• Fe wnaeth y staff ddatblygu a chynnal perthynas gadarnhaol gyda'r plentyn neu berson ifanc a'u rhieni/gofalwyr</li> <li>• I Blant sy'n Derbyn Gofal, tystiolaeth o'r gweithiwr cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn ddigonol wrth gyflwyno ac adolygu ymyriadau boed hwy yn y gymuned neu yn y ddalfa</li> <li>• Mae tystiolaeth ddigonol o gefnogaeth, symbyliad ac atgyfnerthu cadarnhaol yn cael eu darparu i'r plentyn neu berson ifanc</li> </ul>	<p>arolygydd fod yn fodlon fod rhieni a gofalwyr yn chwarae rhan fel bo'n briodol drwy gydol y ddedfryd, yn enwedig i gefnogi gwaith yr YOT. Gellid cael hyd i dystiolaeth o hyn trwy gofnodion dyddiaduron achosion, yn enwedig gyda chyfeiriad at ymweliadau cartref ac unrhyw waith penodol rhianta neu deuluol a allai o bosibl fod wedi cynnwys asiantaethau eraill megis gwasanaethau plant. Lle adnabyddir cynnydd mewn risgiau o ymddygiad troseddol o fewn y teulu, dylai'r arolygydd fod yn canfod cysylltu ychwanegol â'r teulu a lefel uwch o ymweliadau cartref. Gallai enghreifftiau eraill o gydgyssylltu â'r teulu gynnwys defnydd o gyfarfodydd teulu neu gynadledda grwpiau teuluol, cydgysylltu â rhwydwaith teulu estynedig neu ddefnydd o gyfieithwyr neu aelodau o'r gymuned am gefnogaeth ychwanegol lle nodir hyn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn dilyn ymlaen o'r cynllun, dylai'r arolygydd fod yn chwilio am dystiolaeth fod y plentyn neu berson ifanc a'u rhieni/gofalwyr ac eraill arwyddocaol yn cael eu cynnwys yn ystyrion mewn adolygiadau o gynnydd sy'n adlewyrchu'n glir safbwyntiau'r plentyn neu berson ifanc a rheini/gofalwyr ar gynnydd a wnaed a blaenoriaethau ar gyfer newid i'r dyfodol. Fel gyda'r cynllunio, dylai'r arolygydd fod yn chwilio am dystiolaeth fod anghenion unigol gan gynnwys anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu a ffactorau gwahaniaethol posibl eraill wedi cael eu hystyried a bod adolygiadau wedi rhoi ystyriaeth i'r rhain.</li> <li>• Dylai'r arolygydd fod yn fodlon bod unrhyw weithwyr a oedd yn ymwneud â'r plentyn neu berson ifanc wedi ceisio cynnal perthynas waith gadarnhaol gyda'r plentyn neu berson ifanc, wedi eu symbylu hwy ac atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Gall hyn gynnwys y defnydd o dechnegau cyfweled symbyliadol, modelu rhag-gymdeithasol neu dduiliau cyfathrebu a chefnogi eraill. Yn allweddol, bydd angen i'r arolygydd fod wedi'i fodloni nad yw'r gweithiwr wedi mabwysiadu agwedd o 'un dull addas i bawb' at eu gwaith gyda'r plentyn neu berson ifanc ond yn hytrach wedi asesu eu hanghenion unigol a'r ffordd orau o gynyddu'r potensial i'r eithaf am ganlyniad llwyddiannus i'r ddedfryd.</li> <li>• Yn ystod cyfnod y ddalfa dylai'r arolygydd fod yn fodlon, fod gan staff YOT, yn ôl yr hyn sy'n addas i anghenion yr achos, ddigon o gysylltiad uniongyrchol â phlant a phobl ifanc. Dylai arolygwyr gymryd gofal neilltuoel i wirio bod ymarferwyr yn cysylltu â phlant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain y tu allan i'r cyfarfod cynllunio ffurfiol, gan fod hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynllunio'n gallu adlewyrchu gwir lais y plentyn neu berson ifanc.</li> <li>• I Blant sy'n Derbyn Gofal, dylai gweithiwr cymdeithasol yr awdurdod lleol fod yn chwarae rhan wrth gyflwyno ymyriadau, yn enwedig lle maent yn gorgyffwrdd ag anghenion lles a lle gall fod angen cefnogaeth symbyliadol ychwanegol pan fo'r plentyn neu berson ifanc oddi wrth yr YOT. Gallai hyn hefyd gynnwys gweithio ar y cyd â rheolwr achos yr YOT ar integreiddio teuluoedd, neu fel arall i hyrwyddo</li> </ul>
--	---	--

			diogelu ac ymdrin ag anghenion bregusrwydd.
3.18.2	4.1.1	Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20	Pan ddefnyddir 'arall' byddwch cystal â nodi'r rhesymau am hyn yng nghwestiwn 3.20
3.20		<p>Byddwch cystal â chrynhoi'r ffactorau allweddol sydd wedi dylanwadu ar eich dyfarniadau yn yr adran hon. Ni ddylai hyn fod yn ailadroddiad o'ch atebion i'r cwestiynau unigol, ond dylent yn hytrach helpu'r Arolygydd Arweiniol i ddeall y cyd-destun y gwnaed y dyfarniadau hynny.</p> <p>Er mwyn cynorthwyo'r Arolygydd Arweiniol byddwch cystal â chynnwys digon o nodweddion perthnasol yr achos i'w helpu hwy i ddeall yr achos.</p> <p>Yn benodol, byddwch cystal â chynnwys manylion pellach pryd bynnag yr ydych wedi defnyddio "Arall" fel yr esboniad dros annigonolrwydd.</p> <p>Wrth grynhoi'r ffactorau allweddol, cofiwch eich bod wedi asesu penderfyniadau a chymau a gymerwyd yng ngoleuni <i>eu haddasrwydd ar gyfer amgylchiadau'r achos.</i></p>	<p>Byddwch cystal â chrynhoi'r ffactorau allweddol sydd wedi dylanwadu ar eich dyfarniadau yn yr adran hon. Ni ddylai hyn fod yn ailadroddiad o'ch atebion i'r cwestiynau unigol, ond yn hytrach dylent helpu'r Arolygydd Arweiniol i ddeall y cyd-destun y gwnaed y dyfarniadau hynny.</p> <p>Er mwyn cynorthwyo'r Arolygydd Arweiniol byddwch cystal â chynnwys digon o nodweddion perthnasol yr achos i'w helpu hwy i ddeall yr achos.</p> <p>Yn benodol, byddwch cystal â chynnwys manylion pellach pryd bynnag yr ydych wedi defnyddio "Arall" fel yr esboniad dros annigonolrwydd.</p> <p>Wrth grynhoi'r ffactorau allweddol, cofiwch eich bod wedi asesu penderfyniadau a chymau a gymerwyd yng ngoleuni <i>eu haddasrwydd ar gyfer amgylchiadau'r achos.</i></p> <p>Byddwch cystal â chynnwys sylwadau ar gryfderau a ganfuwyd yn yr achos, peidiwch â chanolbwyntio ar annigonolrwydd yn unig.</p>

## Golwg 4 – Canlyniadau Cychwynnol

Rhif y Cwestiwn	Maen Prawf	Dangosyddion Ansawdd	Canllawiau Estynedig
4.1	2.1	Ym marn yr arolygwyr, a yw'r risg o niwed a berir gan yr unigolyn hwn i bobl eraill wedi lleihau ers i'r ddedfryd ddechrau?	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn seiliedig ar farn yr arolygydd. Nid yw'n farn sy'n cael ei sgorio; yn hytrach mae'n penderfynu a yw cwestiynau canlyniadau sy'n ymwneud â risg o niwed yn berthnasol i'r achos hwn.</p> <p>Dylai'r opsiwn ddim yn gymwys gael ei ddefnyddio lle nad oedd unrhyw ddangosyddion o risg o niwed i eraill yn yr asesiad cychwynnol YN UNIG; bod yr asesiad, ym marn yr arolygydd, yn gywir ac na fu unrhyw newid drwy gydol y ddedfryd hyd yma.</p>
4.2.1	2.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a yw'r TTI wedi rheoli'r risg o niwed yn effeithiol i ddiodefwyr adnabyddadwy a phosibl, gan gynnwys drwy asesiad cywir, cynllunio a darparu gwasanaethau.</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae asesiad digonol wedi digwydd i nodi diodefwyr gwirioneddol a phosibl a natur y risg o niwed iddynt</li> <li>• Mae cynllunio digonol wedi digwydd i reoli risg o niwed i ddiodefwyr adnabyddadwy a photensial</li> <li>• Mae'r gwaith sydd ei angen i reoli'r risg o niwed i eraill wedi ei wneud gan y TTI neu eraill</li> <li>• Lle nodir hynny, mae prosesau MAPPA wedi cael eu defnyddio'n effeithiol wrth reoli'r risg o niwed i ddiodefwyr adnabyddadwy a photensial</li> </ul>	<p><b>Lle ceir diodefwyr adnabyddadwy neu ddiodefwyr adnabyddadwy posibl a oes digon o dystiolaeth bod y risg o niwed iddynt hwy wedi cael ei reoli'n effeithiol?</b></p> <p>Yr egwyddor gyffredinol yw bod gwaith i reoli risg o niwed yn cynyddu diogelwch diodefwyr gwirioneddol a phosibl. Mae'n rhaid i hyn ddechrau gydag asesiad o ansawdd sy'n nodi'n eglur natur a lefel y risg i ddiodefwyr gwirioneddol a phosibl, gan gynnwys y cyhoedd a staff, ac yn ymateb yn briodol i unrhyw ffactorau amrywiaeth neu ffactorau gwahaniaethol posibl yn yr achos. Dylai asesiad o risg o niwed fod yn amserol i gwrdd ag anghenion yr achos, o ansawdd digonol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd i adlewyrchu unrhyw newidiadau hysbys neu a ragwelir yn lefel neu natur y perygl o niwed.</p> <p>Wrth reoli risg o niwed i ddiodefwyr adnabyddadwy neu bosibl mae cynllun cynhwysfawr a chyfredol i reoli risg o niwed yn cael ei gwblhau pan fo angen ac mae'n cynnwys risg i ddiodefwyr penodol lle bo hynny'n berthnasol. Mae cynlluniau i reoli risg o niwed o ganlyniad yn glir a phenodol, yn briodol i amgylchiadau'r achos, gyda chyswllt clir rhwng yr asesiad a'r cynllun.</p> <p>Wrth reoli'r risg o niwed i eraill, mae'n hanfodol bod blaenoriaeth yn cael ei roi i gyflwyno ymyriadau adeiladol sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed, a monitro ymyriadau cyfyngol. Gall hyn gynnwys gweithio aml-asiantaeth, a allai gynnwys MAPPA neu brosesau rheoli risg eraill. Yn yr un modd mae'n rhaid i gamau gweithredu mewn perthynas â rheoli risg i ddiodefwyr a nodwyd trwy MAPPA neu brosesau rheoli eraill gael eu cwblhau a rhaid rhannu gwybodaeth yn ôl yr angen ar gyfer anghenion yr achos a diogelu diodefwyr adnabyddadwy a phosibl.</p> <p>Dylai'r arolygydd farnu a yw ansawdd cyffredinol y gwaith a wnaed yn bodloni anghenion yr achos - hy a yw digonolrwydd o ran rheoli risg o niwed i ddiodefwyr yn gorbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly, er y gall fod diffygion efallai y bydd yr arolygydd yn gallu dod i'r</p>

casgliad fod y gwaith i reoli risg o niwed i ddioddefwyr yn gyffredinol wedi bod yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. Ar y llaw arall tra gallai fod llawer o gryfderau gallai pwysigrwydd hepgoriad penodol fod yn ddigonol i arwain at ddyfarniad o Annigonol.

Os oedd Cyswllt Dioddefwyr Statudol (gweler esboniad o'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr isod) yn berthnasol i'r achos hwn; ac nad yw'r TTI wedi:

- cymryd camau digonol i wirio bod prosesau priodol ar waith
  - sicrhau bod yr holl achosion sy'n bodloni'r meini prawf o ran y drosedd a'r ddeddfryd yn cael eu hysbysu i'r gwasanaeth prawf
  - cefnogi gwaith y swyddog cyswllt dioddefwyr (VLO)
- yna byddai'r arolygydd fel arfer yn ateb NA i'r cwestiwn hwn.

Dylid defnyddio'r dewis D/G lle nad oes dioddefwr adnabyddadwy gwirioneddol neu bosibl.

Noda'r **Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau (2013)** fod yn rhaid i Dimau Troseddau leuenctid:

- sicrhau bod unrhyw fentrau Cyfiawnder Adferol sy'n cynnwys y dioddefwr yn unol â safonau ansawdd cydnabyddedig, megis y Safonau Gwasanaeth Adferol;
- ystyried a ddylid gwahodd y dioddefwr i weithgaredd Cyfiawnder Adferol;
- cadw data personol dioddefwyr yn ddiogel ac ar wahân i ddata sy'n ymwneud â throseddwyr;
- pan gysylltir â hwy gan ddioddefwyr, egluro rôl y Tim Troseddau leuenctid i ganiatáu i ddioddefwyr wneud dewis gwybodus ynghylch a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgareddau Cyfiawnder Adferol;
- ystyried pryd y mae'n amhriodol i gynnig Cyfiawnder Adferol o ystyried sensitifrwydd yr achos a/neu fregusrwydd y dioddefwr, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud â thrais rhywiol neu ddomestig, masnachu mewn pobl, stelcio a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant. **Mae'n bwysig na roddir pwysau ar unrhyw un i gael Cyfiawnder Adferol;**
- dylid cael caniatâd ysgrifenedig unrhyw ddioddefwyr sy'n barod i gymryd rhan mewn prosesau uniongyrchol i wneud iawn i ddioddefwyr neu brosesau adferol;
- dylid ymgynghori â dioddefwyr a'r gymuned (lle bo'n briodol) am leoliadau gwneud iawn a pharodrwydd i gymryd rhan mewn prosesau adferol;
- dylid sicrhau bod unrhyw weithgaredd gwneud iawn sy'n ofynnol gan blentyn neu berson ifanc o dan orchymyn llys neu warediad y tu allan i'r llys yn cael ei gofnodi yn ysgrifenedig, gan nodi'r math o weithgaredd, dyddiadau, amserau a hyd. Rhaid i hyn gael ei egluro'n llawn i'r plentyn neu'r person ifanc a'i rieni/gofalwyr;
- dylid sicrhau diogelwch y dioddefwyr trwy ddarparu'r holl ragofalon diogelu angenrheidiol trwy gydol y paratoi ar gyfer y gweithgaredd Cyfiawnder Adferol a'r gweithgaredd ei hun;
- dylid sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr.

Mae gan ddiodefwyr **hawl** i gael y canlynol gan y Tîm Troseddau Ieuentid:

- gwybodaeth am gynnydd achos y troseddwr;
- gwybodaeth am wasanaethau i ddiodefwyr os ydych chi am gael unrhyw gymorth ychwanegol;
- cymryd rhan mewn Cyfiawnder Adferol (os yn addas).

### **Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr**

O dan Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004, mae gan Ymddiriedolaethau Prawf gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â diodefwyr (a'u teuluoedd) o dan amgylchiadau penodedig. Mae hyn yn cael ei adnabod fel y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr.

Mae'r cyfrifoldeb am ddarparu cyswllt statudol i ddiodefwyr yn parhau yn nwylo'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol o dan y diwygiadau Adsefydlu Trawsnewid.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid wedi cyhoeddi canllawiau i dimau troseddau ieuentid ynghylch eu cyfrifoldebau ar gyfer sicrhau bod hawliau diodefwyr yn cael eu bodloni mewn achosion lle mae cyswllt statudol â diodefwyr yn berthnasol. O dan y Ddeddf hon mae gan ymddiriedolaeth prawf a'r Tîmau Troseddau Ieuentid gyfrifoldebau mewn perthynas â diodefwyr troseddwr (a'u teuluoedd) sydd naill ai:

- yn derbyn dedfryd o garchar o 12 mis neu fwy ar ôl cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd rywiol neu dreisgar (Noder: mae DTO 12 mis yn bodloni'r gofyniad hwn, er bod hanner ohono fel arfer yn cael ei wasanaethu yn y gymuned)
- yn euog o drosedd rywiol neu dreisgar ac yn derbyn Gorchymyn Ysbyty Cyfyngedig
- yn cael ei drosglwyddo i garchar o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 sydd â Chyfarwyddyd Cyfyngiad
- yn derbyn Cyfarwyddyd Ysbyty a Chyfyngiad.

At ddibenion y ddeddfwriaeth hon, trosedd rywiol neu dreisgar gymwys yw un o'r canlynol:

- llofruddiaeth neu drosedd a bennir yn Atodlen 15 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (c. 44)
- trosedd y mae'r claf neu'r troseddwr mewn perthynas â hi yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu Rhan 2 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (c. 42))
- trosedd yn erbyn plentyn o fewn ystyr Rhan 2 Deddf Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol a Llys 2000.

O dan y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr mae gan y diodefwyr cymwys hawl i ystod penodol lleiaf o wasanaethau, fel a ganlyn:

- gofyn am i amodau gael eu rhoi ar y troseddwr os ydynt yn cael eu rhyddhau. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys amodau nad yw'r troseddwr yn cael ei ganiatáu i

		<p>gysylltu â hwy mewn unrhyw ffordd;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cael gwybod pan fydd y troseddwr yn cael ei ryddhau o'r carchar neu ysbyty ac unrhyw amodau a roddir arno sy'n ymwneud â hwy;</li> <li>• cael gwybod am unrhyw wybodaeth bwysig arall y mae'r Tim Troseddu Ieuentid (neu'r Ymddiriedolaeth Prawf) yn credu y dylai'r dioddefwr gael gwybod;</li> <li>• gael gwybod y gallant ddewis ar unrhyw adeg peidio â chymryd rhan yn y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr.</li> </ul> <p>Os bydd dioddefwr yn dewis cymryd rhan yn y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr neilltuir Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr (VLO) ar ei gyfer fydd yn gweithredu fel eu pwynt cyswllt. Maent yn hysbysu dioddefwyr am gamau pwysig yn nedfryd y troseddwr. Maent hefyd yn gwneud yn siŵr bod barn a phryderon y dioddefwr yn cael eu rhannu gyda'r carchar neu'r Bwrdd Parôl pan fyddant yn trafod a ddylid rhyddhau'r troseddwr.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r swyddog cyswllt â dioddefwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gysylltu â dioddefwyr troseddau rhywiol a threisgar pan gafodd y troseddwr ei ddedfrydu i ddedfryd o garchar o 12 mis neu fwy</li> <li>• sefydlu a yw'r dioddefwr yn dymuno cael gwybod am unrhyw amodau y gallai'r troseddwr fod yn ddarostyngedig iddynt ar ôl ei ryddhau sy'n effeithio arny'n nhw neu eu teulu (mae'r rhain fel arfer yn amodau digyswllt neu amodau gwaharddiad daearyddol)</li> <li>• sefydlu a yw'r dioddefwr eisiau gwneud unrhyw sylwadau ynghylch amodau i'r corff sy'n ystyried rhyddhau, sydd, yn ddiweddar, wedi cael ei ymestyn i gynnwys y cyfle i gyflwyno datganiad personol dioddefwr</li> <li>• cynnig yr un gwasanaeth i'r perthynas agosaf ac aelodau eraill o'r teulu mewn achosion lle bu farw'r dioddefwr o ganlyniad i'r drosedd.</li> </ul> <p>Lle mae'r dioddefwr wedi penderfynu cymryd rhan yn y cynllun cysylltu â dioddefwyr, dylai'r swyddog cyswllt â dioddefwyr gysylltu â rheolwr achos y TTI i sicrhau ei fod ef neu ei bod hi yn gwbl ymwybodol o farn y dioddefwr fel y gallant gael eu hystyried yn briodol wrth gynllunio dedfryd.</p> <p>Lle mae TTI wedi ymgysylltu â dioddefwr i bwrpas cyflwyno ymyrraeth adferol, dylent gytuno gyda'r swyddog cyswllt â dioddefwyr sut y bydd y ddwy asiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r dioddefwr.</p> <p>Os yw'r troseddwr dan 18 oed ac yn cael ei oruchwylio gan Dim Troseddau Ieuentid, bydd y Tim Troseddau Ieuentid yn cysylltu â dioddefwr y drosedd yn uniongyrchol os nad yw'r dioddefwr yn cael cymorth o dan y Cynllun Cyswllt â Dioddefwyr.</p>
--	--	--

			<p><b>Adroddiadau Cryno am Ddiodefwyr Troseddau Difrifol Pellach</b></p> <p>Mae trosedd bellach ddirifol yn cael ei diffinio fel trosedd dreisgar neu rywiol ddirifol o dan Atodlen 15A Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 sy'n denu uchafswm o 14 mlynedd o garchar neu ddedfryd amhenodol.</p> <p>Mae'r cyfrifoldebau ar gyfer Timau Troseddau Ieuencid yr un fath â'r rhai ar gyfer yr ymddiriedolaeth prawf pan fydd troseddwr yn cyflawni Trosedd Ddirifol Bellach (SFO) tra bydd o dan oruchwyliaeth statudol, neu yn fuan ar ôl i'r oruchwyliaeth hon ddod i ben.</p> <p>Bydd yr asiantaeth goruchwyllo yn cynnal Adolygiad SFO (neu Adolygiad Achos Difrifol (SCR)) i ymchwilio i sut mae'r achos yn cael ei reoli ac a oes unrhyw wersi i'w dysgu i wella arferion yn y dyfodol.</p> <p>Yn achos mathau penodol o SFO (llofruddiaeth, dynladdiad neu farwolaeth drwy yrru'n beryglus; trais rhywiol, ymosodiad trwy dreiddio, neu drosedd rhywiol yn erbyn plentyn o dan 13 oed, neu ymgais i wneud unrhyw un o'r uchod) lle cafodd y tramgwyddwr ei gyhuddo ar neu ar ôl 1 Ebrill 2013, mae gan y diodefwyr hawl i ofyn am Adroddiad Cryno Dioddefwr o Adolygiad yr SFO.</p> <p>Mae gan y diodefwyr neu aelod agos o deulu'r diodefwyr sydd mewn profedigaeth <b>hawl</b> i dderbyn Adroddiad Cryno i Ddiodefwyr, hyd yn oed os ydynt wedi penderfynu peidio ag optio i mewn i'r Cynllun Cyswllt â Ddiodefwyr.</p>
4.2.2	2.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20
4.3.1	2.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn, at ei gilydd, os yw'r YOT wedi rheoli risg o niwed i eraill yn ddigon da yn yr achos hwn. Hynny ydi yn gyffredinol yn ystod y ddedfryd hyd yn hyn, oedd y gwaith yn ddigon da i reoli risg i eraill neu oedd unrhyw ddiffygion yn andwyol i reolaeth risg?</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesiad digonol wedi digwydd i adnabod diodefwyr go iawn a rhai posibl</li> <li>• Cynllunio digonol wedi digwydd i reoli risg o niwed i ddiodefwyr canfyddadwy a phosibl</li> </ul>	<p><b>Yn gyffredinol, a yw YOT wedi gwneud digon i gadw i leiafswm risg o niwed yr unigolyn hwn i eraill?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd famu os yw ansawdd cyffredinol y gwaith a wnaed yn ystod y ddedfryd hyd yn hyn yn cyfarfod ag anghenion yr achos i ddiogelu'r cyhoedd – h.y. a yw digonolrwydd yn y gwaith yn gorbwyso unrhyw annigonolrwydd. Felly er bod diffygion, y gall yr arolygydd ddod i'r casgliad ar y cyfan bod y gwaith i reoli risg o niwed i eraill yn ddigonol oddi fewn i gyd-destun yr achos. I'r gwrthwyneb tra bod llawer o gryfderau mae pwysigrwydd esgeulustod penodol yn gallu bod yn ddigon i arwain at fam o Annigonol.</p> <p>Yr egwyddor holl bwysig yw bod pob un o'r camau angenrheidiol wedi eu cymryd i gadw risg o niwed i leiafswm oddi fewn i anghenion yr achos a bod y rheolwyr yn amddiffynol addas i amgylchiadau'r achos.</p> <p>Fel y cyfryw, dylai fod tystiolaeth o'r camau a gymerwyd i adnabod y diodefwyr(wyr) ble</p>



		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y gwaith sydd ei angen i reoli risg o niwed i eraill wedi ei wneud gan yr YOT neu eraill</li> <li>• Ble y nodwyd, prosesau MAPPA wedi ei ddefnyddio'n effeithiol wrth reoli'r risg o niwed i ddiodefwyr canfyddadwy neu bosibl.</li> <li>• Talwyd sylw digonol i gynaliadwyedd y newidiadau a wnaed i leihau'r risg o niwed i eraill.</li> </ul>	<p>bynag mae hynny'n rhesymol bosibl a, ble na fu adnabyddiaeth yn bosibl, tystiolaeth o'r camau a gymerwyd a'r gweithredu sydd heb ei wneud gyda llinell amser ar gyfer cyflwyno.</p> <p>Dylai asesiad o risg o niwed gael ei ystyried yn ddigonol oddi fewn i gyd-destun yr achos a dylai'r arolygydd gyfeirio'n ôl at C 1 10.1 a C1.10.1 wrth ffurfio barn.</p> <p>Yn yr un ffordd dylai cynllunio fod yn addas i amgylchiadau'r achos ac wrth ffurfio barn dylai'r arolygydd gyfeirio'n ôl at C2.8.1 a C2.8.2. Bydd hyn yn cynnwys defnydd effeithiol o MAPPA ble y nodir. Dylid gwneud cyfeiriad pellach at C3.3.1 a 3.4.1 sy'n ymwneud â chyflwyno ymyriadau.</p> <p>I'r arolygydd farnu bod y risg o niwed yn gyffredinol wedi cael ei reoli'n ddigon da dylai fod yn hyderus fod y gwaith a adnabyddir fel gwaith angenrheidiol wedi'i wneud i ansawdd addas naill ai gan yr YOT neu, ble y cytunwyd, gan eraill. Dylai sylw digonol fod wedi ei roi i gynaliadwyedd unrhyw gynnydd a wnaed; mae'n debyg y ceir tystiolaeth o hyn mewn gwaith i atgyfnerthu'r cynnydd a wnaed, yn y cynlluniau cynnal unwaith mae'r YOT yn tynnu'n ôl o'r achos, neu yn y cyfeirio at fecanwaith cynnal arall.</p>
4.3.2	2.1	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20
4.4.1	2.5	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd i ffurfio barn ar ba mor dda y bu i ansawdd gwaith y risg o niwed gael ei gefnogi gan oruchwyliaeth rheoli effeithiol oedd yn addas i amgylchiadau'r achos.</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ble roedd yn ofynnol gan anghenion yr achos, darparwyd goruchwyliaeth rheoli mewn dull amserol</li> <li>• Aeth oruchwyliaeth y rheolaeth i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn yr asesu neu gynllunio i reoli risg o niwed.</li> <li>• Mae goruchwyliaeth rheolaeth wedi sicrhau fod YOT neu eraill wedi cyflenwi'r gwasanaethau gofynnol</li> <li>• Ble roedd yn ofynnol, bu'r defnydd o ffordd mewnol yn effeithiol wrth sicrhau ansawdd y gwasanaethau</li> </ul>	<p><b>A oedd goruchwyliaeth gan y rheolwyr yn effeithiol wrth sicrhau ansawdd risg o niwed yn yr achos hwn?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu os oedd ansawdd y gwaith a wnaed yn cwrdd ag anghenion yr achos – h.y. a yw digonolrwydd y gwaith yn gorbwysio unrhyw annigonolrwydd. Felly, er bod diffygion efallai y gall yr arolygydd ddod i'r casgliad fod goruchwyliaeth gyffredinol gan reolwyr yn ddigonol yng nghyd-destun yr achos. I'r gwrthwyneb tra bod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un esgeulustod penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Ni ddylid defnyddio'r dewis Amherthnasol ble nad oes gofyn am oruchwyliaeth rheolaeth.</p> <p>Os oes dangosyddion risg o niwed yn bod, ond nad ydynt wedi eu canfod nac wedi eu trin, ac y gallai gwybodaeth resymol neu systemau monitro fod wedi eu canfod, gall hyn awgrymu goruchwyliaeth rheolaeth annigonol. Fodd bynnag ni ellid dal rheolwyr yn ymatebol am bethau na ellid fod wedi disgwyl iddynt yn rhesymol eu gwybod.</p> <p>Mae goruchwyliaeth rheolaeth effeithiol o risg o niwed yn cynnwys elfennau o sicrwydd ansawdd (gan gynnwys cydlofnodi ond yn llawer iawn mwy na hynny), goruchwyllo staff, delio â meysydd o bryder oedd yn datblygu mewn achosion unigol a hwyluso gwelliannau yn ymarferol. Mae wedi ei ganolbwyntio yn benodol ar sicrhau fod diodefwyr go iawn neu rai posibl mewn achosion unigol yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed.</p>

			<p>I gael ei ystyried yn ddigonol dylai goruchwyliaeth ganfod unrhyw ddiffygion mewn ymarfer, sicrhau fod gweithredoedd adferol yn cael eu canfod a bod ymarferwyr yn cadarnhau fod y gweithredoedd gofynnol wedi eu cymryd, er bod union natur y cadarnhad yn gallu amrywio yn dibynnu ar brofiad yr ymarferwr. Nid yw gofyn am i dasgau gael eu gwneud, heb sicrhau eu bod wedi eu gwneud, yn oruchwyliaeth effeithiol a byddai hynny'n awgrymu fod y cwestiwn wedi ei ateb yn annigonol.</p> <p>Er mwyn darparu goruchwyliaeth effeithiol, dylai'r rheolwyr eu hunain ddeall prosesau asesu a chynllunio ynglŷn â dangosyddion o'r risg o niwed a gallu adnabod arferion da a rhai annigonol oddi fewn i anghenion yr achos.</p> <p>I gael ei ystyried yn ddigonol, dylai goruchwyliaeth rheoli ganolbwyntio ar gael y gwasanaeth gofynnol wedi'i gyflwyno gan gynnwys sicrhau fod rhwystrau i gyflwyno yn cael eu goresgyn.</p> <p>Dylai risg llawn o niwed difrifol gael ei gydlfnodi gan y rheolwr a bod o ansawdd digonol. Efallai na ellir ei gwblhau yn electronig, ac yn yr achos hwn dylid cynnwys copi papur wedi ei arwyddo yn y ffeil neu dystiolaeth gymwys arall wedi ei ddarparu. Yn yr un modd dylai unrhyw gynllun ffurfiol i reoli risg o niwed i eraill (RMP) gael tystiolaeth o oruchwyliaeth rheoli a chytundeb o'r cynllun wedi eu cofnodi, naill ai ar y cynllun ei hun neu yng nghofnod yr achos.</p> <p>Er mwyn i oruchwyliaeth rheolaeth o asesiad risg o niwed gael ei farnu'n effeithiol, dylai fod tystiolaeth ychwanegol (e.e. dyddiadur achos yn cofnodi trafodaeth rhwng y rheolwr achos a'r rheolwr, drwy unrhyw nodiadau cyfarfod rheoli risg lleol neu nodiadau goruchwyllo) fod cysylltiad rheoli wedi bod yn yr achos</p>
4.4.2	2.5	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20
4.6	3.1	Ym marn yr arolygydd, a yw'r ffactorau diogelu a rhai sy'n ymwneud â bod agored i niwed yr unigolyn hwn wedi eu lleihau ers i'r ddedfryd ddechrau?	<p>Seilir y cwestiwn hwn ar farn yr arolygydd. Nid dedfryd wedi ei sgorio yw hwn, yn hytrach mae'n penderfynu os yw cwestiynau canlyniad yn berthnasol i rai sy'n agored i niwed ac i ddiogelu plentyn neu berson ifanc yn berthnasol yn yr achos hwn.</p> <p>DIM OND ble nad oedd dangosyddion anghenion diogelu neu rai sy'n agored i niwed yn yr asesiad cychwynnol y dylid defnyddio'r dewis ddim yn gymwys; yr oedd yr asesiad yn gywir ym marn yr arolygydd ac ni fu newid ers dyddiad y ddedfryd.</p>
4.7.1	3.1	Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn, at ei gilydd, a yw'r YOT wedi mynd i'r afael â diogelu a rhai sy'n agored i niwed yn foddhaol yn yr achos hwn. Hynny yw, yn gyffredinol dros y ddedfryd, oedd y gwaith yn ddigon da wrth fynd i'r afael â diogelu a	<p><b>Yn gyffredinol a yw'r YOT wedi gwneud digon i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel, naill ai oddi wrth eu hunain neu rhag eraill?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu os yw ansawdd y gwaith yn gyffredinol drwy'r ddedfryd hyd yn hyn i ddiogelu a lleihau perygl y plentyn neu'r person ifanc i fod yn agored i niwed yn cyfarfod ag anghenion yr achos – h.y. a yw digonolrwydd yn y gwaith yn gorbwysu annigonolrwydd.</p>

		<p>rhai oedd yn agored i niwed neu a oedd diffygion oedd yn hanfodol i reoli risg?</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesu digonol wedi digwydd i adnabod anghenion diogelu ac anghenion rhai sy'n agored i niwed</li> <li>• Cynllunio digonol wedi digwydd i fynd i'r afael ag anghenion diogelu ac anghenion rhai sy'n agored i niwed</li> <li>• Y gwaith sy'n ofynnol i fynd i'r afael ag anghenion diogelu ac anghenion rhai sy'n agored i niwed wedi ei ymgymryd gan yr YOT neu eraill.</li> <li>• Sylw digonol wedi ei roi i gynladwyedd gweithredoedd i fynd i'r afael â diogelu a rhai sy'n agored i niwed.</li> </ul>	<p>Felly, er efallai bod diffygion, gall yr arolygydd ddod i'r casgliad fod y gwaith yn gyffredinol i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc yn ddigonol oddi fewn i gyd-destun yr achos. I'r gwrthwyneb tra bod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd esgeulustod penodol fod yn ddigon i arwain at ddedfryd o Annigonol.</p> <p>Yr egwyddor yw y gweithredir ar asesu cywir o anghenion diogelu ac anghenion rhai sy'n agored i niwed mewn dull addas, gan gyflwyno gwasanaethau ar yr amser iawn a gan yr asiantaeth gywir gyda ffocws clir ar gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel ac yn lleihau y peryg iddynt fod yn agored i niwed.</p> <p>Fel y cyfryw, bydd gofyn i'r arolygydd fod yn fodlon, oddi fewn i gyd-destun yr achos, fod yr asesu, cynllunio ac, yn hanfodol, y gwaith wedi'i wneud i ddiogelu'r plentyn neu'r person ifanc a lleihau y ffaith ei fod yn agored i niwed, yn ddigonol. Gall hyn olygu gweithio ar y cyd gyda phartneriaid amlasiantaethol gan gynnwys yr heddlu, carchardai, gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, addysg, iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol neu feddyliol ac iechyd corfforol) ac eraill ble y nodwyd fel bod yn rhai angenrheidiol.</p> <p>I ddechrau dylai'r arolygydd fod yn fodlon fod yr YOT wedi canfod yn briodol unrhyw anghenion diogelu ac anghenion rhai sy'n agored i niwed. Yn dilyn hyn, fod y rhain wedi cael eu cynllunio'n addas gyda'r gwasanaethau cywir wedi'u cyflwyno'n briodol ar gyfer amgylchiadau'r achos, a'u bod o ansawdd da gydag adolygiad rheolaidd a thrwyadl ac yn ymatebol i amgylchiadau sy'n newid ac o ganlyniad yn adlewyrchol o'r sefyllfa ddiweddaraf.</p> <p>Dylid rhoi blaenoriaeth ddigonol i gyflwyno ymyriadau i hyrwyddo diogelu a lleihau bod yn agored i niwed. Dylai cyflenwi gwasanaethau fod yn atebol i natur a lefel y risg i'r plentyn neu berson ifanc, ac yn ymatebol yn briodol i amrywiaeth neu ffactorau gwahaniaethol posibl. Mae hyn yn cynnwys yn y carchar ac yn y gymuned ble mae'n angenrheidiol.</p>
4.7.2		Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20
4.8.1	3.5	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd i ffurfio barn ar ba mor dda oedd ansawdd y gwaith diogelu a'r gwaith gyda rhai sy'n agored i niwed, wedi eu cefnogi gan oruchwyliaeth rheolaeth effeithiol oedd yn addas i amgylchiadau'r achos.</p> <p>Dangosydd ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ble mae'n ofynnol gan anghenion yr achos, cynigwyd goruchwyliaeth rheolaeth mewn dull prydlon</li> <li>• Mae goruchwyliaeth rheolaeth wedi mynd</li> </ul>	<p><b>A oedd goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr yn sicrhau ansawdd y gwaith o fynd i'r afael â diogelu a'r rhai sy'n agored i niwed yn yr achos hwn?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu os oedd ansawdd y gwaith a wnaed yn cwrdd ag anghenion yr achos – h.y. a yw digonolrwydd yn y gwaith yn gwrthbwysu unrhyw annigonolrwydd. Felly er bod diffygion efallai y gall yr arolygydd ddod i'r casgliad fod goruchwyliaeth gyffredinol gan reolwyr yn ddigon yng nghyd-destun yr achos. I'r gwrthwyneb tra bod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un esgeulustod penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylid defnyddio'r dewis Amherthnasol ble nad oes gofyn am oruchwyliaeth rheolaeth.</p> <p>Os yw anghenion diogelu ac anghenion rhai sy'n agored i niwed yn bodoli, ond heb gael eu hadnabod neu eu trin ac y gallent fod wedi cael eu hadnabod gan wybodaeth resymol neu systemau monitro, byddai hyn yn awgrymu goruchwyliaeth rheolaeth annigonol. Fodd</p>

		<p>i'r afael ag unrhyw ddiffygion mewn asesu neu gynllunio i drin anghenion diogelu ac anghenion rhai sy'n agored i niwed.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae goruchwyliaeth rheolaeth wedi sicrhau fod YOT neu eraill wedi cyflenwi'r gwasanaethau gofynnol.</li> <li>Ble mae'n ofynnol, bu'r defnydd o fforwm mewnol yn effeithiol i sicrhau ansawdd y gwasanaethau.</li> </ul>	<p>bynag ni ellir dal rheolwyr yn atebol am bethau na allent yn rhesymol fod wedi disgwyl iddynt fod wedi eu gwybod.</p> <p>Mae goruchwyliaeth rheoli effeithiol o Ddiogelu yn cynnwys elfennau o sicrwydd ansawdd (gan gynnwys cydarwyddo, ond yn llawer mwy na hynny), arolygu staff, delio â datblygu meysydd o bryder mewn achosion unigol a hwyluso gwelliannau ymarferol. Mae'n canolbwyntio yn arbennig ar sicrhau fod pobl ifanc eu hunain wedi eu diogelu'n ddigonol rhag niwed oddi wrthynt eu hunain neu eraill.</p> <p>Er mwyn darparu goruchwyliaeth effeithiol dylai rheolwyr eu hunain ddeall y prosesau asesu a chynllunio, dangosyddion y rhai sy'n arbennig o agored i niwed a gallu adnabod ymarfer da ac annigonol.</p> <p>I gael ei ystyried yn ddigonol, dylai goruchwyliaeth ganfod unrhyw ddiffygion yn ymarferol; sicrhau fod gweithredoedd adferol yn cael eu hadnabod a bod ymarferwyr yn cadarnhau'r gweithredoedd maent wedi eu gwneud, er gall natur benodol y cadarnhad amrywio, yn dibynnu ar brofiad yr ymarferwr. Nid yw gofyn am i'r tasgau gael eu gwneud yn ddigon, heb sicrhau eu bod wedi eu gwneud.</p> <p>Gall goruchwyliaeth reolaethol hefyd weithiau gynnwys problemau'n cynyddu, er enghraifft angen heb ei fodloni neu fylchau yn narpariaeth gwasanaeth drwy'r sianeli cywir yn yr asiantaethau perthnasol i sicrhau fod y bylchau mewn cyflwyno'r gwasanaeth yn cael eu cywiro.</p> <p>Yn yr un ffordd, dylai unrhyw gynllun ffurfiol i fynd i'r afael â diogelu a rhai sy'n agored i niwed (VMP) fod â thystiolaeth o oruchwyliaeth gan y rheolwyr a chytundeb ar y cynllun wedi ei gofnodi naill ai ar y cynllun ei hun neu yng nghofnod yr achos.</p>
4.8.2		Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20
4.10.1	4.3	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a wnaeth rheolwr achos roi digon o sylw addas i amgylchiadau'r achos i iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc mewn perthynas ag unrhyw rwystrau posibl i ymrwymiad a allai gael effaith ar ganlyniad llwyddiannus i'r ddedfryd. Hynny yw – fe wnaethant bopeth rhesymol i wneud yr amgylchedd ble y cyflenwyd y ddedfryd yn ffafriol i gael canlyniad cadarnhaol.</p> <p>Dangosydd ansawdd:</p>	<p><b>Yn gyffredinol, a wnaeth yr YOT dalu digon o sylw i ganlyniadau iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc hwn (yn gymaint ag y gall hyn weithredu fel rhwystr i ganlyniadau llwyddiannus y ddedfryd)?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd farnu os oedd ansawdd y gwaith a wnaed yn cwrdd ag anghenion yr achos – h.y. a yw digonolrwydd yn y gwaith yn gorbwyso unrhyw annigonolrwydd. Felly, er bod diffygion efallai y gall yr arolygydd ddod i'r casgliad fod goruchwyliaeth gyffredinol gan reolwyr yn ddigon yng nghyd-destun yr achos. I'r gwrthwyneb tra bod llawer o gryfderau gall pwysigrwydd un esgeulustod penodol fod yn ddigon i arwain at ddyfarniad o Annigonol.</p> <p>Dylid defnyddio'r dewis Amherthnasol ble nad oedd anghenion iechyd neu les a allai fod wedi gweithredu fel rhwystrau i ganlyniadau llwyddiannus y ddedfryd.</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwnaed y cyfeiriadau sy'n ofynnol i hyrwyddo iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc</li> <li>Y staff wedi darparu lefelau o gefnogaeth addas i'r plentyn neu'r person ifanc</li> <li>Yr ymyriadau oedd yn ofynnol wedi eu cyflwyno gydag asiantaethau'n cydlynu eu gwaith yn dda</li> <li>Digon o sylw wedi ei roi i barhad y gwasanaethau wedi'r cyfnod o garchar ac ail integreiddio i'r gymuned</li> <li>Digon o sylw wedi ei dalu i gynladwyedd y gwelliannau mewn iechyd a lles.</li> </ul>	<p>Bydd angen i'r arolygydd farnu fod digon o sylw wedi ei dalu i anghenion iechyd a lles a all o bosib weithredu fel rhwystrau i'r ymrwymiad i wella posibiladau rhain ar ganlyniad y ddedfryd.</p> <p>Yn benodol, bydd angen i'r arolygydd weld tystiolaeth oedd yn gofyn i gyfeiriadau gael eu gwneud i fynd i'r afael ag iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol a meddyliol ac iechyd corfforol), camddefnyddio sylweddau, ETE, gofal cymdeithasol ac anghenion eraill sy'n berthnasol i iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc.</p> <p>Os gwneir cyfeiriadau dylai fod tystiolaeth o asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i gyd-drefnu ymyriadau hanfodol i hyrwyddo iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc. Ble caiff ei nodi, dylai hyn gynnwys cyd-drefnu gwasanaethau rhwng sefydliadau gwarchodol a chymuned y plentyn neu'r person ifanc i gynorthwyo ail integreiddio a mwyhau'r posibilrwydd o ganlyniad llwyddiannus i'r ddedfryd.</p> <p>Dylid dangos tystiolaeth o gynladwyedd gyda digon o ystyriaeth yn cael ei roi a, ble mae'n berthnasol, cynlluniau'n cael eu gosod yn eu lle i hyrwyddo iechyd a lles y plentyn neu'r person ifanc wedi i'r ddedfryd ddod i ben, drwy'r defnydd o gynlluniau cadarn ar gyfer ymadael ac adnoddau cymunedol.</p>
4.10.2	4.3	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20
4.12	1.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn, ym marn yr arolygydd, os oes digon o gynnydd wedi ei wneud o ran y ffactorau sydd fwyaf tebygol o wneud i'r plentyn neu'r person ifanc aildroseddu ar yr adeg hon yn ei ddedfryd.</p> <p>Nid yw'n seiliedig ar asesiad YOT ond, yn gyntaf, ar farn yr arolygydd ynghlŷn â pha ffactorau sydd wedi eu cysylltu â'r tebygolrwydd o aildroseddu ac, yn ail, ar gynnydd a wnaed hyd yn hyn yn y ddedfryd.</p>	<p><b>Ym marn yr arolygydd, a oes digon o gynnydd cyffredinol wedi ei wneud ar yr adeg hon, ble mae'n ofynnol mewn perthynas â ffactorau allweddol unigol a wnaeth yr unigolyn hwn yn fwy tebygol o droseddu?</b></p> <p>Dylid defnyddio'r dewis Amherthnasol yn erbyn pob ffactor sy'n berthnasol i droseddu, ble <u>ym marn yr arolygydd</u> nad oedd dim cyswllt arwyddocaol rhwng y tebygolrwydd o aildroseddu a'r ffactor hwnnw, roedd angen mynd i'r afael ag ef yn ystod y ddedfryd hyd yma.</p> <p>Mae gofyn i'r arolygydd ffurfio barn glinigol ar yr achos yn seiliedig ar ei wybodaeth o'r achos, er mwyn penderfynu pa ffactorau oedd yn berthnasol i droseddu sydd wedi gwella ers dechrau'r ddedfryd. Rhaid i arolygwyr sylwi fod y cwestiwn hwn yn berthnasol yn unig i ffactorau sydd wedi eu cysylltu ag aildroseddu – nid yw'n cynnwys y meysydd hynny y gallent fod wedi bod yn broblem o safbwynt risg o niwed, diogelu neu les, ond heb eu cysylltu â'r tebygolrwydd o aildroseddu.</p> <p>I ateb y cwestiwn hwn rhaid i'r arolygydd benderfynu i ddechrau pa ffactorau oedd yn perthyn i droseddu oedd yn bodoli ar ddechrau'r ddedfryd roedd angen mynd i'r afael â hwy yn ystod goruchwyliaeth, waeth beth oedd eu sgôr ar Asset. Rhaid i'r arolygydd wedyn benderfynu pa rai o'r ffactorau hyn y dylid fod wedi mynd i'r afael â hwy yn ystod cwrs y ddedfryd sy'n cael ei harolygu ar hyn o bryd, gan gadw mewn cof natur, dwyster a hyd y ddedfryd ynghyd â ffactorau amrywiaeth yr achos.</p>

			<p>Dylai pob ffactor arall gael ei ateb 'Amherthnasol'.</p> <p>Am bob un o'r ffactorau maent wedi eu hadnabod rhaid i'r arolygydd ffurfio barn yn seiliedig ar y cyfan o'r dystiolaeth sydd ar gael iddo os yw'r ffactor hwnnw wedi ei leihau. Dylai pob un o'r ffactorau eraill gael eu hateb gyda DO (gostyngol) neu NADDO (heb ei ostwng).</p> <p>Gall tystiolaeth ddod o amryw o ffynonellau gan gynnwys adolygiadau Asset, cofnodion cyswllt, manylion o waith a gwblhawyd gyda phlentyn neu berson ifanc, gwybodaeth a dderbyniwyd gan rieni/gofalwyr ac asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â gwaith gyda phlentyn neu berson ifanc. Nid gostyngiad yn sgôr Asset yw'r ffactor dyngedfennol allweddol gan, er enghraifft, y gall fod tystiolaeth nad yw eto wedi ei amlygu mewn gostyngiad yn y sgôr.</p>
4.13.1	1.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn am farn yr arolygydd os, ers y ddedfryd/rhyddhau o'r carchar a fu gostyngiad yn</p> <p>A) Amlder troseddu B) Difrifoldeb troseddu</p> <p>ac mae'n farn glinigol yn seiliedig ar ei ddealltwriaeth o'r achos.</p>	<p><b>Ydi'n ymddangos fod lleihad (ers dechrau'r ddedfryd/ rhyddhau o'r carchar) mewn</b></p> <p><b>a) Amlder troseddu</b> <b>b) Difrifoldeb troseddu</b></p> <p>I ateb y cwestiynau hyn mae angen i'r arolygydd ffurfio barn glinigol a yw'r ymddygiad <b>ers dechrau'r ddedfryd</b> yn welliant ar batrwm ymddygiad cynharach y troseddwr.</p> <p>Dylid defnyddio'r ateb 'YDI' ar gyfer y <b>ddau</b> ateb ble:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>na fu <b>troseddu pellach</b>, ac y mae hyn yn welliant ar y patrwm o ymddwyn cynharach.</li> </ul> <p>Dylid defnyddio'r atebion addas 'YDI' ble:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>bu troseddu pellach ond yr amlder/neu ddifrifoldeb wedi ei ostwng o'i gymharu â'r patrwm blaenorol.</li> </ul> <p>Dylid defnyddio'r ateb addas 'NAC YDI':</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>pan fu parhad o ymddwyn yn droseddol yn debyg i, neu'n waeth nag o'r blaen.</li> </ul> <p>Dylid defnyddio'r atebion Dim Digon o Dystiolaeth pan mae'r canlynol yn berthnasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>hon yw'r drosedd gyntaf</li> <li>bu cyfnod hir ers y drosedd flaenorol</li> <li>yn anaml iawn y bu i'r plentyn neu'r person ifanc droseddu</li> <li>bu'r plentyn neu'r person ifanc yng ngharchar heb gyfle i ailddroseddu</li> <li>mae' arolygydd yn ystyried na fu digon o hanes i fod yn sail i farn</li> </ul> <p>Sylwer: os cafwyd y plentyn neu'r person ifanc yn euog ers dechrau'r ddedfryd sy'n cael ei arolygu, am drosedd a wnaethpwyd cyn y ddedfryd gyfredol, yna dylid ystyried y drosedd ychwanegol hon fel rhan o batrwm o ymddygiad blaenorol – ni ddylid ei hystyried fel rhan o droseddau dilynol.</p>

4.13.2	1.4	Cyfeiriwch at y canllaw manwl	<p><b>Modiwl ymyriadau'n unig: A wnaeth ymyriadau wneud cyfraniad digonol at leihau'r tebygolrwydd o ailddoseddu?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i chi benderfynu a wnaeth yr ymyriadau a ddarparwyd effeithio ar unrhyw ganlyniad mewn perthynas â'r tebygolrwydd o ailddoseddu.</p> <p>Dylech ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- A ddarparwyd yr ymyriadau cywir i ddiwallu'r anghenion a aseswyd?</li> <li>- A oedd ymyriadau ar gael lle nodwyd angen?</li> <li>- A oedd yr ymyriadau hynny o ansawdd da ac wedi'u darparu drwy ganolbwyntio ar arfer effeithiol?</li> <li>- A wnaeth darparu'r ymyriadau ddilyn yr egwyddorion risg, anghenion ac ymateb?</li> <li>- A wnaeth y plentyn neu'r person ifanc gwblhau'r ymyriad?</li> <li>- A oes tystiolaeth ei fod wedi ymgysylltu â'r ymyriad?</li> <li>- A oes adborth o'r ymyriad, naill ai gan y person ifanc, yr hwylusydd neu'r rheolwr achos?</li> </ul>
4.13.3	1.4	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20
4.14	1.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a oes digon o dystiolaeth yn yr achos fod sylw wedi ei roi i gynaliadwyedd y newidiadau cadarnhaol wedi diwedd y ddedfryd.</p> <p>Dangosydd ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflawnwyd canlyniadau cynaliadwyedd cadarnhaol a fydd yn gynaliadwy gan y plentyn neu'r person ifanc wedi diwedd y ddedfryd</li> </ul>	<p><b>A roddodd yr YOT ddigon o sylw i sicrhau canlyniadau cadarnhaol sy'n gynaliadwy ar ddiwedd y ddedfryd?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn edrych ar un agwedd bwysig o strategaeth ymadael a ddatblygwyd neu a ddefnyddiwyd gan y rheolwr achos. Dylai'r rheolwr achos fod yn ceisio mwyhau'r tebygolrwydd fod unrhyw gynnydd a wnaed yn ystod y rhan yn y carchar neu yn y gymuned o'r ddedfryd, yn cael ei gynnal yn dilyn ei gwblhau.</p> <p>I'r cwestiwn hwn gael ei ateb yn gadarnhaol bydd angen tystiolaeth fod y rheolwr achos wedi dangos ansawdd a dyfalbarhad wrth ddatblygu unrhyw newid/dysg cadarnhaol a wnaeth y plentyn neu'r person ifanc yn ystod y cyfnod o oruchwyliaeth. Bydd hefyd angen tystiolaeth fod y rheolwr achos wedi creu cyfleoedd i'r newid cadarnhaol hwn gael ei barhau tu draw i ddiwedd cyfnod goruchwyliaeth, er enghraifft trwy ddatblygu cysylltiadau gydag asiantaethau cymunedol a all barhau i gefnogi/datblygu'r plentyn neu'r person ifanc. Gall hyn olygu 'ddangos y ffordd' i asiantaethau addas neu gall olygu bod wedi creu cysylltiadau fel rhan o amcan strategol cynllun ymadael ymyriad.</p> <p>Os oes tystiolaeth o newid cadarnhaol yn y plentyn neu'r person ifanc ond fod angen cymorth pellach i atgyfnerthu'r rhain ar ddiwedd y ddedfryd, a dim cynllun wedi ei osod yn ei le i fynd i'r afael â hyn, gall yr arolygydd efallai ddymuno sgorio'r cwestiwn hwn fel 'NA'.</p> <p>Mae'r dewis 'Amherthnasol' yn gymwys pan fydd yn rhy gynnar yn y ddedfryd i ystyried cynladwyedd ar ôl y ddedfryd. Mae hefyd yn berthnasol ble na fu canlyniadau cadarnhaol ble y gallai gweithredu fod wedi digwydd yn rhesymol i gefnogi cynladwyedd.</p>

4.16.1	4.1.2	<p>Mae rhwystrau go iawn a rhai posibl i ymgysylltu wedi derbyn digon o sylw er mwyn gostwng eu dylanwad yng nghyd-destun anghenion yr achos.</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Digon o asesu wedi digwydd i adnabod rhwystrau posibl i ymgysylltu, gan gynnwys anghenion llefaru, iaith a chyfathrebu, a chafodd cynlluniau eu datblygu i ostwng eu heffaith ar ganlyniad llwyddiannus y ddedfryd.</li> <li>Ble mae'n hanfodol, cafodd asesiadau a chynlluniau eu cyfathrebu'n glir i eraill oedd â rhan mewn cyflenwi'r ddedfryd.</li> <li>Digon o sylw wedi ei roi i'r rhai oedd yn agored i niwed, iechyd a lles, iechyd corfforol, emosiynol neu feddyliol, cyn belled â'u bod yn gweithredu fel rhwystrau posibl neu rwystrau go iawn i ymgysylltu.</li> </ul> <p>Ble mae'r arolygydd yn canfod presenoldeb rhwystrau go iawn neu rai posibl i ymgysylltu <u>naid</u> ydynt wedi eu hadnabod gan YOT, mae'r ateb 'NA' i'r cwestiwn hwn yn debygol.</p>	<p><b>Yn gyffredinol, a oes digon o sylw wedi ei roi i adnabod ac ymateb i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau go iawn neu rhai posibl i ymgysylltu?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn edrych a yw'r rheolwr achos, yn gyffredinol yn ystod y ddedfryd hyd yn hyn, wedi asesu, cynllunio ar gyfer, a defnyddio yn ddigonol weithredoedd i gynorthwyo gallu'r plentyn neu berson ifanc i elwa o'u dedfrydau; gan fod y tebygolrwydd o ganlyniad llwyddiannus yn cynyddu drwy adnabod ac wedyn ymateb i rwystrau i ymgysylltu'n effeithiol.</p> <p>Dylid asesu rhwystrau posibl i ymgysylltu a mynediad i wasanaethau, gan gynnwys anghenion dysgu, anabled a ffactorau gwahaniaethu ac amrywiol eraill a, ble mae'n addas, cynlluniau wedi eu rhoi yn eu lle i liniaru eu heffaith. Dylai'r arolygydd fod yn fodlon fod y meysydd penodol o rai sy'n agored i niwed, iechyd corfforol ac emosiynol, ac iechyd meddwl a lles wedi eu hystyried a, ble y nodir, fod cynlluniau a gweithredoedd wedi eu trefnu i ostwng eu heffeithiau ar allu'r plentyn neu'r person ifanc i ymgysylltu, a bod y rhain wedi eu cyflwyno yn ôl y galw.</p> <p>Mae hyn yn debyg o gynnwys y rheolwr achos yn cydweithio'n agos gyda chydweithwyr YOT neu wasanaethau cymunedol ble mae'n angenrheidiol.</p> <p>Dylai'r arolygydd fod yn fodlon fod sylw penodol yn cael ei roi ym mhob achos i ddeall a mynd i'r afael ag anghenion llefaru, iaith neu gyfathrebu'r plentyn neu'r person ifanc fel bod y dulliau o weithio yn gweddu i'w anghenion unigol.</p> <p>Dylai asesiadau, cynlluniau i fynd i'r afael, rhwystrau i ymgysylltu gael eu cyflwyno i bawb sy'n rhan o'r achos. Gellid dod o hyd i dystiolaeth o hyn yng nghofnodion dyddiadur achos, yr asesiad Asset neu mewn unrhyw gynlluniau penodol ar yr achos. Dylai bod cynlluniau clir am weithredoedd i reoli rhwystrau posibl i ymgysylltu sy'n cynnwys rolau a chyfrifoldebau ble mae'n angenrheidiol.</p> <p>Ble mae'r arolygydd yn canfod presenoldeb rhwystrau go iawn neu rhai posibl i ymgysylltu na chawsant eu hadnabod gan YOT, mae'r ateb 'NA' i'r ateb hwn yn debygol.</p>
4.16.2		Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20
4.17.1	4.2	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd ffurfio barn i weld a wnaed ymdrech ddigonol i sicrhau fod y ddedfryd wedi'i gweithredu fel y bwriadwyd gan y llys, drwy YOT yn gwneud popeth y gallent i uchafu'r tebygolrwydd o'r ddedfryd yn cael ei chyflawni.</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Y plentyn neu'r person ifanc a'u</li> </ul>	<p><b>A dalwyd digon o sylw i sicrhau fod y plentyn neu'r person ifanc wedi ymgysylltu â'r YOT a bod gofynion y ddedfryd wedi eu cwrdd?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a yw'r rheolwr achos wedi gwneud pob peth y gall ei wneud i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc i gyfarfod â gofynion y ddedfryd ac mae hyn yn rhedeg fel edau o'r cyswllt cyntaf â'r plentyn neu'r person ifanc a'u rhiant/gofalwr gyda YOT drwodd at y strategaethau ymadael. Yr egwyddor sylfaenol yw bod y plentyn neu'r person ifanc yn gwybod beth a ddisgwylir ganddo i gwblhau'r ddedfryd yn llwyddiannus, ac yn derbyn y gefnogaeth a'r anogaeth angenrheidiol i hyrwyddo ei chwblhau.</p>



		<p>rhieni/gofalwyr yn glir beth a ddisgwyllir ganddynt.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylw digonol wedi ei dalu i gymhelliant y plentyn neu'r person ifanc oedd yn cynnwys mynd i'r afael â rhwystrau i ymgysylltu a oedd yn bresennol gan gynnwys effeithiau unrhyw anawsterau dysgu.</li> <li>• Gofynion adrodd yn ôl yn ddigonol ac wedi mynd i'r afael ag unrhyw ofynion ychwanegol o'r ddedfryd.</li> <li>• Y plentyn neu'r person ifanc yn gallu cael mynediad i YOT ac aethpwyd i'r afael ag effaith lleoliad YOT ar y ddedfryd.</li> </ul>	<p>Wrth ffurfio barn dylai'r arolygydd edrych am dystiolaeth fod y plentyn neu berson ifanc a, ble mae'n gynnwys eu rhieni/gofalwyr, yn deall gofynion y ddedfryd. Gallai hyn fod drwy becyn ymsefydlu, cofnodion cyfarfod cyflwyno neu ryw dull arall y tystiolaethir iddo yng nghofnod yr achos.</p> <p>Dylai'r ffeil gynnwys tystiolaeth o bob gofyniad o'r ddedfryd yn cael ei weithredu, a'r rhain yn cael eu hegluro i'r plentyn neu berson ifanc a'u rhiant/gofalwr mewn dulliau sy'n glir a dealladwy.</p> <p>Dylid cael tystiolaeth ar y ffeil neu yn nhrefodaeth y rheolwr achos o asesiad cywir o rwystrau i ymgysylltu a bod gan y rheolwr amrywiaeth o sgiliau ac offer ar gael i gyfarfod ag unrhyw rwystrau posibl. Mae'n rhaid i hyn gynnwys gweithredoedd i leihau effaith unrhyw ffactorau gwahaniaethol a allai ostwng y tebygolrwydd o ofynion y ddedfryd yn cael eu cwblhau.</p> <p>Dylai rheolwyr achos hefyd sicrhau ble mae'r plentyn neu berson ifanc yn methu â chydymffurfio â'r ddedfryd bod ymateb addas, gan gynnwys tramgwydd ble mae hynny'n briodol. Eto dylai'r arolygydd edrych am dystiolaeth fod yr ymateb hwn yn briodol i amgylchiadau'r achos ond i'r un graddau ei fod yn amddiffynadwy yn ôl anghenion yr achos.</p> <p>Dylai'r arolygydd hefyd ystyried i ba raddau y mae lefel y Dull Gradeddig a nodwyd wedi ei adlewyrchu yn yr apwyntiadau a roddwyd. I'r achosion a arolygwyd dan Safonau Cenedlaethol 2009 mae'r safonau canlynol yn eu lle:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefel Safonol – lleiafswm o 2 apwyntiad y mis am y tri mis cyntaf yn cael eu gostwng i leiafswm o un apwyntiad y mis ar ôl hynny</li> <li>• Lefel Gwell – lleiafswm o 4 apwyntiad y mis yn cael ei ostwng i leiafswm o 2 apwyntiad y mis ar ôl hynny</li> <li>• Lefel Dwys – lleiafswm o 12 apwyntiad yn ystod y tri mis cyntaf yn cael ei ostwng i leiafswm o 4 apwyntiad y mis ar ôl hynny</li> </ul> <p>I'r achosion a arolygwyd dan Safonau Cenedlaethol 2013 mae lefelau peilot Safonol a Gwell yn aros yr un fath ond mae lefel Dull Gradeddig Dwys yn cael ei ostwng i leiafswm o 8 cysylltiad y mis am y tri mis cyntaf a 4 cyswllt y mis wedyn.</p> <p>Dylai'r arolygydd gymryd barn ystyriol am ba lefel o adrodd yn ôl oedd yn addas mewn gwirionedd i anghenion ac amgylchiadau'r achos a ffurfio barn os oedd hwn wedi ei fodloni ai peidio.</p> <p>Dylai'r arolygydd ystyried os gallai, ble mae'n addas ac oddi fewn i anghenion yr achos, dirymiad cynnar fod wedi ei ddefnyddio i gynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniad llwyddiannus.</p>
4.17.2		Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20

4.18.1	4.2	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd ffurfio barn ynglŷn â wnaeth y plentyn neu berson ifanc bopeth a ofynnwyd iddo gan y YOT h.y. oedd ei gydymffurfio'n ddigon i anghenion yr achos.</p> <p>Dangosyddion ansawdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r YOT wedi deall y rhesymau dros beidio â chydymffurfio ac wedi cymryd camau cymwys i gefnogi cydymffurfio. Mae'r YOT wedi ymgysylltu digon â rhieni/gofalwyr ac eraill sy'n arwyddocaol i gefnogi cydymffurfio.</li> <li>• Mae'r YOT wedi mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol gan y plentyn neu'r person ifanc.</li> <li>• Mae'r YOT wedi adnabod yn gywir methiannau annerbyniol.</li> <li>• Cymerir gweithred tramgwydd ble mae'n ofynnol yn brydlon.</li> </ul>	<p><b>Wnaeth y plentyn neu'r person ifanc gydymffurfio â gofynion y ddedfryd?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi cydymffurfio â'r ddedfryd yn ddigon da i fodloni gofynion y llys.</p> <p>Gofynion y ddedfryd yw'r rhai a osodir gan orchymyn llys a'u gweithredu gan y YOT. Er enghraifft dan YRO gyda gweithgaredd (e.e. dyddiau dirymiad) a gofynion goruchwyliaeth rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc fod wedi cyflawni'r dyddiau a osodwyd gan y llys ac a adroddwyd yn ôl i'r amllder y gofynnwyd gan yr YOT mewn perthynas â lefel ymyriad y Dull Gradeddig. Os oes gofyniad cyrffiw neu amod trwydded rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc fod wedi glynu at hyn.</p> <p>Fodd bynnag dylai prawf rhesymoldeb oddi fewn i gyd-destun yr achos weithredu yma gan gymryd i ystyriaeth y cyfnod cyfan o oruchwyliaeth. Er enghraifft pe bai plentyn neu berson ifanc wedi colli un apwyntiad yn ystod cyfnod cynnar y ddedfryd tra roedd agweddau anhrefnus eu hamgylchiadau yn cael eu sefydlogi neu ffactorau gwahaniaethol perthnasol yn cael eu trafod, wedyn efallai y byddai'r arolygydd yn dewis adnabod hyn fel cydymffurfio digonol ond ar ôl anawsterau cychwynnol.</p> <p>Dylai'r arolygydd hefyd adnabod fod yr ateb 'DO' (yn llawn) i'r cwestiwn hwn yn symud y cyfle yn y cwestiwn nesaf i asesu ymateb YOT i beidio â chydymffurfio, ac i roi canmoliaeth ble mae hynny'n briodol.</p> <p>I'r gwrthwyneb, os oes nifer fawr o absenoldebau wedi eu nodi fel bod yn dderbyniol, ond yr arolygydd yn ystyried fod y rhain yn annerbyniol yna maent yn debyg o asesu hyn fel peidio â chydymffurfio. Yn yr un ffordd, os oes absenoldebau ble mae barn YOT naill ai'n aneglur neu heb ei gofnodi mae hyn yn debyg o arwain at ddedfryd o beidio â chydymffurfio.</p> <p>Nid ynglŷn â bod yn bresennol mewn apwyntiadau yn unig yw hyn. Pan oeddent yn ymgymryd â'r gorchymyn dylai'r plentyn neu'r person ifanc fod wedi ymgysylltu ac ymddwyn yn addas. Er enghraifft, os oeddent dan ddylanwad, yn dreisgar neu'n gwrthod bod yn rhan, dylid ystyried hyn fel peidio â chydymffurfio. Gellid hefyd cynnwys presenoldeb statudol pan fydd hyn gyda gweithwyr ar wahân i reolwr achos YOT, ond o dan eu cyfarwyddiaeth.</p> <p>Dylai rheolwyr achos fod wedi mynegi eu hymroddiad i'r plentyn neu'r person ifanc a, ble mae hynny'n angenrheidiol, eu rhiant/gofalwr mewn amryw o ffyrdd – er enghraifft bod yn atebol, gweithio oddi fewn i fframwaith sy'n ysgogi, dilyn ymlaen ar weithredoedd a addawyd, bod yn hyblyg ac yn atblygol i newidiadau i'r plentyn neu'r person ifanc, er enghraifft gostwng lefelau cyswllt neu ganiatáu absenoldeb ar adegau o bwysau teuluol ble mae hynny'n addas i amgylchiadau'r achos.</p> <p>Dylid defnyddio'r dewis Amherthnasol yn unig os nad oedd cyfle i'r plentyn neu'r person ifanc i gydymffurfio, e.e. ble roeddent yng ngharchar a dim yn cael eu rhyddhau yn ystod</p>
--------	-----	--	--

			oes y ddedfryd oedd yn cael ei arolygu, neu ble roedd y ddedfryd wedi'i ddiddymu am resymau ac eithrio peidio â chydymffurfio cyn bod cyfle i'r plentyn neu'r person ifanc i fod yn bresennol.
4.18.2	4.2	Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd ffurfio barn a oedd ymateb yr YOT yn ddigonol, mewn perthynas â chydymffurfio, ac ym mhob un o amgylchiadau'r achos	<p><b>Ble nad yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi cydymffurfio'n llwyr oedd ymateb yr YOT yn ddigonol?</b></p> <p>Gofynnir i'r arolygydd i ffurfio barn ar ba mor dda mae'r YOT wedi delio â chydymffurfio a gorfodaeth y ddedfryd.</p> <p>Dylai ymateb addas gynnwys, ble mae'n gymwys, gweithredoedd i hyrwyddo neu gefnogi cydymffurfio yn y dyfodol. Er enghraifft, ymweld â'r cartref, trafodaeth gyda'r rhieni/gofalwyr os yn briodol, gweithredoedd addas i symud rhwystrau i gydymffurfio, cyfweiliad gyda rheolwr achos/ a neu reolwr llinell neu adolygiad o gynllun y ddedfryd gyda'r plentyn neu'r person ifanc, neu waith cymhelliant penodol.</p> <p>Dylai'r arolygydd hefyd gymryd i ystyriaeth unrhyw ffactorau amrywiaeth perthnasol yn yr achos, a symud rhwystrau i gydymffurfio ble mae hynny'n briodol. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys peidio â dechrau gweithredu gorfodol yn rhy gynnar yn yr achos ble mae plentyn neu berson ifanc yn profi bywyd anhrefnus gyda llaweroedd o symudiadau cartref, ond cymryd dull mwy hyblyg o adrodd yn ôl nes bod amgylchiadau wedi eu sefydlu. Yn yr un ffordd gyda phlentyn neu berson ifanc sydd ag anabledd dysgu sy'n ei gwneud yn anodd iddynt drefnu cadw dyddiadau ac amserau ond yn cynnig risg isel o niwed, gellid defnyddio mwy o hyblygrwydd, gyda chefnogaeth addas ychwanegol, nag i blentyn neu berson ifanc sy'n bygwth risg uwch o niwed i eraill.</p> <p>Fel meincnod i weithred o gydymffurfio a gorfodaeth, gall yr arolygydd gyfeirio at Safonau Cenedlaethol 2013, ond dylai fod yn ofalus o amgylchiadau achos unigol wrth ffurfio ei fam ar addasrwydd y gweithredoedd a gymerwyd:</p> <p><u>Gorchmynion Atgyfeirio</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Methiant i fynychu – dilyn o fewn un diwrnod gwaith ar y ffôn, ymweld â'r cartref neu drwy lythyr</li> <li>• Penderfynu a yw'r rheswm yn dderbyniol neu'n annerbyniol</li> <li>• Os yw'r eglurhad yn annerbyniol (neu nad oes eglurhad wedi ei gynnig), rhowch rybudd ysgrifenedig ffurfiol o fewn 24 awr.</li> </ul> <p>Yn dilyn dau rybudd ffurfiol ble mae methiant annerbyniol pellach i fynychu wedi digwydd neu mae methiant sengl annerbyniol difrifol i gydymffurfio:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Galwch gyfarfod panel troseddwy'r ifanc o fewn deg diwrnod gwaith i benderfynu a fydd y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r llys.</li> <li>• Os yw yn cael ei gyfeirio'n ôl i'r llys sicrhewch fod hyn yn digwydd o fewn deg diwrnod gwaith o gyfarfod y panel.</li> </ul> <p>Ar gyfer Gorchmynion Atgyfeirio, mae torri amod yng nghyd-destun y contract yn hytrach</p>

na'r gorchymyn. Felly, rhaid i unrhyw benderfyniad i ddychwelyd yr achos i'r llys yn dilyn torri amod gael ei wneud gan banel cyfansoddiad priodol, NID gan y Tim Troseddau Ieuentid.

Unwaith y bydd contract wedi'i lofnodi, mae angen i'r troseddwr, lle bynnag y bo'n bosibl, gael ei gyfeirio yn ôl i'r llys, am beidio â chydymffurfio â'r contract gorchymyn atgyfeirio, o fewn y cyfnod cydymffurfio. Rhaid i benderfyniad y Panel i gyfeirio'r troseddwr yn ôl i'r llys gael ei wneud mewn cyfarfod panel cyn diwedd cyfnod cydymffurfio'r contract. Y cyfle olaf i wneud hyn yw yn y cyfarfod terfynol.

Fodd bynnag, unwaith y bydd contract wedi'i roi ar waith ac mae'r Panel wedi atgyfeirio'r troseddwr yn ôl i'r llys am dorri amodau, os yw'r troseddwr yn bresennol gerbron y llys, yna mae pwerau'r llysoedd – i ddiddymu'r gorchymyn atgyfeirio ac ail-ddedfrydu ar gyfer y drosedd wreiddiol – yn cael eu gweithredu hyd yn oed os yw cyfnod pan fydd y contract yn weithredol wedi dod i ben (p'un ai cyn neu ar ôl atgyfeirio'r troseddwr yn ôl i'r llys), gweler Paragraff 5 (6), Atodlen 1 Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000.

Mae'r Ddeddf hefyd yn cyfeirio at dorri amod o ran y troseddwr ifanc yn methu â mynychu'r cyfarfod cyntaf, ac i gytuno ar gontract yn y cyfarfod cyntaf. Yn y naill sefyllfa, dylid cyfeirio'r person ifanc yn ôl i'r llys o fewn tymor y gorchymyn.

#### Gorchymynion eraill

##### Goruchwyliaeth cymunedol YRO a DTO

- Dilynwch bob methiant oddi fewn i un diwrnod gwaith drwy ffôn, ymweld â chartref neu drwy lythyr
- Penderfynwch a yw'r rheswm yn dderbyniol neu'n annerbyniol
- Os yw'r eglurhad yn annerbyniol (neu nad oes yr un eglurhad oddi fewn i 24 awr) rhwch rybudd ysgrifenedig ffurfiol oddi fewn i 24 awr.

Ble bydd dau rybudd ffurfiol wedi eu rhoi (i YROau oddi fewn i gyfnod rhybudd 12 mis) a methiant annerbyniol pellach i fynychu wedi digwydd:

- Rhaid dechrau gweithred tramgwydd oddi fewn i bum niwrnod gwaith oni bai, dan amgylchiadau eithriadol, yr atelir y weithred tramgwydd gydag awdurdod rheolwr yr YOT.

Ble mae un methiant sengl annerbyniol i gydymffurfio, gall gweithred tramgwydd gael ei ddechrau ar unwaith; fodd bynnag dim ond dan amgylchiadau eithriadol y dylai hon gael ei hystyried.

Ble mae plentyn neu berson ifanc yn tynnu'n ôl eu parodrwydd i gydymffurfio gydag angen triniaeth:

- Dylai rheolwr achos YOT ddychwelyd yr achos i'r llys am ddiddymiad/cywiriad fel anweithredadwy

*Safonau Cenedlaethol 2009 8.18.*

			<p><u>Dedfrydau carchar hir dymor (S90/91 Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000; S226/228 Deddf Cyflawnder Troseddol 2003)</u></p> <p>Os torrir amodau trwydded (gan gynnwys aildroseddu) neu os oes ymddygiad sy'n creu mwy o berygl o niwed difrifol i eraill, rhaid ystyried galw'r plentyn neu'r person ifanc yn ôl. Rhaid i benderfyniad i beidio â galw'n ôl gael ei gymeradwyo gan reolwr y YOT. Mae'n rhaid cael tyst i hynny a rhaid iddo gael ei gofnodi.</p> <p>Penderfynwch a oes gofyn am alw'n ôl tymor sefydlog, galw'n ôl safonol neu alw'n ôl brys. Rhaid i hyn gael ei gytuno a'i arwyddo gan reolwr YOT/ uwch reolwr.</p> <p>Ble gwneir penderfyniad i ddechrau galw'n ôl:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhewch gais am alw'n ôl o fewn 24 awr</li> <li>• Cyflwynwch y gwaith papur yn cefnogi'r cais i Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd o Wasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) oddi fewn i 24 awr.</li> </ul> <p><i>Safon Cenedlaethol 2013 10.25.</i></p>
4.18.3	4.2	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20	Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 4.20
4.19.1		Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a yw'r person ifanc naill ai wedi dod i sylw'r heddlu am droseddu honedig, ei arestio, ei gyhuddo o drosedd, wedi derbyn rhybudd, wedi ei gael yn euog o drosedd bellach neu wedi'i gael yn euog o dorri eu gorchymyn/trwydded.	<p>Mae hwn yn gwestiwn ffeithiol Do / Naddo / Ddim yn gwybod. Nid yw'n cyfrannu at y 'sgôr' ar gyfer y TTI.</p> <p>Os mai barn yr arolygwr yw bod y person ifanc naill ai wedi dod i sylw'r heddlu am droseddu honedig, wedi ei arestio, ei gyhuddo o drosedd, wedi derbyn rhybudd, wedi ei gael yn euog neu wedi torri ei orchymyn/trwydded, ond nad yw'n glir o'r cofnodion achos, mae'n rhaid i'r isadran berthnasol o'r cwestiwn hwn ddal i gael ei hateb gyda DO.</p> <p>Noder bod y cwestiynau hyn yn ymwneud â'r holl droseddau, gan gynnwys y rhai yr honnwyd iddynt gael eu cyflawni cyn dechrau'r ddedfryd?</p> <p>Byddai'r opsiwn Ddim yn gwybod fel arfer yn dangos bod yr arolygydd yn methu dod o hyd i dystiolaeth ddigonol o fonitro effeithiol gan y rheolwr achos, ac felly nad oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y defnydd o'r opsiwn Do neu Naddo.</p>
4.19.2		<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a yw'r ymatebion gan y TTI i unrhyw un o'r digwyddiad(au) honedig neu wedi'u cadarnhau yn ddigonol?</p> <p>Yn benodol, bydd yr arolygydd eisiau gweld dystiolaeth bod y digwyddiadau wedi cael eu cydnabod, eu hymchwilio ac y gweithredwyd arnynt mewn modd amserol a phriodol.</p>	<p><b>A oedd ymateb y TTI i'r digwyddiad(au) hyn yn ddigonol?</b></p> <p>Dylai'r arolygydd fod yn chwilio am gadarnhad bod y TTI wedi cydnabod effaith yr ymddygiad newydd, ee boed hwnnw yn ymddygiad honedig neu ymddygiad a gadarnhawyd, ac wedi gweithredu yn unol â hynny. Dylai unrhyw bryderon newydd mewn perthynas â dangosyddion risg o niwed a diogelwch a lles o fewn yr achos gael eu cofnodi'n glir hefyd a dylid gweithredu arnynt yn briodol.</p>

Dangosyddion Ansawdd;

- Mae'r TTI wedi ymchwilio i'r digwyddiad ac wedi cofnodi'r canlyniad. Dylai hyn gynnwys cwrdd â'r person ifanc i herio ei ymddygiad, a lle bo angen cyfarfod gyda'r rhiant/gofalwr
- Tystiolaeth glir o'r TTI yn cyfarfod/cysylltu â'r gweithwyr/asiantaethau perthnasol eraill
- Mae'r drosedd/ymddygiad honedig yn cael ei chofnodi'n glir gan y TTI.
- Mae gwybodaeth yn cael ei dadansoddi o ran patrymau troseddu a difrifoldeb y troseddu.
- Mae ystyriaeth wedi ei rhoi i p'un a yw gwybodaeth am droseddau a gafwyd yn euog neu droseddu honedig yn annog Adolygiad gan gynnwys aildroseddu, risg o niwed a Bregusrwydd.
- Mae newidiadau mewn cynllunio ac ymyriadau yn adlewyrchu difrifoldeb a'r cam y mae'r achos ynnddo (er enghraifft, mae ymyriadau yn llai tebygol o newid os yw materion heb eu dyfarnu'n euog, oni bai bod risg o niwed neu bryderon am fregusrwydd, neu fod yr ymddygiad wedi cael ei gyfaddef).
- Mae troseddau a gafwyd yn euog a rhybuddion yn arwain at ymddygiad troseddol, risg o niwed ac adolygiadau Bregusrwydd.
- Mae fforymau MAPPA a/neu fforymau rheoli risg o niwed eraill wedi cael eu cynnull, ac mae camau gweithredu sy'n deillio ohonynt wedi'u darparu'n effeithiol
- Lle bo angen, bu cyswllt gweithredol gyda gweithwyr dioddefwyr (a lle bo angen yr uned dioddefwyr prawf) ac asiantaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â rheoli risg o niwed i sicrhau cydweithio effeithiol gydag eraill sy'n ymwneud â'r achos i reoli risg o niwed i ddioddefwyr gwirioneddol/ a nodwyd a dioddefwyr posibl

Lle ym marn yr arolygydd, mae'r digwyddiad a nodwyd yng nghwestiwn 4.19.1 yn arwain at fwy o risg o niwed difrifol i eraill bydd angen i'r arolygydd hefyd weld tystiolaeth o brosesau rheoli risg o niwed (ee MAPPA, cynlluniau rheoli risg penodol, fforymau rheoli risg amlasiantaethol) yn cael eu gweithredu fel y bo'r gofyn - hyd yn oed lle mae rheoli risg o niwed wedi ei asesu yn barod yng nghipolwg 3.

Pan, ym marn yr arolygydd, y bydd y digwyddiad a nodwyd yng nghwestiwn 4.19.1 yn arwain at fwy o bryderon am ddiogelwch neu les y plentyn neu'r person ifanc, bydd angen i'r arolygydd hefyd weld tystiolaeth bod gweithdrefnau bregusrwydd neu amddiffyn plant wedi cael eu gweithredu yn ôl y gofyn - hyd yn oed lle mae rheolaeth weithredol ar ddiogelwch a lles eisoes wedi'i hasesu yng nghipolwg 3.

Os yw'r arolygydd wedi nodi drwy gofnodion achos bod y person ifanc naill ai wedi dod i sylw'r heddlu am drosedd honedig, cael ei arestio, ei gyhuddo o drosedd, wedi derbyn

			<p>rhybudd, wedi'i gael yn euog o drosedd bellach neu wedi'i gael yn euog o dorri ei orchymyn/trwydded ac nad yw'r TTI wedi ymateb yn ddigonol drwy ymgymryd â'r camau sydd eu hangen (gweler y dangosyddion ansawdd uchod) dylai hyn arwain at ateb 'NA' i'r cwestiwn hwn.</p> <p>Dylai'r dewis D/G gael ei ddefnyddio yn yr achosion hynny lle na chafodd UNRHYW UN o'r opsiynau yng nghwestiwn 4.19.1 ei ateb fel OEDD neu NAC OEDD.</p>
4.19.3		<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn a yw'r plentyn neu'r person ifanc, ym marn yr arolygwyr, yn llai tebygol o aildroseddu nag yr oeddent pan gawsant eu dedfrydu.</p> <p>Felly, mae'n farn glinigol i'w gwneud gan yr arolygydd ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael iddynt.</p> <p>Cyfeiriwch at yr arweiniad llawn am ragor o wybodaeth.</p> <p>Ym mhob achos mae'n rhaid i'r manylion a'r rhesymau dros eich barn gael eu hegluro yng nghwestiwn 4.20.</p>	<p><b>Yn gyffredinol, ym marn yr arolygydd, a yw'r plentyn neu'r person ifanc hwn yn llai tebygol o aildroseddu nag yr oedd pan ddechreuodd y ddedfryd?)</b> (Ym mhob achos esboniwrch eich rhesymau yn C4.20)</p> <p>Mae hon yn farn glinigol i'w gwneud gan yr arolygydd ar sail yr holl dystiolaeth sydd ar gael iddynt. Mae ffynonellau tystiolaeth yn niferus ac amrywiol. Gallent gynnwys asesiadau, trafodaeth gyda daliwr yr achos, cofnodion o ymddygiad y plentyn neu'r person ifanc pan fydd o dan orchwyliaeth a'u hymateb i orchwyliaeth, tystiolaeth o gudd wybodaeth yr heddlu (ee os ar ôl gwirio y bu gostyngiad sylweddol mewn cudd-wybodaeth am ymddygiad gwael pan yn flaenorol roedd yn aml ac yn peri pryder, yna gallai hyn helpu i gefnogi ateb o YDY i'r cwestiwn hwn), tystiolaeth gan weithwyr arbenigol (camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl ac ati) lle bo hyn yn berthnasol i droseddu, ymddygiad yn yr ysgol, hunan adrodd a barn rhieni/gofalwyr ac ati</p> <p>Er mwyn ateb y cwestiwn hwn gyda 'YDY' (Mae'r Plentyn neu Berson Ifanc yn llai tebygol o droseddu) dylai'r arolygydd fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i'r penderfyniad fod yn un y gellir ei amddiffyn.</p> <p><b>Os ym marn yr arolygydd mai'r ateb i'r cwestiwn hwn yw 'YDY' (hy llai tebygol o droseddu) gallai'r dystiolaeth sydd ar gael o gofnodion TTI gynnwys rhai o'r canlynol;</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae gwiriadau cudd-wybodaeth yr heddlu wedi cael eu cwblhau ac yn dangos na fu unrhyw ddiwyddiadau pellach</li> <li>• Mae'r Plentyn neu Berson Ifanc mewn amgylchedd byw cefnogol a sefydlog</li> <li>• Mae'r Plentyn neu Berson Ifanc yn cymryd rhan mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth</li> <li>• Mae'r Plentyn neu Berson Ifanc yn derbyn cefnogaeth gadarnhaol gan deulu/gofalwyr</li> <li>• Mae'r Plentyn neu Berson Ifanc wedi parhau i osgoi eu grŵp cyfoedion sydd â thueddiadau troseddol</li> <li>• Mae'r Plentyn neu Berson Ifanc yn ymgysylltu'n llawn â'r TTI a'r ymyrraeth a ddarperir</li> <li>• Mae'r Asesiad wedi lleihau ac mae'r arolygydd yn cytuno â'r rhesymau y tu ôl i'r</li> </ul>

			<p>gostyngiad hwn.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ffactorau ymddygiad troseddol allweddol wedi cael sylw ac mae tystiolaeth bod hyn wedi dylanwadu ar feddwl neu ymddygiad y person ifanc ers dechrau'r Gorchymyn.</li> <li>• Cafodd ymweliadau cartref pwrpasol eu cwblhau gan y TTI sy'n cadarnhau bod y Plentyn neu Berson Ifanc wedi setlo ac yn derbyn y gefnogaeth angenrheidiol.</li> </ul> <p><b>Os ym marn yr arolygydd mai'r ateb i'r cwestiwn hwn yw 'NAC YDY' (dim newid canfyddadwy) gallai'r dystiolaeth sydd ar gael o gofnodion TTI, er enghraifft, gynnwys rhai o'r canlynol;</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwiriadau cudd-wybodaeth yr Heddlu sy'n tynnu sylw at y ffaith fod y plentyn neu'r person ifanc yn cysylltu â chyfoedion sydd â thueddiadau troseddol, neu yn cael ei enwi mewn achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.</li> <li>• Nid yw'r Plentyn neu Berson Ifanc yn ymgysylltu'n llawn ag ymyriad y TTI</li> <li>• Nid yw'r Plentyn neu Berson Ifanc yn ymgysylltu ag Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth.</li> <li>• Nid yw Rhieni/ Gofalwyr y Plentyn neu Berson Ifanc yn cymryd rhan lawn yn ymyriad y TTI.</li> <li>• Nid yw ffactorau ymddygiad troseddol allweddol wedi cael sylw ac mae tystiolaeth fod hyn yn dylanwadu ar feddwl neu ymddygiad y person ifanc.</li> </ul> <p><b>Os mai'r ateb i'r cwestiwn hwn ym marn yr arolygydd yw 'NAC YDY' (mwy tebygol o droseddu) gallai'r dystiolaeth sydd ar gael o gofnodion y TTI, er enghraifft, gynnwys y canlynol;</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwiriadau cudd-wybodaeth yr Heddlu yn tynnu sylw at y ffaith fod y plentyn neu'r person ifanc yn ymwneud ag achosion honedig o ymddygiad troseddol</li> <li>• Mae'r plentyn neu berson ifanc wedi bod 'allan o gysylltiad' gyda'r rheolwr achos am gyfnod o amser, ee yn ystod cyfnod o fethu apwyntiadau yn arwain at weithredu am dorri amodau</li> <li>• Nid yw'r Plentyn neu Berson Ifanc yn cymryd rhan mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth</li> <li>• teulu, gan gynnwys brodyr a chwiorydd, e.e troseddolrwydd, trais o fewn y cartref, ymgysylltu ag eraill arwyddocaol, hy gangiau, troseddwr</li> <li>• ffactorau amgylcheddol, ee tai annigonol, yr ardal y maent yn byw ynddi</li> <li>• ymddygiad y rheini, ee anghenion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, rhianta anghyson</li> <li>• digwyddiadau neu amgylchiadau, ee y teulu yn gwahanu, profedigaeth, newid trefniadau gofal</li> <li>• ei ymddygiad ei hun, ee camddefnyddio sylweddau, y math o droseddu, actio,</li> </ul>
--	--	--	--



			<p>ymatebion amhriodol i straen, cario arf</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymddygiad di-hid eraill sy'n dangos ystyriaeth annigonol i'w diogelwch eu hunain</li> <li>• pryd y gall plentyn neu berson ifanc ailddechrau defnyddio alcohol yn ormodol neu ddychwelyd i ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau a gall hyn gael ei nodi'n briodol fel ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ymddygiad risg o niwed</li> <li>• Mae'r Plentyn neu Berson Ifanc yn symud allan o lety sefydlog a gall hyn gael ei nodi'n briodol fel ymddygiad sy'n gysylltiedig â risg o ail-droseddu</li> <li>• Mae ffordd o fyw'r Plentyn neu Berson Ifanc yn ddi-drefn ac maent yn methu ag ymgysylltu â gwasanaethau cefnogi a gall hyn gael ei nodi'n briodol fel ymddygiad sy'n gysylltiedig â risg o ail-droseddu</li> <li>• tystiolaeth o ymddygiad troseddol pellach neu gudd-wybodaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad troseddol sy'n gysylltiedig â risg pellach o niwed</li> <li>• cudd-wybodaeth sy'n dangos cynnydd yn y risg o niwed i eraill</li> </ul>
4.20	<p>Rhowch grynodedb byr o'r ffactorau allweddol sydd wedi dylanwadu ar eich barn yn yr adran hon. Ni ddylai hyn fod yn ailadrodd eich atebion i'r cwestiynau unigol, ond yn hytrach dylai helpu'r Arolygydd Arweiniol i ddeall y cyd-destun y cafodd y dyfarniadau hynny eu gwneud ynddo.</p> <p>Er mwyn cynorthwyo'r Arolygydd Arweiniol dylech gynnwys digon o nodweddion achos perthnasol i'w helpu i ddeall yr achos.</p> <p>Yn benodol dylech gynnwys manylion pellach pryd bynnag y byddwch wedi defnyddio "Arall" fel yr esboniad am annigonolrwydd.</p> <p>Wrth grynhoi'r ffactorau allweddol, cofiwch eich bod wedi asesu penderfyniadau a gweithredoedd a gymerwyd yng ngoleuni <i>priodoldeb ar gyfer amgylchiadau'r achos</i>.</p>	<p>Rhowch grynodedb byr o'r ffactorau allweddol sydd wedi dylanwadu ar eich barn yn yr adran hon. Ni ddylai hyn fod yn ailadrodd eich atebion i'r cwestiynau unigol, ond yn hytrach dylai helpu'r Arolygydd Arweiniol i ddeall y cyd-destun y cafodd y dyfarniadau hynny eu gwneud ynddo. Rhowch sylwadau bob amser ar sut y mae'r rheolwr achos wedi monitro ac ymateb i ail-droseddu honedig neu brofedig, a pha systemau oedd ar waith i gefnogi hyn</p> <p>Er mwyn cynorthwyo'r Arolygydd Arweiniol dylech gynnwys digon o nodweddion achos perthnasol i'w helpu i ddeall yr achos.</p> <p>Yn benodol dylech gynnwys manylion pellach pryd bynnag yr ydych wedi defnyddio "Arall" fel yr esboniad am annigonolrwydd.</p> <p>Wrth grynhoi'r ffactorau allweddol, cofiwch eich bod wedi asesu penderfyniadau a gweithredoedd a gymerwyd yng ngoleuni <i>priodoldeb ar gyfer amgylchiadau'r achos</i>.</p> <p>Dylech gynnwys sylwadau ar gryfderau a geir yn yr achos, peidiwch â chanolbwyntio ar annigonolrwydd yn unig.</p>	

## Golwg 5 – Rheolaeth ac Arweiniad

Rhif y Cwestiwn	Meini Prawf	Dangosyddion Ansawdd	Arweiniad Pellach
5.1.1	1.5.1 2.5.1 3.5.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn holi, <u>ym marn yr arolygydd</u> a oedd gan y rheolwr achos <u>yn yr achos hwn</u> yr adnoddau cywir a digon ohonynt i wneud gwaith sy'n:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>gostwng y tebygrwydd o aildroseddu</li> <li>rheoli'r risg o niwed i eraill</li> <li>mynd i'r afael ag anghenion diogelu yn yr achos hwn</li> </ol>	<p>I reoli achosion yn effeithiol ar draws yr ystod o feysydd gwaith (tebygolrwydd o aildroseddu, risg o niwed i eraill a diogelu) dylai rheolwyr achos gael mynediad i ystod briodol o ymyriadau a gwasanaethau gan gynnwys y gallu i lwybro plentyn neu rywun ifanc i asiantaethau partner fel bo'r angen.</p> <p>Wrth ateb y cwestiwn hwn, dylai arolygwyr ystyried beth yw <i>digonol</i> i reolwyr achos fod yn ymarferwyr effeithiol. Mae Offeryn Hunanasesu CBI (Ionawr 2012) yn rhoi manylion am argaeledd gwasanaeth o ansawdd uchel o ran pa mor dda y defnyddir ystod a mathau o ymyriadau gan reolwyr achos i sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>eu bod yn cwrdd ag anghenion canfyddedig</li> <li>fod adnoddau'n addas ar gyfer gwahanol ddull o ddysgu, oed a rhyw</li> <li>fod adnoddau'n gyfredol ac</li> <li>yn gysylltiedig ag asesiadau cadarn</li> </ul> <p>Mewn achosion ble mae rheolwr achos yn adrodd am fylchau mewn gwasanaethau craidd (cyffredinol) neu wasanaethau arbenigol neu staff, dylai'r arolygydd nodi natur hyn oddi fewn i gwestiwn 5.10 a hefyd unrhywddwysad a wneir gan y rheolwr achos yn y mater hwn.</p> <p>Dylid rhoi sylw arbennig i anghenion plant neu bobl ifanc sydd ag anawsterau lleferydd, dysgu neu gyfathrebu neu rwystrau posibl i ymgysylltu gan gynnwys anableddau. Dylai adnoddau fod yn ddigon hyblyg i'w defnyddio gydag ystod o ffactorau amrywiaeth a dylai staff fod yn gymwys wrth eu defnyddio, a allai olygu hyfforddiant/arweiniad/goruchwyliaeth ychwanegol.</p> <p>Mae enghreifftiau o adnoddau digonol ac annigonol yn cynnwys:</p> <p>Tebygolrwydd o aildroseddu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan Dimau Troseddau Ieuentid (YOT) amrywiaeth o ymyriadau sydd ar gael i'w defnyddio mewn gwahanol ffyrdd i weddu i anghenion yr unigolyn (digonol) NEU</li> <li>Dim ond un math o ymyriad sydd ar gael ac nid yw wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio'n hyblyg i weddu i anghenion unigol y plentyn neu'r person ifanc (annigonol)</li> </ul> <p>Risg o niwed i eraill</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan YOT amrywiaeth o raglenni neu ymyriadau sydd ar gael sy'n targedu'n</li> </ul>

			<p>benodol ymddygiadau risg o niwed, fel ymwybyddiaeth arfau neu droseddu treisiol (digon) NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid oes ymyriadau penodol ar gael sy'n ceisio targedu ymddygiadau risg o niwed</li> </ul> <p>Diogelu ac yn agored i niwed</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan YOT adnoddau ac ymyriadau sydd ar gael i fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o anghenion diogelu a rhai sy'n agored i niwed fel defnydd o alcohol, iechyd rhywiol neu ymddygiadau hunan niweidio (digon) NEU</li> <li>Diffyg mynediad i wasanaethau penodol i fynd i'r afael ag anghenion diogelu a rhai sy'n agored i niwed – er enghraifft dim darpariaeth iechyd (dim digon)</li> </ul>
5.1.2		Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 5.10	<p>Os oedd bylchau yn yr adnoddau, yna nodwch yr holl agweddau sy'n berthnasol.</p> <p>Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 5.10</p>
5.1.3		Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 5.10	<p>Pan nad oes digon o fynediad i wasanaethau, nodwch yr holl wasanaethau sy'n berthnasol.</p> <p>Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 5.10</p>
5.1.4		Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 5.10	<p>Pan fo bylchau yn argaeledd ymyriadau, nodwch yr holl fylchau sy'n berthnasol.</p> <p>Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 5.10</p>
5.1.5		Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 5.10	<p>Pan nad oedd ymyriadau yn addas ar gyfer ffactorau amrywiaeth penodol, nodwch yr holl ffactorau sy'n berthnasol.</p> <p>Pan ddefnyddir 'arall' nodwch y rhesymau am wneud hyn yng nghwestiwn 5.10</p>
5.2	4.4.2	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn i'r arolygydd i ffurfio barn a wnaeth goruchwyliaeth staff neu brosesau sicrwydd ansawdd arall wahaniaeth cadarnhaol i'r achos ai peidio. Ceisir barn yr arolygydd NID un y rheolwr achos:</p> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10</p>	<p><b>Ym marn yr arolygydd a oes tystiolaeth fod goruchwyliaeth staff neu drefniadau sicrwydd ansawdd eraill wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r achos hwn?</b></p> <p>I roi'r ateb OES i'r cwestiwn hwn, dylai'r arolygydd fod yn fodlon o'r ffeil achos ac o drafodaethau gyda'r rheolwr achos fod digon o oruchwyliaeth, arweiniad a sicrwydd ansawdd wedi'i ddarparu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r achos hwn. Dylai fod tystiolaeth fod yr oruchwyliaeth wedi bod yn briodol i amgylchiadau'r achos a bod modd ei amddiffyn yn anghenion yr achos.</p> <p>Dylai sicrwydd ansawdd weithredu oddi fewn i fframwaith cadarn sy'n rhan annatod o'r YOT ac sy'n cynnwys ymsefydlu a goruchwyllo staff newydd, dyraniad gwaith i staff sydd â sgiliau priodol a goruchwyliaeth ffurfiol reolaidd. Dylai'r rheolwr achos ddeall y prosesau sicrwydd ansawdd (SA) a gallu egluro sut maent wedi eu gweithredu yn yr achos hwn.</p> <p>Sylwer: NID yw'r cwestiwn hwn yn holi a reolwyd yr achos yn dda o ganlyniad i SA – mae'n holi a wnaeth SA wahaniaeth cadarnhaol iddo.</p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ffurfio barn ar ba mor dda y dylai'r rheolwr goruchwyllo/ llinell fod yn gyfarwydd â'r achos. Er enghraifft – gydag achos risg o niwed uchel i eraill, neu achos gydag anghenion amddiffyn neu ddiogelu plant, y disgwylid yw fod y byddai'r rheolwr</p>

			<p>goruchwyllo/ llinell yn ymwybodol o'r achos mewn peth manylder, gan gynnwys gweithredoedd i reoli neu fynd i'r afael â'r ffactorau a welir a chyfrifoldebau dros gwblhau'r gweithredoedd hynny. Gydag achos â risg is neu un heb anghenion diogelu, mae'n debygol y bydd llai o wybodaeth fanwl gan y rheolwr ac nid yw hyn ynddo'i hunan yn arwydd o oruchwyliaeth annigonol. Fodd bynnag, petai'n rhesymol i'r rheolwr fod wedi cymryd diddordeb manylach yn yr achos am unrhyw reswm yna ni fyddai'r 'cyffyrddiad ysgafn' hwn wedi cael ei weld fel un digonol. Gallai rhesymau am hyn fod wedi cynnwys bod y rheolwr achos yn gwybod am anghenion datblygu, yr achos yn flaenorol wedi ei asesu fel un o risg o niwed uwch neu gyda phryderon diogelu neu fod y rheolwr achos yn weithiwr newydd oedd yn ddarostyngol i'r prosesau ymsefydlu.</p> <p>Gellir cymryd tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys cofnodion mewn dyddiaduron, adroddiadau ar brosesau porthgadw, sylwadau wedi eu cofnodi a'u llofnodi ar ddogfennau neu gynlluniau sgrinio risg neu rai'n agored i niwed, o gofnodion trafodaethau achosion neu brosesau lleol eraill fel paneli rheoli risg. Dylai'r arolygydd fod yn fodlon fod y pethau sydd wedi eu nodi fel newidiadau, gwelliannau a gweithredoedd angenrheidiol wedi cael eu dilyn a bod hyn wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r achos.</p> <p>I gael eu hateb yn gadarnhaol, dylai'r arolygydd fod yn fodlon y gweithredwyd yn briodol ar geisiadau rheolaethol neu sicrwydd ansawdd a bod unrhyw ymwahaniad oddi wrth hyn wedi'i gofnodi'n drylwyr gyda thystiolaeth o resymu cadarn.</p>
5.3	1.5.1 2.5.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn perthyn i berfformiad cyffredinol YOT ac NID i'r achos penodol sydd newydd gael ei arolygu.</p> <p>Mae'n holi a oedd gan y rheolwr achos, ym marn yr arolygydd, ddiagon o ddealltwriaeth o:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>egwyddorion arferion effeithiol</li> <li>polisiau a gweithdrefnau lleol ar gyfer rheoli risg o niwed</li> <li>polisiau a gweithdrefnau lleol ar gyfer rheoli diogelu</li> <li>polisiau a gweithdrefnau lleol ar gyfer cefnogi ymgysylltu effeithiol ac ymateb i beidio â chydymffurfio</li> </ol> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10</p>	<p><b>Mae'r cwestiwn hwn yn gwirio gwahanol agweddau o ddealltwriaeth y rheolwr achos .</b></p> <p>Bydd angen i'r arolygydd ffurfio barn yn seiliedig ar y drafodaeth gyda'r rheolwr achos yn ogystal â thystiolaeth o gofnodion yr achos yn arbennig mewn perthynas ag ymresymu, penderfyniadau a gweithredoedd sy'n briodol i amgylchiadau'r achos, ac wedyn rhoi hwn ar berfformiad cyffredinol y YOT.</p> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10</p> <p>A) <u>Egwyddorion Arferion Effeithiol</u>  Mae corff cynyddol o lenyddiaeth sy'n canfod ffyrdd o weithio gyda throseddwr sy'n gostwng cyfraddau aildroseddu. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau o raglenni unigol, dadansoddiadau meta (Lipsey 1995) ac adolygiadau o'r llenyddiaeth (Mulvey et al 1993, Sherman et al 1997). Gellir crynhoi egwyddorion eang arferion effeithiol fel a ganlyn (McGuire 1995, Chapman a Hough 1998, Utting and Vennard 2000, Andrews 1995, Underdown 1998):</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dosbarthu risg: dylai lefel a dwyster yr ymyriad adlewyrchu'r risg (tebygrwydd) o aildroseddu</li> </ul>

3.5.1		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Targeddu anghenion sy'n berthnasol i droseddu: mae ymyriadau yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus os ydynt yn targedu anghenion/problemau sy'n gymorth i neu'n cyfrannu at droseddu</li> <li>• Ymatebolrwydd: mae rhaglenni'n fwy effeithiol os ydynt yn cymryd i ystyriaeth y steil o ddysgu sydd orau gan y plentyn neu'r person ifanc sydd wedi troseddu. Mae hyn yn aml angen dulliau gweithredol a chyfranogol.</li> <li>• Aml-foddol: mae canlyniadau dadansoddiadau meta yn dangos fod rhaglenni effeithiol yn rhai sy'n mynd i'r afael ag aml broblemau plant neu bobl ifanc sydd wedi troseddu.</li> <li>• Cywirdeb y rhaglen: dylai rhaglenni fod wedi eu cynllunio'n dda gyda datganiadau clir o nodau a dulliau sy'n briodol i'r amcanion hyn</li> <li>• Dogn: mae angen i'r rhaglenni fod yn ddigon dwys ac yn ddigon o hyd i gyrraedd eu hamcanion.</li> <li>• Yn y gymuned: mae'r rhain yn tueddu i fod yn fwy effeithiol na'r rhaglenni sydd mewn sefydliadau, er bod y rhaglenni sy'n glynu at yr egwyddorion 'beth sy'n gweithio' eraill yn dal i allu cyfrannu at ostyngiad mewn aildroseddu gwaeth beth fo'r lleoliad (Andrews 1995).</li> </ul>
4.4.2		<p>B) <u>Polisiau a gweithdrefnau lleol ar gyfer rheoli risg o niwed i eraill</u>  Dylai'r rheolwr achos allu disgrifio'r polisi a'r weithdrefn leol, gan gynnwys y defnydd effeithiol o fforymau fel paneli risg aml asiantaeth a threfniadau MAPPA, a sut mae asiantaethau partner yn rhan o drefniadau o'r fath i sicrhau rheolaeth integredig effeithiol o risg o niwed i eraill. Dylai'r rheolwr achos fod yn ymwybodol o'r anghenion lleol ar gyfer arolygiaeth reolaethol o asesu a chynllunio risg o niwed, a chyflwyno/adolygu a gallu dweud sut y gwneir hyn yn ymarferol.</p> <p>C) <u>Polisiau a gweithdrefnau lleol ar gyfer rheoli diogelu</u>  Dylai'r rheolwr achos allu disgrifio'r polisi a'r weithdrefn leol, gan gynnwys y defnydd effeithiol o fforymau fel paneli rhai sy'n agored i niwed neu ddiogelu, ac amddiffyn plant a threfniadau lles, a sut mae asiantaethau partner yn rhan o drefniadau o'r fath i sicrhau y gellir mynd i'r afael ag anghenion diogelu drwy reolaeth integredig. Dylai'r rheolwr achos fod yn ymwybodol o'r anghenion lleol ar gyfer arolygiaeth reolaethol o ddiogelu ac asesu a chynllunio ar gyfer rhai sy'n agored i niwed, a chyflwyno/adolygu a gallu dweud sut y gwneir hyn yn ymarferol.</p> <p>D) <u>Polisiau a gweithdrefnau lleol ar gyfer rhoi cymorth i ymgysylltu effeithiol ac ymateb i beidio â chydweithredu</u>  Dylai'r rheolwr achos allu disgrifio'r polisi a'r weithdrefn leol, gan gynnwys y defnydd effeithiol o fforymau fel paneli cyn torri amodau neu gyfarfodydd cydweithredu / ail ymgysylltu gyda phlant neu bobl ifanc a'u rhiant / gofalwr. Dylai'r rheolwr achos fod yn ymwybodol o'r anghenion lleol ar gyfer arolygiaeth reolaethol o beidio â chydymffurfio a</p>

			<p>gallu dweud sut mae'r rhain yn gweithredu'n ymarferol oddi fewn i amgylchiadau'r achos ac mewn perthynas â'r Safonau Cenedlaethol ble mae'r polisi lleol i gydymffurfio â'r rhain. Dylai fod tystiolaeth o reolwr achos yn blaenoriaethu gwaith i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc drwy'r ddedfryd yn eu harferion. Dylai'r rheolwr achos allu disgrifio sut y gweithredir yr egwyddor o fod yn briodol amddiffynnol i anghenion yr achos mewn penderfyniad sy'n cysylltu â pheidio â chydymffurfio a gorfodaeth.</p>
5.4.1		Mae hwn yn gwestiwn ffeithiol sut i ganfod rôl gwaith y person sydd fel rheol yn cydlofnodi gwaith y rheolwr achos.	Mae hwn yn gwestiwn ffeithiol sut i ganfod rôl gwaith y person sydd fel rheol yn cydlofnodi gwaith y rheolwr achos.
5.4.2	4.4.2	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn perthyn i berfformiad cyffredinol YOT ac NID i'r achos penodol sydd newydd gael ei arolygu.</p> <p>Mae'n holi, ym marn y rheolwr achos sy'n cael ei gyfnewid, a oes gan eu rheolwr, ac mae'n eu defnyddio, y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen ar reolwr effeithiol mewn perthynas ag:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• asesu safon gwaith y rheolwr achos</li> <li>• cynorthwyo'r rheolwr achos i ddatblygu ei waith</li> <li>• cynorthwyo'r rheolwr achos yn ei waith drwy gymryd rhan yn weithredol yn yr achosion fel sy'n briodol i'w anghenion</li> <li>• darparu arolygiaeth effeithiol a chefnogol i'r rheolwr achos</li> </ul> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10</p>	<p><b>Mae'r cwestiwn hwn yn ceisio barn am allu a pherfformiad rheolwyr llinell uniongyrchol.</b></p> <p>Barn y rheolwr achos yw hwn ac NID un yr arolygydd. Er mwyn asesu'n effeithiol safon y gwaith, dylai'r rheolwr sy'n arolygu gael dealltwriaeth gadarn o egwyddorion asesu achos sy'n briodol i amgylchiadau'r achos. Dylai'r rheolwr allu darparu adborth feiriadol a darparu digon o gyfleoedd ar gyfer trafod achosion a datblygiad proffesiynol i'w dwyn ymlaen a all gynnwys canfod hyfforddiant i reolwyr achos neu, mewn achosion penodol, brosesau gallu. Dylai'r rheolwr sy'n arolygu gymryd rhan weithredol yn yr achosion drwy arolygu rheolaidd sy'n briodol i gyd-destun pob achos, a phrofiad a gwybodaeth yr ymarferwr.</p> <p>Dylai'r sawl sy'n cydlofnodi gwaith y rheolwr achos fod yn ddigon profiadol, medrus ac yn gyflogedig mewn rôl sydd â digon o awdurdod i wneud y newidiadau angenrheidiol i waith adrodd, canfyddiadau risg, cynlluniau ac yn y blaen. Bydd hyn fel rheol yn uwch ymarferwr (yn cydlofnodi i rai rheolwyr achos sy'n nodweddiadol yn cynnal achosion sydd â llai o risg ac yn ymdrin â rhai sy'n llai agored i niwed), rheolwyr canol neu (lle mai'r rheolwr tim yw'r rheolwr achos sydd â chyfrifoldeb) uwch reolwr. Mae'n annhebygol y bydd y cydlofnodwr ar yr un raddfa ond, os mai dyma'r achos, wnewch chi gynnwys hyn mewn nodyn oddi fewn i gwestiwn 5.10 am unrhyw bryderon mae hyn wedi'i godi yn rheolaeth gyffredinol yr achos.</p> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10</p>
5.5	4.4.2	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn perthyn i berfformiad cyffredinol YOT ac NID i'r achos penodol sydd newydd gael ei arolygu.</p> <p>Mae'n holi, ym marn y rheolwr achos sy'n cael ei gyfnewid, a yw eu rheolwr yn ddigon gweithredol wrth arolygu/cydlofnodi ac wrth reoli'r gwaith risg o niwed a diogelu</p> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r</p>	<p><b>Ym marn y rheolwr achos, a fyddai'n disgrifio'r cydlofnodi/arolygu rheolaeth risg o niwed a gwaith Diogelu fel proses effeithiol?</b></p> <p>Dylai'r rheolwr achos gael ei annog i feddwl am sut mae ei reolwr yn effeithiol ac yn weithredol yn cefnogi gwaith y rheolwr achos a'r broses sicrwydd ansawdd yn hynny o beth. Wrth ateb y cwestiwn hwn dylai'r arolygydd gofio mai dyma farn y rheolwr achos ac nid un yr arolygydd.</p> <p>Byddai rheoli gweithredol yn cynnwys rowlio'n ôl asesiadau ac adroddiadau etc ond nad yw hyn yn rôl drefniadol yn unig (er enghraifft drwy e-bost) ond yn cynnwys elfennau o</p>

		drafodaeth yn 5.10	<p>drafodaeth a datblygiad ar gyfer y rheolwr achos. Gellid darganfod tystiolaeth bellach oddi fewn i'r broses arolygu y mae'r rheolwr achos yn ei adnabod fel un ddatblygiadol ac nid yn unig yn rheolaeth perfformiad neu drwy drafodaethau achos rheolaidd.</p> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10</p>
5.7.1	4.4.2	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn perthyn i berfformiad cyffredinol YOT ac NID i'r achos penodol sydd newydd gael ei arolygu.</p> <p>Mae'n holi, ym marn y rheolwr achos sy'n cael ei gyfwrdd, a oes digon o gyfleoedd i gwrdd â gofyn eu hanghenion hyfforddi a datblygu yn eu rôl bresennol ac yn y dyfodol, ac a ydynt wedi derbyn hyfforddiant digonol i ddarparu ymyriadau effeithlon.</p> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10</p>	<p><b>Ym marn y rheolwr achos, a yw eu gofynion hyfforddiant a sgiliau yn cael eu cwrdd:</b></p> <p><b>a) i wneud eu swydd gyfredol</b>  <b>b) ar gyfer datblygiad i'r dyfodol?</b>  <b>c) i ddarparu ymyriadau?</b></p> <p>Unwaith eto, barn y rheolwr achos yw hwn. Yn nhermau rolau presennol a rhai yn y dyfodol, wnewch chi nodi yng nghwestiwn 5.10 unrhyw broblemau sy'n codi, fel anallu i gael mynediad i hyfforddiant, yn arbennig mewn perthynas â staff wedi eu secondio neu staff rhan amser a darpariaeth hyfforddiant craidd awdurdod lleol. Dylid hefyd wneud cofnod o unrhyw esgeulustod a adroddwyd gan reolwr achos mewn perthynas â'r broses ymsefydlu wrth gyhwyn eu rôl yn y YOT.</p> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10</p> <p>Dylid ond ddefnyddio yr opsiwn amh ar gyfer rhan C os nad yw rôl y rheolwr achos yn cynnwys darparu ymyriadau. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, os gwelwch yn dda eglurwch yr amgylchiadau a gallu'r rheolwr achos i gynllunio i ddarparu ymyriadau yn ddigonol.</p>
5.7.2	4.4.2	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn perthyn i berfformiad cyffredinol YOT ac NID i'r achos penodol sydd newydd gael ei arolygu.</p> <p>Mae'n holi, ym marn y rheolwr achos sy'n cael ei gyfwrdd, a ydynt wedi eu hyfforddi yn ddigonol i adnabod ac ymateb i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu neu ffactorau amrywiaeth eraill neu rai all fod yn gwahaniaethu.</p> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10.</p>	<p>Lleferydd, iaith a sgiliau cyfathrebu yw'r conglfeini ar gyfer dysgu. Mae llawer o dystiolaeth ymchwil sy'n dangos y cysylltiadau rhwng sgiliau llafar a:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgiliau llythrennedd</li> <li>• Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol</li> <li>• Ymddygiad</li> <li>• Cyrhaeddiad</li> </ul> <p>Mae tystiolaeth ymchwil yn arbennig yn dangos fod cyfran arwyddocaol o blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu â rhywfaint o Anghenion Lleferydd, iaith neu Gyfathrebu (SLCN).</p> <p>Gall effaith SLCN fod yn arwyddocaol ac yn bellgyrhaeddol, ac o ganlyniad dylai rheolwr achos gael y sgiliau a'r dealltwriaeth i adnabod ac ymateb i anghenion SLC yn briodol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r BCI wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau i ymarferwyr sydd wedi eu cynllunio o godi ymwybyddiaeth o SLCN a'u gallu i ymateb yn briodol iddynt.</p>

			<p>Yn nhermau amrywiaeth neu ffactorau gwahaniaethol eraill, dylai rheolwyr achos gael dealltwriaeth eang o amrywiaeth a sut y gall nodweddion unigol ac amgylcheddol gael effaith ar blentyn neu berson ifanc.</p> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10</p>
5.8	4.4.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn perthyn i berfformiad cyffredinol YOT ac NID i'r achos penodol sydd newydd gael ei arolygu.</p> <p>Mae'n holi, ym marn y rheolwr achos sy'n cael ei gyfnewid, pa mor dda mae diwylliant y sefydliad yn hyrwyddo dysgu a datblygu.</p> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10.</p>	<p>Agweddau i'w hystyried yw nid yn unig argaeledd yr hyfforddiant a'r datblygu, ond unrhyw weithredoedd a wneir gan YOT i sicrhau y gall staff gael ato a'i ddefnyddio i ddatblygu eu sgiliau yn eu gwaith bob dydd. Er enghraifft –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anogaeth weithredol i ganfod a manteisio ar gyfleoedd dysgu.</li> <li>• Gwneud amser ar ôl hyfforddiant i reolwyr achos i ymarfer sgiliau newydd a'u hatgyfnerthu gyda'r profiad a'r offer.</li> <li>• Cyfleoedd secondiad.</li> <li>• Gweithdai, rhannu sgiliau, digwyddiadau dysgu gan gyfoedion rheolaidd, mewnol</li> <li>• Adolygu a gwerthuso gan gyfoedion</li> </ul> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10</p>
5.9	4.4.1	<p>Mae'r cwestiwn hwn yn perthyn i berfformiad cyffredinol YOT ac NID i'r achos penodol sydd newydd gael ei arolygu.</p> <p>Mae'n holi os yw'r rheolwr achos yn deall blaenoriaethau'r sefydliad, yn arbennig mewn perthynas â'r effaith ar eu rôl eu hunain.</p> <p>Dylai'r arolygydd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10.</p>	<p>Dylai'r rheolwr achos allu datgan beth yw blaenoriaethau lleol eu sefydliad a'r effaith ar ei rôl/ei ran yn y sefydliad yn gyffredinol. Os yw'r rheolwr achos yn ansicr o flaenoriaethau ei sefydliad, nodwch y rhesymau am hyn (er enghraifft – diffyg ymsefydlu, arolygiaeth etc) yng nghwestiwn 5.10.</p> <p>Dylai'r arolygydd hefyd gofnodi'r eitemau perthnasol o'r drafodaeth yn 5.10</p>
5.10		<p>Cofnodwch y pwyntiau trafod allweddol o'r cwestiynau yn y golwg hwn os gwelwch yn dda.</p>	<p>Cofnodwch y pwyntiau trafod allweddol o'r cwestiynau yn y golwg hwn os gwelwch yn dda.</p> <p>Os yw'n arolygiad FJI bydd yr wybodaeth hon hefyd yn ddefnyddiol i'r Arolygydd Arweiniol wrth gynllunio grwpiau ffocws ac archwiliadau eraill yn ystod yr 2il wythnos o waith maes.</p>
5.15.1			<p><b>Achosion Rhybydd a Phryder yn unig: A yw'r achos wedi cael ei gyfeirio gan ddefnyddio proses Rhybydd a Phryder Arolygiaeth Prawf EM?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn cael ei ddefnyddio fel rhan o lwybr archwilio Arolygiaeth Prawf EM o achosion lle mae'r asesydd wedi dewis defnyddio'r proses Rhybydd a Phryder i gyfeirio'r achos am waith adfer brys. Felly, mae'n ateb ffeithiol ar gyfer dibenion Arolygiaeth Prawf</p>



			EM yn unig, ac nid yw ynddo'i hun yn cyfrannu at yr asesiad o'r achos.
5.15.2			<p><b>Achosion Rhybydd a Phryder yn unig: Sut mae'r manylion yn cael eu hanfon ymlaen i'r Arolygydd Arweiniol?</b></p> <p>Mae'r cwestiwn hwn yn cael ei ddefnyddio fel rhan o lwybr archwilio Arolygiaeth Prawf EM o achosion lle mae'r asesydd wedi dewis defnyddio'r proses Rhybydd a Phryder i gyfeirio'r achos am waith adfer brys. Felly, mae'n ateb ffeithiol ar gyfer dibenion Arolygiaeth Prawf EM yn unig, ac nid yw ynddo'i hun yn cyfrannu at yr asesiad o'r achos.</p>

## Atodiad A

### Gwirio prydlondeb yr asesiadau a'r cynlluniau

#### Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn cynnig canllaw ar sut i holi'r systemau **YOIS** a **Careworks** er mwyn sefydlu pryd y cwblhawyd darnau o waith neu bryd cawsant eu haddasu.

Ychwanegir cyfarwyddyd am **Childview** unwaith y bydd ar gael.

#### Pam rydym angen gwirio pryd y cwblhawyd y gwaith

Mae digonedd yn cynnwys tair agwedd – a gafodd y darn o waith ei gwblhau, a oedd mewn pryd i gwrdd ag anghenion yr achos, ac a oedd y darn o waith a gwblhawyd o ansawdd digonol. Rydym yn asesu pob un o'r rhain gan gymryd i ystyriaeth ystod o safbwyntiau ansoddol, cyn cynhyrchu un ateb cyffredinol i'r cwestiwn a yw o ansawdd digonol.

Wrth farnu prydlondeb asesiad/ adolygiad /cynllun mae angen i'r arolygydd benderfynu ar ba ddyddiad mae'n ystyried ei fod wedi'i gwblhau. (Fel rheol, yn ddarostyngol i ystyriaethau sy'n bwysicach na dim arall gan ddoethineb proffesiynol y gellir ei amddiffyn, dylai asesiadau cychwynnol fod wedi eu cwblhau oddi fewn i 10 diwrnod gwaith ar gyfer Gorchmynion Cadw a Hyfforddi, 15 diwrnod gwaith ar gyfer dedfrydau cymunedol ac 20 diwrnod gwaith ar gyfer Gorchymyn Atgyfeirio. Mae'r rhain yn cyd-daro gyda'r safonau ar gyfer cwblhau'r cynlluniau cychwynnol, yn seiliedig ar yr egwyddor fod asesiad yn llywio'r cynllunio).

*Fodd bynnag nid yw'r dyddiad y cwblhawyd y gwaith bob amser yn amlwg o'r dyddiad a roddwyd ar ei gyfer yng nghofnodion yr achos.* Felly mae'n bwysig fod arolygwyr yn gwirio fod y dyddiad a gofnodwyd fel yr un pan gwblhawyd y gwaith ar gofnod yr achos yn ddigon cyson â'r dyddiad pan wnaed hyn, gydag unrhyw anghysondebau yn cael eu harchwilio gyda'r rheolwyr achos a safbwyntiau am ddigon yn cael eu llywio'n briodol.

Gwneir asesiad o'r dyddiad y cwblhawyd darn o waith fel eich barn orau, yn seiliedig ar y dystiolaeth yr oeddech yn gallu ei chasglu drwy:

- archwilio cofnod yr achos
- cyfweld yr ymarferwr
- holi'r system, ble rydych yn gallu gwneud hynny'n rhwydd
- gwirio yn erbyn yr wybodaeth a ddarparwyd ar y rhestr o achosion sy'n cael eu harchwilio.

Gall pa mor ddefnyddiol a/neu hygyrch y bydd agweddau o'r dystiolaeth hon amrywio'n sylweddol.

Gall yr wybodaeth sydd ar gael i'r arolygydd naill ai cadarnhau neu wrth-ddweud y dyddiad a gofnodwyd ar y system ar gyfer cwblhau darn o waith, ond yn aml bydd amwyster yn aros. Felly yn aml bydd yn fater o farn orau'r arolygydd.

#### YOIS (System Gwybodaeth Troseddau Ieuenctid)

Er mwyn gwirio ar YOIS mae'n rhaid i chi fod yn y ffenestr berthnasol ar gyfer y ddogfen rydych eisiau ei holi. Gwneir hyn drwy chwilio am a dewis yr achos sydd dan sylw ac yna agor yr asesiad/adolygiad/cynllun sydd ei angen.

Ar dop y sgrin mae bar o fotymau llywio, a'r olaf o'r rhain yw "Help". Wedi dewis y botwm *Help* bydd rhestr o ddewisiadau'n ymddangos, ac un o'r rhain yw "Updated" (allwedd gyflym: F9). Dylai'r arolygydd ddewis hwn. Mae'r offeryn Help-Updated yn cofnodi bob achlysur y crëwyd dogfen neu y cafodd ei haddasu. Bydd ffenestr fach, newydd yn agor gyda rhestr o ddyddiadau a gweithredwyr. Y rhain yw'r dyddiadau y crëwyd/addaswyd y ddogfen ynghyd â'r gweithredwr a greodd/addasodd y ddogfen.

Os yw ffenestr yn ymddangos sydd â dim ond rhif yng ngholofn y gweithredwr ar gyfer y cofnod cyntaf, ac nid oes cofnodion eraill, mae hyn yn dangos fod y ddogfen yn un wedi'i dyblygu. Er enghraifft bydd yr arbed cyntaf yn cofnodi rhif ID Asset gwreiddiol os yw'r Asset wedi'i ddyblygu o gofnod blaenorol, a bydd cofnodion diweddarach yn cofnodi enw gweithredwr y person sy'n cyrchu'r cofnod. Os nad oes cofnodion eraill awgryma hyn na wnaed unrhyw newidiadau. Felly mae'n annhebygol fod yr asesiad wedi ei gwblhau ar y dyddiad yna oni bai fod yr ymarferwr yn gallu cynnig tystiolaeth gadarn i'r gwrthwyneb.

Nid yw'n anarferol i gael sawl dyddiad yn y blwch sy'n ymddangos, gan fod rhai systemau YOIS wedi eu gosod i arbed yn awtomatig wrth gau, ac felly bob tro yr edrychir ar ddogfen fe fydd cofnod, a gwneir gwaith yn aml dros nifer o sesiynau. I bwrpas archwiliad dylai'r arolygydd wirio fod dyddiad yr Asset, hynny yw'r dyddiad a gofnodwyd ar broffil yr Asset, yn cydberthyn i ddyddiad creu/addasu sydd ar y sgrin *Updated*. Os oes unrhyw anghysondeb dylai'r arolygydd geisio sefydlu, gyda'r rheolwr achos, pam fod hyn, er mwyn llywio barn ar brydlondeb a digonolrwydd.

## Careworks

I wirio Careworks, chwiliwch i ddechrau am gleient ac agor eu record. Ar y panel llywio ar yr ochr chwith dylai'r arolygydd ddewis yr opsiwn top, *manyllion personal*.

Mae gan y sgrin *manyllion personal* nifer o dabiau ar hyd y top, ac un ohonynt yw *audit*. Wedi dewis *audit* bydd rhestr gronolegol llawn yn ymddangos sy'n cofnodi pob digwyddiad a fu oddi fewn i'r ffeil hon. Mae'r rhestr hon yn debyg o fod yn faith. Am y bydd yn ymddangos mewn trefn gronolegol gall yr arolygydd/asesydd ymarfer adolygu'r holl weithrediadau a ddigwyddodd o ddyddiad arbennig drwy sgrilio drwodd.

Er mwyn symleiddio hyn, gall yr arolygydd ddewis allforio'r cyfan neu rai o'r manyllion hyn i Excel, a dewis pa fanyllion y dymuna ei allforio drwy glicio ar y dewis *Export*. Y dull ar gyfer gwneud hyn yw sythweledol, unwaith mae sgrin *Export* yn agored gennyhch. Er enghraifft, wedi dewis *Export* gallwch ddewis allforio manyllion sydd ddim ond yn berthnasol i asesiadau a dogfennau, gan ei wneud yn haws i sganio am yr amser pan grëwyd asesiad/dogfen i ddechrau, a bob tro y cafodd ei haddasu neu ei diweddarau.

Dylai'r arolygydd wirio, er enghraifft, fod y dyddiad y cwblhawyd yr asesiad Asset, hynny yw'r dyddiad a gofnodwyd ar broffil Asset, yn cydberthyn â'r dyddiad creu/addasu yn y sgrin *audit*. Os oes unrhyw anghysondeb dylai'r arolygydd geisio sefydlu, gyda'r rheolwr achos, pam fod hyn, er mwyn llywio barn ar brydlondeb a digonolrwydd.

## Atodiad B

### Arolygu yng Nghymru

Mae'r atodiad hwn, sy'n cynnig cyfarwyddyd ar archwilio yng Nghymru, i'w ddarllen ar y cyd â chanllaw asesu achos a ffurflen asesu achos.

### Cyflwyniad

Mae system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, fel yn Lloegr, yn nifer o asiantaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd. Rhennir y cyfrifoldeb am y gwasanaethau a gyflwynir ganddynt rhwng llywodraethau Cymru a'r DU, ac yn benodol gall trefniadau sydd wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru wahaniaethu o'r rhai yn Lloegr. Felly dylai arolygwyr fod yn ymwybodol o wahaniaethau posibl mewn terminoleg, trefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a pholisïau, a gweithdrefnau. Dylent geisio deall trefniadau lleol, yn arbennig wrth ystyried cyfrifoldebau a ddatganolwyd, cyn gwneud sylwadau ar y rhain.

Mae gwasanaethau lles (iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a thai) wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Erys gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol (yr heddlu, llysoedd, carchardai, cyflenwi dedfrydau'r llysoedd, atal aildroseddu) yng ngofal Llywodraeth y DU.

Gan y darperir y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru gan sefydliadau sydd wedi eu datganoli a rhai nad ydynt wedi eu datganoli, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau fod y system yn effeithiol.

Defnyddir yr un meincnodau ar gyfer ansawdd a digonedd wrth archwilio yng Nghymru a Lloegr.

Yn ychwanegol, yng Nghymru ymdrinnir â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, all gael goblygiadau penodol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth ble mae plentyn/person ifanc, eu rhiant/gofalwr neu ddiodefwr yn dymuno cysylltu yn Gymraeg.

### Newidiadau i ffurflen InfoPath a meysydd ar gyfer ystyriaeth ychwanegol

- **Golwg 0 – Manylion**

Holir cwestiynau penodol (3b, 9a-e, 13c) sy'n berthnasol i ddewis iaith plentyn neu berson ifanc a'u dewis wrth gael eu rheoli drwy ddefnyddio Cymraeg ym mhob arolygiad yng Nghymru. Mae'r Canllaw Asesu Achos yn darparu help i bob un o'r cwestiynau ychwanegol.

Drwy weddill y ffurflen InfoPath bydd angen i arolygwyr fod yn ofalus o'r gwahaniaethau diwylliannol ac ieithyddol rhwng gwaith yng Nghymru a Lloegr a'r effaith y gallai'r rhain ei gael.

- **Asesu, Cynllunio a Chyflwyno Ymyriadau (Golwg 1, 2 a 3)**

Drwy gydol yr Asesiad, Cynllunio a Chyflwyno cwestiynau Ymyriadau bydd angen i arolygwyr gymryd gofal arbennig i ystyried os yw'r gwaith wedi ei wneud mewn ffordd sy'n sensitif i anghenion diwylliannol ac ieithyddol y plentyn neu'r person ifanc, eu rhieni/gofalwyr, a lle mae'n berthnasol y dioddefwyr. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried digonolrwydd asesiadau, cynlluniau a chyflwyno ymyriadau, ac a roddwyd digon o sylw i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu.

Bydd angen rhoi ystyriaeth benodol i ddewis y Gymraeg gan blentyn/person ifanc a/neu rhieni/gofalwyr. Y cwestiynau a holwyd yn y golwg '*Manylion*' am iaith gyntaf plentyn neu berson ifanc, yn cael cynnig rheolwr achos sy'n siarad Cymraeg, a'r YOT yn rhoi digon o sylw i ddewis y person ifanc o ran yr iaith Gymraeg, fydd yn benodol yn llywio barn am y gwaith o fynd i'r afael â ffactorau amrywiaeth a rhwystrau i ymgysylltu.

Gall talu sylw i anghenion diwylliannol ac ieithyddol ac effaith y rhain ar ymgysylltiad y plentyn neu'r person ifanc gyda'r YOT fod yn arbennig o bwysig os ydynt yn cael eu goruchwylio mewn lleoliad sy'n bennaf yn siarad naill ai Cymraeg neu Saesneg ac mae eu dewis hwy yn wahanol. Felly bydd o gymorth i arolygwyr deall i ba raddau y mae'r Gymraeg a Saesneg yn gyffredin yn y lleoliad a arolygir. Ble mae'r plentyn neu'r person ifanc yn y ddalfa, bydd angen i ystyriaeth fod wedi ei roi i anghenion diwylliannol ac ieithyddol wrth reoli eu dedfryd yn gyffredinol ac wrth gyflwyno'r gwasanaethau yn y ddalfa, yn arbennig pan fo siaradwr Cymraeg mewn sefydliad diogel yn Lloegr.

Er nad yw bob amser yn ymarferol neu'n bosibl, yn arbennig yn y cyfarfod cyntaf, i ymgysylltu â'r plentyn neu'r person ifanc yn Gymraeg lle mae dewis clir am hyn, dylai bob amser fod tystiolaeth fod ymgais ddigonol go iawn wedi ei gwneud i fynd i'r afael â'r dewis, er enghraifft drwy ddefnyddio cyfieithydd mewn sesiynau dilynol. Beth bynnag, dylai fod gweithredoedd clir i fynd i'r afael ag unrhyw ganlyniadau i anhawster darparu gwasanaethau yn Gymraeg, er enghraifft os yw asesiad neu adroddiad llys yn cael ei ddal yn ôl neu fod anhawster wrth ymgysylltu mewn gwaith grŵp.

Rhaid i'r holl wasanaethau a gomisiynwyd drwy gyrff cyhoeddus allu cael eu cyflwyno yn Gymraeg ble mae angen. Mae hyn yn cynnwys trefniadau a wneir ac a ddarperir gan YOT yn uniongyrchol a'r rhai a ddarperir gan asiantaethau partneriaeth a darparwyr allanol. Ble, yn eithriadol, nad oedd hyn yn bosibl dylai fod wedi cael ei ddwysau i sicrhau ei fod yn cael ei ddatrys a dylai'r rhesymau gael eu rhannu gyda'r plentyn neu berson ifanc, ei rieni/gofalwyr, ble'n berthnasol, a'i gofnodi'n glir yng nghofnodion yr achos.

- **Canlyniadau Cychwynol a Rheoli Arferion (Golwg 4 a 5)**

Wrth benderfynu a fu arolygiaeth rheoli ymarfer yn effeithiol, bydd angen i arolygwyr ystyried os bu digon o gymorth a sylw gan reolwyr i sicrhau fod anghenion diwylliannol ac ieithyddol wedi eu cwrdd wrth asesu a chynllunio, a bod yr adnoddau sydd eu hangen ar gael a'r gwasanaethau wedi eu cyflwyno lle y mynegwyd dewis i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

- **Ymgysylltiad Partner (Golwg 7 – FJI yn unig)**

Gallai tystiolaeth a dynnwyd o asesiadau achos mewn perthynas ag argaeledd adnoddau o wasanaethau wedi eu datganoli yn ogystal ag anghenion diwylliannol ac ieithyddol y plentyn neu'r person ifanc a'i rieni/gofalwyr, a sut y gallai'r rhain fod wedi effeithio ar allu'r YOT i gyflwyno gwasanaethau ac i gael canlyniadau, gyfrannu at feini prawf Arweinyddiaeth, Rheoli a Phartneriaeth. Bydd angen i arolygwyr fod yn ofalus o hyn ac amlygu unrhyw feysydd all gynnwys maes i'w ddilyn gan arolygiaethau partner neu Wasanaeth Prawf EM mewn gwaith maes yn wythnos 2 o FJI.